Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
Democracy and Boundary Commission Cymru

**Sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y Cyfnod Ymgynghori Cychwynnol**

Yn ystod y Cyfnod Ymgynghori Cychwynnol, gwahoddodd y Comisiwn gynrychiolaethau drwy ei borth ymgynghori ar-lein, drwy e-bost, neu yn y post.

Rhoddwyd cyfle yn gyntaf i'r rhai a gyflwynodd sylwadau drwy'r porth ymgynghori ar-lein i ateb a oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â chynigion y Comisiwn, ac a oedd ganddynt sylwadau i'w gwneud.

Atebodd llawer o ymatebwyr y cwestiynau hyn heb roi sylw. Crynhoir y cynrychiolaethau hynny mewn tabl y gallwch ddod o hyd iddo ar wefan y Comisiwn.

Mae'r sylwadau a gyhoeddir isod yn cynnwys y rhai a gyflwynodd sylwadau ysgrifenedig yn unig, ac yr oedd eu sylwadau'n berthnasol i'r ymgynghoriad. Mae sylwadau a dderbyniwyd y mae'r Comisiwn yn eu hystyried yn gwbl amherthnasol wedi'u crynhoi eto mewn tabl y gallwch ddod o hyd iddo ar wefan y Comisiwn.

Mae'r Comisiwn yn defnyddio'r term "perthnasedd" i olygu bod y sylw'n ymdrin yn uniongyrchol â materion y gall y Comisiwn effeithio arnynt, h.y. y paru, dynodi neu enwi etholaethau arfaethedig.

Nid yw'r Comisiwn yn dyfarnu ar ddilysrwydd y dadleuon sydd wedi'u cynnwys mewn sylwadau "amherthnasol", ond o ystyried cyfyngiadau'r ddeddfwriaeth y mae'r Comisiwn yn gweithredu oddi tani, ni all ystyried sylwadau o'r fath wrth ddatblygu ei gynigion.

**4337 – Aelod o'r cyhoedd**

braidd yn rhy hir a lletchwith. Er enghraifft, mae 'Bangor Aberconwy Ynys Môn' yn swnio fel clwstwr o eiriau sydd wedi eu rhoi at ei gilydd. Tybed a fyddai'n well creu enw rhanbarth ar gyfer etholaeth, sy'n adlewyrchu ei hardal? Rwyf hefyd yn meddwl y gallai enw Cymraeg yn unig ar gyfer etholaeth fod yn opsiwn gwell – byddai'n hyrwyddo'r iaith ac yn sicrhau ei bod yn haws gwahaniaethu rhwng etholaeth Senedd Cymru ac etholaeth San Steffan, a fyddai'n golygu bod gan etholiadau'r Senedd eu hunaniaeth Gymreig fwy pendant eu hunain.

O ran grwpio ardaloedd:
-byddai'n well rhoi Dwyfor Meirionnydd a Cheredigion gyda'i gilydd oherwydd eu bod yn debycach i'w gilydd o ran eu cymunedau arfordirol a'u nifer fawr o siaradwyr Cymraeg.

-gallai fod yn well rhoi Gorllewin Caerdydd gyda Gogledd Caerdydd, a rhoi De Caerdydd gyda Dwyrain Caerdydd, oherwydd mae'n ymddangos bod yr ardaloedd hynny'n debycach i'w gilydd na'r ardaloedd y cynigir eu cyfuno ar hyn o bryd. Yna, gallai'r etholaethau hynny gael eu galw'n syml iawn yn Gogledd-orllewin Caerdydd a De-ddwyrain Caerdydd.

**4349 – Aelod o'r cyhoedd**

Nid yw'r ffiniau arfaethedig yn eu ffurf bresennol yn ddim llai na sarhad ar ddemocratiaeth. Nid yw'n ddim llai na diffyg synnwyr llwyr bod Caernarfon a'r

Drenewydd, neu Aberystwyth a Dinbych-y-pysgod yn yr un etholaeth. Ni allaf ond dod i'r casgliad bod y cynigion hyn wedi'u llunio mewn swyddfa gan bobl heb unrhyw brofiad o deithio ac ymweld â'r cymunedau y maent yn bwriadu effeithio arnynt drwy'r newidiadau hyn.

Nodaf hefyd y newidiadau eithafol i ffiniau presennol gogledd-orllewin Cymru o gymharu â'r newidiadau cyfyngedig yn y de-ddwyrain.

Nid yw hyn yn syndod, gan nad oes unrhyw un o ogledd Cymru ar eich comisiwn, sydd wedi'i staffio'n gyfan gwbl gan unigolion nad oes ganddynt unrhyw ddealltwriaeth o ogledd Cymru, ac mae'n cael ei gadeirio gan ddynes o Swydd Lincoln ac yn cynnwys sawl aelod o fannau pellennig yn Lloegr, ac eto dim un o ogledd Cymru. Dylai'r ffaith hon yn unig annilysu eich cynigion.

Yn wir, dylai'r comisiwn ateb yn gyhoeddus y cwestiwn a yw'r unigolion sy'n gyfrifol am y cynnig hwn wedi ymweld yn bersonol â'r aneddiadau y mae'r newidiadau hyn yn effeithio arnynt. A ydynt wedi teithio'n helaeth i gael dealltwriaeth bersonol, uniongyrchol o'r economïau a'r cysylltiadau trafnidiaeth rhwng y trefi hyn? A ydynt wedi cyfweld a chasglu data gan y dinasyddion sy'n byw eu bywydau yn yr ardaloedd hyn i ddeall eu barn ar y cynigion hyn? Rwy'n hyderus iawn nad ydynt, oherwydd pe baent wedi gwneud hynny, byddent wedi gweld pa mor wirion yw'r newidiadau hyn. Pe bai'r newidiadau hyn yn mynd rhagddynt yn eu ffurf bresennol byddai'n un o'r dyddiau tywyllaf yn nemocratiaeth Cymru ers 1997. Mae'r cynigion hyn yn gywilyddus ac yr wyf yn erbyn y cynigion presennol yn y termau cryfaf posibl.

**4354 – Aelod o'r cyhoedd**

Rwy'n gwrthwynebu etholaeth arfaethedig Aberhonddu, Maesyfed, Castell-nedd a Dwyrain Abertawe. Rwyf wedi amlinellu fy rhesymau yn y ddogfen atodedig.

**Ymateb i'r Ymgynghoriad: Gwrthwynebiad i Aberhonddu, Maesyfed, Castell-nedd a Dwyrain Abertawe**

Yr wyf yn ysgrifennu mewn **gwrthwynebiad** i'r cynnig o baru etholaethau Seneddol y Deyrnas Unedig, Castell-nedd a Dwyrain Abertawe; ac Aberhonddu, Maesyfed a Chwm Tawe.

Rwy'n breswylydd yng Nghastell-nedd, ac wedi byw yma gydol fy oes. Gwasanaethais fel cynghorydd yng Nghastell-nedd Port Talbot rhwng 2012-2017, ar hyn o bryd rwy'n gweithio fel staff cymorth i Aelod o'r Senedd, a sefais fel ymgeisydd ar gyfer etholaeth Castell-nedd a Dwyrain Abertawe yn etholiad cyffredinol 2024.

Rwy'n gwrthwynebu'r cynnig hwn gan nad wyf yn credu bod hyn yn cynrychioli etholaeth gydlynol, ac yn credu ei bod yn methu dau o'r tri ffactor statudol y gallai'r Comisiwn eu hystyried; ffiniau llywodraeth leol a chlymau lleol. Cynigiaf yn lle hynny baru Castell-nedd a Dwyrain Abertawe, ynghyd â Aberafan Maesteg, a fyddai'n cynrychioli etholaeth llawer mwy cydlynol.

**Ffiniau Llywodraeth Leol**

Mae'r ddeddf yn nodi y gall y Comisiwn ystyried ffiniau llywodraeth leol sy'n bodoli ar ddyddiad yr adolygiad ond, y tu hwnt i'r cyfeiriad at fod rhannau o Awdurdod Lleol Castell-nedd Port Talbot wedi'u huno, ymddengys nad yw etholaeth arfaethedig Aberhonddu, Maesyfed, Castell-nedd a Dwyrain Abertawe yn rhoi ystyriaeth i hyn.

Mae ffiniau Llywodraeth Leol hefyd wedi dod yn ganolbwynt pwysig ym maes cynllunio rhanbarthol ar gyfer datblygu economaidd a chysylltedd trafnidiaeth, drwy Gyd-bwyllgorau Corfforaethol.

Mae'r dewis arall o Gastell-nedd a Dwyrain Abertawe, gydag Aberafan Maesteg, yn cynrychioli uned llawer mwy cydlynol sy'n cyfuno'r rhan fwyaf o awdurdod lleol Castell-nedd Port Talbot. Mae hefyd yn cadw mwyafrif yr etholaeth newydd o fewn Dinas-Ranbarth Bae Abertawe, Heddlu De Cymru, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, a Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe.

**Clymau Lleol**

Dywedodd y Comisiwn ei fod yn ystyried bod "ffiniau cymunedol presennol yn debygol o fod wedi eu creu i gydnabod clymau lleol, ac felly yn debygol o adlewyrchu clymau lleol". Fodd bynnag, unwaith eto, nid yw'r cynnig hwn yn adlewyrchu'r ystyriaeth honno.

Nid oes gan y cymunedau o fewn Castell-nedd a Dwyrain Abertawe fawr ddim clymau â llawer o'r cymunedau yn etholaeth Aberhonddu, Maesyfed a Chwm Tawe, ac eithrio cymunedau Cwm Tawe.

Fel y soniwyd uchod, o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus, gyda gwerth degawdau lawer o lywodraethu democrataidd, proffiliau economaidd-gymdeithasol, cyd-dreftadaeth, cystadlaethau chwaraeon a chefnogwyr, cyfryngau newyddion, ardaloedd teithio i'r gwaith a mwy, ychydig iawn sydd yn gyffredin ar draws yr etholaeth arfaethedig. Fodd bynnag, mae gan Gastell-nedd a Dwyrain Abertawe gysylltiadau cryf iawn ag Aberafan Maesteg. Ar lefel bersonol, cefais fy ngeni yng Nghastell-nedd ond byddwn yn aml yn mynd i Draeth Aberafan neu Barc Gwledig Margam, mae fy mam yn gweithio yn Ysbyty Castell-nedd Port Talbot sydd yn etholaeth Aberafan Maesteg ac roedd fy ngwraig yn gweithio yn yr etholaeth honno hefyd. Rwy'n cefnogi tîm pêl-droed yn etholaeth Aberafan Maesteg, ac yn teimlo bod y ddwy hyn yn cynrychioli ardal sydd ag ymdeimlad cryf o berthyn a hunaniaeth ar y cyd.

**Ystyriaethau Eraill**

Yn adroddiad y Comisiwn, mae'n nodi ei fod o'r farn bod gan y ddwy ardal sy'n cael eu paru yn y cynnig hwn gysylltiadau ffyrdd da. Nid wyf yn teimlo bod hyn yn wir, ac fel defnyddiwr trafnidiaeth gyhoeddus rwy'n gwybod am yr anhawster i gyrraedd unrhyw le i'r gogledd o Bontardawe ar y bws. Byddai cyrraedd llefydd fel Llanfair-ym-Muallt neu

Drefyclo yn cymryd y rhan orau o bedair awr ar drafnidiaeth gyhoeddus (gan deithio trwy lawer o etholaethau eraill i wneud hynny).

Fel arall, mae cysylltiadau ffyrdd rhwng Castell-nedd a Dwyrain Abertawe, ac Aberafan Maesteg, yn llawer gwell, gydag ystod eang o fysiau rheolaidd a hybiau trafnidiaeth yn cysylltu'r ddwy etholaeth. O ran tocynnau bysiau, er bod tocynnau dydd Castell-nedd Port Talbot ar gael gan y rhan fwyaf o'r gweithredwyr, nid oes tocynnau dyddiol nac wythnosol tebyg yn ymestyn i Aberhonddu a Maesyfed oherwydd y lefelau isel o deithio rhwng yr ardaloedd yma. Yn ogystal, mae'r A465, yr M4 a Phrif Linell De Cymru yn darparu cysylltiadau ffyrdd a rheilffyrdd ardderchog ar draws y ddwy etholaeth. Mae gwaith cynllunio trafnidiaeth i'r dyfodol yn canolbwyntio ar gryfhau hyn hyd yn oed ymhellach.

Yn etholiad cyffredinol diweddar y DU, ymgymerodd Cyngor Castell-nedd Port Talbot â'r dyletswyddau gweinyddol o oruchwylio'r etholiad ar draws etholaethau Castell-nedd a Dwyrain Abertawe, ac Aberafan Maesteg. Roedd agosrwydd y ddwy etholaeth yn caniatáu i'r cyfrif ddigwydd mewn lleoliad a oedd yn gyfleus i ymgeiswyr, asiantau ac arsylwyr, ac roedd canlyniadau'r ddwy o ddiddordeb i'w gilydd oherwydd y bondiau cymunedol cryf uchod a'r clymau lleol.

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at hollti ward Cimla a Phelenna dros wahanol etholaethau. Byddai hyn wrth gwrs yn cael ei osgoi pe byddai'r cynnig gwahanol o Gastell-nedd a Dwyrain Abertawe, Aberafan Maesteg, yn cael ei ddwyn ymlaen yn lle hynny.

Byddwn yn awgrymu mai enw addas i'm hetholaeth arfaethedig yw **Neath, Aberafan and Swansea East**, a allai fod â'r enw Cymraeg **Castell-nedd, Aberafan a Dwyrain Abertawe.**

**4355 – Aelod o'r cyhoedd**

I bwy bynnag a fynno wybod,

Hoffwn fynegi fy nghefnogaeth i'r etholaeth fawr 'Bangor Aberconwy Ynys Môn' a gynigir ar gyfer y Senedd.

Yn gyntaf, hoffwn ddatgan yn swyddogol fy mod yn credu bod y diwygiadau etholiadol cyffredinol yn annemocrataidd ac yn ddefnydd gwastrafflyd o arian trethdalwyr. Yn benodol, mae'r system rhestr gaeedig yn tanseilio'r egwyddor o bleidleisio dros gynrychiolydd unigol a enwir ac yn cyfyngu ar gyfleoedd i ymgeiswyr annibynnol sefyll mewn etholiad a chynrychioli'r ardal. At hynny, mae maint yr etholaethau, megis Bangor Aberconwy Ynys Môn, a fydd yn cynnwys ychydig dan 124,000 o etholwyr, yn achosi heriau sylweddol. Mae'n anodd i unrhyw Aelod o'r Senedd (AS) reoli gwaith achos yn effeithiol a meithrin cydberthnasau mewn etholaeth sydd mor fawr ac amrywiol. Yn ogystal, oni fyddai'n well i'r arian y bydd 36 o ASau ychwanegol yn ei gostio, sef dros £100 miliwn, gael ei wario ar ein GIG?

Wedi dweud hynny, hoffwn ganmol y Comisiwn Ffiniau i Gymru ar ei waith. Fel y nodwyd, dim ond ffyrdd a rheilffordd sy'n cysylltu Ynys Môn â Bangor Aberconwy. Gellir ystyried bod etholaeth Aberconwy Ynys Môn yn dilyn dwy brif ffordd: sef yr A5, y mae

iddi arwyddocâd hanesyddol fel y brif ffordd o Lundain i Gaergybi, a elwir yn ‘Watling Street’, ac sydd wedi dylanwadu ar ein haneddiadau drwy gyfrwng masnach a datblygu economaidd ers dros fileniwm; a’r A55, sydd nid yn unig yn cysylltu Llandudno â Chaergybi ond sydd hefyd wedi dod yn rhan o’n hunaniaeth ranbarthol, a adlewyrchir mewn grŵp Facebook mawr a gweithgar o’r enw ‘A55’ lle mae pobl leol o Fangor Aberconwy Ynys Môn yn rhannu newyddion ac yn trafod materion lleol.

Rydym hefyd yn rhannu cyfleusterau allweddol megis Ysbyty Gwynedd, ac mae yna gysylltiadau rhwng ein heconomïau sy’n elwa o borthladd rhydd Ynys Môn a’i mentrau cynhyrchu trydan, sy’n cynnwys prosiectau ynni’r llanw, ynni gwynt, ac ynni niwclear yn y dyfodol. Mae llawer o’r trigolion yn byw ac yn gweithio ar draws Bangor Aberconwy ac Ynys Môn. Mae gan Brifysgol Bangor, sy’n gyflogwr o bwys, gampysau yn y ddinas ac ar Ynys Môn. Mae’n werth nodi hefyd mai esgobaeth Bangor yw esgobaeth yr Eglwys yng Nghymru ar gyfer y ddwy ardal.

Yn ddiwylliannol mae’r tîm rygbi rhanbarthol, sef RGC (Rygbi Gogledd Cymru), yn cynrychioli’r rhanbarth sy’n cynnwys Bangor Aberconwy Ynys Môn, ond ar lefel ieuenctid mae’n rhannu’r gystadleuaeth yn ardal y Dwyrain ac yn ardal y Gorllewin, sy’n golygu bod ardaloedd Bangor Aberconwy ac Ynys Môn mewn un isranbarth.

Mae amryw gymdeithasau hanesyddol, megis Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd, yn gweithredu ar draws yr ardaloedd hyn. Yn ogystal, mae’r Eisteddfod Genedlaethol ac eisteddfodau lleol yn ddigwyddiadau diwylliannol o bwys sy’n cysylltu ein cymunedau â’i gilydd. At hynny, mae Partneriaeth Arfordir Gogledd Cymru a Menter Iaith Môn yn meithrin cysylltiadau cryf ar draws Bangor Aberconwy ac Ynys Môn drwy hyrwyddo’r Gymraeg a diwylliant Cymraeg.

Am y rhesymau hyn, rwyf o blaid creu Etholaeth Fawr ‘Bangor Aberconwy Ynys Môn’ ar gyfer y Senedd.

Yr eiddoch yn gywir,

[HEPGOR]

**4365 – Aelod o’r cyhoedd**

Rwy’n bwriadu ysgrifennu’n bennaf am Aberhonddu, Maesyfed, Castell-nedd a Dwyrain Abertawe, er y bydd rhywfaint o’r isod yn berthnasol i’r lleill.

Byddai’n cymryd 2 awr i chi yrru i ben uchaf yr etholaeth hon ac yn cymryd 4 awr a 40 munud ar drafnidiaeth gyhoeddus. Yn syml iawn, mae’n rhy fawr, ac ni allaf ddeall y pwynt ynglŷn â chysylltiadau ffyrdd da yn yr achos hwn. Mae’r etholaeth yn ymestyn ar draws Castell-nedd a Dwyrain Abertawe, sy’n fwy trefol, ac Aberhonddu ac ardaloedd ymhellach i’r gogledd, sy’n wledig iawn. Ar ôl bod yn byw mewn mannau trefol a gwledig yn y gorffennol, rwy’n credu bod ganddynt agendâu gwleidyddol sy’n wahanol iawn i’w gilydd, ac nad yw eu grwpio’n gwneud llawer o synnwyr. Nid wyf yn hoffi’r etholaethau presennol hyd yn oed, oherwydd rwy’n credu bod cyrraedd Abertawe o

Gastell-nedd yn rhy anodd i etholwyr pe baent yn dymuno mynychu cyfarfod â'u Haelod o'r Senedd.

Rwy'n teimlo y byddai'n well rhoi Dwyrain Abertawe yng Ngorllewin Abertawe a Gŵyr am resymau daearyddol, ac y dylid rhoi Castell-nedd yn Aberafan Maesteg, Rhondda ac Ogwr. Y rheswm am hynny yw bod Castell-nedd yn debyg iawn, a bod gan yr ardal gysylltiadau lleol â Llansawel a Phort Talbot. Mae ganddynt i gyd yr un cyngor, ac ni allaf ddeall y cyfiawnhad dros gael cynrychiolaeth wahanol ar eu cyfer.

**4366 – Aelod o'r cyhoedd**

Mae paru Aberhonddu â Chastell-nedd a Dwyrain Abertawe yn gam ofnadwy, a'r unig reswm y caiff ei ystyried yw oherwydd y cysylltiad â Chwm Tawe a grëwyd ar gyfer San Steffan.

Gan gydnabod y cyfyngiadau sydd yn y ddeddfwriaeth, hoffwn awgrymu y dylid paru Aberhonddu â Chaerfyrddin. Mae'r A40 yn cysylltu'r ddwy ardal yn dda â'i gilydd, ac mae gan ardal Cwm Tawe gysylltiadau a pherthynas naturiol â Dyffryn Aman.

Byddai hynny'n golygu bod angen paru Llanelli â Gŵyr, a pharu Gorllewin Abertawe â Dwyrain Abertawe a Chastell-nedd. Byddai'r ddau bâr hyn yn gweithio'n dda, a dyma'r enwau y byddwn yn eu hawgrymu ar gyfer y tri phâr:
Brycheiniog Caerfyrddin / Brecon Caerfyrddin
Llanelli Gŵyr / Llanelli Gower
Abertawe Nedd (gan ddefnyddio enw'r afon yn lle'r dref) / Swansea Neath

**4372 – Aelod o'r cyhoedd**

Gomisiwn,

Mewn ymateb i'ch cynigion cychwynnol ar gyfer etholaethau'r Senedd, mae fy ymatebion i'r enwau a gynigir gennych i'w gweld isod.

Yng nghyd-destun adolygiad anarferol i'r Comisiwn, oherwydd y tu hwnt i greu rhanbarthau ar gyfer y Senedd mae'r math hwn o adolygiad yn brin, rwy'n deall y gellir ystyried bod yr enwau cychwynnol yn enwau dros dro. Er hynny, mae rhai ohonynt yn ymddangos fel pe baent yn gyfres o leoedd sy'n chwilio am enw cryno. Maent yn fy atgoffa o etholaethau blaenorol Lloegr ar gyfer Senedd Ewrop, a oedd yn defnyddio e.e. "Lancashire Central" yn hytrach na "Blackpool, Fylde, Preston, Blackburn, Accrington, and Burnley".

O edrych ar y cynigion yn eu cyfanrwydd, rwy'n credu y gallai eu henwi yn arddull yr etholaethau (Enw, Enw Arall, ac Enw) achosi dryswch anfwriadol. Mae fy awgrymiadau i'n defnyddio'r gwahannod em (—) fel sy'n cael ei ddefnyddio gan senedd Canada, rwy'n credu.

Nid wyf yn siarad Cymraeg, ac fel person amatur brwdfrydig yr wyf yn cynnig awgrymiadau i chi eu hystyried. Rwyf wedi cyflwyno gwrthgynigion i gomisiynau lleol a seneddol ar gyfer amryw adolygiadau o ffiniau, sy'n mynd yn ôl bron ugain mlynedd, ac

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
Democracy and Boundary Commission Cymru

rwy’n cyfrannu pan fo’n bosibl fel rhywun sydd â diddordeb.

Yn gywir,

[HEPGOR]

Awgrymiadau amgen ynghylch enwau:

1. “Bangor Aberconwy Ynys Môn”. Mae’r enw yn gyfuniad o etholaethau presennol. Nid oes angen cynnwys “Bangor” yn awr oherwydd bod “Aberconwy” yn ymdrin â Bangor/cyfleu Bangor. Awgrym: “Aberconwy—Ynys Môn”

2. “Clwyd”. Ar ôl ystyried pob enw amgen posibl, mae hwn yn enw derbyniol.

3. “Alyn and Deeside and Wrexham”. Yng nghyd-destun adolygiad cenedlaethol, mae defnyddio’r gair “and” ddwywaith yn ymddangos yn ddiangen, a gallai achosi dryswch. O gofio maint y sedd newydd a’r angen i fod yn fanwl gywir ac yn gryno, hoffwn awgrymu “Flintshire East—Wrexham” a’r enw Cymraeg cyfatebol.

4. “Dwyfor Meirionnydd, Montgomeryshire and Glyndŵr”. Yng nghyd-destun adolygiad cenedlaethol, mae’r enw hwn yn hir ac yn lletchwith. Mae’r sedd yn un enfawr ac o natur wledig yn bennaf, sy’n golygu ei bod yn anodd dod o hyd i enw heb droi’n ôl at enwau generig neu hollgynhwysol. Hoffwn awgrymu “South Gwynedd—North Powys” a’r enw Cymraeg cyfatebol.

5. “Ceredigion and Pembrokeshire”. Ar ôl ystyried pob enw amgen, rwyf o blaid yr enw hwn. Fodd bynnag, fel y byddaf yn gwneud yn gyffredinol, hoffwn awgrymu y dylid defnyddio’r gwahannod em (—) (“Ceredigion—Pembrokeshire”) er mwyn sicrhau bod digon o fwlch rhwng yr etholaethau traddodiadol a’r etholaethau rhanbarthol newydd hyn sy’n cymryd eu lle.

6. “Carmarthenshire”. Ar ôl ystyried pob enw amgen posibl, mae hwn yn enw derbyniol.

7. “Swansea West and Gower”. Ar ôl ystyried pob enw amgen posibl a gwneud un newid yn unig, sef defnyddio’r gwahannod em (“Swansea West—Gower”), mae hwn yn enw derbyniol.

8. “Brecon, Radnor, Neath and Swansea East”. Rwy’n deall bod y Comisiwn wedi cyfuno pob un o’r enwau presennol, ond mae hynny wedi creu cyfres letchwith o enwau lleoedd. Ar ôl ystyried pob enw amgen posibl, hoffwn awgrymu “South Powys—Neath” a’r enw Cymraeg cyfatebol.

9. “Aberafan Maesteg, Rhondda and Ogmore”. Yng nghyd-destun adolygiad cenedlaethol, mae’r enw hwn yn debyg i enw dros dro. Ar ôl ystyried y ffiniau, hoffwn awgrymu “Mid Glamorgan” fel enw amgen, a’r enw Cymraeg cyfatebol.

10. “Merthyr Tydfil, Aberdare and Pontypridd”. Yng nghyd-destun adolygiad cenedlaethol, mae’r enw hwn yn debyg i enw dros dro. Ar ôl ystyried y ffiniau, hoffwn awgrymu “North Glamorgan” fel enw amgen, a’r enw Cymraeg cyfatebol.

11. “Blaenau Gwent, Rhymney and Caerphilly”. Yng nghyd-destun adolygiad cenedlaethol, mae’r enw hwn yn debyg i enw dros dro. Ar ôl ystyried pob enw amgen posibl, hoffwn awgrymu “West Gwent” a’r enw Cymraeg cyfatebol.

12. “Monmouthshire and Torfaen”. Am yr un rheswm ag yn 11 uchod, hoffwn awgrymu “East Gwent” a’r enw Cymraeg cyfatebol.

13. “Newport and Islwyn”. Ar ôl ystyried pob enw amgen posibl, mae hwn yn enw derbyniol.

14. “Cardiff East and North”. Mae’r dynodiad “east and north” yn ymddangos yn ddryslyd, a gallai fod yn gamarweiniol. Mae’r etholaeth a gynigir yn cynnwys gogledd a dwyrain Caerdydd yn eu cyfanrwydd, felly mae’n ymddangos bod yr enw “Cardiff North Eastern” yn fwy priodol (cymharer â rhai o seddi presennol Senedd yr Alban, sydd hefyd yn defnyddio “Eastern” yn hytrach nag “East” yn unig).

15. “Cardiff West, South and Penarth”. Am yr un rheswm ag yn 14 uchod, mae’r etholaeth hon a gynigir yn cynnwys canol a de Caerdydd, a hoffwn awgrymu “Cardiff South Western” o ganlyniad i hynny.

16. “Vale of Glamorgan and Bridgend”. Ar ôl ystyried pob enw amgen, hoffwn awgrymu “South Glamorgan” a’r enw Cymraeg cyfatebol.

**4374 – David Williams - Cynghorydd lleol neu swyddog etholedig arall**

Annwyl gydweithwyr yn y Comisiwn Ffiniau,

Diolch am y cyfle i roi sylwadau ar gynigion y Comisiwn Ffiniau i greu 16 o etholaethau mawr i’r Senedd yng Nghymru, ar gyfer etholiadau’r Senedd yn y dyfodol, ar y sail bod 6 Aelod yn cynrychioli pob etholaeth a bod cyfanswm nifer Aelodau’r Senedd yn codi i 96.

Rwy’n sylweddoli nad oedd gan y Comisiwn unrhyw ran i’w chwarae yn y broses o benderfynu faint o Aelodau ddylai fod yn y Senedd, sy’n fater i’r Senedd mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, hoffwn nodi nad wyf yn credu bod dadl gref a chredadwy wedi’i chyflwyno dros gynyddu nifer Aelodau’r Senedd o’r nifer bresennol, sef 60, i 96, sy’n gynnydd sylweddol. Nid wyf chwaith yn credu y bydd cael etholaethau 6 aelod yn cyfoethogi ac yn gwella llywodraeth gynrychiadol; rwy’n credu y bydd yn gwanhau’r cysylltiad hanesyddol rhwng yr Aelodau unigol a’u hetholaeth.

Fodd bynnag, dyna’r sefyllfa, ac rwy’n credu bod y Comisiwn Ffiniau wedi mabwysiadu ffordd resymegol ac ymarferol o symud ymlaen wrth gynnig 16 o etholaethau ar gyfer y Senedd ar sail ardaloedd dwy o etholaethau Senedd y DU. At ei gilydd, mae’r parau a gynigir a’r enwau a awgrymir ar gyfer yr etholaethau’n ymddangos yn briodol, ac yn

cydnabod lefel dda o gysylltedd lleol ar hyd a lled Cymru. Ar lefel fwy ranbarthol, mae'n ymddangos yn briodol paru Torfaen a Sir Fynwy â'i gilydd i greu etholaeth fawr, yn lle dewis opsiynau eraill megis paru Dwyrain Casnewydd â Sir Fynwy neu baru Torfaen â Dwyrain Casnewydd.

Nodir y bwriedir i'r ffiniau hyn ar gyfer etholaethau bara am amser hir. Felly, hoffwn ofyn – os bydd yna newidiadau bach i etholaethau Senedd y DU (os bydd rhai wardiau'n symud o'r naill etholaeth i'r llall) neu os bydd yna newidiadau mawr iddynt (os bydd eu nifer yn gostwng), a fydd y rheini wedyn yn cael eu hadlewyrchu'n awtomatig yn ffiniau etholaethau Senedd Cymru, neu a fyddant yn destun proses ymgynghori newydd?

Yn ail, a yw'r Comisiwn Ffiniau yn bwriadu adolygu'r ffiniau cyn pen cyfnod penodol (er enghraifft, ar ôl dau dymor etholiad) a mesur adborth efallai ynghylch pa mor effeithiol y mae'r newidiadau wedi cael eu mabwysiadu gan y cyhoedd yn ehangach?

I grynhoi, felly, rwy'n teimlo bod y Comisiwn Ffiniau wedi mabwysiadu ffordd ymarferol a synhwyrol o benderfynu ynglŷn ag etholaethau'r Senedd ar gyfer y dyfodol, o fewn y brîff a roddwyd iddo (nifer fwy o Aelodau yn y Senedd a deddfwriaeth a oedd yn pennu proses etholiadol cynrychiolaeth gyfrannol), ond byddai'n ddefnyddiol gwybod beth yw barn y Comisiwn am y ddau bwynt yr wyf wedi'u codi.

Dymuniadau gorau,

David
Y Cynghorydd David Williams
Llanyrafon
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
[HEPGOR] / E-bost: [HEPGOR]

**4375 – Aelod o'r Cyhoedd**

Bore da,

Cynigiaf sylwadau ar gyfer yr ymgynghoriad ar yr Etholaethau Newydd Arfaethedig os gwelwch yn dda: Provisional Recommendations (d34hss7hg6i3n.cloudfront.net).

Bangor Aberconwy Ynys Môn
Mae adran 1.2 y ddogfen ymgynghori yn nodi: "Dim ond cysylltiadau ffyrdd sydd gan etholaeth seneddol y DU Ynys Môn â'r tir mawr, drwy etholaeth seneddol y DU Bangor Aberconwy. Mae'r ddeddf yn datgan bod yn rhaid i'r Comisiwn greu etholaethau sy'n cynnwys dwy etholaeth seneddol y DU sy'n gyffiniol."

Credaf fod y Comisiwn wedi dehongli'r ddyletswydd yma yn y Ddeddf (sef bod rhaid i'r etholaethau a gyfunir fod yn "gyffiniol") yn rhy gaeth, yn enwedig o ystyried bod yr etholaeth dan sylw yn ynys. Rwyf yn ystyried bod y Comisiwn wedi dehongli'r ddyletswydd hon i olygu bod rhaid i ffordd fawr gysylltu unrhyw ddwy etholaeth sy'n cael eu 'cyfuno'. Mae hyn, o ganlyniad, yn cyfyngu'r opsiynau sydd ar gael wrth gyfuno Ynys Môn i'r unig etholaeth sy'n cynnwys pont drosodd i'r ynys (sef etholaeth Bangor

Aberconwy). Drwy ddehongli'r ddyletswydd "cyffuniol" yn ehangach, credaf y byddai gan y Comisiwn y dewis a'r rhyddid i gyfuno Ynys Môn gydag etholaeth Dwyfor Meirionnydd hefyd. Mae hon yn etholaeth sydd hefyd yn 'ffinio' Ynys Môn. Mae hon hefyd yn etholaeth sy'n gweddu llawer yn well ag Ynys Môn na Bangor Aberconwy, yn enwedig o ystyried y ffactorau statudol eraill a amlinellir yn y ddogfen.

Os na ellir cyfuno Ynys Môn ag etholaeth Dwyfor Meirionnydd, fe ddylid ystyried ail-enwi'r etholaeth i "Menai Ynys Môn" (neu enw gyffelyb sy'n defnyddio'r gair "Menai"). Byddai defnyddio'r enw "Menai" yn cyfleu'r ffaith bod yr etholaeth yn gyfuniad o'r ynys a'r tir mawr sydd wedi ei bontio gan Afon Menai.

Alun, Glannau Dyfrdwy a Wrecsam

Nid oes rheswm amlwg pam na ddylid defnyddio'r enw uniaith "Alun" fel yr argymhellwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg. Dylid mabwysiadu'r enw "Alun" yn yr enwau Cymraeg a Saesneg.

Dwyfor Meirionnydd, Maldwyn a Glyndŵr

Dylid ailystyried cyfuno Ynys Môn gyda Dwyfor Meirionnydd, gan ystyried fy sylwadau bod y Comisiwn yn gallu cyfuno'r ddwy ardal drwy ddehongli'r gofyniad "cyffiniol" yn ehangach. Ar hyn o bryd, mae'r etholaeth hon yn llawer rhy fawr ac yn cyfuno ardaloedd nad ydynt yn cyd-fynd â'r ffactorau statudol a amlinellir yn y ddogfen (e.e. clymau lleol).

O ran yr enw, dylid ystyried yr enw "Gwynedd" yn lle "Dwyfor Meirionnydd", gan fod yr enw "Dwyfor Meirionnydd, Maldwyn a Glyndŵr" yn llond ceg — bron mor enfawr â maint yr etholaeth!

Sir Gaerfyrddin
Dylid rhoi'r enw uniaith "Sir Gâr" i'r etholaeth hon. Mae'n enw adnabyddus yn y ddwy iaith ar gyfer yr ardal ac yn fyrrach na "Sir Gaerfyrddin". Byddai defnyddio "Sir Gâr" hefyd yn osgoi'r angen am enwau ar wahân yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Byddai rhoi enw uniaith Gymraeg hefyd yn cyfrannu at yr egwyddor y dylid hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yng Nghymru, yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Byddai cael enw Saesneg (Carmarthenshire) yn gweithio'n erbyn yr egwyddor yma.

Merthyr Tudful, Aberdâr a Phontypridd
Dylid ystyried defnyddio'r sillafiad Cymraeg "Merthyr Tudful" yn y ddwy iaith. Bydd hyn yn sicrhau nad oes gwahaniaethau diangen rhwng y fersiynau Cymraeg a Saesneg o'r enw, yn enwedig gan mai un llythyren yn unig sy'n gwahaniaethu'r ddwy fersiwn.

Gorllewin Caerdydd, De a Phenarth
Mae gosodiad y gair "De" yn lletchwith ac felly dylid ailystyried yr enw. Efallai y byddai "De a Gorllewin Caerdydd a Phenarth" neu enw tebyg yn fwy priodol.

Diolch am ystyried fy sylwadau. Hoffwn aros yn ddi-enw os gwelwch yn dda.

Diolch yn fawr,

[HEPGOR]

**4376 – Aelod o'r Cyhoedd**

At ei gilydd, mae'r parau sy'n ffurfio'r 16 o etholaethau yn rhesymol ond dylid byrhau rhai o'r enwau. Nid oes yn rhaid cyfuno enwau Saesneg presennol dwy o etholaethau Senedd y DU os yw'r enwau hynny'n eithaf hir ar eu pen eu hunain.

1. "Menai Bridge"
4. "Meirionnydd & Montgomery"
8. "Radnor & Swansea East" (neu "Neath & Knighton")
9. "Rhondda & Port Talbot"
14. "Cardiff North East"
15. "Cardiff South West"
(nid oes angen yr "and" ar gyfer yr etholaethau yng Nghaerdydd)

Oddi wrth [HEPGOR]
Croydon, Llundain, Lloegr

**4378 – Aelod o'r Cyhoedd**

Mae llawer o broblemau'n perthyn i'r cynllun hwn.
1. Nid yw ffiniau etholaethau Senedd y DU yn dda iawn, felly mae'r penderfyniad i seilio etholaethau newydd Senedd Cymru arnynt yn gwaethygu'r problemau hynny.
2. Yn benodol, mae etholaeth Aberhonddu, Maesyfed, Castell-nedd a Dwyrain Abertawe yn ymddangos fel pe bai rhywrai yn chwarae â'r ffiniau er eu lles eu hunain. Beth sy'n gyffredin rhwng yr hen ardaloedd diwydiant trwm o gwmpas Abertawe ac ardal wledig Aberhonddu? O ran cysylltiadau trafnidiaeth, hoffwn eich herio i yrru o Abertawe i Drefyclo heb fynd y tu allan i ffiniau'r etholaeth.
3. Yn yr un modd, mae Merthyr, Aberdâr a Phonty yn ardaloedd digon mawr i haeddu eu AS lleol eu hunain.
4. Mae gan Aberafan, Rhondda ac Ogwr gysylltiadau trafnidiaeth? Ar fap efallai, ond ceisiwch chi yrru arnynt – mae'n cymryd oriau i deithio o Dreorci i Bort Talbot, a mwy fyth o amser ar y bws neu'r trên.
5. Os y bwriad yw sicrhau mwy o gynrychiolaeth wleidyddol ar ein cyfer (96 o Aelodau'r Senedd), oni ddylem gael 96 o etholaethau er mwyn rhoi cynllun mwy lleol ar waith ar gyfer cynrychiolaeth, yn hytrach na'r cynnig hwn sy'n golygu cael ardaloedd enfawr (sy'n cynnwys mannau nad oes ganddynt fawr ddim yn gyffredin â'i gilydd) a gynrychiolir gan fwy nag un person (6)? Rhannwch bob un o'r etholaethau hyn â 6 ac ewch ati i ethol 1 AS yr un ar eu cyfer.
6. Rhaid nodi mor anodd oedd dod o hyd i'r wefan hon. Nid oedd y cyfryngau'n darparu unrhyw ddolen gyswllt â hi, mae enw'r Comisiwn yn amwys ac yn cael ei gymysgu ag enwau Comisiynau Ffiniau eraill yn y DU, mae'n ymddangos nad oes gennych eich

gwefan eich hun, ac yn ôl pob golwg nid yw Google wedi clywed amdanoch. Siawns na allwch wneud yn well na hyn.

Wn i ddim a fydd eich adolygiad yn fodlon ystyried y pynciau canlynol, ond mae angen i'r Senedd eu clywed:

7. Nid oes angen rhagor o ASau arnom. Rydym yn wlad fach, ac fe wnaiff 60 y tro.
8. Rwy'n casáu'r syniad o fethu â phleidleisio dros unigolyn ac o orfod pleidleisio dros restr plaid yn unig. Mae hynny'n dileu'r gallu i etholwyr gael gwared ar ASau nas dymunir/nas hoffir/gwael ac mae'n trosglwyddo'r gallu hwnnw i beirianwaith plaid yn lle hynny, sy'n galluogi ASau gwael i barhau mewn grym, waeth beth fo ewyllys y bobl.

**4380 – Aelod o'r Cyhoedd**

Dwyfor Meirionnydd ac Ynys Môn, Bangor Aberconwy a Gogledd Clwyd, Dwyrain Clwyd ac Alun a Glannau Dyfrdwy, Wrecsam a Maldwyn. Mae'r siwrnai rhwng ffin ward Bethel a'r Felinheli a Phont Britannia yn llai na dwy filltir o hyd. Mae llawer o drigolion Ynys Môn yn gweithio yng Nghaernarfon ac mae llawer o drigolion Caernarfon yn gweithio ar Ynys Môn. Mae angen ystyried yr opsiwn hwn, oherwydd mae Dwyfor a Maldwyn yn chwerthinllyd. Ond llongyfarchiadau ar beidio â gwneud cymaint o benderfyniadau twp ag a wnaed yng nghyswllt San Steffan.

**4381 – Aelod o'r Cyhoedd**

Mae'r cynnig i baru Dwyfor Meirionnydd â Maldwyn a Glyndŵr yn creu etholaeth enfawr a lletchwith.

Mae hynny o ganlyniad i'r penderfyniad i gysylltu Ynys Môn â Bangor Aberconwy oherwydd y cysylltiad ffordd uniongyrchol – sy'n golygu felly nad oedd yn bosibl cysylltu Ynys Môn â Dwyfor Meirionnydd oherwydd diffyg cysylltiad ffordd uniongyrchol. Fodd bynnag, nodir hefyd bod y posibilrwydd o baru Dwyfor Meirionnydd â Cheredigion Preseli wedi'i ystyried, er nad oes unrhyw gysylltiad ffordd uniongyrchol rhyngddynt (mae'r unig ffordd yn mynd y tu allan i'r etholaeth drwy Fachynlleth).

Gan dderbyn bod y ffordd rhwng Ynys Môn a Dwyfor Meirionnydd yn mynd ychydig y tu allan i'r etholaeth, mae'r cysylltiadau teithio fel arall yn parhau'n dda, a byddai paru Ynys Môn â Dwyfor Meirionnydd (awgrymir yr enw Gwynedd a Môn) yn gweithio lawn cystal â pharu Ynys Môn â Bangor Aberconwy.

Yna, byddai angen paru Bangor Aberconwy â Gogledd Clwyd (awgrymir yr enw Bro Colwyn); paru Dwyrain Clwyd ag Alun a Glannau Dyfrdwy (awgrymir yr enw Clwyd a Dyfrdwy); a pharu Wrecsam â Maldwyn a Glyndŵr (awgrymir yr enw Wrecsam a Maldwyn).

Mae pob un o’r cynigion uchod yn gweithio lawn cystal â’r cynigion gwreiddiol ond maent yn gwella ardaloedd Dwyfor Meirionnydd a Maldwyn a Glyndŵr yn sylweddol.

**4385 – Aelod o’r Cyhoedd**

Mae’r cynnig i uno Dwyfor Merionnydd â Maldwyn yn creu etholaeth rhy fawr o lawer. Gyda’r dull newydd o ddidoli’r pleidleisiau, mae’n amlwg mai Plaid Cymru fyddai â’r nifer fwyaf o ymgeiswyr llwyddiannus, a byddai ymgeisydd o Faldwyn yn cael ei ethol wedyn. Mae hynny’n golygu na fyddai gan Feirionnydd fawr o obaith cael ymgeisydd lleol llwyddiannus, ac oherwydd problemau teithio ymarferol ni fyddai Meirionnydd yn cael dim sylw gan y cyrff etholedig. Byddai’n well o lawer uno ag Ynys Môn ac aros yn y gogledd yn hytrach na bod yn y canolbarth. Rwy’n siŵr y byddai’n well gan Faldwyn aros yn ardal ei chod post, sef SY, ac aros gyda Maesyfed.

**4391 – Aelod o’r Cyhoedd**

Ar gyfer Alun, Glannau Dyfrdwy a Wrecsam.
Beth am ei alw yn Flintshire and Wrexham a Sir y Fflint yn Wrecsam.
Gan y bydd hyn yn cynnwys y rhan fwyaf o siroedd presennol Sir y Fflint a Wrecsam, mae hwn yn enw symlach gwell.

Ar gyfer Clwyd, rwy’n meddwl y dylai hyn fod yn Sir Ddinbych am resymau tebyg i’r uchod.

**4394 – Aelod o’r Cyhoedd**

Rwyf yn anghytuno gydag argymhelliad presennol y comisiwn i uno etholaeth Ynys Môn gydag etholaeth Bangor Aberconwy. Yn fy marn i, byddai'n gwneud llawer mwy o synnwyr ymhob ffordd, ac yn sicr yn ieithyddol ac yn ddiwylliannol, i uno etholaeth Ynys Môn gydag etholaeth bresennol Dwyfor Meirionnydd. Byddai hynny wedyn yn golygu y gellid uno etholaethau Bangor Aberconwy a Gogledd Clwyd - sy'n gwneud synnwyr yn ddaearyddol ac yn gymunedol - uno Dwyrain Clwyd gydag Alun a Glannau Dyfrdwy, ac uno Wrecsam gyda Maldwyn a Glyndwr.

Rwy'n derbyn mai un o egwyddorion y comisiwn oedd y dylai ffordd gysylltu'r ddwy etholaeth, ond os yw peidio gweithredu'r egwyddor yna yn arwain at ganlyniadau gwell, yna siawns fod posibl ei dileu? Ar hyn o bryd mae dwy ffordd yn arwain o Ynys Môn i'r tir mawr yn etholaeth Bangor Aberconwy, ond mae'r ddwy ffordd o fewn 5 milltir i etholaeth Dwyfor Meirionnydd - un o fewn milltir neu ddwy i ffiniau etholaeth Dwyfor Meirionnydd.

Nid yw'r argymhelliad presennol i uno etholaeth Dwyfor Meirionnydd gydag etholaeth Maldwyn Glyndwr yn gwneud synnwyr o gwbl. Mae'n etholaeth rhy fawr o lawer yn ddaearyddol ac nid oes unrhyw gysylltiad o gwbl yn gymunedol rhwng y rhan fwyaf o'r ddwy etholaeth. Byddai'n gwneud llawer mwy o synnwyr i uno Ynys Môn gyda Dwyfor Meirionnydd.

Rwyf felly'n awgrymu'r newidiadau canlynol wrth baru etholaethau Gogledd Cymru - 1) Ynys Môn a Dwyfor Meirionnydd 2) Bangor Aberconwy a Gogledd Clwyd 3) Dwyrain Clwyd ac Alun a Glannau Dyfrdwy 4) Wrecsam a Sir Drefaldwyn a Glyndwr.

**4398 – Aelod o'r Cyhoedd**

Mae'r ffin sy'ngynnwys Castell-nedd yn rhy fawr i fod yn effeithiol.

**4416 – Aelod o'r Cyhoedd**

Rwy'n teimlo y dylai etholaeth wleidyddol gynnwys cymunedau sy'n rhannu hunaniaeth. Dylai Aelod etholedig o'r Senedd gynrychioli buddiannau ei etholaeth. Sut y gall Aelod o'r Senedd gynrychioli buddiannau rhywun sy'n byw ym Mhwllheli ynghyd â buddiannau etholwr sy'n byw yn Rhiwabon? Rwy'n credu bod uno etholaethau presennol San Steffan, yr oedd rhai ohonynt yn ddadleuol yn eu rhinwedd eu hunain, yn ffordd ddiog o ymdrin â'r mater. Er enghraifft, siawns na fyddai'n well cyfuno Sir Fynwy ag ardaloedd o Dde Powys i ffurfio etholaeth â hunaniaeth wledig, yn hytrach na'i huno â Thorfaen?

Nid yw nifer y bobl sy'n pleidleisio yn etholiadau'r Senedd erioed wedi bod yn uchel. Mae'r etholaethau hyn yn debygol o wneud i etholwyr golli mwy fyth o ddiddordeb, yn enwedig yn y gogledd a'r canolbarth, a fyddai'n gwaethygu'r rhaniad rhwng y gogledd a'r de.

**4417 – Aelod o'r Cyhoedd**

Glyndŵr, Dwyfor Meirionnydd, Maldwyn a Glyndŵr
*Mae'n ardal sy'n rhy fawr o lawer yn ddaearyddol – dylid ei chadw'n ddwy etholaeth ar wahân, ac os oes yn rhaid uno dylid gwneud hynny â dwy etholaeth yn y de-ddwyrain, sy'n llai o faint yn ddaearyddol.

Mae'r enw hefyd yn rhy hir a lletchwith – gellid datrys hynny drwy fynd yn ôl i gael dwy etholaeth ar wahân sydd â'u priod enwau, h.y. Dwyfor Meirionnydd a Maldwyn a Glyndŵr

**4418 – Aelod o'r Cyhoedd**

Dylai sedd Gorllewin Abertawe a Gŵyr gael ei chyfuno â Dwyrain Abertawe a Chastell-nedd – dim ond rhan fach o Gwm Tawe a gaiff ei chynnwys dan Gastell-nedd. Yr awdurdod lleol i greu sedd o'r enw Bae Abertawe a Chastell-nedd. Mae'r ddwy etholaeth hyn yn gwneud synnwyr – mae'r ddwy yn rhai arfordirol, ac mae'r cynghorau eisoes yn cydweithio â'i gilydd. Dylai Aberhonddu fod yn sedd ar ei phen ei hun, oherwydd nid oes dim yn gyffredin rhyngddi ac Abertawe neu Gastell-nedd. O ran Abertawe a Chastell-nedd, mae ganddynt fwy yn gyffredin â Môr Hafren nag Aberhonddu.

**4419 – Aelod o'r Cyhoedd**

Dylid paru Caerfyrddin ag Aberhonddu a Maesyfed, paru Castell-nedd a Dwyrain Abertawe â Gorllewin Abertawe, a pharu Gŵyr â Llanelli.

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
Democracy and Boundary Commission Cymru

Mae hynny'n osgoi paru Abertawe ag Aberhonddu, sy'n gam dadleuol. Mae paru Llanelli â Gŵyr yn gwneud synnwyr, yn ogystal â chreu etholaeth wledig yn bennaf sy'n ymestyn o Bentywyn i Faesyfed.

**4426 – Aelod o'r Cyhoedd**

Cyfuno dwy sedd Abertawe yn un etholaeth yn Abertawe, gan wrthbwyso hyn trwy baru Gŵyr â Aberhonddu a Maesyfed a Chwm Tawe

Ail-enwi sedd Merthyr fel Morgannwg Ganol
Ail-enwi sedd Casnewydd ac Islwyn fel Gorllewin Gwent
Ail-enwi sedd Mynwy fel Dwyrain Gwent
Ail-enwi sedd Wrecsam fel Wrecsam Glannau Dyfrdwy
Ail-enwi sedd Dwyfor fel Eryri a Gogledd Powys
Ail-enwi dwy sedd Caerdydd: Dwyrain Caerdydd a Gorllewin Caerdydd

**4430 – Aelod o'r Cyhoedd**

Nid yw uno dwy etholaeth seneddol lletchwith yn gwasanaethu cefn gwlad Cymru'n dda, ond mae mabwysiadu'r dull hwn, sef cyfuno Aberhonddu, Maesyfed a Chwm Tawe â Sir Drefaldwyn a Glyndŵr yn gweddu'n well na chribo Maldwyn a Glyndŵ â Dwyfor Meirionnydd. Mae'r etholaethau gan mwyaf yn rhannu cyngor ac mae ganddynt hanes sefydledig, ac er bod cysylltiadau trafnidiaeth da rhwng Dolgellau a Machynlleth ac Aberhonddu ac Abertawe, mae gan y rhan fwyaf o etholwyr fwy o ddiddordeb yn yr hyn sy'n digwydd rhwng Aberhonddu a'r Trallwng na Dolgellau a Chaernarfon.

**4432 – Aelod o'r Cyhoedd**

Nid yw'r ffiniau a gynigir yn rhoi ystyriaeth briodol i ranbarthau unigryw Cymru, ac maent yn creu ardaloedd mympwyol na fydd etholwyr yn teimlo unrhyw gysylltiad â nhw. Mae llawer o bobl yng Nghymru yn uniaethu â'u hardal awdurdod lleol neu'u sir hanesyddol, ac rwy'n credu y byddai rhannu Cymru ar sail yr ardaloedd/siroedd hynny'n well na'i rhannu ar sail etholaethau San Steffan.

Hoffwn awgrymu'r diwygiadau canlynol:

Bangor Aberconwy, Ynys Môn, Dwyfor Meirionnydd (Gwynedd a Môn neu Ogledd-orllewin Cymru) – Mae'n gwneud mwy o synnwyr, o ran bod yn rhanbarth cyfarwydd o Gymru sy'n troi o gwmpas Eryri a lle mae canran uchel o'r etholwyr yn siarad Cymraeg.

Maldwyn a Glyndŵr ac Aberhonddu, Maesyfed a Chwm Tawe (Powys neu Ganolbarth Cymru) – Mae'n gwneud synnwyr, o ran bod yn rhanbarth cydlynus sy'n dod dan yr un awdurdod lleol, ac sydd felly'n ei gwneud yn haws i Aelodau'r Senedd ymdrin â materion sy'n ymwneud â'r etholaeth.

Dwyrain Abertawe a Chastell-nedd ac Aberafan Maesteg (dim awgrym am enw) – Mae'n gwneud mwy o synnwyr, o ran bod yn rhanbarth diwylliannol a hanesyddol cydlynus.

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
Democracy and Boundary Commission Cymru

Mae'r etholaethau eraill a gynigir yn ymddangos yn opsiynau eithaf rhesymol. Mae rhai o'r enwau yn lletchwith a byddai'n well pe bai ganddynt enwau sy'n adlewyrchu nodweddion daearyddol rhanbarthol neu enwau rhanbarthol hanesyddol. Yn fy marn i, dylid ffafrio cael enwau Cymraeg yn unig, os yw hynny'n bosibl.

**4434 – Aelod o'r Cyhoedd**

Nonsens llwyr yw paru Aberhonddu â Chastell-nedd a Dwyrain Abertawe, oherwydd nid oes gan y ddwy ardal ddim yn gyffredin ar wahân i ardal Cwm Tawe. Mae hynny yn ei dro'n effeithio ar lawer o seddi eraill yn y de.

Rwyf eisoes wedi cyflwyno un cynnig amgen, sef paru Aberhonddu â Chaerfyrddin, sy'n effeithio ar nifer o seddi cyfagos. Hoffwn awgrymu'r opsiwn amgen canlynol a fydd yn cael effaith ehangach:

Paru Aberhonddu â Sir Fynwy, gan alw'r sedd yn 'Aberhonddu a Sir Fynwy'.
Mae cysylltiadau da rhwng y seddi hyn, ar hyd yr A40, ac mae'r ddwy o natur wledig ac amaethyddol yn bennaf.

Byddai hynny'n ei gwneud yn bosibl i Gastell-nedd a Dwyrain Abertawe uno ag Aberafan Maesteg, a hoffwn awgrymu 'Castell-nedd Port Talbot' fel enw i'r sedd neu gorau oll os 'Gorllewin Morgannwg' fyddai ei henw.

Dylid paru Rhondda â Phontypridd, a hoffwn awgrymu 'Taf Rhondda' fel enw i'r sedd neu gorau oll os 'Canol Morgannwg' fyddai ei henw.

Dylid paru Merthyr â Chaerffili, a hoffwn awgrymu 'Taf Rhymni' fel enw i'r sedd neu gorau oll os 'Gogledd Morgannwg' neu 'Dwyrain Morgannwg' fyddai ei henw.

Dylid paru Dwyrain Casnewydd â Thorfaen, a hoffwn awgrymu 'Casnewydd Torfaen' neu 'Canol Gwent' fel enw i'r sedd.

Dylid paru Casnewydd Islwyn â Blaenau Gwent, a hoffwn awgrymu 'Casnewydd Ebwy' neu 'Gorllewin Gwent' fel enw i'r sedd.

Gallai gweddill seddi'r de a'r gorllewin aros fel y maent, ond hoffwn awgrymu 'Pen-y-bont Y Fro' fel enw i'r sedd yn lle 'Bro Morgannwg a Phen-y-bont' neu gorau oll os 'De Morgannwg' fyddai ei henw.

Mae'r cynigion uchod i gyd yn creu seddi realistig sy'n dilyn ffiniau naturiol ac sydd â chysylltiadau trafnidiaeth a chysylltiadau diwylliannol da, ac maent yn welliant o gymharu â'r cynigion gwreiddiol.

Bydd defnyddio enwau rhanbarthol yn helpu i wahaniaethu rhwng y rhanbarthau etholiadol newydd a seddi presennol San Steffan.

Yr unig anghysondeb yn y trefniant hwn yw ardal Cwm Tawe sy'n parhau i fod ar wahân i ryw raddau. Dyna ganlyniad anffodus y penderfyniad gwael i glymu'r ardal hon

wrth sedd Aberhonddu yn yr adolygiad blaenorol o seddi San Steffan, y dylid ei gywiro adeg yr adolygiad nesaf o ffiniau'r Senedd. Ond mae gadael i'r un anghysondeb hwnnw bennu'r trefniadau ar gyfer pob sedd ar draws y de yn enghraifft berffaith o sefyllfa lle mae un ardal fach yn pennu'r hyn a fydd yn digwydd ar draws ardal eang iawn.

**4438 – Aelod o'r Cyhoedd**

Hoffwn rannu fy marn i am y cynigion.

Byddai'n rhesymol paru Dwyrain Abertawe â Chastell-nedd, ond nid oes gan yr ardal fawr ddim cysylltiadau diwylliannol na hanesyddol â Maesyfed.

Siawns na ddylid paru Maesyfed ag Aberhonddu ac efallai Maldwyn.

Mae'n anodd dychmygu, gyda 96 o aelodau, na fyddai unrhyw aelod unigol yn cynrychioli Ceredigion yn unig. Ac mae hynny'n wir hefyd am Sir Benfro. (Ac mae paru Ynys Môn ag Aberconwy yn ymddangos yn gam rhyfedd; pam na ellir rhoi iddi statws arbennig a rhoi iddi ei hetholaeth ei hun?)

Efallai mai'r ateb yw amrywio ryw ychydig nifer yr aelodau o bob etholaeth, a chreu etholaethau mwy homogenaidd, er y byddai rhai ohonynt yn fwy o faint na'r lleill.

Mae fy nghynnig i'n gwneud mwy o synnwyr o lawer, o ran bod yn homogenaidd o safbwynt hanesyddol, a dyma fe:

Abertawe a Gŵyr
Castell-nedd Port Talbot
Ogwr, Maesteg a Phen-y-bont
Sir Gaerfyrddin a Llanelli
Sir Benfro
Ceredigion
Caerdydd a Phenarth
Y Barri a'r Fro
Casnewydd a Mynwy
Ynys Môn
Dwyfor a Meirionnydd, Eryri (gan gynnwys Caernarfon a Bangor)
Aberconwy a Llandudno, Llandrillo-yn-Rhos
Brycheiniog, Maesyfed a Maldwyn
Clwyd: Wrecsam, Alun a Glannau Dyfrdwy (gan gynnwys y Rhyl, Prestatyn a'r Wyddgrug)
Merthyr, Aberdâr a Chymoedd y Rhondda a Phontypridd a Chaerffili (Cymoedd Morgannwg)

Torfaen, Islwyn a Blaenau Gwent, gan gynnwys Rhymni a’r Coed-duon (Cymoedd Gwent)

Mae gan bob un o’r 16 o etholaethau gysylltiadau hanesyddol a diwylliannol naturiol ac mae llif naturiol yn perthyn iddynt. Byddai mwy o aelodau gan rai ohonynt a byddai llai o aelodau gan eraill, yn seiliedig ar eu poblogaeth.

Cofion cynnes,
[HEPGOR]

**4446 – Aelod o’r Cyhoedd**

Annwyl Gomisiynwyr,

Fy mhrif sylw ynghylch y cynigion cychwynnol yw croesawu’n fawr y cyfuniad o Ddwyrain Casnewydd â Gorllewin Casnewydd ac Islwyn. Nid wyf yn meddwl mai naid yw awgrymu bod Gorllewin Casnewydd, yn adolygiad Senedd y DU, wedi dod i sefyllfa o gael ei gosod yn lletchwith mewn dwy etholaeth oherwydd bod y niferoedd yn ei gwneud yn ofynnol, tra bod rhai o’r cymdogion drwy lwc dda yn bodloni’r meini prawf. Roedd y penderfyniad ar yr achlysur hwnnw yn rhesymegol o ystyried y meini prawf, ond nid oedd y canlyniad yn ddelfrydol ar gyfer hen sedd Gorllewin Casnewydd. Mae’n braf gweld y bydd cynigion etholaeth y Senedd yn aduno dinas Casnewydd.

O ran cynigion yr etholaethau eraill, nid oes gennyf wrthwynebiad i’r hyn a gynigir.

Un agwedd nad wyf yn ei deall mewn gwirionedd yw pam mai cam interim yn unig yw’r dull presennol o gysylltu dwy etholaeth Senedd y DU â’i gilydd. Mae’n fy nharo y byddai dull gweithredu o’r fath yn ffordd resymegol ymlaen yn y tymor hir o ystyried y gofyniad am 16 o etholaethau hyd nes y bydd newidiadau demograffig yn arwain at newid o 32 o seddi San Steffan. Gallai dilyn llwybr gwahanol achosi mwy o ddryswch ynghylch ffiniau gweinyddol.

Diolch am y cyfle i wneud sylwadau,
[HEPGOR]
Casnewydd
[HEPGOR]

**4454 – Aelod o’r Cyhoedd**

Dw i'n byw yn Nhorfaen. Rwy’n meddwl y byddai ymuno â Thorfaen a Sir Fynwy yn drychineb. Eich sail resymegol yw cysylltiadau ffordd da. Mae hynny mor wan. Maent yn 2 ardal hollol wahanol. Rwy’n cynnig Casnewydd a Thorfaen dau ardal sydd yn draddodiadol Lafur a bydd ein rhoi ni ag ardal Geidwadol yn debygol o golygu na fyddwn yn cael ein cynrychioli’n iawn gan aelodau nad ydynt yn deall amddifadedd a

thlodi. Dydw i ddim hyd yn oed yn gwybod sut i gyrraedd Cas-gwent o Bont-y-pŵl. Ydy'r ffyrdd yn dda….

**4456 - David France - Cynghorydd lleol neu swyddog etholedig arall**

Fel Cynghorydd Tref, rwy'n meddwl am sut mae gwahanol lefelau o Lywodraeth yn cydweithio.

Byddai cyfuno Dwyfor Meirionnydd gyda Maldwyn a Glyndŵr yn rhoi gormod o ASau posib i ymdrin â nhw ar unwaith.

Byddai cyfuno Maldwyn a Glyndŵr gyda Wrecsam yn gwneud llawer mwy o synnwyr, gan fod Glyndŵr eisoes yn rhan o Fwrdeistref Sirol Wrecsam. Byddai hyn yn creu Etholaeth Senedd lawer symlach "Maldwyn a Wrecsam".

Mae yna welliant yma hefyd ar faint yr Etholaeth a'r gymysgedd o etholwyr trefol a gwledig.

**4457 - Aelod o'r Cyhoedd**

NID wyf yn cefnogi'r etholaethau arfaethedig am y rhesymau canlynol:

• Mae'n ymddangos bod 40% o Gymru yn cael dim ond 12 aelod o'r Senedd allan o'r 96 - ni all hynny fod yn ddemocrataidd nac yn gynrychioliadol iawn.

• Mae'r pellteroedd y byddai'n rhaid i Aelod o'r Senedd yn un o'r etholaethau mwyaf hyn deithio i ymweld â chymunedau yn llawer rhy fawr, 150km a mwy. Yn yr un modd, mae hyn yn ei gwneud hi'n amhosibl i etholwyr ymweld â chymhorthfa AS o'u dewis.

• Mae'n ddigon drwg y bydd etholwyr yn cael eu drysu ynghylch a ddylid cysylltu ag un neu bob un o 6 AS eu hetholaeth i ofyn am gymorth ynghylch mater, ac na fydd yr ASau hynny'n gwybod a yw eraill yn ymdrin â'r un mater ai peidio, heb yr her ddaearyddol – her sy'n waeth fyth oherwydd y diffyg trafnidiaeth yn yr ardaloedd gwledig mawr hynny. Rydych chi'n dweud eich hunain: "Mae'r Comisiwn o'r farn bod cael cysylltiadau cyfathrebu a theithio clir yn rhan hanfodol o allu darparu ar gyfer cynrychiolaeth effeithiol a chyfleus." NID yw pellteroedd enfawr, hyd yn oed gyda "chlwm", yn gyfleus.

Ac yn benodol:

• Sut mae Brycheiniog a Sir Faesyfed mewn unrhyw ffordd yn gysylltiedig â Dwyrain Abertawe neu'n debyg iddi? Ardal Bwrdd Iechyd wahanol, Sir wahanol, sefyllfa economaidd-gymdeithasol wahanol... dim tebygrwydd o gwbl. Fel y dywedwch, roedd ychwanegu Cwm Tawe i Frycheiniog a Sir Faesyfed yn ddigon dadleuol. Mae ychwanegu rhan o Abertawe yn gwbl anghydweddol.

• Rwy'n nodi eich bod wedi dweud: Mae'r Comisiwn yn credu bod cymunedau Maesteg, Pontycymer ac Ogwr yn y cymoedd yn rhannu'r un ymdeimlad o gymeriad. Mae "rhannu'r un ymdeimlad o gymeriad" wedi'i nodi fel cyfiawnhad dros uno'r

ardaloedd hynny mewn un etholaeth. Gan ddefnyddio'r rhesymeg honno, NI ddylid paru Brycheiniog a Maesyfed â Dwyrain Abertawe, gan nad oes unrhyw rannu'r un ymdeimlad o gymeriad rhwng y ddwy ardal. Mae'r materion ar y naill ben i'r etholaeth arfaethedig a'r llall yn debygol o fod yn gwrthdaro â'i gilydd.

• Lle mae anghydbwysedd enfawr yn y boblogaeth ar draws yr etholaeth arfaethedig, mae'n debygol y bydd ardal y ddinas yn cymryd sylw AS, er anfantais ac esgeulustod i weddill yr etholaeth wledig iawn.

• Sut y gellir disgwyl yn rhesymol i Aelod o'r Senedd gwmpasu ardal sy'n ymestyn tua 100 km? Sut bydd eu costau teithio yn cael eu talu? Sut y gallant rannu eu hamser i ganiatáu cymaint o deithio? Bydd etholwyr yn cael llawer llai o werth gan eu ASau, y bydd eu hamser yn cael ei lyncu gan deithiau.

• Bydd rhai byrddau iechyd, e.e. Powys, yn gorfod ymdrin â llawer gormod o Aelodau'r Senedd – 6 o bob etholaeth sy'n gorgyffwrdd ag ardal y Bwrdd Iechyd. (Mae'n anffodus nad yw amlinellau ardaloedd y GIG wedi'i osod ar y map yn y ddogfen gynigion - yn arbennig gan fod iechyd yn fater datganoledig.)

• Nid yw'r etholaeth arfaethedig yn cyd-ffinio â ffiniau awdurdodau lleol/siroedd chwaith, gan bontio ardaloedd democratiaeth leol hollol wahanol.

• Byddai Maldwyn a Glyndŵr gyda Brycheiniog a Sir Faesyfed wedi gwneud mwy o synnwyr – yn ôl pob golwg byddai hyn yn "amhosib" am i Gwm Tawe a Brycheiniog a Maesyfed, yn ddadleuol, gael eu paru'n flaenorol. Mae'n ymddangos bod y Senedd wedi clymu eich dwylo.

• Mae'r enw arfaethedig anhydrin ar yr etholaeth yn gliw mawr i'w anaddasrwydd fel unrhyw fath o ardal gydlynol!

Nid oedd gostwng i 16 etholaeth a orfodwyd gan y Senedd byth am wella democratiaeth leol na helpu pobl i deimlo mwy o gysylltiad â Llywodraeth Cymru, ond mae eich cynigion o ran ffiniau yn peri anawsterau ymarferol go iawn i'r ardaloedd etholaethol newydd mwyaf, a byddant yn sicr yn rhoi pobl yn yr etholaethau enfawr hynny o dan anfantais.

Rwy'n credu bod angen eu diwygio.

[HEPGOR]

**4460 – Aelod o'r Cyhoedd**

Dyma fy sylwadau ar y syniad gwirion rydych wedi ei greu. Mae hyn cynddrwg â'r syniad 20 mya.

1. Yr enw yw ...

Enw Saesneg ....Bangor

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
Democracy and Boundary Commission Cymru

Enw ardal Cymraeg... sef Aberconwy ac Ynys Môn...

Yn hanesyddol gallai rhywun alw rhan o'r ardal newydd hon yn Ddwyrain Gwynedd. Roedd Gwynedd unwaith yn cwmpasu Gogledd Cymru i gyd. Yn fwy diweddar roedd y ffin ym Mochdre...heddiw yn Llanfairfechan mae hi.

Ni ellir defnyddio Gwynedd i gynnwys Ynys Môn. Nid Gwynedd yw Ynys Môn. Mae hyd yn oed y rhan fwyaf o fy nghyfeiriadau post sothach yn dweud mai Gwynedd yw Ynys Môn. Nid yw hynny'n wir. Fy enw canol yw ALUN ond ni all y di-Gymraeg ynganu'r 'u' anweledig yn yr enw hwnnw felly Alan, Allan, Allen ac ati ydyw.

Ni fydd Celtiaid Ynys Môn a aned ar yr ynys neu unrhyw le arall yng Nghymru yn derbyn hyn o gwbl.

Awgrymaf ichi ymestyn amser y drafodaeth o ddiwedd y mis hwn i, wel, 10 mlynedd. Mae mis mor chwerthinllyd ag 20 mya !

Pa ffordd bynnag yr edrychwch arno nid oes unrhyw enw hanesyddol y gallech ei ddefnyddio neu ei addasu fel enw addas ar gyfer yr ardal hon. Ydw i'n gywir?

Trosglwyddwyd rhan helaeth o Wynedd i Aberconwy 24 mlynedd yn ôl i ddarparu incwm ychwanegol iddynt. Collwyd y cyfan ar gytundebau les gwirion gan Gonwy. Hanner can mlynedd yn ôl cafodd Cyngor Bwrdeistref Arfon ei ddileu ychydig flynyddoedd ar ôl ei greu. Rhoddwyd asedau eiddo a thir i Gyngor Gwynedd. Oes yna asedau am gael eu trosglwyddo yn ôl i Fangor felly? Os felly bydd eu hangen. Efallai hefyd y dylid rhoi'r hen Goleg Technoleg ar Ffordd Ffriddoedd Bangor, sy'n gyfanswm o 25 erw, a hen Ysgol Friars gyda 4 erw o dir cyfagos, yn ôl i'r gymuned hefyd. Nid oes eu hangen ar Landrillo Menai nawr gan fod campws newydd bellach ym Mharc Menai sydd ddim ym Mangor gyda llaw. Felly, dylai'r rhodd hon o'r gorffennol y talwyd amdani gan ein cyndeidiau sydd bellach wedi marw gael ei rhoi yn ôl, os gwelwch yn dda!

Gan droi yn ôl at yr enw newydd...

Gallai rhywun gyfuno llythrennau o bob enw...

h.y. BA AC YM neu AC BA YO

Syniad diffygiol o'r cychwyn, tybiaf i.

Gallem ddefnyddio cyfenwau aelodau'r Cynulliad...neu Gymry enwog...

DRAKEFORD

GETHING

DYLAN

RHYS

Hmmmm...ddim yn gweithio, nad ydy?

Mae'n rhaid bod iddo gysylltiad hanesyddol sy'n gysylltiedig â chymunedau'r gorffennol neu leoedd daearyddol adnabyddus o fewn y deyrnas neu'r sir neu'r cantref newydd hwn.

Yn ystod ail ymosodiad y Rhufeiniaid ar Ynys Môn ac ychydig ddyddiau cyn iddynt lanio'n amffibaidd ar draws y Fenai fe wnaethant ladd cymuned Dinorwig.. un gaer ddinesig a oedd yn perthyn i lwyth yr Ordoficiaid a reolai'r rhan honno o Ogledd Cymru yr holl ffordd i lawr yr hen A5 ... Roedd Ynys Môn yn lle ar ei phen ei hun bryd hynny hefyd. Bryd hynny roedd pobl o bob rhan o Ewrop, a oedd wedi ffoi rhag y Rhufeiniaid, yn byw yno. Teimla rhai haneswyr mai bwriad yr ymosodiad hwn ar Ynys Môn oedd cael ychydig o lengoedd Rhufeinig profiadol allan o ardal Buddug yn ne Lloegr heddiw ond tiroedd Celtaidd bryd hynny er mwyn caniatáu iddi hi a'i milwyr ladd y Rhufeiniaid. Bu bron i'r cynllun weithio ond, mae yna wastad 'ond' mewn hanes.

Roedd y Rhufeiniaid wedi methu â gwerthfawrogi grym y bobl leol bryd hynny, fel y Cynulliad Cenedlaethol heddiw.

Mae angen i chi siarad â'r bobl sy'n byw yma yn gyntaf a chael eu mewnbwn hwy neu fe fydd hi'n foment 'ond' i chi hefyd yn enwedig pan fydd y llywodraeth yn Llundain yn cynhyrfu gweddill y gymuned Brydeinig.

**4465 – Aelod o'r Cyhoedd**

Diddymu gosod 36 MS ychwanegol ar ein gwlad annwyl a gadael y ffiniau fel y maent. Mae'r gorfodi hwn yn gam arall gan y Senedd a reolir gan Lafur i gadw mwyafrif Llafur ond hefyd i gael llai o waith i'w wneud.
Nid yw pobl Cymru eisiau hyn! Dim ond Plaid, gan eu bod yn ei weld fel cam yn nes at annibyniaeth a'r Blaid Lafur oherwydd eu bod yn unbeniaid grymus yn wallgof ac yn ddirywiaid twyllodrus sydd eisiau hyn. Stopiwch hyn nawr a buddsoddwch yr arian mewn addysg a GIG Cymru!

**4466 – Aelod o'r Cyhoedd**

Cytunaf â'r newid yn yr etholaethau a'u henwau arfaethedig.

Rwy'n anghytuno â'r defnydd arfaethedig o 'restrau caeedig' wrth bleidleisio, fel mai dros blaid yn hytrach nag ymgeisydd y byddem yn pleidleisio. Rwy'n cymryd y bydd

hynny'n rhan o ymgynghoriad yn y dyfodol, ond rwyf am gofrestru fy ngwrthwynebiad i hyn yn awr.

**4471 – Aelod o'r Cyhoedd**

Hoffwn roi rhai sylwadau cryno ynghylch y cynnig ymgynghori a gyhoeddwyd ddoe. Nid wyf yn gwneud hynny fel aelod o unrhyw blaid wleidyddol ond fel rhywun sydd wedi byw, gweithio a theithio ar hyd a lled Cymru dros nifer o flynyddoedd.

Yn amlwg mae gennych dasg anodd ond rwy'n meddwl ar y cyfan eu bod yn gynigion rhesymol gan gynnwys ar gyfer y pedair etholaeth yng Nghaerdydd. Yn amlwg yr ardaloedd gwledig fydd yn achosi'r problemau mwyaf ichi, yn enwedig yn y Canolbarth.

Mae'n debyg mai'r allwedd yw gefeillio Bangor Aberconwy gydag Ynys Môn. Gan fod yr unig ddwy bont o'r ynys yn diweddu yn ardal Bangor, mae'n ymddangos mai ychydig o ddewis sydd genych yn y mater. Unwaith y caiff hyn ei dderbyn, yna mae gweddill gogledd Cymru (i'r dwyrain o Landudno) yn disgyn i'w lle yn weddol daclus.

Mae etholaeth Dwyfor Meirionnydd yn amlwg wedi bod yn destun cryn dipyn o ystyriaeth i chi. Diolch am gyfaddef eich bod wedi ystyried opsiwn arall - gefeillio hon gyda Cheredigion ac ati a Maldwyn Glyndŵr gyda Brycheiniog Maesyfed ac ati. Rydych yn dweud y byddai'r ddwy wedi bod yn etholaethau mawr iawn. Byddai hyn yn amlwg wedi bod yn wir ond mae opsiwn arfaethedig Dwyfor Meirionnydd a Maldwyn Glyndŵr hefyd yn etholaeth enfawr ac yn brin o gydlyniant cymunedol yn fy marn i. Nid yw cysylltu Aberdaron â'r Ystog ar hyd y ffin â Lloegr, er enghraifft, yn gwneud fawr o synnwyr yn fy marn i.

Mae diwylliant a defnydd uchel o'r Gymraeg yn ffactor allweddol. O gymryd hyn i ystyriaeth ynghyd â materion economaidd-gymdeithasol, gan gynnwys pwysigrwydd twristiaeth a chanran yr ail gartrefi, mae Dwyfor Meirionnydd yn cyd-fynd yn llawer gwell â Cheredigion ac ati.
Mae'r A487 brysur o Ddolgellau i lawr i Ogledd Sir Benfro, yr holl ffordd ar hyd Bae Ceredigion, yn gyswllt pwysig.

Ar y llaw arall, dylai diwylliant unigryw y gororau a'r defnydd isel o'r Gymraeg ym Mhowys fod yn ffactor allweddol hefyd. Mae cynnal un etholaeth o fewn ardal Cyngor Sir ac Awdurdod Iechyd Powys yn amlwg yn ddymunol yn enwedig gan fod rhai trigolion yn derbyn rhai gwasanaethau meddygol dros y ffin. Er eu bod dros gryn bellter, mae cysylltiadau ffordd da o fewn Powys - A483 Llanfair-ym-Muallt i'r gogledd i ardal Glyndŵr ac wrth gwrs mae'r A470 yn rhedeg i'r de o ardal Llanbrynmair heibio i Aberhonddu i Gaerdydd. Felly teimlaf y byddai gefeillio Maldwyn Glyndŵr â Brycheiniog Maesyfed yn ffit llawer mwy naturiol.

Gobeithio y byddwch felly, yn barchus, yn ystyried eto eich opsiwn gwreiddiol o efeillio Dwyfor ac ati gyda Cheredigion ac ati a Maldwyn ac ati gydag Aberhonddu ac ati.

Rwy'n gwerthfawrogi y bydd hyn hefyd yn golygu ailystyried eich cynigion ar gyfer de-orllewin Cymru ond byddai hyn yn rhoi'r cyfle i gadw dwy etholaeth Abertawe gyda'i gilydd, rhywbeth yr wyf yn amau y byddai'n cael ei groesawu yn y Ddinas.

Gobeithiaf fod hyn o gymorth. Gofynnaf i chi fy rhoi ar eich rhestr bostio i gael diweddariadau drwy e-bost.

Diolch yn fawr

[HEPGOR]

**4472 – Aelod o'r Cyhoedd**

Annwyl Gomisiynwyr,

Ar ran aelodau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol (BAME) Llafur Cymru, hoffwn ddarparu ein hymateb i Gynigion Cychwynnol Arolwg 2026 o Etholaethau'r Senedd, gan ganolbwyntio'n benodol ar sut mae'r newidiadau hyn yn effeithio ar gymunedau allweddol yng Nghaerdydd, Casnewydd, Abertawe, a Wrecsam.

Rydym yn canmol y Comisiwn am y dull manwl a meddylgar o fynd ati i adlinio'r etholaethau. Mae'r agweddau canlynol ar y cynigion yn adlewyrchu newidiadau cadarnhaol sy'n mynd i'r afael â phryderon hirsefydlog ynghylch cynrychiolaeth ethnig leiafrifol:

Agweddau Cadarnhaol Allweddol:

Casnewydd ac Islwyn (Newport and Islwyn):
Rydym yn falch o weld Casnewydd yn uno o dan un etholaeth y Senedd. Mae gan Gasnewydd un o'r crynodiadau uchaf o gymunedau BAME, gyda phoblogaethau sylweddol o dreftadaeth De Asiaidd ac Arabaidd. Drwy gadw'r cymunedau hyn gyda'i gilydd mewn un etholaeth, gall Aelodau o'r Senedd barhau i wasanaethu'r poblogaethau amrywiol hyn yn effeithiol a chefnogi cynrychiolaeth ethnig leiafrifol.

Dwyrain a Gogledd Caerdydd (Cardiff East and North):
Bydd cyfuno Dwyrain a Gogledd Caerdydd yn uno cymdogaethau â phoblogaethau BAME sylweddol. Gan gofio mai Caerdydd sydd â'r crynodiad uchaf o gymunedau ethnig leiafrifol yng Nghymru, mae'r etholaeth hon yn cynnig cynrychiolaeth fwy

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
Democracy and Boundary Commission Cymru

cydlynol i'r grwpiau amrywiol hyn, gan sicrhau bod eu hanghenion a'u lleisiau'n cael eu clywed yn y Senedd.

Alun, Glannau Dyfrdwy a Wrecsam (Alyn, Deeside and Wrexham):
Mae cyfuno Wrecsam gydag Alun a Glannau Dyfrdwy yn welliant sylweddol arall. Mae Wrecsam yn gartref i boblogaeth ethnig leiafrifol gynyddol, gan gynnwys cymunedau o Ddwyrain Ewrop a chymunedau Asiaidd. Bydd y cynnig yn hwyluso gwell ymgysylltiad a chynrychiolaeth ar gyfer y grwpiau hyn.

Gorllewin Abertawe a Gŵyr (Swansea West and Gower):
Mae etholaeth arfaethedig Gorllewin Abertawe a Gŵyr yn creu cysylltiad clir rhwng dwy ardal allweddol lle mae llawer o grwpiau ffydd, diwylliannol ac ethnig leiafrifol yn byw. Mae'r cymunedau hyn yn gyfranwyr hanfodol i hunaniaeth Abertawe, ac mae'r etholaeth gydlynol hon yn caniatáu cynrychiolaeth a chefnogaeth barhaus.

Fel preswylydd yn Abertawe, rwy'n credu'n gryf ac yn argymell y dylai etholaeth arfaethedig Gorllewin Abertawe a Gŵyr gael ei hailenwi'n naill ai:
• Canol Abertawe a Gŵyr, neu
• Abertawe a Gŵyr.
Mae'r argymhelliad hwn yn seiliedig ar nifer o ystyriaethau pwysig:
Adlewyrchiad o Newidiadau Demograffig:
Yn ystod y newidiadau diweddar i ffiniau seneddol, unwyd dwy ran o dair o Ddwyrain Abertawe â Gorllewin Abertawe. O ganlyniad, nid yw ffin bresennol Gorllewin Abertawe bellach yn adlewyrchu'n gywir yr ardaloedd penodol yn y ddinas. Byddai ailenwi'r etholaeth yn Canol Abertawe yn dal ardaloedd cyfunol Dwyrain a Gorllewin Abertawe yn well, gan adlewyrchu'r ddemograffeg ehangach y mae'r etholaeth yn ei chwmpasu bellach. Fel arall, byddai defnyddio Abertawe a Gŵyr yn unig yn darparu enw clir a chynhwysol sy'n adlewyrchu'r ddinas gyfan a'r ardal gyfagos.
Osgoi Dryswch:
Nid yw defnyddio'r enw Gorllewin Abertawe bellach yn cynrychioli cyfansoddiad yr etholaeth newydd yn gywir a gallai arwain at ddryswch ymhlith trigolion a rhanddeiliaid. Byddai enw fel Canol Abertawe neu Abertawe a Gŵyr nid yn unig yn egluro cwmpas daearyddol yr etholaeth ond byddai hefyd yn cyd-fynd â dealltwriaeth y cyhoedd o'r newidiadau, gan sicrhau cyfathrebu clir rhwng cynrychiolwyr etholedig a'u hetholwyr.
Cydweddu â Hunaniaeth Leol:
Mae Abertawe yn ddinas ag ymdeimlad cryf o hunaniaeth, ac mae ei hardal ganolog yn chwarae rhan hanfodol ym mywydau trigolion o bob cefndir, gan gynnwys y rhai o gymunedau ethnig leiafrifol. Byddai enw mwy cynhwysol fel Canol Abertawe a Gŵyr neu Abertawe a Gŵyr yn adlewyrchu cymeriad a chydlyniant y ddinas a'i chymunedau cyfagos yn well.
Wrth wneud yr argymhelliad hwn, credaf fod gan y Comisiwn gyfle i sicrhau bod enw'r etholaeth newydd yn adlewyrchu ei realiti daearyddol a hunaniaeth ei thrigolion amrywiol.

Pryderon a Chyfleoedd ar gyfer Gwelliant Pellach:

Er bod y newidiadau arfaethedig hyn yn gadarnhaol ar y cyfan, mae meysydd allweddol lle mae angen ystyriaeth bellach i sicrhau bod y broses o ail-lunio ffiniau yn adlewyrchu'n llawn bwysigrwydd cynrychiolaeth BAME yn y Senedd.

Cynrychiolaeth Gyfrannol:
Er bod yr etholaethau hyn yn gartref i boblogaethau ethnig leiafrifol mawr, rydym yn pryderu bod tangynrychiolaeth yn parhau. Mae angen ymdrechion ar y cyd gan bleidiau gwleidyddol, gan gynnwys Llafur Cymru, i flaenoriaethu ymgeiswyr BAME mewn seddi y gellir eu hennill yn yr etholaethau newydd hyn. Mae'r ffiniau yn rhoi'r cyfle; yn awr mae'n rhaid i ni sicrhau bod gan ymgeiswyr BAME fynediad at y cyfleoedd hyn.

Cydlyniant Cymunedol:
Wrth ichi symud ymlaen â'r broses ymgynghori, gofynnwn i'r Comisiwn barhau i ystyried pwysigrwydd cynnal cydlyniant cymunedol o fewn etholaethau. Mae cymunedau BAME, yn enwedig mewn ardaloedd fel Caerdydd, Abertawe a Chasnewydd, yn ffynnu pan gânt eu cynrychioli ar y cyd. Dylai unrhyw newidiadau pellach i ffiniau ystyried hyn.

Syniadau Terfynol:
Gwerthfawrogwn y cyfle i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad hwn a chymeradwywn y Comisiwn am ei waith ar greu cynrychiolaeth decach ar gyfer cymunedau amrywiol Cymru. Gobeithiwn y bydd pleidiau gwleidyddol a'r Senedd yn defnyddio'r cyfle hwn i hybu nodau cynwysoldeb ac amrywiaeth mewn arweinyddiaeth. Mae'r etholaethau newydd hyn, yn enwedig y rhai sydd â phoblogaethau BAME sylweddol, yn cynnig llwybr clir i wella cynrychiolaeth yn unol â Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol 2030 Llywodraeth Cymru.

Rydym wedi ymrwymo i gefnogi'r broses hon ac yn parhau i fod yn agored i ddeialog bellach wrth i'r adolygiad fynd rhagddo.

Yn gywir,
[HEPGOR]

**4473 - Sketty Mosque - Ar ran sefydliad (preifat neu gyhoeddus)**

Annwyl Gomisiynwyr,
Rydym yn ysgrifennu ar ran Mosg a Chanolfan Gymunedol Sgeti, Clwb Ieuenctid Sgeti, a Lolfa De Sgeti (Clwb 50+ Oed) i argymell yn gryf ailenwi etholaeth arfaethedig Gorllewin Abertawe a Gŵyr i Canol Abertawe a Gŵyr neu Abertawe a Gŵyr.
Fel yr unig sefydliad Mwslimaidd ar ffin Gŵyr, mae ein cymuned yn rhychwantu Gorllewin Abertawe a Gŵyr. Rydym yn cynrychioli dros 800 o aelodau o'r gymuned Fwslimaidd, ac mae tua thraean ohonynt wedi'u lleoli yng Ngŵyr a dwy ran o dair yng Ngorllewin Abertawe. Mae'r aelodau hyn yn dibynnu arnom ni am gyllid, ymgynghori, gwaith achos, cymorth, cwnsela lles, a gwasanaethau priodas, angladdau ac eiriolaeth.

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
Democracy and Boundary Commission Cymru

Rhesymau Allweddol dros Ailenwi'r Etholaeth:
1. Cynrychiolaeth Well i'n Cymuned: Drwy gyfuno Gorllewin Abertawe a Gŵyr yn un etholaeth dan enw mwy cydlynol fel Canol Abertawe a Gŵyr neu Abertawe a Gŵyr, bydd yn caniatáu inni weithio'n agosach gydag aelodau ein cymuned. Nid yw'r enw presennol yn adlewyrchu'n llawn wasgariad daearyddol y boblogaeth, na'r cysylltiad hanfodol rhwng y ddwy ardal yma.
2. Mwy o Fynediad at Gyllid a Chymorth: Mae llawer o'n haelodau — yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â Lolfa De Sgeti, lle mae 85% o'r cyfranogwyr yn 50+ oed — wedi'u lleoli yng Ngŵyr. Drwy uno'r ardaloedd hyn, gallwn symleiddio ein hymdrechion i sicrhau cyllid a gwasanaethau cymorth angenrheidiol i'r unigolion hyn, y mae eu hangen am adnoddau a chymorth wedi'u targedu yn fawr.
3. Sicrhau Eglurder a Lleihau Dryswch: Byddai'r enw Canol Abertawe a Gŵyr neu Abertawe a Gŵyr yn adlewyrchu realiti demograffig ein cymuned yn well ac yn atal dryswch. Bydd yr eglurder hwn yn helpu o ran allgymorth cymunedol, ceisiadau am gyllid, a darparu gwasanaethau, gan sicrhau bod poblogaethau trefol a gwledig yn cael eu cynrychioli o dan un etholaeth unedig.
Fel sefydliadau sy'n gwasanaethu'r boblogaeth amrywiol a deinamig hon, credwn yn gryf fod ailenwi'r etholaeth yn hanfodol i wella gwasanaethau eiriolaeth a chymorth i'n haelodau, yn enwedig ar gyfer yr henoed a grwpiau bregus sy'n dibynnu'n helaeth ar ein gwasanaethau.
Rydym yn gwerthfawrogi ystyriaeth y Comisiwn o'n hargymhelliad ac yn croesawu unrhyw ymgysylltiad pellach i drafod sut y gall y newid arfaethedig hwn wasanaethu ein cymuned orau.
Yn gywir,
Rheolwyr ac Ymddiriedolwyr

Ar ran Mosg a Chanolfan Gymunedol Sgeti,
Clwb Ieuenctid Sgeti, a Lolfa De Sgeti (Clwb 50+ oed)
Heol Parc Sgeti, Sgeti
Abertawe – SA2 9AS

**4475 – Aelod o'r Cyhoedd**

Ydych chi'n cytuno ag etholaethau arfaethedig y Comisiwn? Ydw
Ydych chi'n gallu darparu rhagor o wybodaeth neu gynnig arall? Ydw

Gweler y ddogfen sydd ynghlwm ar gonfensiynau enwi byrrach, newydd

Cynnig Confensiwn Enwi Nodweddion Naturiol
Annwyl Gomisiwn Ffiniau i Gymru,

Hoffwn i ddiolch i chi am yr hyn sy'n edrych fel gwaith heriol o ran creu'r etholaethau newydd hyn, er mwyn sicrhau bod gan bobl Cymru system bleidleisio fwy cyfrannol yn 2026.

O ystyried maint llawer o'r etholaethau hyn, credaf fod y confensiynau enwi sy'n gysylltiedig â nhw yn mynd yn or-gymhleth. Er enghraifft, gallai Dwyfor Meirionydd a Sir

Drefaldwyn a Glyndŵr fod yn or-feichus fel enw, ond hefyd i'r cynrychiolwyr ymrwymo iddynt gyda balchder fel gyda'r system flaenorol. Mae llawer o Aelodau o'r Senedd ac Aelodau Seneddol yn mynegi lefel o falchder yn yr ardaloedd maen nhw'n hanu ohonynt ac yn falch o'u cynrychioli. Mae hefyd yn fwy cyfleus wrth drafod materion yn eu hetholaeth eu hunain yn y Siambr.

A gaf i awgrymu bod confensiynau enwi newydd yn cael eu mabwysiadu ar gyfer y Senedd newydd, er enghraifft, yn lle Dwyfor Meirionydd a Sir Drefaldwyn a Glyndŵr, bod yr etholaeth yn cael ei henwi'n "Aran-Cambria" neu "Eryri-Cambria" gan fod hyn yn crynhoi dwy nodwedd naturiol helaeth o fewn etholaeth sydd yr un mor eang.

Yn wir, gall nodweddion naturiol mawr neu nodedig sy'n rhedeg drwy'r etholaeth hefyd ddatrys y broblem o enwau cynyddol hir. Gallai'r rhain gynnwys mynyddoedd, afonydd, dyffrynnoedd, penrhynoedd arfordirol neu, mewn rhai achosion, lle bo'n fwy priodol, cadw eu henwau sir hanesyddol megis Sir Gaerfyrddin/Caerfyrddin.

Cynigir enwau isod ar gyfer pob un o'r 16 etholaeth newydd ond, mewn gwirionedd, rwy'n gobeithio y bydd yr ymateb hwn yn ysgogi sgyrsiau ar gonfensiynau enwi, sy'n fwy priodol i natur fyrrach lleferydd ar-lein ac yn y byd modern heddiw.

1. Bangor, Aberconwy, Ynys Môn
• Enw Arfaethedig: Eryri-Menai
• Rhesymu: Yn ymgorffori Eryri ac Afon Menai, y ddwy nodwedd ddaearyddol amlwg yn yr ardal.
2. Alyn, Glannau Dyfrdwy a Wrecsam
• Enw Arfaethedig: Clywedog-Alun
• Rhesymu: Yn ymgorffori Afon Clywedog yn Wrecsam ac Afon Alun, nodweddion naturiol amlwg yn y rhanbarth.
3. Dwyfor Meirionnydd, Sir Drefaldwyn a Glyndŵr
• Enw Arfaethedig: Aran-Cambria
• Rhesymu: Wedi'i enwi ar ôl Aran Fawddwy, un o'r copaon uchaf yn ne Eryri, a Mynyddoedd Cambria, sy'n ymestyn drwy Sir Drefaldwyn.
4. Ceredigion a Sir Benfro (uno Ceredigion Preseli a Chanol a De Sir Benfro)
• Enw Arfaethedig: Preseli-Teifi
• Rhesymu: Yn ymgorffori Mynyddoedd Preseli yn Sir Benfro ac Afon Teifi yng Ngheredigion.
5. Gorllewin Abertawe a Gŵyr
• Enw Arfaethedig: Gŵyr-Tawe
• Rhesymu: Yn cyfuno Penrhyn Gŵyr ac Afon Tawe, sy'n llifo drwy Abertawe.
6. Aberhonddu, Maesyfed, Castell-nedd a Dwyrain Abertawe (uno Aberhonddu, Maesyfed a Chwmtawe, a Chastell-nedd a Dwyrain Abertawe)
• Enw Arfaethedig: Bannau-Tawe
• Rhesymu: Mae "Bannau" yn cyfeirio at Fannau Brycheiniog, ac mae Tawe yn cyfeirio at Afon Tawe yn Abertawe.
7. Aberafan Maesteg, Rhondda ac Ogwr
• Enw Arfaethedig: Cynon-Afan
• Rhesymu: Yn ymgorffori Afon Cynon, sy'n llifo drwy Gwm Rhondda, a Chwm Afan.

8. Merthyr Tudful, Aberdâr a Phontypridd
• Enw Arfaethedig: Bannau-Taf
Rhesymu: Yn adlewyrchu'r agosrwydd at Fannau Brycheiniog ac Afon Taf, sy'n llifo drwy'r rhanbarth hwn.
9. Blaenau Gwent, Rhymni a Chaerffili
Enw Arfaethedig: Rhymni-Sirhywi
Rhesymu: Wedi'i enwi ar ôl Afon Rhymni a Dyffryn Sirhywi, sy'n nodweddion naturiol amlwg yn y rhanbarth hwn.

**4476 – Aelod o'r Cyhoedd**

Dwi'n credu bod y map daearyddol yn dderbyniol, ond rwy'n teimlo'n gryf y dylid cael enw uniaith Gymraeg ar gyfer pob etholaeth. Mae hyn wedi dod yn arfer poblogaidd yn ddiweddar. Rydych wedi dweud wrth y BBC "ble mae modd". Mae "modd" ym mhob man!

**4483 – Aelod o'r Cyhoedd**

Er fy mod yn cytuno â'r cynigion mewn egwyddor, a gaf i awgrymu eich bod yn dilyn traddodiad canrifoedd oed ac yn rhoi Gogledd a De o flaen Dwyrain a Gorllewin yn enwau'r etholaeth; e.e. Gogledd a Dwyrain Caerdydd.

**4495 - George Etheridge - Cynghorydd lleol neu swyddog etholedig arall**

Gwallgofrwydd yw gosod Casnewydd gydag Islwyn gan nad oes gan Gasnewydd ddim byd yn gyffredin ag etholaeth Islwyn yn y cymoedd. Byddai rhoi Islwyn a Chaerffili gyda'i gilydd yn gwneud mwy o synnwyr gan eu bod o dan yr un fwrdeistref sirol a byddent yn cael eu gwasanaethu'n well. Mewn camau diweddar i newid ffiniau seneddol mae eisoes wedi ei brofi bod hyn yn ddrwg gan nad oes gan yr AS ddiddordeb yn Islwyn o gwbl ac nid oes ganddynt ddealltwriaeth o anghenion yr etholaeth. Rydyn ni bob amser yn cael ein brwsio o'r neilltu fel arfer a chawn ein anghofio, ac mae angen iddo stopio.

**4497 – Aelod o'r Cyhoedd**

Ni ddylai'r Comisiwn fod yn cyfiawnhau'r seddi newydd ar sail cysylltiadau ffyrdd. Mae Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yn glir ynghylch cymhwyso hierarchaeth drafnidiaeth – felly dylid defnyddio llwybrau cerdded, bysiau a threnau, nid cysylltiadau ffyrdd. Felly dylid uno Dwyrain Casnewydd a Thorfaen gyda'i gilydd yn seiliedig ar reilffordd y Gororau, Sir Fynwy a Brycheiniog, Cwm Tawe a Maesyfed ar sail bws rhif 50 fel enghraifft.

**4509 – Aelod o'r Cyhoedd**

Rwy'n credu y dylem gael ein cynnwys gyda Bro Morgannwg.

**4517 – Aelod o'r Cyhoedd**

Mae creu etholaeth sy'n cwmpasu Sir Drefaldwyn (canolbarth Cymru) gyda rhannau helaeth o ogledd Cymru yn hollol dwp. Mae gwahaniaethau aruthrol mewn cymaint o ardaloedd rhwng canolbarth a gogledd Cymru. Mae'r ffermio yn wahanol; mae'r economi yn hollol wahanol, ac, wrth edrych ar iaith, mae'r Gymraeg yn wahanol iawn.

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
Democracy and Boundary Commission Cymru

Byddai'r system sy'n cael ei gorfodi arnom ni (rhestr gaeedig) yn torri unrhyw gysylltiad rhwng pleidleiswyr a chynrychiolwyr. Yr unig reswm am hyn yw er mwyn cadw’r blaid Lafur mewn grym. Mae’n gwbl annemocrataidd.

**4530 - Aelod o’r Cyhoedd**

Er gwaethaf cymeradwyaeth Comisiynydd y Gymraeg i’r cyfieithiad, awgrymaf fersiwn Gymraeg lai trwsgl ar gyfer Gorllewin Caerdydd (Gorllewin Caerdydd, De a Phenarth): Penarth, Gorllewin a De Caerdydd.

**4582 – Aelod o’r Cyhoedd**

Uno Gorllewin Caerdydd gyda Gogledd Caerdydd a Dwyrain Caerdydd gyda De Caerdydd a Phenarth. Am y rhesymau canlynol;

1. Mae gan Orllewin a Gogledd Caerdydd gysylltiadau ffordd da, ac mae ganddyn nhw hefyd gysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus da iawn. Mae Rheilffordd y Cymoedd yn teithio trwy Ogledd Caerdydd yna Gorllewin Caerdydd ac yn ôl i Ogledd Caerdydd. O dan y cynnig newydd hwn nid yw rheilffordd y Cymoedd yn cael ei thorri drwy ddwy etholaeth wahanol. Mae hyn yn galluogi teithio drwy'r etholaeth mewn modd ecogyfeillgar.

2. Ychwanegwyd Pont-y-clun i Orllewin Caerdydd a Ffynnon Taf i Ogledd Caerdydd. Yn ddiwylliannol byddai'n fuddiol cynnwys dwy ardal Rhondda Cynon Taf yn yr un etholaeth.

3. Gan fod nod i ddefnyddio enwau Cymraeg yn unig ar gyfer etholaethau lle bo modd, mae cyflythreniad 'Gogledd a Gorllewin' a 'Dwyrain a De' yn ei gwneud hi'n haws i rai nad ydynt yn rhugl yn y Gymraeg ynganu'r ardaloedd.

4. Mae hen sedd Canol Caerdydd wedi ei hollti rhwng De Caerdydd a Phenarth a sedd newydd Dwyrain Caerdydd. O uno De Caerdydd a Phenarth gyda Dwyrain Caerdydd byddai cyn sedd Canol Caerdydd mewn un etholaeth.

**4586 – Aelod o’r Cyhoedd**

Nid Aberhonddu ydy’r cyfieithad cywir am Brecon. Brycheiniog yw’r term cywir am yr etholaeth wreiddiol.
Brycheiniog a Maesyfed oedd yr enw cywir am yr hen etholaeth o Brecon and Radnor. A wnewch chi sicrhau taw Brycheiniog nid Aberhoddu yw’r ffurf gywir ar yr etholaeth.

**4608 – Aelod o’r Cyhoedd**

Rwy'n cefnogi'r angen i roi enw uniaith Gymraeg ar bob etholaeth.

**4610 – Aelod o’r Cyhoedd**

Mae Ynys Môn yn wahanol iawn i Wynedd a Chonwy, nid yw'n gwneud unrhyw synnwyr eu cyfuno.

[HEPGOR]

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
Democracy and Boundary Commission Cymru

**4618 - Elwyn Vaughan - Cynghorydd lleol neu swyddog etholedig arall**

Carwn fel Cynghorydd Sir ym Maldwyn yn gyntaf gadarnhau fy nghefnogaeth i'r awgrym o efeillio Meirionnydd a Dwyfor efo Maldwyn a Glyndwr. Mae nifer o resymau o blaid hyn gan gynnwys:

• hanes hir diwylliannol ee mae Eisteddfod Powys yn symud yn flynyddol ac yn cynnwys Bala a Corwen ynghyd a Maldwyn a Rhos oddi fewn y dalgylch
• mae Cymdeithas Defaid Mynydd yn un Maldwyn a Meirion
• Mae ffermwyr Gogledd Maldwyn yn mynd i farchnad Dolgellau pob Gwener
• yr un cwmni cydweithredol amaethyddol sy efo marchnadoedd Machynlleth Dolgellau a Bala
• mae rhai ar y ffin yn Nyffryn Dyfi yn defnyddio gwasanaethau cyhoeddus yn y naill ochr y ffin Powys/Gwynedd
• mae rhai o ardaloedd ee Llanbrynmair yn mynd i Borthmadog i neud siopa mawr
• yr un yw'r heriau gwledig yn y ddwy ardal
• wrth gwrs mae hanes Owain Glyndwr yn uno Glyndyfrdwy a Corwen efo Machynlleth Sycharth a Llansilin
• does dim byd yn gyffredin efo Maldwyn a Wrecsam

Yr unig awgrym sy gen i ydy hwyluso yr enw i'r ardal newydd i - Gwynedd a Gogledd Powys

Byddai hyn hefyd yn eich helpu wrth ystyried yr enw ar gyfer etholaeth Brycheiniog a Maesyfed......... Awgrymaf dylid defnyddio De Powys. Cwm Nedd a Tawe

Yn gywir

Cyng Elwyn Vaughan

**4620 – Aelod o'r Cyhoedd**

Dwyfor Meirionnydd, Maldwyn a Glyndŵr

Bore da,
Ysgrifennaf atoch i gadarnhau fy nghefnogaeth i'r etholaeth arfaethedig hon ar sail:
1. Llwybrau masnach a chysylltiadau hanesyddol rhwng y dwyrain a'r gorllewin
2. Ardal gwbl wledig gyda phrif dref Y Trallwng yn dref farchnad sy'n cyd-fynd yn berffaith â threfi marchnad llai Dolgellau, Machynlleth, Y Drenewydd, Y Bala.

Yn gywir
[HEPGOR]

**4637 – Aelod o'r Cyhoedd**

Caerfyrddin

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
Democracy and Boundary Commission Cymru

Hoffem weld “Caerfyrddin” yn hytrach na “Carmarthenshire” am yr Etholaeth newydd, neu o leia “Caerfyrddin a Llanelli”, os ydi yn amhosib.

**4640 – Aelod o’r Cyhoedd**

Bore da,

Dyma rannu fy sylwadau ar gyfer yr ymgynghoriad.

1. Bangor Aberconwy Ynys Môn: Dylech ystyried defnyddio'r enw uniaith "Aberconwy, Môn a Menai" fel enw amgen i'r etholaeth.
2. Dwyfor Meirionnydd, Maldwyn a Glyndŵr: Dylech ystyried defnyddio'r enw uniaith "Gwynedd a Gogledd Powys" fel enw amgen ar gyfer yr etholaeth.
3. Sir Gaerfyrddin: Dylech ystyried defnyddio'r enw uniaith "Sir Gâr" ar gyfer yr etholaeth.
4. Merthyr Tudful, Aberdâr a Phontypridd: Dylech ystyried defnyddio'r enw uniaith "Cynon Taf" ar gyfer yr etholaeth.
5. Ceredigion Sir Benfro: Dylech ystyried defnyddio'r enw uniaith "Ceredigion Penfro" ar gyfer yr etholaeth.

**4661 – Aelod o’r Cyhoedd**

Dylid adfer yr hen Wynedd i'r graddau mwyaf posib (yn cynnwys Môn). Gallai o Fangor ac i'r dwyrain gael ei atodi at yrhen Berfeddwlad. Mae'n bwysig cadw mannau Cymraeg hefo'i gilydd.

**4663 – Aelod o’r Cyhoedd**

Credaf mai’r mater allweddol ynghylch y cynigion presennol yw paru Aberhonddu, Maesyfed a Chwm Tawe, gyda Dwyrain Abertawe a Chastell-nedd. Nid yn unig y mae hon yn fawr iawn, y mae hefyd yn cynnwys cymunedau arwahanol, digyswllt, trefol, maestrefol a gwledig. Mae hefyd yn croesi dros dair ardal awdurdod lleol, a dwy ardal bwrdd iechyd. Byddwn i’n mynd i'r afael â hyn, a byddai parau eraill o reidrwydd yn deillio o'r newidiadau hyn.

Y parau y byddwn yn eu hargymell yw:

1. Ynys Môn a Bangor Aberconwy (rwy’n hoffi Eryri a Môn fel enw ar hon)
2. Gogledd Clwyd a Dwyrain Clwyd (i'w galw'n Clwyd)
3. Alun a Glannau Dyfrdwy a Wrecsam (yn syml, byddwn i'n galw hyn yn Lannau Dyfrdwy neu Ddyffryn Dyfrdwy)
4. Dwyfor Meirionnydd a Cheredigion Preseli (byddwn yn galw hyn yn Fae Ceredigion neu Cardigan Bay)
5. Sir Drefaldwyn a Glyndŵr ac Aberhonddu, Maesyfed a Chwm Tawe (Gallai hon gael ei galw’n Bowys)
6. Canolbarth a De Sir Benfro a Chaerfyrddin (De Dyfed)
7. Llanelli a Gŵyr (Llwchwr)
8. Gorllewin Abertawe a Chastell-nedd a Dwyrain Abertawe (Galwch hyn yn Abertawe)
9. Aberafan Maesteg a Phen-y-bont ar Ogwr (Afan ac Ogwr fyddwn i’n galw hyn)

10. Bro Morgannwg a Phontypridd (Taf Bro Morgannwg fyddwn i'n galw hyn)
11. Rhondda ac Ogwr a Merthyr Tudful ac Aberdâr (Y Cymoedd fyddwn i'n eu galw)
12. Blaenau Gwent a Rhymni a Chaerffili (byddwn yn galw hyn yn Rhymni, Sirhywi ac Ebwy)
13. Sir Fynwy a Thorfaen (Sir Fynwy a Thorfaen fyddwn i'n galw hyn)
14. Gorllewin Casnewydd ac Islwyn a Dwyrain Casnewydd (Casnewydd fyddwn i'n galw hyn)
15. Gogledd Caerdydd a Dwyrain Caerdydd (Gogledd-ddwyrain Caerdydd fyddwn i'n galw hyn)
16. Gorllewin Caerdydd a De Caerdydd a Phenarth (De-orllewin Caerdydd fyddwn i'n galw hyn)

Er fy mod yn cydnabod bod Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru wedi'i fandadu i ffurfio 16 o Etholaethau'r Senedd ar sail paru'r 32 o Etholaethau San Steffan, credaf fod hwn yn ddull llai na delfrydol, a byddai'n well o lawer gen i inni ddechrau o'r dechrau i greu etholaethau newydd sy'n seiliedig ar gymunedau go iawn. Gobeithiaf y bydd cyfle i fynd i'r afael â rhai o'r materion hyn mewn adolygiadau ffiniau yn y dyfodol.

**4668 – Aelod o'r Cyhoedd**

Er ei bod yn gyfleus yn ddaearyddol ac yn rhifiadol i gyfuno Sir Fynwy a Thorfaen. O ystyried natur wledig a threfol cyferbyniol a diwylliannau gwleidyddol gwahanol y ddwy Fwrdeistref. Ynghyd â nifer uwch o etholwyr sy'n pleidleisio yn Sir Fynwy. Bydd anghenion Torfaen yn cael eu tangynrychioli o dan y system arfaethedig. Byddai Sir Fynwy yn cael ei gwasanaethu'n well o'i pharu ag etholaeth yng nghanolbarth Cymru h.y. Brycheiniog a Sir Faesyfed a Thorfaen gyda chymuned debyg yn y Cymoedd megis Blaenau Gwent.

**4689 – Aelod o'r Cyhoedd**

[HEPGOR]

Yn benodol, rwyf yn erbyn y cynnig i newid Aberhonddu i ffiniau Abertawe a allai gael effaith sylweddol ar y Gymraeg.

**4812 – Aelod o'r Cyhoedd**

Mynd yn ôl i ffiniau'r hen siroedd h.y. Morgannwg Ganol, Gorllewin Morgannwg etc.

**4863 – Aelod o'r Cyhoedd**

Dylai Llanhari fod o dan Fro Morgannwg oherwydd dalgylchoedd Ysgol Gyfun y Bont-faen a'r ffordd y mae cyfleusterau cyfagos yn dod o dan y Bont-faen a Bro Morgannwg

**5015 – Aelod o'r Cyhoedd**

Bydd uno Ceredigion a Sir Benfro i greu un etholaeth yn creu endid enfawr ac anymarferol. Yn hanesyddol, mae hyn wedi cael ei wneud o'r blaen drwy gyfuno Sir Benfro, Sir Aberteifi a Sir Gaerfyrddin i fod yn sir Dyfed rhwng 1974 a 1996. Ni pharhaodd hyn gan nad oedd yn ateb ymarferol! Roeddwn i'n breswylydd yma cyn yr holl ddatblygiadau hynny ac yn ystod y datblygiadau a dyma ni eto yn cynnig creu

anghenfil arall o'r fath. Mae hunaniaeth a nodweddion Sir Benfro a Cheredigion yn eithaf gwahanol ac mae angen iddynt aros ar wahân ac yn unigryw yn hytrach na chael eu bwndelu gyda'i gilydd dim ond am eu bod nesaf at ei gilydd.
Ar bwynt arall, os yw hyn yn digwydd, mae'n siŵr mai'r enw newydd y dylid ei roi yw Ceredigion a Sir Benfro yn Gymraeg a Cardiganshire a Pembrokeshire yn Saesneg.
Mewn cyfnod o anhawster ariannol, rwy'n gweld yr ad-drefnu fel gwariant diangen ac nid wyf yn cytuno y dylid ei gychwyn.
Nodwch os gwelwch yn dda fod defnyddio llenwi awtomatig ar gyfer fy nghyfeiriad isod wedi nodi sir Dyfed! Felly rwy'n teimlo bod hyn yn cefnogi fy nadl yn erbyn unrhyw newidiadau pellach i ffiniau etholaethau gan fod enw sir flaenorol sydd bellach wedi dod i ben yn dal i ymddangos!

**5173 – Aelod o'r Cyhoedd**

[HEPGOR] Ydych, rydych yn cynnig uno dwy ardal ddaearyddol fawr i wneud etholaeth newydd Aberhonddu a Dwyrain Abertawe.
Nid oes gan yr ardaloedd hyn unrhyw beth yn gyffredin yn ddiwylliannol nac yn economaidd – nid ydynt yn cyd-fynd â'i gilydd a bydd yn gadael Cymru wledig â hyd yn oed llai o gynrychiolaeth ddigonol

**5248 – Aelod o'r Cyhoedd**

Mae cyfansoddiad etholaeth arfaethedig gogledd Maldwyn yn hollol wahanol o'r gorllewin i'r dwyrain o ran diwydiant, daearyddiaeth, diwylliant, ac o ran amaethyddiaeth i raddau. Ni fydd cael ASau i gynrychioli'r buddiannau amrywiol hyn yn gweithio'n dda iawn, gan y byddant yn ceisio gwasanaethu buddiannau sy'n gwrthdaro.

**5252 – Aelod o'r Cyhoedd**

Mae ardal Powys yn chwerthinllyd o fawr. Mae rhai yn amcangyfrif y byddai'n cymryd 2 awr i groesi'r sir. O ystyried ardaloedd 20mya, rwy'n awgrymu bod 3.5 awr yn fwy realistig. Sut mae disgwyl i unrhyw un fynychu cyfarfodydd yn ystod y diwrnod gwaith? O ystyried sefyllfa darpariaeth band eang mewn ardaloedd gwledig, byddai cyfarfodydd zoom yn annibynadwy.
Ble fyddai'r pencadlys?
Rwy'n byw yng Ngheredigion. Mae swyddfeydd y cyngor sir yn Aberystwyth ac Aberaeron, ac mae'n gallu cymryd 45 munud a mwy i deithio rhyngddynt, ac maent 20 milltir ar wahân ac ar gefnffordd yr A487. Mae teithio yng nghefn gwlad Cymru wedi bod yn fater sydd wedi'i esgeuluso ers amser maith. Mae pellter yn cael ei fesur yn yr oriau sydd eu hangen i gyrraedd yno, nid y pellter mewn milltiroedd.

**5312 – Aelod o'r Cyhoedd**

Mae'n gywilyddus chwarae efo'r ffiniau a chael St Thomas yn Abertawe yn yr un etholaeth â Llanfair-ym-Muallt a Llandrindod.

**5358 – Aelod o'r Cyhoedd**

Sut gall Casnewydd yn dod i ben yn Nhredegar?

**5359 – Aelod o'r Cyhoedd**

[HEPGOR]

Dylai ardaloedd gwledig gael eu cynrychioli gan eu hetholaeth eu hunain ac ni ddylid eu huno â thref fawr sydd â gofynion gwahanol; er enghraifft mae gan Fro wledig Bro Morgannwg anghenion gwahanol i dref Y Barri.

[HEPGOR]

**5437 – Aelod o'r Cyhoedd**

Rwyf wedi byw yn Sili ym Mro Morgannwg ers 30 mlynedd. Dewisais symud allan o Gaerdydd ar ôl byw yno erioed. Dewisais symud i ardal hardd Bro Morgannwg fel ardal wledig ac arfordirol. Mae Cyngor Bro Morgannwg yn rhagorol o ran darparu ei wasanaethau lleol i'r gymuned yr wyf yn byw ynddi. Cyferbyniad llwyr o gymharu â Chyngor Caerdydd.
Ni allaf weld sut mae canol dinas Caerdydd yn amgylchynu ardaloedd trefol a diwydiannol fel Pengam neu'n berthnasol mewn unrhyw ffordd i ardaloedd Sili neu Benarth ym Mro Morgannwg. Mae bron pob mater gwleidyddol a chymdeithasol yn hollol wahanol yn y ddwy ardal.
Mae'r cynnig hwn yn sylfaenol ddiffygiol ac yn gamgymeriad. Rwy'n ei ystyried yn benderfyniad gwleidyddol a'r unig beth y bydd yn ei sicrhau yw cynyddu goruchafiaeth y weinyddiaeth lafur bresennol.
Ni fydd Cyngor Caerdydd yn ystyried buddiannau gorau Bro Morgannwg, dim ond manteisio ar yr asedau tir gwerthfawr a'r ystadau sydd ganddi.

**5439 – Aelod o'r Cyhoedd**

Dim ond gyda Thorfaen sy'n ymuno â Sir Fynwy yr wyf yn cytuno. [HEPGOR]

**5492 – Aelod o'r Cyhoedd**

Nid yw'n gwneud synnwyr uno Sir Fynwy a Thorfaen dim ond am eu bod yn rhannu ffyrdd! Maen nhw bron bob amser wedi pleidleisio'n llwyr yn erbyn ei gilydd ac mae ganddyn nhw fuddiannau gwahanol o ystyried bod Sir Fynwy yn ardal ffermio i raddau helaeth, a bod Torfaen yn ardal breswyl i raddau helaeth

**5932 – Aelod o'r Cyhoedd**

Cadwch Sir Fynwy ar wahân. Mae angen cynrychiolaeth lawn o gefn gwlad arni heb gael ei wanhau gydag ardaloedd trefol mawr fel Pont-y-pŵl a Chwmbrân. Bydd anghenion cefn gwlad yn cael eu colli.

**6122 – Aelod o'r Cyhoedd**

Hoffwn awgrymu enw newydd ar gyfer Gorllewin Abertawe a Gŵyr. Gorllewin Morgannwg. Diolch.

**6307 – Aelod o'r Cyhoedd**

Darllenais y canlynol:

The Senedd Cymru (Members and Elections) Act 2024,, which became law in June, says that "each constituency in Wales must have a single monolingual name, unless

the commission consider doing so would be unacceptable".

(Ffynhonnell: https://www.bbc.co.uk/news/articles/cy84d2e81djo)

Er bod hyn o bosib yn dderbyniol lle mae'r mwyafrif o siaradwyr yn defnyddio'r Gymraeg, mae'n gwbl amhriodol ar gyfer ardaloedd lle nad ydynt.

Rwy'n byw yn Nhorfaen, ac o dan y cynigion hyn bydd yr ardal yn uno â Sir Fynwy. Yn ôl cyfrifiad 2021, roedd lefelau'r di-Gymraeg yn y ddwy ardal fel a ganlyn:

Torfaen = 91.8% di-Gymraeg
Sir Fynwy = 91.3% di-Gymraeg

(Ffynhonnell:https://www.ons.gov.uk/visualisations/censusareachanges/W06000020/ https://www.ons.gov.uk/visualisations/censusareachanges/W06000021/)

O dan y cynigion, yr enw uniaith tebygol ar gyfer yr etholaeth unedig fydd "Sir Fynwy a Thorfaen". Bydd hyn i bob pwrpas mewn iaith nad yw'r MWYAFRIF HELAETH o'r boblogaeth yn ei siarad.

Byddwn yn gofyn yn gryf, yn seiliedig ar sgiliau iaith trigolion yr etholaeth newydd, y dylid ei henwi'n bennaf yn "Monmouthire and Torfaen", gyda "Sir Fynwy a Thorfaen" yn cael ei ddefnyddio ar gyfer siaradwyr Cymraeg.

Byddwn hefyd yn cynnig y dylai pob etholaeth gael ei henwi ar sail lefel sgiliau Cymraeg, yn hytrach na dull cyffredinol mympwyol.

**6311 – Aelod o'r Cyhoedd**

Rwy'n byw yn Sir Fynwy sydd i raddau helaeth yn sir wledig gydag anghenion a gofynion gwahanol iawn i anghenion cymunedau trefol Torfaen. Drwy gyfuno'r ddwy ardal bydd trigolion Sir Fynwy yn cael llai o lais na'r hyn sy'n digwydd nawr. Ni ddylai hyn fynd yn ei flaen.

**6338 – Aelod o'r Cyhoedd**

[HEPGOR]

Mae Sir Fynwy yn wledig yn bennaf, a bydd gofynion ac anghenion yr etholaeth yn wahanol iawn i anghenion Torfaen, sy'n ardal llawer mwy trefol. Os byddwch yn rhoi'r ddwy ardal at ei gilydd, bydd cyllidebau ar gyfer gwahanol anghenion yr ardaloedd yn cael eu gwanhau ymhellach. Rwy'n siŵr bod hyn yn wir mewn llawer o ardaloedd eraill yng Nghymru yr ydych yn ceisio eu cyfuno.

**6354 – Aelod o'r Cyhoedd**

[HEPGOR]

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
Democracy and Boundary Commission Cymru

Edrychwch ar sir Powys sydd bellach yn ymestyn i arfordir y de. Bydd yr ardal ddeheuol yn dominyddu ac yn tanseilio tegwch yn y rhaniad cyllido a llais pŵer ar gyfer yr etholaeth hon.

[HEPGOR]

**6434 – Aelod o'r Cyhoedd**

Mae ardal De Ddwyrain Cymru yn edrych yn dameidiog iawn ac mae'n edrych fel pe bai Abertawe'n cael ei rhannu yn ei hanner.

**6446 – Aelod o'r Cyhoedd**

Rwy'n byw yn Rhiwabon, ac rwy'n teimlo y dylem ddod o dan Wrecsam gan fod yr ardal bresennol yn rhoi ein pentref dan anfantais.

**6452 – Aelod o'r Cyhoedd**

Rwy'n symud i Ben-y-bont ar Ogwr i fynd allan o'r Fro a chyngor ofnadwy'r Fro. Dwi ddim eisiau ei weld yn fy nilyn i. [HEPGOR]

**6499 – Aelod o'r Cyhoedd**

Mae'n ymddangos bod Tongwynlais yn cael ei dorri yn ei hanner o dan y cynigion newydd. Mae hyn yn ddryslyd iawn

**6654 – Aelod o'r Cyhoedd**

Byddai wedi gwneud llawer mwy o synnwyr rhoi Bangor ac Ynys Môn gyda'i gilydd ac yna Aberconwy a Chlwyd

**6698 - Bernard Gentry - Cynghorydd lleol neu swyddog etholedig arall**

Cefnogi'r canlynol yn gryf:
Bangor Aberconwy Ynys Môn
Clwyd
Alun, Glannau Dyfrdwy a Wrecsam

**6729 – Aelod o'r Cyhoedd**


Hoffwn gynnig bod gan bob un o'r 16 etholaeth enw uniaith Gymraeg, gan gynnwys y rhai ar gyfer prifddinas Caerdydd. Byddai hwn yn ddatganiad cryf bod yr etholaethau hyn yn cael eu defnyddio i ethol cynrychiolwyr i ddeddfwrfa genedlaethol Cymru.

**6842 – Aelod o'r Cyhoedd**

Nid yw paru Aberafan Maesteg â'r Rhondda ac Ogwr, pan fo Castell-nedd a Phort Talbot eisoes yn cydfodoli'n hapus o fewn yr un sir, yn gwneud unrhyw synnwyr ymarferol. Mae trigolion Port Talbot yn llawer mwy tebygol o ddod ar draws, gweithio gyda a chwrdd â thrigolion Castell-nedd neu Ddwyrain Abertawe nag y maent gyda thrigolion Cwm Rhondda. Mae mwy o gysylltiadau trafnidiaeth, cysylltiadau diwylliannol, a chysylltiadau cymdeithasol rhwng trigolion Castell-nedd a Phort Talbot, na rhai Castell-nedd a'r Drenewydd neu Bort Talbot a Threorci.

Rwy'n sylweddoli y bydd y paru hwn yn golygu bod angen ail-baru etholaethau eraill. Amgaeaf fap i gynorthwyo gyda hyn, ynghyd ag enwau awgrymedig.

Diolch!




**6861 – Aelod o'r Cyhoedd**

Prynhawn da

Yn dilyn fy e-bost blaenorol, hoffwn ddarparu enghraifft berffaith o faterion lleol sy'n cael eu cynrychioli gan ASau lleol. Mae problem gyfredol yn bodoli ar hyn o bryd sy'n berthnasol i'r ardal - y ffermydd gwynt arfaethedig yng Nghoedwig Maesyfed, Aberedw a Bryn Gilwern, a'r rhwydwaith peilonau cysylltiedig.

Trwy gael etholaeth arfaethedig mor fawr, a fydd yn cynnwys Abertawe a Chastell-nedd, ni fydd llais gan bobl leol yr ardaloedd gwledig sy'n dymuno pleidleisio dros yr ymgeisydd a fydd yn ein cefnogi.

Cofion

[HEPGOR]

**6864 – Aelod o'r Cyhoedd**

Mae'n ymddangos bod ardaloedd gwledig, Powys yn benodol, wedi'u cynnwys fel rhan o ardaloedd llawer mwy (yn seiliedig ar y boblogaeth dan sylw?). Fodd bynnag, ar gyfer hanner isaf Powys (Aberhonddu a Maesyfed), mae anghenion ardaloedd gwledig yr ardal yn mynd i gael eu llethu gan y boblogaeth fwy sy'n byw yng Nghastell-nedd ac Abertawe.
Mae'r hanner uchaf - Maldwyn - mewn etholaeth arfaethedig sy'n cwmpasu ardal mor helaeth fel nad oes un gwleidydd byth yn mynd i allu deall anghenion cymaint o gymunedau gwasgaredig, na'u gwasanaethu'n effeithiol. Bydd y cynllun hwn ond yn gwaethygu'r rhaniad gwledig / trefol - ein fersiwn Gymreig o'r rhaniad rhwng y gogledd a'r de yn Lloegr. Mae angen deall bod ardaloedd mwy gwledig, sydd â phoblogaeth lai dwys, yn dal i fod angen cynrychiolaeth effeithiol. Mae trigolion gwledig yn cael eu gwthio i'r ymylon.

**6937 - Aelod o'r Cyhoedd**

[HEPGOR] .

Mae cyfuno Sir Benfro Saesneg ei hiaith gyda Cheredigion Cymraeg ei iaith a disgwyl i ASau roi ystyriaeth gyfartal i gymunedau mor amrywiol ag Aberystwyth a Dinbych-y-pysgod yn hurt.

**6949 – Aelod o'r Cyhoedd**

Mae dwy etholaeth yn llawer rhy fawr, ac a dweud y gwir, ychydig yn od. Y cyntaf o'r rheiny yw Dwyfor Meirionnydd, Maldwyn a Glyndŵr. Mae'n enfawr. Yn bersonol, rwy'n credu y byddai'n well cyfuno Dwyfor Meirionnydd ag Ynys Môn. Mae'n wir nad oes cysylltiad ffordd rhwng y ddwy etholaeth hyn, ond dwi o'r farn bod llawer mwy yn gyffredin rhyngddynt yn ddiwylliannol. Byddwn wedyn yn cyfuno Wrecsam â Sir Drefaldwyn sydd, yn fy marn i, yn gyfuniad llawer mwy priodol. Byddwn wedyn yn cysylltu Bangor Aberconwy gyda Gogledd Clwyd, a dwyrain Clwyd gydag Alun a Glannau Dyfrdwy. Mae gan bob un o'r rhain gysylltiadau trafnidiaeth ac maent yn ymddangos yn briodol i mi.
Yr ail etholaeth sydd gen i broblem fawr gyda hi yw 'Aberhonddu, Maesyfed, Castell-nedd a Dwyrain Abertawe'. Mae hon yn etholaeth enfawr ac yn cysylltu ardal wledig fawr ag ardal drefol iawn. Yn fy marn i, nid oes llawer o debygrwydd rhyngddynt. Felly, rwy'n credu y byddai'n gwneud mwy o synnwyr i gyfuno Dwyrain Abertawe a Chastell-nedd ag Aberafan Maesteg gan eu bod yn llawer tebycach. O ran Aberhonddu a Maesyfed, rwy'n credu y dylid ei chysylltu â Merthyr Tudful ac Aberdâr oherwydd eu bod mor agos. Yna gellid cysylltu'r Rhondda ac Ogwr â Phontypridd.

**6956 - Lisa Winnett - Cynghorydd lleol neu swyddog etholedig arall**

Byddai'n well uno Blaenau Gwent gyda Thorfaen. Bydd uno â Chaerffili yn gwneud yr ardal yn rhy fawr. Dylid cadw Caerffili ar ei phen ei hun a dim ond uno awdurdodau llai

**6963 – Aelod o'r Cyhoedd**

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
Democracy and Boundary Commission Cymru

Er bod uno Alun a Glannau Dyfrdwy â Wrecsam yn ymddangos yn syniad da oherwydd eu bod yn ddau ranbarth tebyg, ac yn ddaearyddol fach (o gymharu ag etholaethau eraill), nid yw hyn yn wir.

Mae dwysedd y boblogaeth yn y ddwy etholaeth hyn yn llawer mwy nag etholaethau eraill, a fyddai'n arwain at lwyth gwaith llawer mwy ar gyfer un AS.

Sgil-effaith hyn fyddai gostyngiad yn y gwasanaeth cyhoeddus gan yr AS, oherwydd bod y treuliau y caniateir iddynt eu hawlio am staffio yn cael eu pennu gan y Senedd. Byddai recriwtio mwy o weithwyr achos yn cael ei gyfyngu gan ofynion isafswm cyflog etc.

[HEPGOR]

**6964 - Alan Meredith-Jones - Cynghorydd lleol neu swyddog etholedig arall**

[HEPGOR]

Mae ewyllys Sir Drefaldwyn yn cael ei boddi, gan wthio cynrychiolwyr arnom nad ydym eu heisiau. Beth am baru Sir Drefaldwyn gyda Maesyfed yn lle?

**6966 – Aelod o'r Cyhoedd**

Mae'r Waun mor agos i ddinas Wrecsam, pam o pam ein bod bellach yn cael ein cynnwys gyda chymunedau gwledig a gwledig tu hwnt? Mae gennym ddymuniadau ac anghenion gwahanol ac rydym 86 milltir a 2 awr 13 munud i ffwrdd o Aberdaron sydd yn ein hetholaeth newydd. Mae'n wallgof! Rhowch ni yn ôl gyda Wrecsam, gan fod y Waun ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam!

**6978 – Aelod o'r Cyhoedd**

Does gan Sir Fynwy a Thorfaen ddim byd yn gyffredin heblaw am "gysylltiadau ffordd da". Rwy'n gweithio yn un ac yn byw yn y llall. Mae cannodd o filltiroedd rhyngddynt yn economaidd ac yn ddiwylliannol. Does ond angen edrych ar ddisgwyliad oes, prisiau cyfartalog tai, cyflogaeth etc i weld hyn. Mae gan Dorfaen dreftadaeth ddiwydiannol, a Sir Fynwy un amaethyddol. Roeddwn i'n meddwl y byddai etholaethau yn cael eu paru ag ardaloedd tebyg. Byddai De Powys yn well i Sir Fynwy ac ardaloedd eraill y cymoedd ar gyfer Torfaen. Mae'n ffars ac yn wastraff llwyr o arian. Dylid buddsoddi yn y GIG yn lle hyn.

**6980 – Aelod o'r Cyhoedd**

Dylai'r ardal sy'n cynnwys Rhiwabon a'r Waun fod naill ai o fewn ffin Llangollen neu o fewn ardal Wrecsam. Rydym ni yng Ngogledd Cymru ac ni ddylem gael ein grwpio â Chanolbarth Cymru – alla i ddim credu bod rhywun hyd yn oed wedi meddwl am symud ein hardal i'r canolbarth - nid yw'n gwneud synnwyr

**7001 – Aelod o'r Cyhoedd**

Rwy'n credu bod Comisiwn Democratiaeth Ffiniau Cymru (y Comisiwn) wedi cynhyrchu cyfuniad cystal â phosib o etholaethau ar y telerau y cafodd ei gomisiynu i wneud

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
Democracy and Boundary Commission Cymru

hynny. Ac, wrth gwrs, o ystyried bod y rhain yn debygol o fod yn 'etholaethau mawr' untro, fy marn bersonol yw nad oes digon o hyblygrwydd i wneud dadl eang yn werth chweil.

Fodd bynnag, rwy'n credu y dylid cael sgwrs am y dull enwi a'r strategaeth ehangach o ran etholiadau Cymru yn y dyfodol (sydd y tu hwnt i gwmpas y Comisiwn yn dechnegol ond rwy'n credu fod y pwnc yn haeddu trafodaeth).


Dyma'r ffiniau etholiadol cyntaf a grëwyd yng Nghymru i Gymru. Mae hynny'n eithaf hanesyddol yn fy marn i. O ganlyniad, mae'n rhaid i ni feddwl nid yn unig am yr hyn y mae hyn yn ei olygu ar gyfer y presennol ond hefyd ar gyfer dyfodol Cymru, waeth beth yw cyd-destun y DU. Rydym yn ystyried sut rydym *ni * yn cyfeirio at * ein hunain* ac *ein* dyfodol. Yn hyn o beth, hoffwn gynnig dau gysyniad i'w trafod yng nghyd-destun dull enwi:
Yn gyntaf, nid wyf yn credu bod 'etholaethau' yn derm cymwys ar gyfer yr ardaloedd hyn. Mae'r cysyniad hirsefydlog o etholaeth ym Mhrydain yn ardal gymharol fach gydag un Aelod etholaethol. Mae'r rhain yn ardaloedd mawr gyda sawl Aelod Seneddol, y mae gennym gynsail ar eu cyfer eisoes ac y cyfeirir atynt yn glir yn system bleidleisio bresennol y Senedd fel 'rhanbarthau' ac rwy'n credu bod rhanbarthau yn well term ar eu cyfer.
Yn ail, rwy'n credu bod yna ddwy agwedd ar y broses o enwi'r rhanbarthau hyn – un sy'n berthnasol rŵan ac un a fydd yn berthnasol yn y dyfodol. Os ydym yn torri'r cysylltiad yn llwyr ag etholaethau Senedd y DU – sy'n briodol yn fy marn i ar gyfer eglurder, dealltwriaeth a gwahaniaethu – yna mae'n hanfodol bod y boblogaeth ranbarthol *yn cydnabod* yr enw newydd. Bydd enwau rhanbarthol anghyfarwydd, aneglur, a hollol newydd yn anghyfarwydd i'r boblogaeth eang sy'n byw yno. Mae hyn yn ddrwg o ran dealltwriaeth, ymgyrchu, ac ymdeimlad o berthyn ar ran yr etholwyr. Felly beth yw'r ateb gorau? O'm safbwynt i, yr ateb rhesymegol yw defnyddio cof diwylliannol rhanbarthol fel sydd wedi ei wneud gyda'r awgrym ar gyfer 'Clwyd'. Gall y setliad llywodraeth leol ôl-1974 gynnig llawer yma oherwydd ei fod yn 1) rhanbarthol 2) wedi parhau (trwy blismona fel Dyfed-Powys, siroedd wedi'u cadw, criced Morgannwg etc) a 3) yn gyfarwydd i lawer o'r boblogaeth (er yn llai cyfarwydd wrth gwrs i'r genhedlaeth ôl-1996). Felly, byddwn yn awgrymu bod y Comisiwn yn ystyried manteisio ar y wybodaeth gyfredol hon sydd gan y boblogaeth i wneud y newid mor berthnasol a chydlynol â phosibl i boblogaeth sydd *hefyd* yn gorfod mynd i'r afael â system bleidleisio hollol newydd ar gyfer etholiadau cenedlaethol ar yr un pryd.

Fel bonws ychwanegol, mae cyfle hefyd i osod sylfaen ar gyfer ystyriaethau yn y dyfodol gan y comisiynau ffiniau o ran ceisio sicrhau cymaint o gydffinioldeb â llywodraeth leol yng Nghymru, yn enwedig os bydd llywodraethau lleol yn rhanbartholi ar ryw adeg, fel sy'n edrych yn debygol.

Rwy'n atodi map gydag awgrymiadau ar gyfer enwau amgen yn seiliedig ar y rhesymeg hon. Nid yw'n cyd-fynd yn union â'ch gofynion dymunol ar gyfer symlrwydd ond credaf fod y bonws o ran enwau cyfarwydd yn gorbwyso'r gofyniad hwnnw.

Pob lwc i chi gyd gyda gwaith mor galed!

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
Democracy and Boundary Commission Cymru




**7005 – Aelod o'r Cyhoedd**

Dw i ddim yn cytuno a pharu Gogledd Caerdydd a Dwyrain Caerdydd.

Credaf ei bod hi'n gwneud mwy o synnwyr i baru Gogledd Caerdydd a Gorllewin Caerdydd. Er bod yr Afon Taf yn ffin ddaearyddol amlwg nid yw'n adlewyrchu sut y mae cymdeithas(au) yn cysylltu (neu beidio) y dyddiau hyn. Credaf fod llawer mwy o debygrwydd cymdeithasol o ran cydweithio, cysylltiadau teuluol a chyfathrebu rhwng y Gorllewin a'r Gogledd na sydd rhwng y Gorllewin a'r Dwyrain. Un enghraifft amlwg o'r tebygrwydd diwylliannol yw'r iaith Gymraeg. Pwerdy Caerdydd o ran siaradwyr Cymraeg yw ardaloedd gogleddol Gorllewin Caerdydd ac ardal ogleddol Gogledd

Caerdydd. Felly byddai'n cynrychiolwyr yn y Senedd â llawer o fantais pe tawn nhw'n gallu siarad dros y rhan fwyaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd yn hytrach na rhannu pobl â hunaniaeth amlwg.

O brofiad anecdotaidd ceir llawer mwy o gysylltiadau ffrindiau a theuluol rhwng y Gorllewin a'r Gogledd. A ydy'r Comisiwn wedi gwneud unrhyw ymchwil i weld a ydy hynny'n wir neu beidio? Os na, pam? Mae angen i'r Comisiwn edrych tu hwnt i ffiniau daearyddol hawdd a diog ac edrych yn ddyfnach ar gymunedau, eu hadnabod, y ffactorau sy'n creu cymuned (nad ydynt bob amser yn dibynnu ar ffactorau daearyddol fel afon neu heol) a dosbarthiad y cymunedau hyn rhwng y Gorllewin a'r Gogledd.

Eto o brofiad anecdotaidd bydd trigolion Gogledd Caerdydd yn aml yn mynd i Orllewin Caerdydd am adloniant, e.e. ymweld â llefydd bwyta ym Mhontcanna, ymweld â Chapter i fynd i'r sinema ac yn mynd i Acapela am gyngerdd. Annhebyg, hyd y gwn i, bydd pobl Ddwyrain Caerdydd yn ymweld â Gogledd Caerdydd am resymau tebyg a chroesymgroes. Unwaith eto a ydy'r comisiwn wedi edrych i mewn i ffactorau fel hyn? Yn fy marn dyna beth sy'n creu cymdeithas a hunaniaeth, nid afonydd a heolydd.
[HEPGOR]

**7007 – Aelod o'r Cyhoedd**

Adolygiad Senedd 2026 – Ffiniau arfaethedig ar gyfer Etholaethau newydd y Senedd (Medi 2024)
Rwy'n ysgrifennu i wneud sylwadau ar yr uchod - yn benodol i wrthwynebu'r etholaeth hynod fawr a gynigir ar gyfer Sir Drefaldwyn. Fe'i ehangwyd eisoes yn ddiweddar i fod yn Sir Drefaldwyn a Glyndŵr, a nawr bydd yn dod yn etholaeth "enfawr" gan gwmpasu o leiaf 20% o Gymru – Dwyfor, Meirionydd, Maldwyn a Glyndŵr. Yn y bôn, mae'n "llanast". Mae'n llawer rhy fawr ac yn anhylaw.
Mae'n ymestyn o'r de islaw Llangurig (hanner ffordd i Raeadr Gwy) hyd at y Penheli [?] (bron ym Mangor). Pa mor hir y byddai'n ei gymryd i chi deithio ar drafnidiaeth gyhoeddus rhwng y ddau le hyn? Ateb – amser HIR IAWN a byddai teithio ar y trên yn golygu mynd i mewn i Loegr! Rwy'n credu pe baech chi'n gyrru y byddai'n cymryd 3 awr. Dim llawer o gysylltiad yma. Mae'r etholaeth arfaethedig hefyd yn ymestyn o'r Ystog ar y ffin â Lloegr ar draws i'r arfordir yn Aberdaron ar Benrhyn Llŷn. Rwy'n amau na fyddai'n bosibl gwneud y daith hon ar drafnidiaeth gyhoeddus mewn diwrnod ac mae'n debyg y byddai gyrru yn cymryd 3 awr dda. Felly, nid yw cysylltiadau trafnidiaeth yn gweithio ar gyfer yr etholaeth arfaethedig. Nid wyf yn argyhoeddedig bod unrhyw un o'r ffactorau eraill a restrir; diwylliant, iaith, hanes cyffredin neu ffactorau economaidd-gymdeithasol yn cynnig mwy o gydlyniad chwaith. Meddyliwch eto, os gwelwch yn dda. Nid oes angen etholaethau mwy o faint arnom. Mae Cymru yn wlad fach ac mae angen i ni gadw'r cysylltiad rhwng ein cynrychiolwyr yn y Senedd a'r pleidleiswyr, nid ei ddinistrio.
[HEPGOR]

**7018 – Aelod o'r Cyhoedd**

Pam na allwn ni gael ardal yn seiliedig ar sir Powys? Mae pobl wedi arfer â hynny'n barod ac mae ganddyn nhw deimlad cyffredin o gymuned ac mae'r llwybrau teithio

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
Democracy and Boundary Commission Cymru

angenrheidiol yn bodoli o fewn ei ffiniau. Nid oes gennym ddim yn gyffredin â Phenrhyn Llŷn, ac nid yw'r cynnig hwn yn gwneud synnwyr.

**7019 – Aelod o'r Cyhoedd**

[REDACTED] Prif Weithredwr
Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru Tŷ Hastings
Fitzalan Place
Caerdydd
CF24 DBL

4 Medi 2024 Annwyl [HEPGOR]

[HEPGOR]

Parth: Ffiniau Newydd Arfaethedig ar gyfer Etholiadau'r Senedd 2026

Rwy'n ysgrifennu ynghylch cynigion Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru ar gyfer etholiadau Senedd 2026. Rwy'n anghytuno'n bendant â'r cynigion am ddau reswm, sef:

1. Bydd rhai o'r etholaethau arfaethedig yn llawer rhy fawr;
2. Rwy'n anghytuno'n sylfaenol â'r system etholiadol rhestr gaeedig arfaethedig.

Mae maint daearyddol rhai o'r etholaethau hyn yn destun cryn bryder. Deallaf y bydd Dwyfor Meirionnydd, Maldwyn a Glyndŵr, sy'n ymestyn o Ben Llŷn i'r ffin â Lloegr, yn 1,926 milltir sgwâr. Sut ar y ddaear y gall un gwleidydd gynrychioli ardal mor fawr? Yn sicr, ni fydd yn gwasanaethu'r cyhoedd na'r gwleidyddion yn dda a bydd yn torri'r cysylltiad rhwng yr etholwyr a'r gwleidydd.

Bydd yr etholaeth yr wyf yn rhan ohoni - Aberhonddu, Maesyfed a Chwm Tawe - yr oeddwn wedi ei gwrthwynebu'n chwyrn yn yr adolygiad ffiniau seneddol diwethaf, yn uno â Chastell-nedd a Dwyrain Abertawe. Eto, bydd hon yn etholaeth a fydd yn gymysgedd o ardaloedd cefn gwlad a threfol sy'n llawer rhy fawr yn ddaearyddol.

Gyda chwe gwleidydd yn cael eu hethol ym mhob un o'r 16 etholaeth bâr, ble byddan nhw'n dewis agor swyddfa etholaethol? Rwy'n dyfalu y byddant yn dewis canol trefi lle mae'r boblogaeth (a nifer y pleidleiswyr!) yn fwy. Beth os bydd pob un o'r chwe Aelod o'r Senedd yn etholaeth newydd arfaethedig Aberhonddu, Maesyfed a Chwm Tawe yn agor swyddfeydd yng Nghastell-nedd ac Abertawe? Byddai hynny'n gadael yr etholwyr i'r gogledd o Ystradgynlais yn gwbl ynysig, a byddai hynny'n eithriadol o ddrwg i ddemocratiaeth.

[HEPGOR]

**7020 - Ar ran awdurdod lleol**

At bwy bynnag y bo'n berthnasol:

Adolygiad 2026 o etholaethau'r Senedd: Cynigion Cychwynnol

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
Democracy and Boundary Commission Cymru

Fel Swyddog Canlyniadau Cyngor Sir Caerfyrddin, hoffwn fynegi fy nghefnogaeth i etholaeth arfaethedig Caerfyrddin/Carmarthen. Hoffwn hefyd gefnogi enw'r etholaeth arfaethedig.
Gobeithio y bydd etholwyr Sir Gaerfyrddin yn cytuno a mi bod yr etholaeth arfaethedig yn teimlo mor naturiol a phosib.
ICredaf fad cynigion Sir Gaerfyrddin wedi cael eu hystyried yn drwyadl, ond byddwn yn eich annog i weithio'n agos gyda'r Comisiwn Etholiadol ar raglen ymgysylltu yn y cyfnod yn arwain at etholiadau'r Senedd yn 2026 i osgoi dryswch ymhlith pleidleiswyr.

Hoffwn ddiolch i'r Comisiwn Ffiniau i Gymru am y cyfle i wneud sylwadau ar yr ymgynghoriad pwysig hwn.

Yn gywir,·

[HEPGOR]
Swyddog Canlyniadau Sir Gaerfyrddin

**7025 – Aelod o’r Cyhoedd**

Nid oes unrhyw ddychymyg wrth enwi’r etholaethau hyn ac mae angen newid llawer ohonynt. Gan fy mod yn byw yn Sir Benfro, rwy’n awgrymu bod yr etholaeth yn cymryd ei henw hanesyddol, sef Deheubarth.

Fodd bynnag, rwy’n pryderu, o ystyried cynigion am ysbyty newydd yn Hendy-gwyn ar Daf y gallai fod yn well partneru â Chaerfyddin, mae’r rhwydwaith ffyrdd hefyd yn fwy sylweddol.

**7028 – Aelod o’r Cyhoedd**

Mae Llangollen, Cefn Mawr ac Owrtyn i gyd ar Afon Dyfrdwy ac maent i gyd o fewn ychydig filltiroedd i’w gilydd, ond maent mewn tair etholaeth wahanol. Sut ydym i fod i gyfunoli a chydweithio ar faterion a rennir os ydym i gyd mewn gwahanol etholaethau? Yn enwedig pan mae Cefn ac Owrtyn yn yr un cyngor. A oes esboniad dros dynnu’r ffiniau fel hyn gyda phocedi bach yn dod allan o’r hyn y gallai fod yn un rhanbarth a ddiffinnir yn glir? Rwy’n byw yng Nghefn Mawr ac er fy mod yn hapus pleidleisio o dan unrhyw etholaeth, nid wyf yn credu bod cael grwpiau o bobl sydd mor agos at ei gilydd y mae pob un ohonynt yn rhannu ffynhonnell fawr o ddŵr mewn tair ardal bleidleisio gwahanol yn ddefnyddiol.

**7029 – Aelod o’r Cyhoedd**

Diolch i chi am eich gwaith wrth lunio cynigion ar gyfer etholaethau newydd Cymru. Mae hynny'n ymarferiad heriol a gyda'r cyfyngiadau a roddwyd arnoch, mae'r gwaith sydd wedi ei wneud yn rhesymol iawn yn fy marn i.

Carwn wneud un sylw ar y cyfuniadau, a hynny fel rhywun sydd wedi sefyll yn etholaeth blaenorol De Caerdydd a Phenarth - sydd erbyn hyn wedi ei rhannu rhwng

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru

Democracy and Boundary Commission Cymru

De Caerydd a Dwyrain Caerdydd. Er bod achos dros y cyfuniad ry'ch chi'n ei awgrymu carwn ofyn i chi ystyried yn ofalus ai'r cyfuniad arall posib yng Nghaerdydd fyddai'n adlewyrchu clymau cymunedol yn well. Rwy'n cydnabod y gellid dadlau dros y naill gyfuniad neu'r llall, ond rwy'n credu fod y rhesymeg cryfaf o blaid sedd Gogledd Gorllewin a sedd De Ddwyrain (fel ag y bu mewn blynyddoedd cynt).

Gan fod y deddfwriaeth yn gofyn i chi bennu enwau uniaith (Cymraeg) ble bynnag fo hynny'n bosib, dydw i ddim yn credu fod y cynigion fel ag y mae nhw'n sefyll yn cwrdd a'r gofyn hwnnw.

Carwn awgrymu rhai enwau fel a ganlyn (gan gychwyn yn y Gogledd):

Mon Menai
Wrecsam Fflint
Gwynedd Glyndwr
Ceredigion Sir Benfro
Sir Gar
Gwyr Abertawe
De Powys, Tawe a Nedd
Taf Cynon (etholaeth newydd Merthyr ac ati ... mi wnes i feddwl am Cynon Taf ond gan fod y Taf yn llifo drwy Ferthyr a Phontypridd)
Afan, Ogwr, Garw a Rhondda
Blaenau Gwent a Caerffili
Casnewydd Islwyn

Yn gywir iawn

[HEPGOR]

**7030 – Aelod o'r Cyhoedd**

[redacted]

[redacted]

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
Democracy and Boundary Commission Cymru

Annwy[redacted]

Boed i chi a'ch tîm gadw'n dda. Diolch i chi i gyd am eich gwaith. Mae cael un enw ar gyfer yr etholaethau yn dda iawn. Mae'n rhoi un hunaniaeth i'r etholaeth ac yn cyfrannu at ei hundod. Dylai'r enwau fod yn uniaith a hynny yn Gymraeg. Mae rhai o enwau etholaethau San Steffan yr un fath yn Saesneg a/neu Gymraeg e.e. Pontypridd, Bangor, Llanelli, Maesteg ac ati. Ac mae rhai yn adnabyddus yn Saesneg pan maent yn Gymraeg, e.e. Rhymni, Ogwr, Caerffili, Gŵyr, Phenarth, Conwy, ac ati, a Chaerdydd hefyd. Bydd y mwyafrif yn gwybod beth yw Aberdâr, Abertawe, Casnewydd, ac ati. Felly, mae'n bwysig bod yr holl enwau yn Gymraeg. Yr hyn sy'n bwysig yw rhoi hunaniaeth ac undod i'r etholaethau. Felly, does dim rhaid defnyddio enwau etholaethau San Steffan. Maen nhw'n newydd, ac nid ydynt mor gyfarwydd. (Un etholiad yn unig). Dylai'r enwau fod yn fyr. Byddai un neu ddau o eiriau yn dda. Mae rhoi dau enw San Steffan yn nheitl yr etholaeth yn gwneud môr a mynydd ohoni. Mae enwau syml yn well. Noder, NID enwau San Steffan yw'r mwyaf priodol bob amser. A ddylid ystyried amrywiant etholaethau San Steffan wrth eu paru nhw? Paru sydd ag un amrywiant mawr ag un sydd ag amrywiant bach (paru amrywiannau cyferbyniol pan fo hynny'n bosibl yn ddelfrydol). Bydd hyn yn well o ran cymesuredd. A ddylid ystyried maint etholaethau San Steffan wrth baru? Fel bod rhai mawr a rhai bach yn cael eu paru, gan wneud yr ardaloedd rhwng etholaethau yn fwy cyfartal. Yn sicr, ni ddylai etholaethau fod yn rhy fawr. Felly, ni ddylai dwy etholaeth fawr yn San Steffan ddod at ei gilydd pan fo hynny'n bosibl—pan fo dewisiadau gwell eraill yn bodoli. A ddylai etholaethau San Steffan sydd â chymeriad, hunaniaeth, natur, cefndir ac ati cyffredin ffurfio etholaeth a fyddai'n ffurfio 'un' gyda'i gilydd yn naturiol, yn fwy naturiol, yn cael eu hystyried? A fyddai trefol yn mynd yn fwy gyda threfol a gwledig yn fwy gyda gwledig? Neu a ddylid eu cymysgu? Yn sicr, mae'n hanfodol y bydd pobl yn gallu uniaethu â nhw. Wedyn, byddant yn teimlo'n rhan ohonynt. Yna maent yn fwy tueddol o bleidleisio. Mae'n rhaid inni osgoi etholaethau sy'n digalonni pobl, nad yw pobl yn uniaethu â nhw, ac o'r herwydd nid ydynt yn pleidleisio.

Mae angen inni ystyried yr holl ddewisiadau i gael y parau gorau. Bydd gan bob un ohonynt eu pwyntiau da (cadarnhaol) a'u pwyntiau drwg (negyddol). O ran cydbwysedd, mae angen inni gael y gorau o'r hyn sydd ar gael. Nodir, felly, rai o'r posibiliadau isod.

A. Rhoddir dau bosibilrwydd ar gyfer gogledd Cymru

(a) Wrecsam (a/&)'r Fflint (Wrecsam/Alun a Glannau

Dyfrdwy Clwyd (Dwyrain Clwyd a Gogledd

Clwyd)

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
Democracy and Boundary Commission Cymru

Bangor (Ynys Môn/Bangor Aberconwy)

Gwynedd, Maldwyn a/& Glyndŵr (Dwyfor Meirionnydd/Sir Drefaldwyn a Glyndŵr)

(b) Wrecsam (a/&) Maldwyn (Wrecsam/Sir Drefaldwyn a Glyndŵr) Y Fflint (a/&) Rhuthun (Alun a Glannau Dyfrdwy/Dwyrain Clwyd) Conwy Bangor Dinbych (Bangor Aberconwy/Gogledd Clwyd) Gwynedd Ynys Môn (Ynys Môn/Dwyfor Meirionnydd)

Canolbarth Cymru un posibilrwydd (Canolbarth a De-orllewin Cymru): Ceredigion (a/&) Phenfro (Ceredigion Preseli/Canol a De Sir Benfro) Sir Caerfyrddin (Caerfyrddin/Llanelli)

Gorllewin Abertawe Gŵyr (Gŵyr/Gorllewin Abertawe)

Abertawe Dyffryn Llanfair-ym-Muallt Castell-nedd (Aberhonddu, Maesyfed a Chwm Tawe/Castell-nedd a Dwyrain Abertawe)

(noder, defnyddir Cwm Tawe ar gyfer rhywbeth arall, gwahaniaethu rhwng uchaf, a chanol ac is)

Ceir dau bosibilrwydd yma ar gyfer de Cymru:

(a) Port Talbot Rhondda (Rhondda ac Ogwr/Aberafan Maesteg) Pen-y-bont Bro (Bro Morgannwg/Pen-y-bont ar Ogwr)

Deheuol Caerdydd Phenarth (Dwyrain Caerdydd/De Caerdydd a Phenarth) Gorllewin Caerdydd Pontypridd (Pontypridd/Gorllewin Caerdydd)

Gogledd Caerdydd Caerffili (Caerffili/Gogledd Caerdydd)

Blaenau Gwent Merthyr Aberdâr (Merthyr Tudful ac Aberdâr/Blaenau Gwent Rhymni) Casnewydd & Islwyn (Dwyrain Casnewydd/Gorllewin Casnewydd ac Islwyn)

Torfaen & Sir Fynwy (Torfaen/Sir Fynwy)

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
Democracy and Boundary Commission Cymru

(b) Pen-y-bont & Phort Talbot (Aberafan Maesteg/Pen-y-bont ar Ogwr) De Caerdydd Bro (De Caerdydd a Phenarth/Bro Morgannwg) Dwyreiniol Caerdydd (Gogledd Caerdydd/Dwyrain Caerdydd) Gorllewin Caerdydd Pontypridd (Pontypridd/Gorllewin Caerdydd) Rhondda Aberdâr Merthyr (Merthyr Tudful ac Aberdâr/Rhondda ac Ogwr)

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
Democracy and Boundary Commission Cymru

Gorllewin Casnewydd Islwyn Caerffili (Gorllewin Casnewydd ac Islwyn/Caerffili) Dwyrain Casnewydd Bro Wysg (Dwyrain Casnewydd/Sir Fynwy)

Mae'r uchod yn defnyddio a/&. Mae'r ampersand yr un fath yn y Gymraeg a'r Saesneg. Felly, efallai y byddai'n well ei ddefnyddio. Defnyddio'r enwau lleoedd ond heb unrhyw gysyllteiriau. Mae rhai etholaethau fel hyn eisoes. Defnyddir hyn bob amser er cysondeb.

Yn Gymraeg, mae'r pwynt cwmpawd yn dod yn gyntaf, cyn enw'r lle. Pan fo rhywun yn chwilio am etholaethau, mae'n am enw'r lle, ewch yn ôl enw'r lle. Efallai na fydd yn gwybod beth yw pwynt cwmpawd yr etholaeth/au. Mae hefyd yn well ac yn fwy defnyddiol os yw etholaeth yn le neu ynghyd—yn hytrach na chael yr un pwyntiau cwmpawd gyda'i gilydd. Felly dylai teitlau etholaeth gynnwys enw'r lle yn gyntaf a'i gymhwysydd/addasydd (boed yn bwynt cwmpawd, yn faestref neu beth bynnag sydd ar ei ôl—sef yr ôl-ddodiad. Felly, enwau lleoedd yw'r rhagddodiad bob amser, a'r cymhwysydd/addasydd, sef yr ôl-ddodiad.

Defnyddir y ddau bwynt uchod ym mhob dewis dilynol.

B. Wrecsam Fflint (Wrecsam/Alun a Glannau Dyfrdwy Clwyd (Dwyrain Clwyd/Gogledd Clwyd)
Bangor (Ynys Môn/Bangor Aberconwy)
Powys Plas Madoc Cwm Tawe (Aberhonddu Maesyfed Cwm Tawe/Sir Drefaldwyn a Glyndŵr)
Gwynedd Ceredigion Preseli (Dwyfor Meirionydd/Ceredigion Preseli) Caerfyrddin Penfro (Canol a De Sir Benfro/Caerfyrddin)
Llanelli Gŵyr (Gŵyr/Llanelli)
Abertawe Castell-nedd (Castell-nedd a Dwyrain Abertawe/Gorllewin Abertawe) Port Talbot Rhondda (Aberafan Maesteg/Rhondda ac Ogwr)
Pen-y-bont Bro (Pen-y-bont ar Ogwr/Bro Morgannwg)
Caerdydd Gorllewinol Phenarth (Gorllewin Caerdydd/De Caerdydd a Phenarth) Caerdydd Dwyreiniol (Gogledd Caerdydd/Dwyrain Caerdydd)
Pontypridd Caerffili (Pontypridd/Caerffili)
Blaenau Gwent Merthyr Aberdâr (Merthyr Tudful ac Aberdâr/Blaenau Gwent a Rhymni) Casnewydd Islwyn (Dwyrain Casnewydd, Islwyn, Dwyrain Casnewydd)
Torfaen Sir Fynwy (Torfaen/Sir Fynwy)

C. Wrecsam Maldwyn (Wrecsam/Sir Drefaldwyn a Glyndŵr) Fflint Rhuthun (Alun a Glannau Dyfrdwy/Dwyrain Clwyd) Conwy Bangor Dinbych (Bangor Aberconwy/Gogledd Clwyd) Gwynedd

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
Democracy and Boundary Commission Cymru

Ynys Môn (Ynys Môn/Dwyfor Meirionnydd)
Ceredigion Penfro (Ceredigion Preseli/Canol a De Sir Benfro) Sir Caerfyrddin (Caerfyrddin/Llanelli)
Abertawe Gorllewin Gŵyr (Gorllewin Abertawe/Gŵyr)
*Castell-nedd Port Talbot Dwyrain Abertawe/Abertawe Dwyrain (Castell-nedd a Dwyrain Abertawe/Aberafan Maesteg)
Pen-y-bont Bro (Bro Morgannwg/Pen-y-bont ar Ogwr)
Caerdydd Deheuol (Dwyrain Caerdydd/De Caerdydd a Phenarth) Caerdydd Gogleddol (Gorllewin Caerdydd/Gogledd Caerdydd)

Pontypridd Rhondda Ogwr (Rhondda ac Ogwr/Pontypridd) Aberdâr Merthyr Caerffili (Merthyr Tudful ac Aberdâr/Caerffili) Blaenau Gwent Torfaen (Blaenau Gwent a Rhymni/Torfaen)
Casnewydd Islwyn (Dwyrain Casnewydd ac Islwyn)/Dwyrain Casnewydd
Llanfair-ym-Muallt Brynbinga Cwm Tawe (Aberhonddu Maesyfed Cwm Tawe/Sir Fynwy)

Noder* Oherwydd bod Abertawe ar ddiwedd teitl yr etholaeth, gall fod ar ffurf Gymraeg Dwyrain Abertawe. Neu gallai fod ar ffurf Abertawe Dwyrain yn unol â'r lleill ac er cysondeb.

D. Wrecsam Fflint (Wrecsam/Alun a Glannau Dyfrdwy Clwyd (Gogledd Clwyd/Dwyrain Clwyd)
Bangor (Ynys Môn/Bangor Aberconwy)
Gwynedd Maldwyn Plas Madoc (Sir Drefaldwyn Glyndŵr/Dwyfor Meirionydd) Ceredigion Penfro (Canol a De Sir Benfro/Ceredigion Preseli)
Caerfyrddin Llanfair-ym-Muallt Cwm Tawe (Caerfyrddin/Aberhonddu Maesyfed Cwm Tawe)
Llanelli Gŵyr (Llanelli/Gŵyr)
Port Talbot Rhondda (Aberafan Maesteg/Rhondda ac Ogwr) Pen-y-bont Bro (Pen-y-bont ar Ogwr/Bro Morgannwg) Caerdydd Gogleddol (Gorllewin Caerdydd/Gogledd Caerdydd)
Caerdydd Deheuol Phenarth (De Caerdydd a Phenarth/Dwyrain Caerdydd) Pontypridd Aberdâr Merthyr (Pontypridd/Merthyr Tudful ac Aberdâr)
Abertawe Castell-nedd (Gorllewin Abertawe/Castell-nedd a Dwyrain Abertawe) Blaenau Gwent Dyffryn Cwm Rhymni (Blaenau Gwent a Rhymni/Caerffili) Casnewydd Islwyn (Casnewydd ac Islwyn/Dwyrain Casnewydd)
Torfaen Sir Fynwy (Torfaen/Sir Fynwy)

Ai etholaethau, ardaloedd, rhanbarthau yw'r rhain? Maent yn debycach i ranbarthau nag etholaethau. Pa un fyddai'n fwyaf priodol? A fyddai ardaloedd yn fwy cywir—y modd mwyaf addas? NI ddylai enwau y rhain fod yn ddim mwy nag enwau San Steffan sydd wedi eu trosi i'r Gymraeg. Defnyddiwch enw Cymraeg ar gyfer yr ardal. Defnyddiwch yr enw mwyaf addas ar gyfer yr ardal honno yn Gymraeg. Mae'n ddigon posibl y bydd gan yr ardal newydd ei henw Cymraeg ei hun i'w ddefnyddio. Nid yw enwau San Steffan yn dda iawn bob amser. Mae cysylltu dau enw ynghyd yn gwneud un enw eithriadol o hir, sy'n llond ceg! Hefyd, nid yw'n rhoi hunaniaeth sengl ac mae'n eu gwahanu nhw. Mae ganddynt hunaniaeth ddwbl—dwy ydynt mewn gwirionedd, NID un. Un ardal unedig gyda'i hunaniaeth sengl ei hun.

E. Gogledd Cymru—un "dewis arall".

Wrecsam Maldwyn (Wrecsam/Sir Drefaldwyn Glyndŵr) Bangor Colwyn (Bangor Aberconwy/Gogledd Clwyd) Fflint Dinbych (Alun a Glannau Dyfrdwy/Dwyrain Clwyd) Gwynedd Ynys Môn (Dwyfor Meirionydd/Ynys Môn)

Canolbarth a De Cymru—dau ddewis arall:
a)

Cymru Canol Cwm Tawe/Ceredigion Llanfair-ym-Muallt Cwm Tawe (Ceredigion/Aberhonddu Maesyfed a Chwm Tawe)

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
Democracy and Boundary Commission Cymru

Caerfyrddin Penfro/Sir Caerfyrddin Sir Benfro (Canol a De Sir Benfro/Caerfyrddin) Llanelli Gŵyr (Llanelli/Gŵyr)

Abertawe Castell-nedd (Gorllewin Abertawe/Castell-nedd a Dwyrain Abertawe) Port Talbot Ogwr Rhondda (Aberafan Maesteg/Rhondda ac Ogwr)

Pen-y-bont Barri (Pen-y-bont ar Ogwr/Bro Morgannwg) Pontypridd Caerffili (Pontypridd/Caerffili)

Blaenau'r Cymoedd (Merthyr Tudful ac Aberdâr/Blaenau Gwent a Rhymni) Casnewydd Islwyn (Dwyrain Casnewydd/Gorllewin Casnewydd ac Islwyn) Pont-y-pŵl Brynbinga (Torfaen/Sir Fynwy)

Caerdydd Gogledd (Gorllewin Caerdydd/Gogledd Caerdydd) Caerdydd Deheuol (Dwyrain Caerdydd/De Caerdydd a Phenarth)

b)

Ceredigion Penfro (Canol a De Sir Benfro/Ceredigion) Sir Caerfyrddin (Llanelli/Caerfyrddin)

Abertawe Gorllewinol (Gorllewin Abertawe/Gŵyr) Noder mae Gŵyr yn Awdurdod Lleol Abertawe

Abertawe Dwyreiniol Castell-nedd Port Talbot (Dwyrain Abertawe a Chastell- nedd/Aberafan Maesteg)

Pen-y-bont Barri (Pen-y-bont ar Ogwr/Bro Morgannwg)

Caerdydd Deheuol (De Caerdydd a Phenarth/Dwyrain Caerdydd) Caerdydd Gogleddol (Gogledd Caerdydd/Gorllewin Caerdydd) Pontypridd Rhondda Ogwr (Pontypridd/Rhondda ac Ogwr)

Merthyr Aberdâr Cwm Rhymni (Merthyr Tudful ac Aberdâr/Caerffili) Blaenau Gwent Torfaen (Torfaen/Blaenau

Gwent)

Casnewydd Islwyn (Dwyrain Casnewydd Islwyn/Dwyrain Casnewydd)

Llanfair-ym-Muallt Brynbinga Cwm Tawe (Aberhonddu Maesyfed a Chwm Tawe/Sir Fynwy)

Mae manteision ac anfanteision i bob un o’r uchod. Dibynnu ar un, yn aml pa rai eraill sy’n bosibl. Yn aml, mae’n dibynnu lle ydych chi’n dechrau’r hyn yr ydych yn meddwl amdano. Mae nifer o feini prawf i’w hystyried. Er enghraifft daearyddiaeth, cysylltiadau, hanes, cymunedau, Awdurdodau Lleol. Er bod pob un ohonynt yn bwysig. Efallai fod angen inni flaenoriaethu neu

bwysleisio ar rhai ohonynt. Awdurdodau Lleol yw lle mae pobl yn byw ac yn gweithio ynddynt— yr hyn y maent yn ei wybod ac yn cysylltu ag ef. Hefyd, mae'n rhaid i aelodau'r Senedd ymdrin â'r Awdurdodau Lleol hyn, sef y prif gorff sy'n darparu gwasanaethau. Felly, hoffai aelodau (AS) ymdrin â chyn lleied â phosibl o'r rhain. Yn yr un modd, byddai awdurdod lleol yn gyfan gwbl y tu mewn i un maes cynrychiolaeth, ac nid wedi ei rannu rhwng llawer ohonynt. Mae'r pryderon hyn yn ymddangos yn bwysicaf i aelodau y Senedd, Awdurdodau Lleol a'r Cyhoedd. Felly, er mwyn pwysleisio hyn—rhoi blaenoriaeth i awdurdod lleol Mae Caerdydd mor fawr, mae'n rhaid iddi gael dwy ardal Senedd. Gallai'r dinasoedd eraill—Abertawe, Casnewydd, Wrecsam, Bangor fod mewn un ardal Senedd. Bydd hyn yn cael effaith ganlyniadol ar eraill. Mae'n rhaid ystyried popeth yn gyfartal. Cyflawni cydbwysedd da. Mae manteision ac anfanteision i bob un o'r uchod. Ond dylem bwysleisio'r awdurdodau lleol am y rhesymau a nodir uchod.

Gogledd Cymru

Cynrychiolir Wrecsam mewn dwy sedd yn San Steffan—Wrecsam a Sir Drefaldwyn a Glyndŵr. Mae Sir y Fflint yn Alun a Glannau Dyfrdwy a Dwyrain Clwyd.

Mae Sir Ddinbych gyda Dwyrain Clwyd.

Mae Conwy yng Ngogledd Clwyd a Bangor

Aberconwy. Ynys Môn—Ynys Môn.

Gwynedd, mae mwyafrif helaeth ohoni yn Nwyfor Meirionnydd.

Canolbarth Cymru

Mae Powys yn cynnwys Aberhonddu, Maesyfed a Chwm Tawe; a Sir Drefaldwyn a Glyndŵr. Mae Ceredigion a'r Preseli yng Nghanolbarth Cymru hefyd (ac eithrio'r Preseli).

OS yw'r ddwy etholaeth yn mynd i ffurfio Powys, mae hyn yn eithrio gogledd Cymru ac yn golygu y byddai'n rhaid i Ddwyfor Meirionnydd baru gyda Cheredigion a'r Preseli—gan fynd o'r Gogledd i'r De (Arfordir cyfan y gorllewin).

Efallai y byddai'n well osgoi hynny. Oherwydd bod y Preseli yn y De, efallai fod Preseli Ceredigion yn mynd gyda Chanol a De Sir Benfro. Mae rhan o Sir Benfro yn y ddwy ohonynt.

De Cymru

Gan ddibynnu ar ble'r ydym ni'n dechrau, pa barau yr ydym yn eu ffurfio. Mae gan Gaerdydd bedair etholaeth yn San Steffan, felly gall ffurfio dwy etholaeth ar gyfer y Senedd.

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
Democracy and Boundary Commission Cymru

Cynrychiolir Abertawe mewn dwy etholaeth: Gorllewin Abertawe a Chastell-nedd a dwyrain Abertawe. Mae etholaeth Gŵyr yn awdurdod lleol Abertawe hefyd. Mae dwy etholaeth yng Nghastell-nedd Port Talbot: Castell-nedd a Dwyrain Abertawe ac Aberafan Maesteg. Mae gan Sir Gaerfyrddin ddwy sedd: Caerfyrddin a Llanelli.

Mae gan Awdurdod Lleol Ben-y-bont ar Ogwr a rhan o'r Rhondda ac Ogwr (Ogwr). Mae Rhondda Cynon Taf yn cynnwys Rhondda ac Ogwr (rhannau o'r Rhondda), Pontypridd, Merthyr Tudful ac Aberdâr (ac eithrio Merthyr Tudful). Mae gan fwrdeistref Caerffili seddi Caerffili, Blaenau Gwent

a Rhymni (rhan o'r Rhymni), a Gorllewin Casnewydd ac Islwyn (rhan o Islwyn). Mae gan Ddinas Casnewydd Ddwyrain Casnewydd, a Gorllewin Casnewydd ac Islwyn. Mae gan Dorfaen Dorfaen. Mae gan Sir Fynwy Sir Fynwy.

Mae gan y de lawer mwy o ffyrdd posibl o gymharu â'r gogledd a'r canolbarth. Os dechreuwn gyda'r pedair etholaeth yn y gogledd, gall Ceredigion a'r Preseli fynd gydag Aberhonddu, Maesyfed a Chwm Tawe i ffurfio ardal Senedd Canolbarth Cymru—yr unig un. Neu gall fynd gyda Chanolbarth a De Sir Penfro. OS ydym yn cadw Sir Penfro cyfan ynghyd, un ardal. Mae gan Aberhonddu, Maesyfed a Chwm Tawe dri dewis—Caerfyrddin; Castell-nedd a dwyrain Abertawe, neu Sir Fynwy. Bydd yr un a ddewisir yn effeithio ar holl weddill de Cymru. Os ydym yn dymuno cadw Sir Gaerfyrddin ynghyd (Caerfyrddin/Llanelli), nid yw hynny'n ddewis. Os ydym yn dymuno cadw Abertawe gyfan ynghyd, a/neu Gastell-nedd Port Talbot gyfan ynghyd, ni ellir dewis Castell-nedd a Dwyrain Abertawe. Mae hynny'n gadael Sir Fynwy—sy'n awdurdod lleol ynddi ei hun. Mae'r ddwy etholaeth yn rhannu'r un cymeriad ac ati i raddau helaeth, h.y. Aberhonddu, Maesyfed a Chwm Tawe a Sir Fynwy—tebyg.

F. Wrecsam Maldwyn (Wrecsam/Sir Drefaldwyn a Glyndŵr) Fflint Dinbych (Alun a Glannau Dyfrdwy/Dwyrain Clwyd) Bangor Colwyn (Bangor Aberconwy/Gogledd Clwyd) Gwynedd Ynys Môn (Dwyfor Meirionydd/Ynys Môn) Ceredigion Penfro (Canol a De Sir Benfro/Ceredigion Preseli) Sir Caerfyrddin (Caerfyrddin/Llanelli)
Abertawe Gorllewinol (Gorllewin Abertawe/Gŵyr)
Abertawe Dwyreiniol Castell-nedd Port Talbot (Dwyrain Abertawe a Chastell- nedd/Aberafan Maesteg)
Pen-y-bont Barri/Morgannwg Arfor(dirol) (Pen-y-bont ar Ogwr/Bro Morgannwg) Caerdydd Deheuol NEU Gaerdydd Deheuol Phenarth (De Caerdydd a Phenarth/Dwyrain Caerdydd)
Caerdydd Gogleddol (Gogledd Caerdydd/Gorllewin Caerdydd) Pontypridd Rhondda Ogwr (Pontypridd/Rhondda ac Ogwr)
Merthyr Aberdâr Cwm Rhymni (Merthyr Tudful ac Aberdâr/Caerffili)
Merthyr Aberdâr Rhondda Ogwr (Merthyr Tudful ac Aberdâr/Rhondda ac Ogwr) NEU
Pontypridd Caerffili (Pontypridd/Caerffili)
Blaenau Gwent Torfaen (Torfaen/Blaenau Gwent)
Casnewydd Islwyn (Dwyrain Casnewydd ac Islwyn/Dwyrain Casnewydd)
Llanfair-ym-Muallt Brynbinga Gwrnos/Powys Canol & De Sir Fynwy Uchaf Cwm Tawe (Aberhonddu Maesyfed Cwm Tawe/Sir Fynwy)

Er bod manteision ac anfanteision i bob un; mae'n debyg mai F. uchod sydd â'r nifer mwyaf o fanteision a'r nifer lleiaf o anfanteision. Mae hyn yn ffurfio 16 o ardaloedd Senedd allan o 32 o etholaethau San Steffan. Mae'r enwau'n parchu'r ardaloedd ac yn gyfarwydd, ac mae pob un ohonynt yn Gymraeg.

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
Democracy and Boundary Commission Cymru

Osgoir cysyllteiriau. Mae'r ampersand (&) yr un fath yn Gymraeg neu yn Saesneg ac mae'n adnabyddus. Mae'r enwau lleoedd yn cael blaenoriaeth dros unrhyw gymhwysydd ac felly mae enwau lleoedd yn cael blaenoriaeth dros ragddodiad ac addasydd yr ôl-ddodiad. Mae hyn yn gwneud yr enwau yn hawdd eu defnyddio ac yn ddefnyddiol. Rhoddir dau ddewis/dewis arall ar gyfer cymoedd y gorllewin. Ni all y ddau lynu'n uniongyrchol wrth yr awdurdod lleol. Efallai mai'r cyntaf sy'n gwneud y mwyaf. Rhoddir dau enw ar gyfer dwy ardal Senedd. Yr enwau cyntaf a roddir yn y ddwy achos.

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
Democracy and Boundary Commission Cymru

Yn y ddau achos, mae'r enwau cyntaf yn ymwneud â'r trefi ac yn dilyn y trefi. Mae'r ail yn fwy eang ei natur. Mae un yn defnyddio'r siroedd. Mae un yn defnyddio daearyddiaeth (nodwedd ffisegol).

Mae'r map isod yn dangos yr 16 o ardaloedd y Senedd.

Hoffwn ddymuno'n dda i chi yn eich gwaith a dymuno'r gorau i chi yn eich ymdrechion.

Byddwn yn ddiolchgar pe baech yn cadw fy manylion i gyd yn hollol breifat a chyfrinachol. Diolch.

Dymuniadau

gorau. Yn gywir,

[redacted]

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru

Democracy and Boundary Commission Cymru

Map o Ardaloedd y Senedd ar gyfer opsiwn amgen F (Awdurdodau Lleol)




Mae disgrifiadau o ardaloedd y Senedd i'w gweld dros y dudalen

Allwedd i ardaloedd y Senedd

1.Gwynedd Ynys Môn 2.Bangor Colwyn 3.Fflint Dinbych 4.Wrecsam Maldwyn 5.Ceredigion Penfro 6.Builth Brynbinga Gurnos + 7.Caerfyrddin (Sir)

8.Abertawe Gorllewinol 9.Abertawe Dwyreiniol Castell-nedd Port Talbot 10.Pen-y-bont Barri [Morgannwg Arfor(dirol)] 11.Pontypridd Rhondda Ogwr

12.Merthyr Aberdâr Cwm Rhymni 13.Caerdydd Gogleddol 14.Caerdydd Deheuol Phenarth 15.Casnewydd Islwyn

16.Blaenau Gwent Torfaen + Teitl amgen: Powys Canol a De Sir Fynwy Uchaf Cwm Tawe

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
Democracy and Boundary Commission Cymru

Disgrifiadau o ardaloedd y Senedd ar gyfer opsiwn amgen F.

1. Gwynedd Ynys Môn Ynys Môn i gyd a'r rhan fwyaf o Wynedd. Dau Awdurdod Lleol.
2. Bangor Colwyn Bwrdeistref Conwy i gyd a chyffiniau Dinas Bangor. Dau Awdurdod Lleol.
3. Fflint Dinbych Sir y Fflint a Sir Ddinbych. Dau Awdurdod Lleol.
4. Wrecsam Maldwyn Dinas Wrecsam i gyd a Sir Drefaldwyn. Dau Awdurdod Lleol.
5. Ceredigion Penfro Ceredigion a Sir Benfro. Dau Awdurdod Lleol.
6. Builth Brynbinga Gurnos Canol a De Powys a Sir Fynwy. Dau Awdurdod Lleol.
7. Caerfyrddin (Sir) Sir Gaerfyrddin i gyd. Un Awdurdod Lleol.
8. Abertawe Gorllewinol Rhan orllewinol Dinas a Sir Abertawe. Un Awdurdod Lleol.
9. Abertawe Dwyreiniol Castell-nedd Port Talbot Rhan ddwyreiniol Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot. Dau Awdurdod Lleol.
10. Pen-y-bont Barri Y rhan fwyaf o fwrdeistref Pen-y-bont ar Ogwr a'r rhan helaethaf o ardal Bro Morgannwg. Dau Awdurdod Lleol.
11. Pontypridd Rhondda Ogwr Y rhan fwyaf o Rondda Cynon Taf (heb gynnwys Aberdâr) ac Ogwr. Dau Awdurdod Lleol.
12. Merthyr Aberdâr Cwm Rhymni Bwrdeistref Merthyr Tudful, rhan o Rondda Cynon Taf (Aberdâr) a'r rhan fwyaf o sir Caerffili (Cwm Rhymni). Tri Awdurdod Lleol.
13. Caerdydd Gogleddol Rhan ogleddol dinas Caerdydd. Hanner Awdurdod Lleol. (Gweler isod*.)
14. Caerdydd Deheuol Phenarth Rhan ddeheuol dinas Caerdydd a thref Penarth. Un a hanner Awdurdod Lleol / Dau Awdurdod Lleol. (Gweler isod*.)
15. Casnewydd Islwyn Dinas Casnewydd ac Islwyn (Cymoedd Ebwy a Sirhywi-Canol ac Isaf). Dau Awdurdod Lleol.
16. Blaenau Gwent Torfaen Bwrdeistrefi Blaenau Gwent a Thorfaen. Dau Awdurdod Lleol.

DS * Caerdydd Mae'r A48 yn rhannu'r ddinas yn ardal ogleddol ac yn ardal ddeheuol. Mae Caerdydd Deheuol yn cynnwys canol y ddinas yn ei gyfanrwydd.

Bod cymaint ag sy'n bosibl o Awdurdod Lleol mewn un o ardaloedd y

Senedd. Bod ardaloedd y Senedd yn cyfateb gymaint ag sy'n bosibl i'r

Awdurdodau Lleol.

Bod cymaint ag sy'n bosibl o ardaloedd y Senedd yn cynnwys un neu ddau Awdurdod Lleol.

Bod cyn lleied ag sy'n bosibl o ardaloedd y Senedd yn cynnwys tri Awdurdod Lleol a bod dim un yn cynnwys mwy na hynny.

**7034 – Aelod o'r Cyhoedd**

Mae rhoi Rhaeadr Gwy gydag Abertawe yn chwerthinllyd fel y mae rhoi Llanidloes gydag Abersoch. Nid oes gan yr ardaloedd hyn ddim byd yn gyffredin o gwbl ac felly nid yw un maint yn gweddu i bawb.

[HEPGOR]

**7037 – Aelod o'r Cyhoedd**

Rwy'n byw yn Nhalgarth yn hen etholaeth Brycheiniog a Maesyfed ac rwy'n ganfasiwr gwirfoddol. Mae'r pellter rhwng y gogledd a'r de yn yr etholaeth arfaethedig dros 80 milltir mewn car, sy'n 2.5 awr o amser teithio. Rydym yn symud o etholaeth dirgaeedig i un ag arfordir lle nad oes gan y cymunedau yn y gogledd a'r de lawer yn gyffredin.

[HEPGOR]

**7049 – Aelod o'r Cyhoedd**

Rwy'n byw yn Llanhari, felly rwyf yn etholaeth Merthyr a Phontypridd. Y dref fwyaf i ni yw Pont-y-clun sydd, am ryw reswm anhysbys, yng Ngorllewin Caerdydd.
Byddwn yn cael ein hanwybyddu oherwydd ein bod ar gyrion yr ardal hon fel y mae RhCT yn ein hanwybyddu ni. Yn flaenorol, roeddem o dan etholaeth seneddol Maesteg, sydd hefyd yn hurt.
[HEPGOR]

**7052 – Aelod o'r Cyhoedd**

Mae'r syniad bod cysylltiadau ffyrdd da rhwng ardaloedd arfaethedig Maesteg Aberafan, Rhondda ac Ogwr yn ffantasi hurt!
Ceisiwch grwydro yma a thraw yn yr ardaloedd hyn â thrafnidiaeth gyhoeddus ac fe welwch beth yw wyf yn ei feddwl.
[HEPGOR]

**7053 - Ar ran sefydliad (preifat neu gyhoeddus)**

Cynigion Cychwynnol ar gyfer adolygiad 2026 o etholaethau y Senedd: Enwau Eraill

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru

Democracy and Boundary Commission Cymru

Diolch am y cyfle i gyflwyno ymateb i gynigion cychwynnol y Comisiwn ynghylch adolygiad 2026 o etholaethau y Senedd, fel y'i cyhoeddwyd ym mis Medi 2024. Yn yr ateb canlynol, mae Canolfan Llywodraethiant Cymru Prifysgol Caerdydd yn ymateb yn bennaf i gais y Comisiwn am sylwadau sy'n cynnig awgrymiadau amgen i enwau yr etholaethau yn y ddogfen gychwynnol.

Wrth gwrs, mae'r Comisiwn yn gyfyngedig iawn o ran lle i symud o ystyried y telerau a nodir gan y Ddeddf. Er y gallai cynigion gefeillio amgen fod ar gael yng nghamau nesaf yr adolygiad hwn, credwn fod cynigion cychwynnol y Comisiwn yn adlewyrchu sefyllfa cyntaf addas ar gyfer ffiniau'r Senedd ar ôl 2026.

Mewn cyferbyniad â'r lle cyfyngedig iawn hwn i symud wrth bennu'r ffiniau gefeilliedig, mae gan y Comisiwn lawer mwy o hyblygrwydd wrth enwi'r seddi arfaethedig. Yn wir, oherwydd bod adolygiadau o ffiniau y Senedd yn y dyfodol yn debygol o fod wedi eu datgysylltu o etholaethau San Steffan er mwyn cynnal Senedd â 96 o aelodau, mae gan y Comisiwn gyfrifoldeb penodol i wreiddio enwau ar gyfer y seddi newydd a fydd yn debygol o oroesi y tu hwnt i enwau llawer o'r 32 o etholaethau presennol yn San Steffan. Bydd sefydlu enwau Cymraeg sy'n adlewyrchu daearyddiaeth a phoblogaethau lleol—enwau sy'n rhagfynegi parhad a sefydlogrwydd etholaethau a fydd yn ethol aelodau i'r Senedd yn y dyfodol—yn ganlyniad enwedig o bwysig i'r adolygiad ffiniau cyntaf hwn.

Ein safbwynt ni yw bod enwau'r etholaethau a awgrymir yn y cynigion cychwynnol yn llawer rhy hir ar gyfer defnydd arferol mewn etholiadau a thrafodiadau seneddol, a bod dewisiadau amgen sy'n adlewyrchu eu daearyddiaeth leol ar gael. Mae byrder yn hynod bwysig wrth enwi etholaethau; fel y mae cysylltu'r enwau newydd hyn â daearyddiaeth traddodiadol Cymru. O ystyried maint yr etholaethau newydd a nifer y canolfannau poblogaeth y mae'r mwyafrif ohonynt yn eu cynnwys, gallai nodweddion daearyddol megis afonydd neu gadwyni mynyddoedd

fod yn ffordd fwy cyfleus a phriodol o ddynodi etholaethau yn hytrach na rhestru trefi neu aneddiadau eraill.

Felly, rydym yn cynnig yr enwau etholaethol amgen canlynol, a drefnir yn ddaearyddol o'r gogledd-orllewin i'r de-ddwyrain:

1. Aberconwy, Môn a Menai. Mae'r ffurfiad hwn yn osgoi'r fersiwn hir o'r enw a gynigir yn y cynigion cychwynnol ac mae'n dal i gynnwys holl brif elfennau yr etholaeth arfaethedig.
2. Bryniau Clwyd a'r Glannau. Mae'r enw 'Clwyd' a awgrymir yn y cynigion cychwynnol yn enw anaddas ar gyfer y sedd arfaethedig oherwydd bod sir cadwedig Clwyd ôl-1996 yn cwmpasu ardal o Lanfairfechan hyd Fangor-is-y-coed. Mae'r enw sedd amgen yn adlewyrchu dwy brif nodwedd yr etholaeth arfaethedig: ardal yr ucheldir o amgylch Bryniau Clwyd, yn ogystal â rhediad arfordirol hir arfordir y gogledd-ddwyrain.
3. Maelor. Mae'r dewis amgen hwn yn cydnabod cymydau hanesyddol Maelor Gymraeg a Maelor Saesneg yng ngogledd-ddwyrain Cymru a ffurfiodd y rhan fwyaf o ardal a phoblogaeth yr etholaeth newydd (https://cbhc.gov.uk/mapio-ffiniau-hanesyddol- cymru-cymydau-a-chantrefi/), gan gynnig fersiwn syml a byr ar gyfer enw'r etholaeth sy'n adnabyddus oherwydd yr ysbyty rhanbarthol. Byddai ail ddewis—Wrecsam Dyfrdwy—yn

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru

Democracy and Boundary Commission Cymru

cysylltu dwy brif elfen y sedd hon. Hafren Dyfrdwy yw enw'r cwmni dŵr lleol yn y fath fodd bod adeiladau fel y rhain yn gyfarwydd.

4. Gwynedd, Maldwyn a Glyndŵr. Mae'r enw a awgrymir yn y cynigion cychwynnol yn rhy hir. Yn rhan orllewinol y sedd hon, er bod ardal awdurdod lleol Gwynedd yn ymestyn y tu hwnt i ffiniau y sedd hon tuag at Fangor ac Abergwyngregyn, mae angen modd i gwtogi enw'r etholaeth arfaethedig. Mae 'Gwynedd' yn cynrychioli'r ardal a gynhwysir yn sedd Dwyfor Meirionnydd yn ddigonol.

5. Ceredigion Penfro.

6. Sir Gâr.

7. Gŵyr. Mae'r enw hwn yn gywir yn ddaearyddol ac yn hanesyddol ar gyfer yr etholaeth paredig arfaethedig hon—cwmwd Gŵyr, a oedd yn cynnwys Abertawe fodern (gweler https://cbhc.gov.uk/mapio-ffiniau-hanesyddol-cymru- cymydau-a-chantrefi/). Mae defnyddio'r enw Cymraeg hanesyddol yn gwahaniaethu rhwng etholaeth 'Gower' ar lefel San Steffan.

8. Tawe, Nedd a'r Bannau. Mae'r enw a awgrymir yn y cynigion cychwynnol yn llawer rhy hir. Mae'r dewis arall hwn yn adlewyrchu prif nodweddion daearyddol yr ardaloedd arfordirol a nodwedd daearyddol amlycaf yr ardal fewndirol. Er bod Brycheiniog a Sir Faesyfed wedi bod yn enw hirsefydlog ar gyfer sedd cyntaf i'r felin yr ardal,

mae'n angenrheidiol symleiddio enw'r etholaeth unedig er mwyn osgoi gorgymhlethdod a dryswch. Nodwn hefyd y lleolir y mwyafrif o etholwyr yr etholaeth arfaethedig yn agos at gymoedd Tawe isaf a Nedd a Bae Abertawe.

9. Rhondda Ogwr Afan. Mae enw'r sedd hon yn adlewyrchu'r afonydd a'r cymunedau gwleidyddol mwyaf yn yr etholaeth arfaethedig hon.

10. Cynon Taf. Mae enw'r hwn yn adlewyrchu'r ddwy afon a'r cymunedau gwleidyddol amlycaf yn yr etholaeth arfaethedig hon. Mae trefn 'Cynon Taf' yn nhrefn yr wyddor, ond mae hefyd yn dwyn enw sir Rhondda Cynon Taf i gof yn fwriadol.

11. Cwm Rhymni a Blaenau Gwent. Mae'r enw arall hwn yn adlewyrchu'r ddau gyngor dosbarth blaenorol a'r cymunedau daearyddol/gwleidyddol sy'n ffurfio'r etholaeth arfaethedig hon. Cynhwysir y gair 'Cwm' yn fwriadol, er mwyn gwahaniaethu rhwng pentref Rhymni a chydnabod pariad etholaeth Blaenau Gwent a Rhymni â rhan ddeheuol cwm Rhymni (h.y. etholaeth Caerffili).

12. Mynwy Torfaen. Mae'r enw arall hwn yn adlewyrchu'r ddau gyngor a'r cymunedau daearyddol/gwleidyddol sy'n ffurfio'r etholaeth arfaethedig hon. Dylid osgoi'r cyswllt 'a'/'and' yma oherwydd byddai geiriad 'a Thorfaen' yn lletchwith yn y Saesneg.

13. Casnewydd Islwyn; neu Gwynllwg. Dewis arall hanesyddol ar gyfer etholaeth arfaethedig Casnewydd ac Islwyn fyddai cantref Gwynllwg y mae ei ardal wedi ei mapio'n agos at yr ardal arfaethedig (gweler https://cbhc.gov.uk/mapio- ffiniau-hanesyddol-cymru-cymydau-a-chantrefi/). Yr ardal rhwng afonydd Rhymni ac Wysg oedd Gwynllwg, gan gynnwys yr ucheldir ac ardal y cymoedd i'r gogledd. Mae'r hunaniaeth hanesyddol hon wedi goroesi yn enw'r Eglwys Gadeiriol, yr ysbyty a'r ardal o'i chwmpas yng

Nghasnewydd—a gysegrwyd i Sant Gwynllyw (a newidiwyd i St Woolos yn ddiweddarach)—yn ogystal â Phîl Gwynllyw, ardal Gwynllŵg, ac enwau pentrefi megis Llanbedr Gwynllŵg a Llansanffraid Gwynllŵg.

14. Dwyrain Caerdydd.

15. Gorllewin Caerdydd.
16. Penybont a Bro Morgannwg. Rydym yn argymell gwrthdroi trefn y ddwy ran o'r etholaeth gyfun a awgrymir yn y cynigion cychwynnol oherwydd byddai'r geiriad 'a Phenybont' sy'n deillio o hynny yn lletchwith yn y Saesneg.

Diolch unwaith eto am y cyfle i ymateb i gynigion cychwynnol y Comisiwn ar gyfer etholaethau 2026 y Senedd, a diolch am eich gwaith hyd yn hyn ar y diwygiad pwysig hwn.

Yr eiddoch yn gywir,

[HEPGOR]

**7054 – Aelod o'r Cyhoedd**

Rwy'n methu â gweld sut mae budd cymunedol posibl rhwng ardaloedd Wrecsam ac Ynys Enlli! [HEPGOR]

**7056 – Aelod o'r Cyhoedd**

Dylid defnyddio Bannau Brycheiniog fel ffin naturiol ar gyfer etholaethau. Mae gan Ddwyrain Abertawe a dyffryn Castell-nedd ofynion gwahanol o'u cymharu ag ardaloedd sydd ymhellach i fyny ym Mhowys.

[HEPGOR]

**7057 – Aelod o'r Cyhoedd**

Rwyf yn pryderu bod y gofynion am gyfagosrwydd yn golygu ein bod yn colli cyfleoedd am etholaethau a allai gynnwys synnwyr mwy naturiol o gymuned, gan gynnwys aliniad â llwybrau iechyd a gofal sefydledig ledled Cymru.

Yn gysylltiedig â hyn, teimlaf fod y map o'r etholaethau arfaethedig yn ymwneud â "gogledd Cymru" a "de Cymru" i raddau helaeth a'n bod yn colli'r ymdeimlad o etholaethau sy'n gwir gynrychioli buddiannau "canolbarth Cymru". Dygir Llangurig a'r Ystog ynghyd â Chaernarfon; a dygir Bugeildy, Trefyclo a Rhaeadr Gwy ynghyd â Phort Tennant.

Rwyf yn cydnabod bod her sylfaenol o ran mathemateg er bod hynny'n golygu bod yn rhaid paru Maldwyn a Glyndŵr i'r gogledd oni bai ein bod yn dewis etholaeth arfordirol mawr yn y gorllewin sy'n cwmpasu Dwyfor Meirionydd a Cheredigion Preseli sy'n rhychwantu Aber Dyfi.

### 7061 – Aelod o'r Cyhoedd

Mae llawer o'r parau mwy yn anwybyddu gwahaniaethau o ran demograffeg a diwylliant oherwydd y pwyslais ar gysylltiad ffyrdd (er bod hynny'n ofyniad nad yw o dan reolaeth y comisiwn). Mae llawer o'r newidiadau hyn yn niweidio cymunedau Cymraeg drwy ychwanegu etholaethau sydd â llawer llai o siaradwyr Cymraeg, sy'n golygu y byddant yn cael llai o gynrychiolaeth (e.e. Dwyfor Meirionydd yn uno â Sir Drefaldwyn a Glyndŵr). Nid yw'r mwyafrif ohonynt yn ystyried cysylltiadau diwylliannol ychwaith.

Mae'r isod yn dilyn rhestr o syniadau personol i gysylltu cymunedau'n well ar sail cysylltiadau diwylliannol ac agosrwydd.

1) Canol a De Sir Penfro gyda Chaerfyrddin. Mae mwy o gysylltiadau trên a materion tebyg yn wynebu'r ddwy etholaeth hyn na pharau eraill.

2) Ceredigion Preseli gyda Dwyfor Meirionnydd. Mae gan y seddi hyn fwy yn gyffredin o ran siaradwyr Cymraeg, a threfi arfordirol gwledig sydd ymhellach oddi wrth y rhan fwyaf o gysylltiadau trafnidiaeth.

3) Aberhonddu, Maesyfed a Chwm Tawe gyda Sir Drefaldwyn a Glyndŵr. Mae'r ddwy yn debyg o ran y demograffig gwledig a siaradwyr Saesneg. Mae'r ddwy yn seddi ar y ffin ac maent hyd yn oed yn rhannu cyngor sir mewn ***rhai ardaloedd*** (Powys).

4) Llanelli a Gŵyr. Mae hyn yn cywiro'r newid uchod i Gaerfyrddin.

5) Gorllewin Abertawe a Chastell-nedd a Dwyrain Abertawe. Mae hyn yn gwneud llawer mwy o synnwyr na hollti darn o Abertawe a'i ychwanegu at Aberhonddu, Maesyfed a Chwm Tawe.

6) Bro Morgannwg a De Caerdydd a Phenarth. Mae gan y Fro lai o gysylltiadau â Phen-y-bont ar Ogwr, ond mae'r Barri, y canolfan poblogaeth mwyaf, wedi ei gysylltu'n dda iawn â Dinas Powys, Penarth a Chaerdydd. Mae'r Barri hyd yn oed yn yr un parth bysiau, ac felly, byddai paru'n fwy naturiol.

7) Gogledd Caerdydd a'r Rhondda ac Ogwr. Mae hyn er mwyn datrys y mater o baru De Caerdydd a Phenarth gyda Bro Morgannwg.


8) Aberafan Maesteg a Phen-y-bont ar Ogwr. Mae hyn yn gwneud mwy o synnwyr oherwydd bod gwell cysylltiadau trafnidiaeth â Phort Talbot o Ben-y-bont ar Ogwr nag sydd o Ben-y-bont ar Ogwr â gweddill Bro Morgannwg.

Nod yr awgrymiadau hyn yw adlewyrchu'n well y cysylltiadau diwylliannol rhwng etholaethau a chysylltiadau hanesyddol wrth eu paru (maent yn cyfateb yn well i rai o'r hen dywysogaethau yng Nghymru). Mae'r argymhellion gwreiddiol yn gwneud camgymeriadau

difrifol gan fethu â chydnabod rhaniad gorllewinol/dwyreiniol, a byddent yn golygu y bydd cymunedau sydd â chysylltiadau gwaeth yn y gorllewin yn colli cynrychiolaeth mawr ei hangen.

**7064 - Bleddyn Rhys Williams - Cynghorydd lleol neu swyddog etholedig arall**

Rwyf wedi atodi cynnig amgen, gan mai fy mhrif broblem gyda’r cynnig cychwynnol yw uno Aberhonddu, Sir Faesyfed a Chwm Tawe â Dwyrain Abertawe. Nid yw’r etholaethau hyn yn rhannu llawer yn gyffredin. Byddai’n well petai Aberhonddu, Sir Faesyfed a Chwm Tawe yn uno â Sir Fynwy.



## 7069 – Aelod o'r Cyhoedd

[HEPGOR]

Yn ychwanegol at gyhoeddi cynigion cychwynnol Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru mewn cysylltiad â'r un ar bymtheg o etholaethau ar gyfer etholiad Senedd Cymru sydd ar ddod. Ysgrifennaf i wneud sylwadau ac i wrthgynnig dau bariad amgen o 32 etholaeth seneddol y DU.
Gan fod sylwebyddion, gan eich cynnwys chi, wedi sylwi, mae'r dewisiadau paru'n dibynnu ar y penderfyniadau a wneir yng nghanolbarth Cymru gan fod y rhain yn effeithio'n derfynol ar y dewisiadau i'r de a'r gorllewin.
Rwyf yn cytuno â chasgliadau LGDBW bod y gofyniad am ffiniau cyffyrddol rhwng etholaethau paredig yn gwneud y penderfyniadau ar hyd arfordir gogledd Cymru yn amlwg. Fy unig gyfraniad yma yw awgrymu rhai dynodiadau daearyddol byrrach ar gyfer y seddi gefeilliedig arfaethedig sy'n ceisio osgoi unrhyw ddryswch drwy ddyblygu etholaethau seneddol y DU y'u hadeiledir ohonynt.
O ran canolbarth a gorllewin Cymru, teimlaf fod cysylltiadau trafnidiaeth ffyrdd ac ieithyddol a diwylliannol yn gwneud paru Dwyfor Meirionnydd â Cheredigion yn fwy priodol na Sir Drefaldwyn.
Mae Sir Drefaldwyn yn ei thro yn gefeillio yn fwyaf naturiol â'r sedd arall sy'n cwmpasu Powys yn bennaf; sef Aberhonddu Maesyfed Cwm Tawe. Er bod y sedd ganlyniadol yn helaeth ac yn brin ei phoblogaeth, mae'r cysylltiadau trafnidiaeth rhwng y gogledd a'r de yn cysylltu'r Trallwng, y Drenewydd, Llandrindod, Llanfair-ym-Muallt ac Aberhonddu yn rhesymol ac mae'r ateb hwn yn uno dau hanner Powys sydd â mwy yn gyffredin â'i gilydd nag unrhyw seddi arfordirol yn unrhyw gyfeiriad yn ôl pob tebyg (er enghraifft, mae'r ddwy yn gallu defnyddio gwasanaethau ysbyty cyffredinol dosbarth yn Amwythig a Henffordd yn ogystal â chysylltiadau trafnidiaeth sy'n croesi'r ffin Eingl-Gymreig). Mae'r paru hyn hefyd yn hwyluso cyfluniad gwell (yn fy marn i) yn ne a gorllewin Cymru. Y dewis arall hyfyw i gyfluniad LGDBW yw gadael Dwyfor wedi ei pharu â Sir Drefaldwyn a chysylltu Aberhonddu Maesyfed Cwm Tawe â Sir Fynwy (yr A40 yw'r brif ffordd cyswllt) gyda newidiadau dilynol i Went a phariadau Blaenau'r Cymoedd.
Unwaith eto, yn ieithyddol ac yn ddiwylliannol, mae'r ddwy sedd ffiniol yma yn rhannu gwasanaethau hanfodol â Lloegr ac, yn gymharol, ychydig iawn o siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf sydd yn unrhyw un ohonynt.
Yn fy nau wrthgynnig, mae'r gorllewin yn ei hanfod yn datrys ei hun gan mai dim ond un patrwm cyffiniol sydd ar gael.
Yn y de, mae cysylltiadau trafnidiaeth yn fwy helaeth rhwng y dwyrain a'r gorllewin (M4, A48, Blaenau'r Cymoedd yr A465) a'r gogledd a'r de o bob Cwm i'r dinasoedd arfordirol. Mae'r seddi yn fwy cywasgedig a threfol. Mae'r prif gyfyng-gyngor yma'n codi yn y modd y mae rhywun yn ymdrin â'r tair dinas sy'n cwmpasu nifer o seddi sydd â hunaniaethau cyffredin a chysylltiadau trafnidiaeth lleol; heb adael seddi amddifad yn y Cymoedd. Nid oes fawr o ddewis ond gwahanu Dwyrain a Gorllewin Casnewydd neu Ddwyrain a Gorllewin Abertawe.
Mae dewis LGDBC i efeillio Aberhonddu Maesyfed Cwm Tawe â Chastell-nedd a Dwyrain

Abertawe yn arwain at sedd sy’n anwastad iawn o ran dosbarthiad poblogaeth ac, o ganlyniad, mae craidd disgyrchiant yn y de ar draul y boblogaeth sy’n byw yn y gefnwlad gwledig prin ei phoblogaeth sy’n ymestyn o Epynt i ffin Swydd Amwythig.

Gwrthgynnig Un:

¬ Bangor Aberconwy AC Ynys Môn (enw arfaethedig: Menai)
¬ Dwyrain Clwyd A Gogledd Clwyd (enw arfaethedig: Clwyd)
¬ Alun a Glannau Dyfrdwy A Wrecsam (enw arfaethedig: Glannau Dyfrdwy)
¬ Aberhonddu Maesyfed Cwm Tawe A Glyndŵr Sir Drefaldwyn (enw arfaethedig: Powys)
¬ Dwyfor Meirionnydd A Cheredigion Preseli (enw arfaethedig: Bae Ceredigion)
¬ Caerfyrddin A Chanolbarth a De Sir Penfro (enw arfaethedig: Dyfed)
¬ Gŵyr A Llanelli (enw arfaethedig: Llwchwr)
¬ Castell-nedd a Dwyrain Abertawe A Gorllewin Abertawe (enw arfaethedig: Abertawe Glyn-nedd)
¬ Pen-y-bont ar Ogwr AC Aberafan Maesteg (enw arfaethedig: Cynffig Porthcawl)
¬ Pontypridd A Rhondda ac Ogwr (enw arfaethedig: Morgannwg Ganol)
¬ De Caerdydd a Phenarth A Bro Morgannwg (enw arfaethedig: De Morgannwg)
¬ Gogledd Caerdydd A Gorllewin Caerdydd (enw arfaethedig: Llandaf)
¬ Dwyrain Caerdydd A Gorllewin Casnewydd ac Islwyn (enw arfaethedig: Gwastadeddau Gwent)
¬ Caerffili A Merthyr Tudful ac Aberdâr (enw arfaethedig: Rhymni)
¬ Blaenau Gwent a Rhymni A Thorfaen (enw arfaethedig: Glyn Ebwy a Chwmbrân)
¬ Sir Fynwy A Dwyrain Casnewydd (enw arfaethedig: Glan Hafren)

Gwrthgynnig Dau:

¬ Bangor Aberconwy AC Ynys Môn (enw arfaethedig: Menai)
¬ Dwyrain Clwyd A Gogledd Clwyd (enw arfaethedig: Clwyd)
¬ Alun a Glannau Dyfrdwy A Wrecsam (enw arfaethedig: Glannau Dyfrdwy)
¬ Aberhonddu Maesyfed Cwm Tawe A Sir Fynwy (enw arfaethedig: Dyffryn Gwy)
¬ Dwyfor Meirionnydd A Glyndŵr Sir Drefaldwyn (enw arfaethedig: Yn yr achos hwn, nid oes nodwedd ddaearyddol arwyddocaol; ond gan fod Machynlleth yn gorwedd ychydig ar ochr Powys a’r sedd yn cynnwys llawer o gadarnle yr Wyddfa Tywysogion Gwynedd, teimlaf fod “Glyndŵr De Gwynedd” mor briodol ag unrhyw beth)
¬ Ceredigion Preseli A Chanol a De Sir Penfro (enw arfaethedig: Aberteifi)
¬ Sir Gaerfyrddin A Llanelli (enw arfaethedig: Ystrad Tywi)
¬ Gŵyr A Gorllewin Abertawe (enw arfaethedig: Y Mwmbwls)
¬ Aberafan Maesteg A Rhondda ac Ogwr (enw arfaethedig: Dyffryn)
¬ Pen-y-bont ar Ogwr A Bro Morgannwg (enw arfaethedig: De Morgannwg)
¬ De Caerdydd A Phenarth a Gorllewin Caerdydd (enw arfaethedig: Taf Elái)
¬ Dwyrain Caerdydd A Gogledd Caerdydd (enw arfaethedig: Porth Caerdydd)
¬ Merthyr Tudful ac Aberdâr A Chastell-nedd a Dwyrain Abertawe (enw arfaethedig: Gorllewin Blaenau’r Cymoedd)

¬ Dwyrain Casnewydd A Gorllewin Casnewydd ac Islwyn (enw arfaethedig: Ebwy Brynbuga)
¬ Caerffili A Pontypridd (enw arfaethedig: Morgannwg Ganol)
¬ Blaenau Gwent a Rhymni A Thorfaen (enw arfaethedig: Glyn Ebwy a Chwmbrân)
Gobeithiaf y bydd y Comisiwn yn ystyried y sylwadau a'r awgrymiadau hyn wrth wneud penderfyniadau terfynol. Yn gywir

**7072 - Ar ran awdurdod lleol**

Rwyf yn ymateb fel swyddog canlyniadau presennol gyda chyfrifoldeb dros ardal Abertawe a Gŵyr.

[HEPGOR]

Mae paru Dwyrain Abertawe a Chastell-nedd ag Aberhonddu a Maesyfed o bryder penodol i mi. Awgrymodd etholiad diweddar y DU, hyd yn oed wrth uno Dwyrain Abertawe â Chastell-nedd a gymeradwywyd yn flaenorol, fod ein trigolion wedi drysu ac y byddai'r symudiad tuag at y cynnig yn gwneud y sefyllfa hyd yn oed yn waeth ac yn cynyddu difaterwch pleidleiswyr.

[HEPGOR] Fodd bynnag, os yw'r ddeddfwriaeth yn atal hyn, yna dewis amgenach fyddai alinio Gŵyr â Llanelli a Gorllewin Abertawe â Dwyrain Abertawe a Chastell-nedd.

Cofion

Martin Nicholls
Prif Weithredwr
Chief Executive
[HEPGOR]

**7073 – Aelod o'r Cyhoedd**

Rwyf yn credu bod y cynigion a gyflwynwyd gan Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru yn iawn fel y maent, er y gallaf gynnig ychydig o bariadau etholaethol amgen ar gyfer de y wlad. Credaf y dylai Aberafan-Maesteg gael ei pharu â Phen-y-bont ar Ogwr. Dylid paru Rhondda-Ogwr â Phontypridd. Dylid paru Merthyr Tudful ac Aberdâr â Blaenau Gwent a Rhymni. Dylai Caerffili gael ei pharu â Gogledd Caerdydd. Dylid paru Dwyrain Caerdydd â De Caerdydd a Phenarth, a dylid paru Gorllewin Caerdydd â Bro Morgannwg. Fodd bynnag, gan mai dim ond dros dro y bydd y ffiniau hyn ar waith, nid wyf yn credu bod hyn yn bwysig mewn gwirionedd. Hefyd, gan fod yn rhaid ffurfio'r etholaethau drwy baru etholaethau presennol San Steffan ar hyn o bryd, ni fydd unrhyw ganlyniad byth yn arwain at bariadau cwbl foddhaol ar gyfer pob etholaeth, yn enwedig yng ngogledd y wlad. Edrychaf ymlaen at weld ffiniau nad ydynt yn seiliedig ar bariadau etholaethau presennol yn y dyfodol, oherwydd bydd y rhain yn debygol o ystyried hunaniaethau a daearyddiaeth leol yn fwy nag y gallai'r cynigion presennol byth.

**7074 – Aelod o'r Cyhoedd**

Prynhawn Da,

Rwyf yn anfon e-bost atoch i ddarparu fy awgrymiadau innau ar gyfer enwau yr 16 etholaeth arfaethedig yn y Senedd. Rwyf wedi atodi map o'ch etholaethau arfaethedig gyda rhifau arnynt er hwylustod wrth gyfeirio atynt.

1.) Er nad wyf o reidrwydd yn erbyn yr enw Bangor Aberconwy Ynys Môn, fy awgrymiadau ar gyfer yr enw yw:

– Gogledd Gorllewin Cymru (North West Wales), sy'n cyfateb i leoliad daearyddol yr etholaeth.

– Môn, Menai a Chonwy, gan gyfeirio at Ynys Môn yn ogystal ag afonydd Menai a Chonwy.

Dylai'r etholaeth ddefnyddio enw Cymraeg yn bennaf oherwydd y gyfran uchel o siaradwyr Cymraeg.

2.) Rwyf yn hapus mai Clwyd yw enw terfynol yr etholaeth hon.

3.) Rwyf yn hapus mai Alun, Glannau Dyfrdwy a Wrecsam yw'r enw terfynol, fodd bynnag, dyma rai cynigion eraill sydd gennyf:

– Gogledd Dwyrain Cymru (North East Wales), sy'n cyfateb i leoliad daearyddol yr etholaeth.

– Wrecsam a Sir y Fflint/Fflint, gan gyfeirio at ddinas Wrecsam a Sir y Fflint.

4.) Credaf yn bersonol fod Dwyfor Meirionydd, Sir Drefaldwyn a Glyndŵr yn llawer rhy hir fel enw. Fy nghynigion eraill yw:

– Gwynedd a Maldwyn (Gwynedd and Montgomeryshire), gan gyfeirio at y ffaith fod y rhan fwyaf o Gyngor Sir Gwynedd o fewn ffiniau Dwyfor Meirionydd, yn ogystal â chyfeirio at Sir hanesyddol Drefaldwyn.

– Gwynedd, Glyndŵr a Maldwyn (Gwynedd, Glyndwr and Montgomershire), yr un rhesymeg â'r uchod.

Dylai'r etholaeth ddefnyddio enw Cymraeg yn bennaf oherwydd y gyfran uchel o siaradwyr Cymraeg.

5.) Fy enwau eraill ar gyfer Ceredigion a Sir Benfro yw:

– Gorllewin Cymru (West Wales), gan gyfeirio at y rhanbarth daearyddol.

– Cymru Arfordirol/Wales Coastal, gan gyfeirio at y ffaith y byddai gan yr etholaeth hon un o’r morlinau, os nad y morlin mwyaf ymhlith pob un o’r 16 etholaeth.

6.) Rwyf yn hapus gyda Sir Gaerfyrddin, fodd bynnag, rwyf yn awgrymu blaenoriaethu’r enw Cymraeg, Sir Gaerfyrddin, oherwydd y gyfran uchel o siaradwyr Cymraeg.

7.) Rwyf yn hapus gyda’r enw Gŵyr a Gorllewin Abertawe, ond fy nghynigion eraill yw:

– Gŵyr a Gorllewin Tawe (Gower and West Tawe), gan gyfeirio at benrhyn Gŵyr a sut y lleolir cyfran fawr o’r etholaeth i’r gorllewin o Afon Tawe.

– Gŵyr ac Abertawe (Gower and Swansea), gan gyfeirio at benrhyn Gŵyr a’r rhan fwyaf o Ddinas Abertawe.

– Gŵyr/Gower, gan gyfeirio at hen gwmwd/arglwyddiaeth Gŵyr a oedd yn cynnwys Abertawe.

8.) Rwyf yn canfod Aberhonddu, Maesyfed, Castell-nedd a Dwyrain Abertawe yn dal yn rhy hir, felly fy nghynigion yw:

– Aberhonddu, Maesyfed a Chastell-nedd-Fabian, mae’r enw Fabian yn cyfeirio at y ffordd Fabian Way yn Nwyrain Abertawe, yn ogystal â’r hen Fae Fabian, sef basn naturiol a fodolai yn flaenorol lle ceir Dociau Abertawe yn awr.

– Aberhonddu, Maesyfed a Dwyrain Bae Abertawe, gan gyfeirio at leoliad Castell-nedd a Dwyrain Abertawe yn hanner dwyreiniol Bae Abertawe.

9.) Gellid symleiddio Aberafan, Maesteg, Rhondda ac Ogwr â’r enw canlynol:

– Aberafan a Gorllewin Rhondda (Aberafan and Rhondda West), gan gyfeirio at sut mae Rhondda ac Ogwr yn rhan orllewinol Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.

– Aberafan, Maesteg a Gorllewin Rhondda (Aberafan, Maesteg and Rhondda West), yr un rhesymeg ag uchod, ond cynrychiolir Maesteg hefyd sy’n rhan o Fwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

10.) Fy awgrymiadau amgen ar gyfer Merthyr Tudful, Aberdâr a Phontypridd yw:

– Dwyrain Rhondda (Rhondda East), gan gyfeirio at faint o’r etholaeth sydd yn y rhan ddwyreiniol o Fwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.

– Dwyrain Rhondda a Merthyr (Rhondda East and Merthyr), yr un rhesymeg ag uchod, ond cynrychiolir Merthyr Tudful sy'n fwrdeistref sirol ei hun.

11.) Gellid enwi Blaenau Gwent, Rhymni a Chaerffili hefyd fel a ganlyn:

– Gorllewin Gwent (Gwent West), gan gyfeirio at y modd y mae'r etholaeth yn ffurfio rhan orllewinol o sir a gadwyd Gwent.

12.) Enwau eraill ar gyfer Sir Fynwy a Thorfaen yw:

– Sir Fynwy (Monmouthshire), gan gyfeirio at y sir hanesyddol.

– Dwyrain Gwent (Gwent East), gan gyfeirio at ran ddwyreiniol y sir a gadwyd.

13.) Nid oes gennyf awgrymiadau eraill ar gyfer Casnewydd ac Islwyn.

14.) Rwyf yn hapus gydag enw Dwyrain a Gogledd Caerdydd, fodd bynnag, mae rhai awgrymiadau eraill yn cynnwys:

– Dwyrain Caerdydd (Eastern Cardiff), gan gyfeirio at ei hardal ddaearyddol.

– Canol Caerdydd (Central Cardiff), gan gyfeirio at y rhan o Ddinas Caerdydd y'i lleolir ynddi.

15.) Fy enwau eraill ar gyfer Gorllewin Caerdydd, De Caerdydd a Phenarth yw:

– Gorllewin Caerdydd a Phenarth (Cardiff West and Penarth), gan gyfeirio at ardal ddaearyddol Caerdydd a Phenarth.

– Gorllewin Caerdydd a Phenarth (Western Cardiff and Penarth), enw arall ar gyfer yr uchod.

16.) Fy enw arall ar gyfer Bro Morgannwg a Phen-y-bont yw:

– De Morgannwg (South Glamorgan), gan gyfeirio at y Sir a Gadwyd.

Gobeithiaf y gallwch ystyried yr awgrymiadau hyn yr wyf wedi eu gwneud, er fy mod yn deall yn llwyr efallai na fyddant yn cael eu derbyn. Edrychaf ymlaen at weld eich cynigion diwygiedig ar gyfer yr etholaethau newydd.

Cofion Cynnes,
[HEPGOR]

**7076 - Ar ran Cyngor Cymuned/Tref**

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
Democracy and Boundary Commission Cymru

Prynhawn da,

Mae'r Cyngor Tref yn dymuno gwneud y sylwadau canlynol:

[HEPGOR]
Mae pryder ynghylch maint daearyddol mawr etholaeth newydd arfaethedig Aberhonddu, Maesyfed, Castell-nedd a Dwyrain Abertawe a'r problemau y byddai hyn yn eu creu o ran cynrychiolaeth ddigonol.

Cofion,

[HEPGOR]

Mae'r Cyngor Tref yn rheoli eich gwybodaeth bersonol yn unol â Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol 2018. Fodd bynnag, efallai y bydd eich ymholiad yn cael ei rannu â sefydliadau statudol eraill er mwyn eich cynorthwyo.

**7077 – Aelod o'r Cyhoedd**

Gan mai dim ond newydd ddod i rym eleni y mae'r Ffiniau Seneddol, gan fod y newidiadau a ddigwyddodd rhwng Dwyrain Caerdydd a De Caerdydd a Phenarth, byddai'r pariadau mwy naturiol a llai dryslyd rhwng Dwyrain Caerdydd a De Caerdydd a Phenarth.

Cynigiwn fod etholaeth Seneddol yn cael ei chreu o:

1. **Etholaeth Seneddol** y DU Dwyrain Caerdydd,

a

2. **Etholaeth Seneddol** y DU De Caerdydd.

3. Byddai'r etholaeth arfaethedig yn cyfuno'r 2 etholaeth Seneddol y DU sy'n rhychwantu wardiau De a Dwyrain cyngor Caerdydd. Credwn fod ffordd gyswllt y Bae yr A4232 a'r A48 yn darparu cysylltiadau ffyrdd a chyfathrebu gwell rhwng y 2 ardal hyn a, thrwy baru'r 2 etholaeth Seneddol y DU gyffiniol hyn, byddem yn uno 2 o'r 4 etholaeth Seneddol y DU sy'n rhychwantu Dinas Caerdydd yn 1 etholaeth trwy ychwanegu at y cysylltiadau sefydledig sydd eisoes yn bodoli yn yr ardal. Newidiodd y Ffiniau Etholaethau Seneddol ar gyfer Etholiad Cyffredinol 2024 a daeth oddeutu 30% o'r hyn a arferai fod yn Dde Caerdydd yn Ddwyrain Caerdydd. Gan fod rhan mor sylweddol o Dde Caerdydd wedi dod yn rhan o'r dwyrain bellach, mae'r cyfuniad hwn yn creu etholaeth fwy cydlynol.

4. Mae'r ffiniau llywodraeth leol presennol yn debygol o newid yn y dyfodol agos wrth i'r hyn a arferai fod yn etholaethau yn Ne Caerdydd sydd wedi dod yn rhai Dwyrain Caerdydd newid i gynnwys poblogaeth gynyddol Caerdydd a'r datblygiadau tai newydd yn Nwyrain y

Ddinas. O ganlyniad, byddai’n fwy naturiol i Ddwyrain Caerdydd a De Caerdydd gael eu paru gan y byddai cysylltiadau lleol yn cael eu torri.

5. Roedd Canol y Ddinas, sef Ward Cathays Caerdydd, yn rhan o Ddwyrain Caerdydd ond mae bellach yn rhan o Dde Caerdydd. O ganlyniad, byddai cysylltiadau lleol presennol yn cael eu torri pe byddai De Caerdydd yn cael ei baru â Gorllewin Caerdydd, gan felly dorri polisi’r Comisiwn.

6. Yn ddaearyddol, byddai maint a siâp Etholaeth Dwyrain Caerdydd a De Caerdydd wedi’u paru yn fwy hygyrch i Aelodau’r Senedd o ganlyniad i gysylltiadau ffyrdd a thrafnidiaeth gwell. Mae llai o bellter i’w deithio hefyd o Dde i Ddwyrain Caerdydd na theithio o’r Dwyrain i’r rhannau o Ogledd Caerdydd sydd newydd eu cynnwys.

7. Yn ogystal, o ran daearyddiaeth a chysylltiadau ffyrdd, byddai Gogledd Caerdydd a Gorllewin Caerdydd yn ffurfio’r pâr mwy naturiol o etholaethau eraill Caerdydd. Trwy gynnwys Pont-y-clun yn y Gorllewin a Ffynnon Taf yn y Gogledd, gan fod traffordd yr M4 yn mynd yn syth trwy’r ddwy etholaeth hyn, byddai’r pâr yma’n well.

8. Cynigiwn yr enw Saesneg **Cardiff East, South and Penarth** i gynrychioli’r etholaeth. Cynigiwn yr enw Cymraeg Dwyrain, De a Phenarth Caerdydd.

**7078 – Aelod o’r Cyhoedd**

Ie, dylid bod mwy ohonynt. Rwyf yn cytuno â’r holl gynigion.

[HEPGOR]

**7082 – Aelod o’r Cyhoedd**

Gweler yr atodiad yn gofyn am adolygiad o ffiniau fy etholaeth yn Sir Frycheiniog.

**Adolygiad Ffiniau Etholaeth**

Nid oes gennyf unrhyw arbenigedd proffesiynol yn y maes hwn ond fel arfer gallaf gyfrannu synnwyr cyffredin i drafodaeth.

Mae fy ngwraig a minnau'n byw yn ardal hardd Dyffryn Wysg sy'n ardal wledig yn bennaf. Fy nghwestiwn i'r Comisiwn yw beth sydd gan fy ardal i yn gyffredin â phen dwyreiniol Abertawe? Bûm yn byw yn Abertawe am nifer o flynyddoedd a sylwais â’m llygaid fy hun ar y gwahanol ffyrdd o fyw ac amgylchiadau y mae pobl yn byw ynddynt o’u cymharu â’r rhai yn Nyffryn Wysg.

[HEPGOR]

[HEPGOR]

**7084 - Ar ran sefydliad (preifat neu gyhoeddus)**

Byddai Dwyfor Meirionnydd yn gefeillio'n well â Cheredigion...arfordirol, y Gymraeg yn ogystal â gwledig.

**7086 – Aelod o'r Cyhoedd**

Nid wyf yn deall pam fod yn rhaid i ardaloedd gogledd a chanolbarth Cymru fod mor fawr. Bydd gan unrhyw un a benodir i'r ardaloedd hynny gryn dipyn o deithio i'w wneud i fynd o'u cwmpas. Rwy'n sylweddoli bod y boblogaeth yn llai yn yr ardaloedd hynny ond mae dal angen amser i fynd o'u cwmpas. Rwyf wedi newid rhywfaint ar y map, gobeithio y gallwch chi ei weld.



Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
Democracy and Boundary Commission Cymru

**7089 – Aelod o'r Cyhoedd**

Pam mae'r cynnig am yr enw Cymraeg ar gyfer etholaeth Blaenau Gwent, Rhymni a Chaerffili wedi'i gyflwyno fel Chaerfilli pan mae'r awdurdod lleol yn defnyddio "Caerffili"?

**7091 – Aelod o'r Cyhoedd**

Nid yw'n gwneud unrhyw synnwyr o gwbl i gael aelod yn cynrychioli gogledd Ceredigion ac ardaloedd o Sir Benfro o dan linell Landsker. Yn ddaearyddol, maen nhw'n bell iawn oddi wrth ei gilydd ac yn rhanbarthau gwahanol iawn yn ddiwylliannol, ieithyddol a daearyddol. [HEPGOR]

**7092 – Aelod o'r Cyhoedd**

Mae'r cynigion wedi'u hadeiladu ar sail cysylltiad ffordd rhwng y darpar barau o etholaethau. Nid yw hyn yn ystyried ymarferoldeb ac effeithlonrwydd gweithio gyda chyrff democrataidd eraill megis cynghorau lleol. Mae'r etholaeth sy'n ymwneud â'r Rhondda wedi ei pharu ag Aberafan a Maesteg a byddai hyn yn achosi i aelod etholedig ymdrin â llu o gynghorau. Byddai'n fwy effeithlon pe bai ardaloedd daearyddol presennol y cynghorau yn cael eu defnyddio. E.e. dylai Rhondda gael ei pharu â Phontypridd neu Gynon gan mai'r cyngor fyddai'n ymdrin â hyn fyddai Rhondda Cynon Taf. Gyda'r cynnig presennol byddai gan bob Aelod o'r Senedd sawl cyngor i ymdrin â nhw.

**7095 - Cllr. Dr. Benjamin J Gwalchmai - Cynghorydd lleol neu swyddog etholedig arall**

Yn fyr, byddwn yn gweld y parau yn y gogledd yn cael eu newid i:

- Ynys Môn a Dwyfor Meirionnydd
- Bangor a Gorllewin Clwyd
- Dwyrain Clwyd, Alun a Glannau Dyfrdwy
- Wrecsam, Glyndŵr, a Maldwyn

*Sail resymegol y Comisiwn Ffiniau*
Rwy'n cydnabod mai sail resymegol y Comisiwn Ffiniau dros baru Maldwyn a Glyndŵr â Dwyfor Meirionnydd yw fel y dywedodd y Comisiwn:

"Fe wnaeth y Comisiwn ystyried y dewis arall o gyfuno Dwyfor Meirionnydd â Cheredigion Preseli, a Maldwyn a Glyndŵr â Brycheiniog, Maesyfed a Chwm Tawe, fodd bynnag, roedd o'r farn y byddai'r dewis arall yn creu dwy etholaeth Senedd a fyddai'n fawr iawn ac yn anhylaw.

Maent o'r farn bod cysylltiadau ffordd rhesymol rhwng ardaloedd yr etholaeth arfaethedig megis rhwng Machynlleth a Dolgellau.

Er bod y Comisiwn o'r farn nad yw'n ddelfrydol cynnig etholaeth mor fawr, dyma'r opsiwn gorau o ran cynnig cyfuniad cyffiniol o 2 etholaeth seneddol y DU yn yr ardal."

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
Democracy and Boundary Commission Cymru

*Rhesymau dros Newid*
Byddaf yn awr yn nodi fy rhesymau, yn unol â’r meini prawf a roddwyd i’r Comisiwn gan Ddeddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024.
Mae'r Comisiwn Ffiniau yn datgan yn ei sail resymegol ar gyfer y paru hwn (1) bod rhai cyfuniadau o etholaethau yn rhy fawr ac anhylaw a (2) bod cysylltiadau ffordd da yn sail i'r paru.

Yn gyntaf ar fater maint yr etholaeth.
Rwy’n gwrthwynebu maint y paru ar sail maint y ddaearyddiaeth a hefyd ar sail nifer y grwpiau sefydliadol nad ydynt efallai’n ymwneud â maint daearyddol ond yn ychwanegu’n llwyr at gymhlethdod yr etholaeth.

Mae’r cynnig presennol i baru Dwyfor Meirionnydd a Maldwyn a Glyndŵr yn cwmpasu 4 cyngor sir ac ehangder Cymru gyfan o Langurig ar ei phen de-ddwyreiniol i Ynys Enlli ar y mwyaf gogledd-orllewinol – nid yw’r ddau bwynt hynny’n gwybod dim am sut mae’r llall yn byw ac ni all cynrychiolydd yn y Senedd wybod na chynrychioli eu hanghenion lleol.

Yn ddaearyddol, y paru hwnnw yw’r mwyaf ac sydd â’r mwyaf o fynyddoedd sy’n gwneud y gwaith o drefnu a chynrychiolaeth yn anhygoel o anodd ac mae’n peryglu ymddiriedaeth ym mhrosesau democrataidd y Senedd. Mae gormod o bobl eisoes yn credu ‘nad yw Caerdydd yn ein deall’ a bydd y paru hwn ond yn atgyfnerthu’r gred honno, yn ogystal ag ychwanegu cefnogaeth i’r rhai sydd am weld diwedd ar unrhyw ymreolaeth wleidyddol yng Nghymru.

Yn sefydliadol, dyma’r un sydd o dan y straen mwyaf o ran cael ei rwygo rhwng y Cynghorau Sir a ganlyn: Sir Ddinbych, Gwynedd, Powys, a Wrecsam. Nid oes gan unrhyw Aelod o’r Senedd, newydd na hen, y gallu na’r cysylltiadau i wneud cyfiawnder â’r cynghorau hynny, na chynrychioli eu hanghenion yn y Senedd.
Yn yr un modd, nid oes unrhyw gysylltiadau hanesyddol rhwng y ddau bwynt hynny - dim hyd yn oed yn y teyrnasoedd hynafol o dan Llywelyn Fawr a gellir dadlau nid o dan Owain Glyndŵr. Tra bod un yn gorwedd ar y ffin â Lloegr, mae'r llall yn wynebu Môr Iwerddon felly yn ddiwylliannol ac yn gymdeithasol nid ydynt yn gyffiniol.
Y rhesymau hynny, a'r drafferth a gaiff aelodau cyffredin wrth ymgyrchu, yw pam rydym yn awgrymu'r newidiadau uchod i'r parau.

Ar fater rhwyddineb teithio, mae’r Comisiwn Ffiniau yn datgan, “mae cysylltiadau ffordd rhesymol rhwng ardaloedd yr etholaeth arfaethedig megis rhwng Machynlleth a Dolgellau.”

Er efallai bod y darn byr hwn o ffordd yn dda, hoffwn ofyn ichi ystyried ei bod yn cymryd 30 munud yn hwy i deithio o Langurig i Aberdaron nag y byddai'n ei gymryd i yrru o Langurig i Gaerdydd. Mae hyn yn seiliedig ar optimistiaeth ddisglair arferol amseroedd teithio sydd wedi’u cynhyrchu gan gyfrifiadur. Mewn gwirionedd mae'n cymryd dros 3 awr i fynd o un

pen eich etholaeth arfaethedig i'r llall ac mae rhai llwybrau braidd yn orlawn o fynyddoedd. Efallai nad oes gan Ynys Môn a Dwyfor Meirionnydd ffordd yn eu cysylltu (er mai dim ond o ychydig gannoedd o lathenni yw hyn) ond mae ganddynt filoedd o flynyddoedd o hanes, diwylliant, teyrnasoedd a chynghorau sir, ieithoedd, llenyddiaeth, a chysylltiadau hanesyddol sy'n gorbwyso unrhyw gysylltiad cyffiniol rhwng Dwyfor Meirionnydd a Maldwyn - yn nodedig, byddai cynrychiolydd ar gyfer Dwyfor ac Ynys Môn ond yn gweithio gyda ac o fewn cyfyngiadau 2 Gyngor Sir ond byddai'n rhaid i gynrychiolydd Dwyfor a Maldwyn a Glyndŵr weithio gyda 4 - teimlwn fod y newidiadau a awgrymwn yn gwneud cynrychiolaeth yn gliriach i etholwyr ac yn fwy hylaw i ddarpar gynrychiolwyr yn y Senedd.

Yn yr un modd, byddem yn dadlau bod y Comisiwn Ffiniau wedi dod â Maldwyn a De Clwyd ynghyd ym Maldwyn a Glyndŵr er gwaethaf y ffaith bod y brif ffordd sy'n eu cysylltu yn mynd drwy etholaeth arall a gwlad arall, sef Lloegr. Mae gorfod gyrru trwy ddarn byr ychydig gannoedd o lathenni o Ynys Môn rownd cylchdro ac i lawr y slipffordd gyntaf i gyrraedd Dwyfor Meirionnydd o leiaf yn cadw'r gyrrwr o fewn yr un wlad, sef Cymru.

Mae'r paru yr wyf yn ei ffafrio, sef Maldwyn a Glyndŵr a Wrecsam, yn cadw'r etholaeth i ddau Gyngor Sir a dwy ardal Comisiynydd Heddlu a Throseddu ac mae'n llawer mwy hygyrch o ran y rhwydwaith ffyrdd. Mae'r perthnasoedd gwaith wedi'u sefydlu eisoes, prin yw'r mynyddoedd sy'n ymyrryd, ac mae ganddynt gysylltiadau diwylliannol a chymdeithasol llawer gwell.

Rwy'n mawr obeithio y caiff y cyflwyniad hwn ei ystyried. Rwy'n deall pa mor anodd yw hi i ailystyried unwaith y bydd datrysiad arfaethedig yn gyhoeddus ond credwn yn ddiffuant y bydd ffydd yn y broses ddemocrataidd yn cael ei effeithio gan y cynnig presennol os na chaiff ei newid.

Diolch am ystyried y cyflwyniad hwn.

**7097 – Aelod o'r Cyhoedd**

Helo, na i'r newidiadau, diolch.

**7100 – Aelod o'r Cyhoedd**

[HEPGOR] , hoffwn wneud sylw ar y trefniadau arfaethedig yn ardal Abertawe.

Rwy'n cefnogi paru etholaethau San Steffan Gŵyr a Gorllewin Abertawe yn llwyr. Mae gan yr ardaloedd hyn gysylltiadau naturiol cryf ac maent yn gymunedau integredig. Er enghraifft, mae ystâd Gendros wedi'i rhannu rhwng wardiau'r Cocyd (Gŵyr) a Chwmbwrla (Gorllewin Abertawe), tra bod Ysgol Olchfa â'i dalgylch eang ar y ffin rhwng ward Dyfnant a Chilâ (Gŵyr) a ward Sgeti (Gorllewin Abertawe). Mae pobl o bob rhan o'r Gŵyr yn teithio i Orllewin Abertawe i siopa a chael mynediad at wasanaethau lleol.

Mewn egwyddor, gallai etholaeth Gorllewin Abertawe gael ei pharu'n rhesymol ag

etholaeth Castell-nedd a Dwyrain Abertawe, ond byddai hyn yn cael effeithiau niweidiol mewn mannau eraill. Ychydig o gysylltiadau naturiol sydd, er enghraifft, rhwng Gŵyr a Llanelli, tra byddai paru Gŵyr ac Aberhonddu, Maesyfed a Chwm Tawe yn hurt.

Mae cysylltiad Castell-nedd a Dwyrain Abertawe ag Aberhonddu, Maesyfed a Chwm Tawe yn gwneud synnwyr o ystyried bod y sedd olaf eisoes yn cynnwys nifer o etholaethau Castell-nedd. Yn sicr nid yw'n ffit perffaith, ond o fewn y system go hurt a ddyfeisiwyd gan y Senedd, mae'n ymddangos mai dyma'r paru mwyaf synhwyrol. Yn ystod yr adolygiad blaenorol o ffiniau San Steffan, cafwyd llawer o gyflwyniadau yn gwrthwynebu rhannu ardal Cwm Tawe oddi wrth Gastell-nedd, ac mae'r ffiniau arfaethedig newydd yn ymateb i hyn.

I grynhoi: Rwy'n cefnogi'n llwyr y ffiniau y mae'r Comisiwn wedi'u cynnig yn ardal Abertawe.

**7101 – Aelod o'r Cyhoedd**

Newid Gogledd Caerdydd i uno â Gorllewin Caerdydd ac uno Dwyrain Caerdydd â De Caerdydd a Phenarth.

Mae hyn oherwydd bod y Tîm Adnoddau Cymunedol yn seiliedig ar Ogledd/Gorllewin a Dwyrain/De. Bydd hyn yn ei gwneud yn haws i seneddwyr ymdrin â gwaith etholaethol ac yn haws i'r tîm adnoddau cymunedol o ran pwy i gysylltu â nhw ynghylch unrhyw gynigion/penderfyniadau. Bydd rhai ardaloedd yn yr ardal anghywir ond bydd yn gwneud pethau'n haws i bawb.

Gweler y map sydd wedi'i atodi o ward derbyniadau ysbyty fel tystiolaeth.

Diolch yn fawr.

**7103 - Ar ran sefydliad (preifat neu gyhoeddus)**

**Ymateb Plaid Cymru i Adolygiad 2026 o etholaethau'r Senedd - Cynigion Cychwynnol gan Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru**

Mae Plaid Cymru yn cydnabod y cyfyngiadau mae'r Comisiwn Ffiniau yn gweithio danynt yn yr adolygiad hwn. Rydym yn ymwybodol mai cynigion yw'r rhain ar gyfer un etholiad yn unig.

Y mae gennym bryderon am faint daearyddol rhai o'r etholaethau arfaethedig, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig ac yn benodol Dwyfor Meirionnydd, Sir Drefaldwyn a Glyndŵr a Cheredigion Sir Benfro.

Ein gobaith yw, pan ganiateir i'r Comisiwn Ffiniau gynnal adolygiad llawn i'w ddefnyddio yn Etholiad 2030 y Senedd, y rhoddir ystyriaeth i leihau maint yr etholaethau hyn.

Ond ar waethaf yr amheuon hyn, rydym ar y cyfan yn fodlon gyda'r Cynigion Cychwynnol a amlinellwyd gan y Comisiwn Ffiniau.

**Caerdydd**

Un ardal lle nad ydym yn hollol fodlon, a lle buasem yn gofyn yn barchus i'r Comisiwn ail-ystyried y trefniadau yw yng Nghaerdydd. Rydym wedi derbyn nifer o sylwadau gael aelodau Plaid Cymru yn dymuno i Dde Caerdydd gael ei efeillio gyda Dwyrain Caerdydd, a Gogledd Caerdydd i'w efeillio gyda Gorllewin Caerdydd.

Yn dilyn trafodaethau mewnol, yr ydym yn dal yn niwtral ynghylch pa rai o'r ffurfiannau hyn fyddai'n rhoi'r ateb gorau. Fodd bynnag, codwn y mater hwn fel y gall y Comisiwn asesu ymhellach y trefniadau gorau posib i'r ardal.

**Enwi**

Nodir yng Nghanllaw'r Comisiwn i'r Adolygiad y dywed y Ddeddf y dylai pob etholaeth gael un enw, oni bai bod hyn yn cael ei ystyried yn annerbyniol. Â'r canllaw ymlaen i ddweud y bydd y Comisiwn, ar gyfer ei Gynigion Cychwynnol, yn defnyddio enwau etholaethau San Steffan fel sail i'r enwi.

Yr hyn nad yw'n glir i ni yw a fydd enwi yn cael ei ystyried yn llawnach ac a fydd cydymffurfio agosach â'r Ddeddf yn ystod cam nesaf y broses. Ar hyn o bryd, nid ydym yn credu fod y Cynigion Cychwynnol yn adlewyrchu geiriad nac ysbryd y Ddeddf.

**<u>Awgrymiadau penodol:</u>**

1. Galw Sir Fynwy a Thorfaen yn Gwent East – Dwyrain Gwent

Mae hyn yn fyrrach na'r hyn a awgrymwyd yn wreiddiol gan y Comisiwn Ffiniau.

2. Enwi Merthyr Tudful, Aberdâr a Phontypridd yn Merthyr Tydfil, Cwm Cynon and Pontypridd - Merthyr Tudful, Cwm Cynon a Phontypridd.

Yn adolygiad diwethaf San Steffan, rhannwyd Cwm Cynon yn ddau gan y Comisiwn Ffiniau, gyda'r rhan ogleddol yn cael ei ail-enwi yn Aberdâr a'i asio gyda Merthyr Tudful. Yr ydym yn falch fod cynigion newydd y Comisiwn Ffiniau am y Senedd yn uno Cwm Cynon unwaith eto; fodd bynnag, nodwn nad yw'r enw gwreiddiol wedi ei ail-gyflwyno.

Awgrymwn adfer yr enw "Cwm Cynon" i adlewyrchu hunaniaeth hanesyddol a diwylliannol yr ardal.

3. Enwi Ceredigion Pembrokeshire yn Ceredigion Sir Benfro

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
Democracy and Boundary Commission Cymru

Mae Sir Benfro yn cael ei ddefnyddio’n helaeth yn yr ardal a bydd y rhan fwyaf o drigolion yn ei ddeall.

4. Swansea West and Gower i ddefnyddio’r enw Cymraeg yn unig, Gorllewin Abertawe a Gŵyr

5. Ail-enwi Bangor Aberconwy Ynys Môn yn Conwy Ynys Môn

Tan 2005, yr oedd Etholaeth San Steffan oedd yn ymestyn dros Fangor, Conwy a Llandudno mewn bodolaeth dan yr enw Conwy.
Mae mwyafrif helaeth Etholaeth newydd y Senedd naill ai yn Ynys Môn neu â chysylltiad gydag enw Conwy (naill ai’r Sir neu Etholaeth flaenorol San Steffan)

6. Ail-enwi Carmarthenshire – Sir Gaerfyrddin yn Sir Gaerfyrddin

O gofio fod yr etholaeth San Steffan yn defnyddio’r enw Cymraeg syml "Caerfyrddin," mae’n ymddangos yn anghyson i’r Senedd ail-gyflwyno enw Saesneg.

Argymhellwn fabwysiadu Sir Gaerfyrddin er mwyn cysondeb ac adlewyrchu’r dewis lleol am yr enw Cymraeg yn well.

7.Ail-enwi Dwyfor Meirionnydd, Montgomeryshire and Glyndŵr (Dwyfor Meirionnydd, Maldwyn a Glyndŵr) yn Eryri a Maldwyn

Mae ail-enwi’r Parc Cenedlaethol yn "Eryri" yn rhoi enw unedig ac adnabyddus i’r rhan fwyaf o bell ffordd o’r etholaeth arfaethedig hon. O’i gyfuno ag enw hanesyddol yr etholaeth, "Maldwyn," mae’n cynnig enw byrrach a mwy ystyrlon sydd yn adlewyrchu treftadaeth a daearyddiaeth yr ardal.

Credwn y buasai’r cyfuniad hwn yn enw addas a chryno i’r etholaeth newydd.

[HEPGOR]
Cyfarwyddwr Etholiadau
Plaid Cymru

**7105 - Ar ran sefydliad (preifat neu gyhoeddus)**

Mae Plaid Werdd Cymru yn cyflwyno ei chynigion ar gyfer ffiniau diwygiedig y Senedd cyn etholiad 2026. Yn unol â’r rheolau newydd, deallwn y bydd y Senedd yn cynnwys 16 o

etholaethau, ac yn bydd pob un yn ethol chwe aelod. Nod ein cyflwyniad yw sicrhau bod y ffiniau hyn yn cynnal egwyddorion cynrychiolaeth deg, cyfranoldeb ac atebolrwydd. Yn benodol, credwn mai'r cynigion hyn fydd yn diwallu anghenion yr etholwyr orau, gan feithrin proses ddemocrataidd dryloyw a theg sy'n gwella ymgysylltiad gwleidyddol ledled Cymru.

Er ein bod yn cydnabod maint a chyfansoddiad arfaethedig y Senedd newydd, rydym am gofrestru'n ffurfiol ein siom bod Llywodraeth Cymru wedi dewis system etholiadol d'Hondt (fel y'i defnyddiwyd yn flaenorol yn Etholiadau Ewrop rhwng 1999 a 2019 ac a ddefnyddir ar hyn o bryd ar gyfer dyrannu rhestrau rhanbarthol y Senedd). Teimlwn nad yw'r system hon mor gyfrannol â'r Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy, y gellid ei chymhwyso yr un mor hawdd. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod nad yw dewis system etholiadol o fewn cylch gorchwyl y Comisiwn, ac mae ein cynigion yn canolbwyntio ar sicrhau'r gynrychiolaeth orau bosibl o fewn y fframwaith dan sylw.

Wrth ddatblygu cynigion Plaid Werdd Cymru ar gyfer ffiniau newydd y Senedd, rydym yn gwbl ymwybodol o'r canllawiau y mae'n rhaid cadw atynt. Yn benodol, deallwn mai paru etholaethau San Steffan yw'r ffiniau diwygiedig, gan roi ystyriaeth i ystyriaethau ieithyddol a daearyddol. Mae'r meini prawf hyn yn hanfodol i sicrhau bod cymunedau ledled Cymru yn cael eu cynrychioli mewn ffordd sy'n adlewyrchu eu hunaniaeth unigryw a'u hanghenion lleol. Rydym wedi ystyried y ffactorau hyn yn ofalus yn ein cyflwyniad i gynnig ffiniau sy'n bodloni'r gofynion tra hefyd yn cefnogi cynrychiolaeth effeithiol a chyfrannol ar gyfer yr holl etholwyr.

Mae Plaid Werdd Cymru yn falch o gyflwyno ei chynigion ffurfiol ar gyfer etholaethau newydd y Senedd. Yn unol â'r meini prawf a amlinellwyd, rydym wedi enwi pob etholaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg, gan ganiatáu i'r Comisiwn ddewis pa enw i'w fabwysiadu'n ffurfiol. Mae'r etholaethau Senedd arfaethedig a ganlyn wedi'u paru ar sail etholaethau perthnasol San Steffan:

1. Dyffryn yr Afon Wysg / The Usk Valley Etholaethau San Steffan:
Mynwy + Dwyrain Casnewydd
2. Mynydd Machen a Mynydd y Grug / The Mountains of Machen and the Heather Etholaethau San Steffan: Gorllewin Casnewydd ac Islwyn+ Caerffili
3. Gwlad y Pwll Mawr / Big Pit Country Etholaethau San Steffan:
Blaenau Gwent a Rhymni + Torfaen
4. Y Mersydd (Cymreig) / The (Welsh) Marches Etholaethau San Steffan:
Alun a Glannau Dyfrdwy + Wrecsam
5. Dyffryn Clwyd a Glan Arfordir Conwy / Vale of Clwyd and Conwy Coast Etholaethau San Steffan:
Dwyrain Clwyd + Gogledd Clwyd
6. Gwastadeddau Caerdydd / The Cardiff Levels Etholaethau San Steffan:
Dwyrain Caerdydd + De Caerdydd

7. Bryniau Caerdydd / The Cardiff Hills Etholaethau San Steffan:
Gogledd Caerdydd + Gorllewin Caerdydd
8. Bae Ceredigion a Glan Arfordir Penfro / Cardigan Bay and the Pembrokeshire Coast Etholaethau San Steffan:
Ceredigion Preseli
+ Canolbarth a De Sir Benfro
9. Penrhyn Gŵyr / Gower Peninsula Etholaethau San Steffan :
Gorllewin Abertawe + Gŵyr
10. Cymoedd Llynfi-Afan / The Llynfi-Afan Valleys Etholaethau San Steffan:
Pen-y-bont ar Ogwr + Aberafan Maesteg
11. Ynys Môn a Gogledd Eryri / Anglesey and Northern Snowdonia
Etholaethau San Steffan: Ynys Môn + Bangor Aberconwy
12. De Eryri a Sir Maldwyn / Southern Snowdonia and Montgomeryshire
Etholaethau San Steffan: Dwyfor Meirionnydd + Maldwyn a Glyndŵr
13. Sir Gaerfyrddin / Carmarthenshire Etholaethau San Steffan:
Caerfyrddin + Llanelli
14. Cymoedd De Cymru / The South Wales Valleys Etholaethau San Steffan:
Merthyr Tudful ac Aberdâr + Rhondda ac Ogwr
15. Ucheldir Morgannwg / The Glamorgan Uplands Etholaethau San Steffan:
Bro Morgannwg + Pontypridd
16. Cwm Tawe a Bannau Brycheiniog / The Swansea Valley and the Brecon Beacons Etholaethau San Steffan:
Castell-nedd a Dwyrain Abertawe +
Aberhonddu, Maesyfed a Chwm Tawe

Credwn fod yr enwau a’r ffiniau hyn yn adlewyrchu ystyriaethau ieithyddol a daearyddol y cymunedau y maent yn eu cynrychioli ac yn sicrhau cynrychiolaeth gytbwys o fewn y Senedd.

Hoffai Plaid Werdd Cymru fynegi ein diolch diffuant i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru am eu gwaith diwyd yn adolygu a pharatoi ffiniau newydd y Senedd. Rydym yn cydnabod cymhlethdod y dasg hon ac yn gwerthfawrogi’r ymdrechion a wneir i sicrhau etholaethau teg a chynrychioliadol i bobl Cymru.

Edrychwn ymlaen at adolygu’r argymhellion dilynol ar ôl iddynt gael eu cyhoeddi a byddwn yn ymateb i’r rheini yn yr un modd, gan barhau i ymgysylltu’n adeiladol â’r broses bwysig hon.

Mae’r cyflwyniad hwn wedi’i wneud gan [HEPGOR] , Swyddog Etholiadau Cymru ar gyfer Plaid Werdd Cymru, sy’n rhan o Blaid Werdd Cymru a Lloegr. Rydym yn falch o gael cynrychiolaeth lawn yn San Steffan a chawn ein cydnabod fel plaid wleidyddol swyddogol gan y Comisiwn Etholiadol.

Diolch unwaith eto am eich gwaith caled a’ch ystyriaeth.

Yn gywir,
[HEPGOR]

**7106 - Hefin David MS - Aelod o Senedd Cymru**

Prynhawn da

Ysgrifennaf mewn ymateb i’r cynigion cychwynnol sydd wedi’u cynnwys yn Adolygiad 2026 Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru o ffiniau etholaethau’r Senedd, a gyhoeddwyd ar 03.09.24.

Rwy’n cefnogi cynnig y Comisiwn ym Mhennod 4 (11) y dylid creu etholaeth sirol newydd o gyfuno etholaethau Seneddol y DU, Caerffili a Blaenau Gwent a Rhymni.

Cytunaf ag asesiad y Comisiwn bod 'cysylltiadau ffyrdd da rhwng y ddwy ardal a thrwy baru'r ddwy etholaeth hon yn Senedd y DU byddai'r Comisiwn yn uno ardaloedd sy'n rhan o ardal prif gyngor Caerffili yn un etholaeth drwy adeiladu ar y cysylltiadau sefydledig sy’n bodoli' a'i fod felly yn 'creu etholaeth gydlynol'.

Mae nifer fach o bryderon wedi’u codi gyda mi ynglŷn â’r cynnig i rannu ward llywodraeth leol Cefn Fforest a Phengam rhwng yr etholaeth arfaethedig ac etholaeth newydd arfaethedig Casnewydd ac Islwyn. Fodd bynnag, ar ôl siarad â chynrychiolwyr etholedig lleol, er y byddai hyn yn creu anghysondeb o ran alinio gwahanol lefelau o gynrychiolaeth etholiadol, nid yw’n broblem yr ystyrir ei bod yn anorchfygol.

Yn gywir

Hefin

Hefin David AS
Aelod o'r Senedd, Caerffili

**7107 - Councillor Bryan Davies - Cynghorydd lleol neu swyddog etholedig arall**

Annwyl Syr / Madam,
YMATEB I YMGYNGHORIAD AR GYNIGION AR GYFER 16 ETHOLAETH NEWYDD YN Y SENEDD
Diolch yn fawr am y cyfle i gyflwyno ein barn ar y cynigion cychwynnol ar gyfer 16 etholaeth newydd y Senedd. Bydd ein hymateb yn canolbwyntio'n bennaf ar etholaeth arfaethedig Ceredigion a Sir Benfro ac egwyddorion dosbarthu etholaethau.
Mae cael ei gyfyngu i ffiniau etholaethau Seneddol y DU wedi arwain at greu ardaloedd daearyddol mawr ar gyfer y parau, sydd wedi creu etholaethau newydd y Senedd. Mae hyn yn cynnwys etholaeth arfaethedig Ceredigion a Sir Benfro, sydd ymhlith y mwyaf o ran ei

daearyddiaeth, gyda phellter o 90 milltir o'r gogledd i'r de, gydag amser teithio amcangyfrifedig o 2 ½ awr. Mae cymunedau Ceredigion Preseli a Chanolbarth a De Sir Benfro hefyd yn wahanol iawn o ran iaith, diwylliant, cysylltiadau lleol ac ati.
Mae cael etholaeth mor fawr yn debygol o arwain at golli cysylltiad rhwng yr aelodau etholedig a'u hetholwyr. Gallai hyn, yn ychwanegol at yr holl newidiadau eraill y mae'n rhaid i etholwyr eu deall, arwain at lai o bleidleisio.
Rydym yn cytuno gydag enw'r etholaeth fel mae'n sefyll sef Ceredigion a Sir Benfro / Ceredigion and Pembrokeshire.
Rydym yn deall mai ychydig iawn o opsiynau sydd ar gael i chi mewn perthynas â'r adolygiad hwn oherwydd bod y Ddeddf yn datgan y dylai'r Comisiwn baru 21 o etholaethau Senedd y DU; fodd bynnag, edrychwn ymlaen at gael cynigion amgen ar gyfer Etholiadau'r Senedd 2030 lle rhoddir mwy o ystyriaeth i ffactorau eraill fel iaith, diwylliant, cysylltiadau lleol ac ati.
Yn gywir,
Y Cynghorydd Bryan Davies
Arweinydd Cyngor Sir Ceredigion

**7108 – Aelod o'r Cyhoedd**

- Ynys Môn a Dwyfor Meirionnydd
- Bangor a Gorllewin Clwyd
- Dwyrain Clwyd, Alun a Glannau Dyfrdwy
- Wrecsam, Glyndŵr, a Maldwyn

**7112 – Aelod o'r Cyhoedd**

Wedi'u cyfyngu i ba gyfuniadau o etholaethau San Steffan y gellir eu ffurfio. Dim ond gyda Thorfaen y gellir paru Sir Fynwy. Felly dim ond yr un yr ydych eisoes wedi'i wneud y gallwch ei wneud yn hytrach na fy newis fy hun.

**7115 – Aelod o'r Cyhoedd**

Credaf y dylai Ynys Môn gael ei gysylltu efo Gwynedd am y rhesymau canlynol:
- mae'r llwybrau teithio yn rhedeg o un i'r llall
- mae lot fawr o bobl yn croesi'r ddwy yn ddyddiol i weithio
- mae cysylltiadau agos iawn rhyngddynt yn hanesyddol, o ran cyfathrebu busnes / Awdurdodau Lleol, a diwylliannol
- mae defnydd o'r iaith Gymraeg yn debyg iawn yn y ddau - byddai gosod Ynys Môn gyda Dyffryn Clwyd yn risg mawr i'r iaith Gymraeg
- tydwi i ddim yn gweld unryw synnwyr gyda cysylltu Gwynedd gyda Gogledd Powys

**7116 - Ar ran awdurdod lleol**

Ymateb i'r Ymgynghoriad – Cyngor Castell-nedd Port Talbot

Mewn ymateb i gais y Comisiwn am sylwadau ynghylch ei gynigion cychwynnol a gyhoeddwyd ar 3 Medi 2024, mae'r 'egwyddorion' canlynol wedi'u cyflwyno i'w hystyried.

Cytunodd y pedwar prif grŵp gwleidyddol ar y sylwebaeth a amlinellir isod ar etholaethau newydd arfaethedig y Senedd cyn dyddiad cau cyflwyno'r Comisiwn ar 30 Medi a disgwylir iddo gael ei gymeradwyo gan y Cabinet yn ei gyfarfod ar 2 Hydref 2024.

Dyma'r parau o etholaethau penodol y Senedd sy'n berthnasol i'r awdurdod lleol hwn:

Aberafan Maesteg, Rhondda ac Ogwr

Brycheiniog, Maesyfed, Castell-nedd a Dwyrain Abertawe

O ystyried natur radical y cynigion, deellir bod y Comisiwn wedi cael tasg annymunol wrth ddewis etholaethau seneddol perthnasol y DU i'w cyfuno.

Serch hynny, er y cydnabyddir bod yr argymhellion yn caniatáu ar gyfer aduno rhannau penodol o ardaloedd prif gynghorau Castell-nedd Port Talbot a Phen-y-bont ar Ogwr, yn anffodus maent hefyd wedi creu ffiniau mwy nad ydynt yn adlewyrchu cysylltiadau cymunedol neu economaidd naturiol ac nad ydynt yn hawdd eu hadnabod i etholwyr lleol.

Gan edrych yn gyntaf ar etholaeth arfaethedig y Senedd, Aberhonddu, Maesyfed, Castell-nedd a Dwyrain Abertawe.

Fel rhan o ymatebion ymgynghoriad blaenorol y Cyngor hwn i'r Adolygiad o Ffiniau Seneddol y DU, dadleuwyd ers tro y dylai cymunedau Cwm Aman Uchaf a Chwm Tawe bob amser fod wedi ffurfio rhan o ardaloedd Castell-nedd neu Abertawe ac na ddylent fyth fod wedi bod yn rhan o etholaeth Aberhonddu, Maesyfed a Chwm Tawe.

Er ei bod yn amlwg mai bwriad y Comisiwn oedd datrys yr anghysondeb hwn, mae'r ateb a gynigir yn ei hanfod yn creu problem fwy gydag etholaeth 'eang' sy'n cwmpasu ardal enfawr o gymunedau trefol a gwledig o ddemograffeg tra gwahanol nad yw'n cynnig unrhyw ymdeimlad priodol o gysylltiadau cymunedol, hunaniaeth, neu le.

Cydnabyddir bod cysylltiadau ffordd addas ynghyd â chysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus rheolaidd rhwng canol tref Castell-nedd ac ardal Aberhonddu. Fodd bynnag, os byddwch yn teithio ymhellach i'r gogledd i drefi a phentrefi yn Llanfair-ym-Muallt neu Landrindod a'r cyffiniau, mae'r rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus yn mynd yn llawer mwy cyfyngedig.

Mae'r amser sydd ei angen i deithio rhwng ardaloedd o'r fath hyd yn oed ar y llwybrau mwyaf uniongyrchol, ac eithrio trafnidiaeth gyhoeddus, ar gyfartaledd rhwng 2-3 awr ar ffyrdd nad ydynt yn draffyrdd.

Ynghyd â'r pryderon ynghylch maint yr etholaeth, roedd y cyngor hefyd yn teimlo ei bod yn bwysig tynnu sylw at y cymhlethdod ychwanegol y bydd creu etholaethau Senedd newydd

yn ei greu.

Bydd cynigion cychwynnol y Comisiwn, os cânt eu mabwysiadu, yn arwain at orgyffwrdd trawsffiniol sylweddol ag awdurdodau lleol cyfagos yn y gogledd a’r dwyrain.

Bydd hyn yn arwain at gydlynu gweinyddol etholiadol ar draws tri awdurdod lleol gan orfod cydweithredu'n fforensig (heb gynnwys unrhyw gydgysylltu logistaidd ychwanegol y bydd ei angen hefyd mewn etholaethau eraill a fydd wedi'u lleoli yn ardaloedd y prif gynghorau).

Gan droi at y cynigion ar gyfer etholaeth Senedd Aberafan Maesteg, Rhondda ac Ogwr.

Fel yr amlinellwyd yn adroddiad y Comisiwn, dywedir bod cysylltiadau ffyrdd da yn bodoli rhwng y ddwy ardal. Fodd bynnag, er ein bod yn cytuno bod cysylltiadau ffordd o'r fath yn bodoli, ni fyddem yn cytuno bod cysylltiadau o'r fath yn ddigon cadarn.

Er mwyn rhoi un enghraifft syml, y llwybr mwyaf uniongyrchol, a’r unig lwybr cyswllt rhwng Port Talbot a Threorci fyddai'r A4107 ar draws Mynydd y Bwlch.

Mae’r ffordd fynydd sengl hon weithiau’n cau oherwydd tywydd gwael, yn enwedig yn ystod misoedd y gaeaf, ac nid ydym yn ymwybodol o unrhyw gysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus uniongyrchol penodol rhwng y cymunedau hyn. O ran cysylltedd uniongyrchol, mae cysylltiadau llawer gwell yn bodoli rhwng Port Talbot a Phen-y-bont ar Ogwr gyda mynediad i draffordd yr M4.

Yn ogystal, er y cyfeirir at ymdeimlad o gymeriad cyffredin rhwng cymunedau cymoedd Maesteg, Pontycymer, ac Ogwr, amlygir mai ychydig iawn o gysylltiad cymunedol sydd rhwng ardaloedd cymunedol mwy Aberafan a Rhondda.

Mae etholwyr Aberafan yn tueddu i edrych mwy tua'r gorllewin gyda chysylltiadau cryf â chymunedau yng Nghastell-nedd, Abertawe, Pen-y-bont ar Ogwr ac ardaloedd arfordirol deheuol eraill. Ar y llaw arall, gellir dadlau bod gan etholwyr sy'n byw yn y Rhondda gysylltiadau cryfach tua'r dwyrain â chymunedau yng Nghaerdydd a'r Cymoedd a'r cyffiniau.

Sylwadau Clo:

Mae'r cyngor yn credu'n gryf mai'r cyfuniad mwyaf naturiol i etholwyr sy'n byw yn etholaeth seneddol y DU, Castell-nedd a Dwyrain Abertawe, yw gydag etholwyr sy’n byw yn etholaeth seneddol y DU, Aberafan Maesteg, ar hyd echel dwyrain/gorllewin.

Mae'r ddwy etholaeth hyn yn ffurfio mwyafrif helaeth ardal prif gyngor Castell-nedd Port Talbot, gan gwmpasu rhywfaint o orgyffwrdd ag awdurdodau cyfagos yn y dwyrain a'r gorllewin, er yn anffodus yn eithrio ardal Cwm Tawe yn y gogledd.

Os bydd paru o’r fath yn broblem i’r Comisiwn ei weithredu, byddem yn cynnig argymhelliad atodol i gyfuno etholaeth Aberafan Maesteg ag etholaeth Pen-y-bont ar Ogwr yn yr un modd ar hyd echel dwyrain/gorllewin.

Mae'r cyngor yn ystyried bod y cyfuniad hwn, er nad yw'n berffaith mewn unrhyw ffordd, yn cynnig paru llawer mwy priodol â chymunedau sydd â chysylltiadau diwylliannol ac economaidd cryfach a chysylltiadau trafnidiaeth llawer mwy cadarn.

Yn ddiamau, bydd y cynigion cychwynnol hyn yn arwain at ddryswch a chamddealltwriaeth sylweddol i etholwyr lleol na fyddant bellach yn gallu nodi na sefydlu’n hawdd pwy sy’n eu cynrychioli, a allai hefyd leihau ymgysylltiad â’r broses ddemocrataidd.

Yn ei dro, bydd hyn yn anochel yn arwain at anawsterau wrth weinyddu digwyddiadau etholiadol gyda materion trawsffiniol lluosog gor-gymhleth a'r risg uchel bosibl o fethiant gweinyddol os bydd unrhyw ddigwyddiadau etholiadol cyfunol yn y dyfodol lle bydd gwahanol fathau o ffiniau yn eu lle.

Yn gyffredinol, mae'r Cyngor o'r farn y dylai unrhyw gynigion i newid ffiniau fod i greu newid sy'n ddymunol, yn effeithiol ac yn gyfleus i gymunedau lleol.

Ar y sail honno, teimlir y bydd y cynigion cychwynnol hyn yn anffodus yn anghyfleus i'r etholwyr ac yn cynyddu cymhlethdod a risg o wallau gweinyddol wrth gynnal etholiadau.

Yn ogystal, mae aelodau'r Cyngor hefyd wedi mynegi eu pryder ynghylch yr haenau ychwanegol o gymhlethdod y bydd cynrychiolwyr newydd eu hethol yn eu hwynebu wrth eiriol dros etholwyr ar draws nifer o brif gynghorau, byrddau iechyd, heddluoedd a gwasanaethau achub.

Deellir bod cylch gwaith y Comisiwn wrth gynnal yr adolygiad presennol o etholaethau’r Senedd yn 2026 yn eithriadol o gyfyngedig a allai gyfyngu ar y gallu i gynnig cyfuniadau eraill i’w paru.

Serch hynny, byddem yn cwestiynu a yw’r pleidleisiwr yn cael ei roi wrth galon y broses ddemocrataidd ac yn gofyn i’r Comisiwn gydnabod y pryderon sylweddol ynghylch y cynigion cychwynnol presennol.

Rhaid i unrhyw adolygiad yn y dyfodol, lle y rhoddir mwy o hyblygrwydd, roi ystyriaeth ofalus i’r cyfuniadau etholaethol arfaethedig presennol, yn enwedig y cymunedau datgysylltiedig ac ar wahân yn ardaloedd Cwm Tawe ac Ogwr.

Rhaid mai’r nod yw adfer y cysylltiadau cymunedol traddodiadol yn yr ardaloedd hyn a sefydlwyd dros y ganrif ddiwethaf ond sydd wedi’u lleihau’n anffodus gan yr argymhellion a

wnaed fel rhan o Adolygiad Seneddol y DU ac a waethygwyd ymhellach gan yr Adolygiad presennol o Etholaethau'r Senedd.

Gofynnwn i'r Comisiwn roi ystyriaeth lawn i'r holl effeithiau hyn mewn perthynas â'r adolygiad presennol o etholaethau'r Senedd ac unrhyw adolygiadau ohonynt yn y dyfodol.

Sylw ar enwi a dynodi etholaethau'r Senedd:

Mewn perthynas ag enwi a dynodi etholaethau, bydd y Cyngor yn ymatal rhag gwneud sylwadau hyd nes y caiff y cynigion diwygiedig eu cyhoeddi.

**7141 – Aelod o'r Cyhoedd**

Mae hyn yn ymddangos yn ffit ddaearyddol dda, yn enwedig mewn perthynas â'r cymoedd. Mae rhesymeg i ardaloedd y dinasoedd hefyd, yn enwedig Caerdydd

**7181 – Aelod o'r Cyhoedd**

Rwy'n cefnogi Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru i ganiatáu i'r Blaid Reform fod yn rhan o'r Senedd ac rwy'n cefnogi eu Cynigion Cychwynnol fel aelod o'r cyhoedd yng Nghymru.

**7182 – Aelod o'r Cyhoedd**

Fel preswylydd lleol ers dros 60 mlynedd teimlaf y dylai etholaeth Bro Morgannwg gynnwys Penarth a Dinas Powys yn hytrach na Phen-y-bont ar Ogwr. Mae Pen-y-bont ar Ogwr yn fwy cysylltiedig â Chwm Garw a Phort Talbot na Bro Morgannwg.

Teimlaf hefyd fod parau etholaethau cymoedd de Cymru i redeg o'r gogledd i'r de i fyny ac i lawr y cymoedd, felly mae paru Merthyr Tudful ac Aberdâr â Phontypridd yn adlewyrchu cysylltiadau lleol yng nghymunedau'r cymoedd. Yn yr un modd â Phen-y-bont ar Ogwr a Chwm Garw.

**7197 – Aelod o'r Cyhoedd**

Mae'n bwysig i barau etholaethau cymoedd de Cymru redeg o'r gogledd i'r de i fyny ac i lawr y cymoedd, felly mae paru Merthyr Tudful ac Aberdâr â Phontypridd yn adlewyrchu cysylltiadau lleol yng nghymunedau'r cymoedd.
Yng Nghaerdydd, rydym yn cefnogi'r Comisiwn i baru Gorllewin Caerdydd â De Caerdydd a Phenarth, gan eu bod wedi'u cysylltu'n agos gan yr A4232, ond wedi'u gwahanu oddi wrth weddill Caerdydd gan afon Taf.

**7213 – Aelod o'r Cyhoedd**

Mae'r cynigion ar gyfer y gogledd – Ynys Môn, Bangor Aberconwy, Clwyd, Alun, Glannau Dyfrdwy a Wrecsam – yn gwneud synnwyr ac yn rhesymegol ac maent yn dilyn ffiniau a ddeellir yn dda o safbwynt gwasgariad poblogaeth, daearyddiaeth a hen ffiniau sirol. Rwy'n cefnogi'r cynigion ar gyfer yr ardaloedd hyn.

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
Democracy and Boundary Commission Cymru

Nid yw'r cynigion ar gyfer y gogledd-orllewin, o Ddwyfor i Drefaldwyn, yn gwneud unrhyw synnwyr ac nid ydynt yn rhesymegol o safbwynt daearyddiaeth a'r gwahaniaeth o ran gwasgariad poblogaeth, agosrwydd ardaloedd trefol, seilwaith, cyflogaeth, trafnidiaeth gyhoeddus, a gwahaniaethau a ddeellir yn dda o ran diwylliant a chymunedau clos a diffyg niferoedd mewn ardaloedd gwledig. Nid wyf yn cefnogi'r cynnig hwn ac mae angen ei ystyried ymhellach.

**7217 – Aelod o'r Cyhoedd**

Mae'n bwysig bod etholaethau yng nghymoedd y de yn cael eu paru ag etholaethau sydd i'r gogledd neu'r de ohonynt, i fyny ac i lawr y cymoedd. Felly, mae paru Merthyr Tudful ac Aberdâr â Phontypridd, er enghraifft, yn adlewyrchu cysylltiadau lleol yng nghymunedau'r cymoedd. Yng Nghaerdydd, rydym yn cefnogi'r ffaith bod y Comisiwn wedi paru Gorllewin Caerdydd â De Caerdydd a Phenarth, oherwydd bod yr A4232 yn eu cysylltu'n agos â'i gilydd a bod afon Taf yn eu gwahanu oddi wrth weddill Caerdydd.

**7247 – Aelod o'r Cyhoedd**

Er fy mod yn cytuno â'r newidiadau a gynigir i etholaethau,

[HEPGOR]

**7248 – Aelod o'r Cyhoedd**

Yn gyffredinol, rwy'n cefnogi cynigion y Comisiwn:

Y parau a dderbynnir ar gyfer etholaethau yng nghymoedd y de yw rhai sy'n golygu bod yr etholaethau'n cael eu paru â rhai sydd i'r gogledd neu'r de ohonynt, i fyny ac i lawr y cymoedd. Mae paru Merthyr Tudful ac Aberdâr â Phontypridd yn adlewyrchu cysylltiadau lleol yng nghymunedau'r cymoedd.

Mae'r Comisiwn yn gywir ddigon wrth baru Gorllewin Caerdydd â De Caerdydd a Phenarth, oherwydd bod yr A4232 yn eu cysylltu'n agos â'i gilydd a bod afon Taf yn eu gwahanu oddi wrth weddill Caerdydd.

**7254 – Aelod o'r Cyhoedd**

Mae'n bwysig bod etholaethau yng nghymoedd y de yn cael eu paru ag etholaethau sydd i'r gogledd neu'r de ohonynt, i fyny ac i lawr y cymoedd. Felly, mae paru Merthyr Tudful ac Aberdâr â Phontypridd (ardal fy mhartner) yn adlewyrchu cysylltiadau lleol yng nghymunedau'r cymoedd.
Yng Nghaerdydd, rwy'n cefnogi'r ffaith bod y Comisiwn wedi paru Gorllewin Caerdydd (fy ardal i) â De Caerdydd a Phenarth, oherwydd bod yr A4232 yn eu cysylltu'n agos â'i gilydd a bod afon Taf yn eu gwahanu oddi wrth weddill Caerdydd.

**7265 – Aelod o'r Cyhoedd**

Mae'n bwysig bod etholaethau yng nghymoedd y de yn cael eu paru ag etholaethau sydd i'r gogledd neu'r de ohonynt, i fyny ac i lawr y cymoedd. Felly, mae paru Merthyr Tudful ac Aberdâr â Phontypridd yn adlewyrchu cysylltiadau lleol yng nghymunedau'r cymoedd.
Yng Nghaerdydd, rwy'n cefnogi'r ffaith bod y Comisiwn wedi paru Gorllewin Caerdydd â De Caerdydd a Phenarth, oherwydd bod yr A4232 yn eu cysylltu'n agos â'i gilydd a bod afon Taf yn eu gwahanu oddi wrth weddill Caerdydd.

**7269 – Aelod o'r Cyhoedd**

Mae etholaeth Bangor Aberconwy yn cysylltu'n naturiol â'r gymuned yn Ynys Môn. Mae angen i etholaethau yng nghymoedd y de gael eu paru ag etholaethau sydd i'r gogledd neu'r de ohonynt, i fyny ac i lawr y cymoedd. Felly, mae paru Merthyr Tudful ac Aberdâr â Phontypridd yn adlewyrchu cysylltiadau lleol yng nghymunedau'r cymoedd.

**7272 – Aelod o'r Cyhoedd**

Mae'n ymddangos ei fod yn gwneud synnwyr, oherwydd mae'r tair prif dref yn agos iawn i'w gilydd ac mae'n hawdd teithio rhyngddynt ar y ffyrdd ac ar drenau.

**7289 – Aelod o'r Cyhoedd**

Fel rhywun sy'n byw ym Mhontypridd, rwy'n cytuno â'r cynigion cychwynnol a wnaed gan y Comisiwn Ffiniau. Yn fy marn i, maent yn hollol synhwyrol ac yn adlewyrchu buddiannau a demograffeg preswylwyr yn yr ardaloedd hynny.

[HEPGOR]

**7314 – Aelod o'r Cyhoedd**

Rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn bod y Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau yn parhau'n amhleidiol, ac nad yw pwysau gan bleidiau gwleidyddol i newid neu ddiwygio ei gynigion yn effeithio arno. Amhleidioldeb yw conglfaen democratiaeth.

**7322 – Aelod o'r Cyhoedd**

Foneddigion,

Parthed: Ymateb i'r Ymgynghoriad ynghylch yr Adolygiad o Ffiniau yng Nghymru

Goblygiadau'r gofyniad i gael 'etholaethau cyffiniol'
Yn ôl Atodlen 2, paragraff 2(1) Deddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024, "Rhaid i ardal pob etholaeth Senedd gynnwys ardaloedd cyfunedig dwy o etholaethau seneddol y DU yng Nghymru sy'n gyffiniol."
Mae'r Comisiwn yn cyfeirio at hynny ar dudalen 2 ei adroddiad, ar ôl nodi mai "dim ond cysylltiadau ffyrdd sydd gan etholaeth seneddol y DU Ynys Môn â'r tir mawr, drwy etholaeth seneddol y DU Bangor Aberconwy" a chyn datgan ei farn "bod cael cysylltiadau cyfathrebu a theithio clir yn rhan hanfodol o allu darparu ar gyfer cynrychiolaeth effeithiol a chyfleus". Mae yna'n cynnig paru Ynys Môn â Bangor Aberconwy.

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
Democracy and Boundary Commission Cymru

Rwyf o'r farn bod y Comisiwn yn gywir i baru'r etholaethau hyn â'i gilydd. Byddwn yn mynd mor bell â dweud y dylai'r Comisiwn baru Ynys Môn â Bangor Aberconwy, gan fod yr unig gysylltiadau ffyrdd (a rheilffyrdd) sydd rhwng Ynys Môn a'r tir mawr yn mynd drwy Fangor Aberconwy, a bod y ddeddfwriaeth sylfaenol berthnasol yn mynnu bod etholaethau a gaiff eu paru â'i gilydd yn gyffiniol. Pe bai'r Comisiwn yn paru Ynys Môn ag etholaeth arall yn lle hynny, byddai angen i bobl deithio drwy Fangor Aberconwy i fynd o un rhan o'u hetholaeth i ran arall, ac ni fyddai'r etholaeth arall yn gyffiniol ag Ynys Môn.
Felly, rydym yn credu mai'r unig ddewis sydd gan y Comisiwn yw paru etholaethau seneddol y DU ar hyd arfordir y gogledd yn y modd y mae wedi'u paru.
Ar ôl paru Ynys Môn â Bangor Aberconwy, mae'n rhaid i'r Comisiwn baru Gogledd Clwyd â Dwyrain Clwyd, gan nad yw Gogledd Clwyd yn gyffiniol ag unrhyw un o etholaethau eraill San Steffan, ar wahân i etholaeth Bangor Aberconwy y mae'n rhaid ei pharu ag Ynys Môn.

Gan fod etholaeth Gogledd Clwyd wedi'i pharu â Dwyrain Clwyd, mae'n rhaid i'r Comisiwn baru Alun a Glannau Dyfrdwy â Wrecsam. Nid yw Alun a Glannau Dyfrdwy yn gyffiniol ag unrhyw un o etholaethau seneddol eraill y DU yng Nghymru, ar wahân i etholaeth Dwyrain Clwyd, sydd wedi'i pharu yn barod â Gogledd Clwyd.

Goblygiadau poblogaeth denau yng nghefn gwlad Cymru
Roedd rhai adroddiadau a sylwadau ynghylch cynigion cychwynnol y Comisiwn yn canolbwyntio ar y ffaith bod etholaeth Dwyfor Meirionnydd, Maldwyn a Glyndŵr, a gynigir gan y Comisiwn, yn fawr. Fodd bynnag, nid beirniadaeth o waith y Comisiwn yw hynny, oherwydd
• Mae'r ffaith bod yr etholaeth yn fawr yn adlewyrchu poblogaeth denau llawer o gefn gwlad Cymru, o ganlyniad i'r rheolau a ddefnyddiwyd i ffurfio etholaethau seneddol y DU; ac
• O ystyried y drafodaeth uchod, dim ond ag etholaeth Maldwyn a Glyndŵr neu etholaeth Ceredigion Preseli y gellir paru Dwyfor Meirionnydd.
Rydym yn cefnogi cynnig y Comisiwn, oherwydd yr unig opsiwn arall yw paru Dwyfor Meirionnydd ag etholaeth Ceredigion Preseli. Byddai hynny'n creu etholaeth a fyddai'n ymestyn o Gaernarfon i Abergwaun, ac er y byddai ei harwynebedd yn debyg byddai'n golygu mwy fyth o bellter ac o amser teithio i fynd o amgylch yr etholaeth ac yn golygu mai bach iawn o bethau fyddai'n gyffredin rhwng pegynau'r etholaeth, i'r fath raddau fel y gallai ddwyn anfri ar yr holl adolygiad.
Rwyf hefyd yn cefnogi cynigion eraill y Comisiwn ar gyfer paru etholaethau y mae poblogaeth denau'r canolbarth a'r gorllewin yn effeithio arnynt.
Mae'r Comisiwn wedi llwyddo i ystyried ffiniau llywodraeth leol ac wedi cynnal cysylltiadau lleol drwy gynnig 'Ceredigion a Sir Benfro' a 'Sir Gaerfyrddin' fel etholaethau. Rwy'n cefnogi'r rhain yn frwd.
Rydym yn rhagweld y bydd etholaeth Aberhonddu, Maesyfed, Castell-nedd a Dwyrain Abertawe, a gynigir gan y Comisiwn, yn fwy dadleuol, er fy mod yn cefnogi'r cynnig.
O ystyried y drafodaeth uchod, nid yw'n bosibl cyfuno etholaeth Aberhonddu, Maesyfed a Chwm Tawe ag unrhyw etholaeth sydd i'r gogledd na'r gorllewin ohoni, ac ni allaf weld

unrhyw ddadleuon da dros ei chyfuno ag unrhyw etholaethau eraill sydd i’r de ohoni.
Mae dadleuon sy’n nodi nad oes gan Aberhonddu a Maesyfed gysylltiadau â Chwm Tawe hefyd yn berthnasol i Ystradgynlais, sydd wedi bod yn gysylltiedig ers amser maith ag Aberhonddu a Maesyfed at ddibenion seneddol. At hynny, er fy mod yn cydnabod bod ymestyn yr etholaeth hyd at Bontardawe yn ddadleuol, cafodd y penderfyniad hwnnw ei wneud yn flaenorol ar gyfer Senedd y DU, ac nid oes gan y Comisiwn unrhyw ddewis ond defnyddio’r etholaethau hynny fel blociau adeiladu.
Er bod gan Bontardawe gysylltiadau gwael efallai ag Aberhonddu a Maesyfed, mae’n amlwg bod gan y lle gysylltiadau lleol cryf â Chastell-nedd a Dwyrain Abertawe. Rwyf o blaid yr etholaeth Aberhonddu, Maesyfed, Castell-nedd a Dwyrain Abertawe a gynigir, ac yn teimlo ei bod yn opsiwn mwy ffafriol na rhai eraill sy’n waeth.

Gweithio gyda thopograffi cymoedd y de
Mae’n anodd integreiddio cymoedd y de yn briodol i mewn i 16 yn unig o etholaethau ar draws Cymru, ac mae’n anochel y bydd yna wyriadau.
Mae’r Comisiwn yn gywir o ran egwyddor yn ei gynigion cychwynnol. Os oes modd, gorau oll os gellir parchu topograffi’r cymoedd drwy eu defnyddio i gysylltu etholaethau â’i gilydd o’r gogledd i’r de, yn hytrach na gorfodi etholaethau i ffurfio pâr o’r dwyrain i’r gorllewin ar draws cymoedd nad ydynt yn rhannu’r un cysylltiadau lleol a chymunedol.
Mae hynny’n amlwg yn achos parau ‘Merthyr Tudful, Aberdâr a Phontypridd’ a ‘Blaenau Gwent, Rhymni a Chaerffili’, lle mae’r etholaethau sydd wedi’u paru â’i gilydd yn cyd-redeg ag amlinellau’r cymoedd o’r gogledd i’r de yn gyffredinol, gan barchu cymunedau a chysylltiadau lleol heb eu hollti. Dyna fyddai’n dueddol o ddigwydd pe baent yn cael eu paru fel arall o’r dwyrain i'r gorllewin.
Yn yr un modd, rwy’n cefnogi cynnig y Comisiwn i baru Casnewydd ag Islwyn, a’r cam naturiol i baru Sir Fynwy a Thorfaen â’i gilydd, sy’n ddwy etholaeth sydd â chysylltiadau hanesyddol.
Rydym o’r farn bod y Comisiwn hefyd yn gywir i baru cymunedau Bro Morgannwg a Phen-y-bont ar Ogwr, sydd â chysylltiadau agos â’i gilydd, yn hytrach na gorfodi cysylltiad annaturiol rhwng etholaeth wledig Bro Morgannwg ac etholaeth yng Nghaerdydd, sef y brifddinas.
Rydym o’r farn bod y cyfuniad sy’n digwydd o ganlyniad i hynny, sef paru ardaloedd Aberafan, Maesteg, Rhondda ac Ogwr â’i gilydd fel etholaeth sydd â threftadaeth ddiwydiannol gysylltiedig, hefyd yn hybu cysylltiadau lleol.

Y parau yng Nghaerdydd
Rydym yn credu ei bod yn gywir i’r pedair etholaeth yng Nghaerdydd gael eu paru â’i gilydd, a bod y Comisiwn wedi cynnig y parau cywir yn y brifddinas.
Mae daearyddiaeth yn cysylltu Dwyrain Caerdydd a Gogledd Caerdydd yn agosach â Chasnewydd, Bryste a choridor yr M4 ymhellach i’r dwyrain i mewn i Loegr. Mae Gorllewin Caerdydd a De Caerdydd a Phenarth yn tueddu i edrych yn fwy tuag at y gorllewin ar hyd yr M4 ac i gyfeiriad Abertawe.
Mae cysylltiadau lleol, cysylltiadau eraill a’r rhwydwaith ffyrdd yng Nghaerdydd, yn enwedig

yr A4232, yn cysylltu De Caerdydd a Phenarth yn fwyaf agos â Gorllewin Caerdydd. Mae cysylltiadau lleol, cysylltiadau eraill a'r rhwydwaith ffyrdd yng Nghaerdydd yn cysylltu Dwyrain Caerdydd yn fwyaf agos â Gogledd Caerdydd, oherwydd yr A48 a daearyddiaeth gysylltiedig y ddwy etholaeth i'r dwyrain o afon Taf.
Mae'r bwlch a adawyd yn y ffordd, a fyddai fel arall wedi bod yn ffordd amgylchynol (M4/A4232/A48(M)) i Gaerdydd yn golygu bod Ffordd Rover, nad yw'n ffordd ddeuol, yn cysylltu Dwyrain Caerdydd yn wael â De Caerdydd a Phenarth. At hynny, mae afon Rhymni a safle gwastraff Ffordd Lamby yn cyfrannu i gysylltedd eithaf gwael rhwng y ddwy etholaeth dan sylw, sy'n etholaethau seneddol y DU.

Yr eiddoch yn gywir

[HEPGOR]

**7332 – Aelod o'r Cyhoedd**

Rwy'n cytuno mewn egwyddor â'r newidiadau a gynigir.
Fodd bynnag, mae'n hanfodol cadw cysylltiadau hanesyddol, yn enwedig yn hen ardaloedd diwydiannol cymoedd y de. Yn fy ardal i, mae cymunedau'r cymoedd gorllewinol yn dal i uniaethu'n gryf â threfi a phentrefi lleol, ac yn wir â'u treftadaeth gyffredin. Rwy'n credu bod yr ystyriaethau hyn yn hanfodol i sicrhau llwyddiant yn y dyfodol.

**7350 – Aelod o'r Cyhoedd**

Rwyf o blaid cynigion y Comisiwn, oherwydd maent yn gwneud synnwyr o ran sut y mae pobl yn byw ac yn teithio mewn gwirionedd yng Nghymru. Mae paru lleoedd y mae ffyrdd yn eu cysylltu â'i gilydd yn barod, megis Ynys Môn â Bangor Aberconwy, yn ymddangos yn rhesymegol. Mae hynny hefyd yn parchu'r cysylltiadau lleol mewn ardaloedd megis cymoedd y de a chefn gwlad Cymru, yn lle gorfodi ardaloedd nad oes ganddynt fawr ddim yn gyffredin mewn gwirionedd i uno â'i gilydd. Mae'r parau yng Nghaerdydd yn gweithio'n dda o ran daearyddiaeth ac o ran y ffyrdd presennol, felly'r teimlad cyffredinol yw bod y Comisiwn wedi treulio llawer o amser yn ceisio sicrhau bod y newidiadau hyn yn ymarferol ac yn deg.

**7357 – Aelod o'r Cyhoedd**

Mae'n bwysig bod etholaethau yng nghymoedd y de yn cael eu paru ag etholaethau sydd i'r gogledd neu'r de ohonynt, i fyny ac i lawr y cymoedd. Felly, mae paru Merthyr Tudful ac Aberdâr â Phontypridd yn adlewyrchu cysylltiadau lleol yng nghymunedau'r cymoedd.

Yng Nghaerdydd, rydym yn cefnogi'r ffaith bod y Comisiwn wedi paru Gorllewin Caerdydd â De Caerdydd a Phenarth, oherwydd bod yr A4232 yn eu cysylltu'n agos â'i gilydd a bod afon Taf yn eu gwahanu oddi wrth weddill Caerdydd.

**7363 – Aelod o'r Cyhoedd**

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
Democracy and Boundary Commission Cymru

Fel un o ddinasyddion cymoedd y de, rwy’n credu ei bod yn bwysig cadw etholaethau’r cymoedd gyda’i gilydd heb eu bod yn cynnwys rhannau o ddinasoedd Caerdydd, Casnewydd ac Abertawe. Mae gan gymunedau’r cymoedd hunaniaeth unigryw, a dylid adlewyrchu’r hunaniaeth honno mewn etholaethau newydd.

**7372 – Aelod o’r Cyhoedd**

Rhowch y gorau i wahanu’r ardaloedd. Caerdydd ydym i gyd gyda’n gilydd.

**7373 – Aelod o’r Cyhoedd**

Mae’n bwysig bod etholaethau yng nghymoedd y de yn cael eu paru ag etholaethau sydd i’r gogledd neu’r de ohonynt, i fyny ac i lawr y cymoedd. Felly, mae paru Merthyr Tudful ac Aberdâr â Phontypridd yn adlewyrchu cysylltiadau lleol yng nghymunedau’r cymoedd.
Yng Nghaerdydd, rwy’n cefnogi’r ffaith bod y Comisiwn wedi paru Gorllewin Caerdydd â De Caerdydd a Phenarth, oherwydd bod yr A4232 yn eu cysylltu’n agos â’i gilydd a bod afon Taf yn eu gwahanu oddi wrth weddill Caerdydd.
Mae’n bwysig uno etholaeth Caerfyrddin a Llanelli, oherwydd 1 sir ydyw, felly mae’n gwneud synnwyr iddi fod yn 1 etholaeth.

**7391 – Aelod o’r Cyhoedd**

Diolch

**7399 – Aelod o’r Cyhoedd**

Mae gen i un awgrym a eglurir yn y ffeil sydd ynghlwm.

Mae mwyafrif y cynigion yn synhwyrol ac yn eu hawgrymu eu hunain. Yr unig wyriad, yn fy marn i, yw’r cynnig i ymestyn etholaeth Aberhonddu/Maesyfed yr holl ffordd i’r arfordir er mwyn cynnwys etholaeth bresennol Dwyrain Abertawe. Ar wahân i faint daearyddol yr etholaeth newydd oganlyniad i hynny, byddai’n golygu bod canolfan drefol drwchus ei phoblogaeth yn cael ei pharu ag ardal wledig fawr, a allai ystumio cynrychiolaeth seneddol. Hoffwn awgrymu y byddai’n fwy synhwyrol paru Aberhonddu/Maesyfed â Sir Fynwy. Er y byddai hynny’n dal i greu etholaeth fawr o safbwynt daearyddol, byddai’n golygu creu etholaeth y mae ei chyfansoddiad yn fwy rhesymegol, a byddai’n lleihau’r tebygolrwydd bod patrymau pleidleisio mewn ardaloedd diwydiannol/ôlddiwydiannol yn boddi patrymau pleidleisio etholwyr mewn ardaloedd gwledig, gwasgaredig. Pe bai etholaeth Aberhonddu/Maesyfed yn cael ei pharu â Sir Fynwy, gallai’r newidiadau o ganlyniad I hynny fod fel a ganlyn:

Aberafan/Maesteg â Dwyrain Abertawe
Torfaen â Blaenau Gwent/Rhymni
Caerffili â Phontypridd
Merthyr/Aberdâr â Rhondda

27/9/24

**7403 – Aelod o’r Cyhoedd**

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
Democracy and Boundary Commission Cymru

Mae’n bwysig bod etholaethau yng nghymoedd y de yn cael eu paru ag etholaethau sydd i’r gogledd neu’r de ohonynt, i fyny ac i lawr y cymoedd. Felly, mae paru Merthyr Tudful ac Aberdâr â Phontypridd yn adlewyrchu cysylltiadau lleol yng nghymunedau’r cymoedd.

**7405 – Aelod o’r Cyhoedd**

Rwy'n llwyr gefnogi ffiniau etholaethau arfaethedig y Comisiwn. [HEPGOR]

**7417 – Aelod o’r Cyhoedd**

Mae'n bwysig bod etholaethau cymoedd y De yn rhedeg o'r gogledd i'r de i fyny ac i lawr y cymoedd, felly mae paru Merthyr Tudful ac Aberdâr â Phontypridd yn adlewyrchu cysylltiadau lleol yng nghymunedau'r cymoedd.

Yng Nghaerdydd, rydym yn cefnogi cynnig y Comisiwn i baru Gorllewin Caerdydd â De Caerdydd a Phenarth, gan eu bod wedi'u cysylltu'n agos gan yr A4232, ond wedi'u gwahanu oddi wrth weddill Caerdydd gan Afon Taf.

**7431 – Aelod o’r Cyhoedd**

Rwy'n ei chael hi'n anodd iawn deall pam mae Rhondda'n uno â Maesteg, Aberafan ac Ogwr. Nid yw Rhondda'n rhan o'r cwm hwnnw. Felly, mae Rhondda'n cael ei hynysu o'r etholaethau eraill. Mae'r costau a fydd yn codi yn sgil lleoli Rhondda y tu allan i RhCT yn anhygoel! Mae'r rhan fwyaf o gwm Rhondda yn defnyddio ffyrdd, trafnidiaeth a gwaith RhCT. Prin yw’r bobl sy'n byw yn y Rhondda ac yn cael eu cyflogi yn y cymoedd eraill.

**7437 – Aelod o’r Cyhoedd**

Dylai ffiniau sicrhau bod cymunedau'n cael eu paru ar sail 'tebyg at ei debyg', i sicrhau bod cysondeb a delfrydau cyffredin yn cael lle blaenllaw. Credaf fod hyn yn cael ei adlewyrchu yn eich cynnig.

**7439 – Aelod o’r Cyhoedd**

Fel un o drigolion Cymru, credaf ei bod hi'n bwysig bod etholaethau Cymoedd y De yn rhedeg o'r gogledd i'r de i fyny ac i lawr y cymoedd, felly mae paru Merthyr Tudful ac Aberdâr â Phontypridd yn adlewyrchu cysylltiadau lleol yng nghymunedau'r cymoedd.

Yn ogystal, yng Nghaerdydd, rydw i’n cefnogi cynnig y Comisiwn i baru Gorllewin Caerdydd â De Caerdydd a Phenarth hefyd, gan eu bod wedi'u cysylltu'n agos gan yr A4232, ond wedi'u gwahanu oddi wrth weddill Caerdydd gan Afon Taf.

**7447 – Aelod o’r Cyhoedd**

Fel Cymro wedi fy ngeni a'm magu yma, rwy'n cefnogi’r cynnig ar gyfer cynlluniau etholaethau newydd.

**7450 – Aelod o’r Cyhoedd**

Rwy'n cefnogi'r newidiadau yn llawn.

**7456 – Aelod o’r Cyhoedd**

[HEPGOR]

credaf fod uno Gogledd Caerdydd a Dwyrain Caerdydd yn ymddangos yn gysylltiad naturiol o ystyried cyswllt yr M4/A38 â Chasnewydd a gweithgareddau adeiladu newydd.

**7495 – Aelod o’r Cyhoedd**

Rwy'n cefnogi cynigion y Comisiwn sydd wedi'u hystyried yn drylwyr ac sy'n gwneud cryn dipyn o synnwyr.

Fel rhywun o Sir Gaerfyrddin sydd â chysylltiadau â Cheredigion a Sir Benfro, rwy'n hoff iawn o'r syniad o baru etholaethau sy'n cael eu heffeithio gan boblogaeth brin y Canolbarth a'r Gorllewin.

Mae'r Comisiwn wedi ystyried ffiniau llywodraeth leol yn llwyddiannus ac wedi cynnal cysylltiadau lleol drwy gynnig 'Ceredigion a Sir Benfro' a 'Sir Gaerfyrddin' fel etholaethau.

Mae llawer o gefnogaeth i hyn ymhlith y bobl rwy'n siarad â nhw.

Diolch am y cyfle i fynegi fy marn ac am ystyried fy nghefnogaeth.

Rwy'n ei werthfawrogi'n fawr.

**7498 – Aelod o’r Cyhoedd**

Rwy'n byw yng Nghastell-nedd, ac mae'r ffiniau arfaethedig newydd yn ymestyn i'r Canolbarth. Nid yw ffin mor fawr yn gwneud synnwyr.

**7513 – Aelod o’r Cyhoedd**

Fel dinesydd Cymreig rwy'n cytuno'n llwyr â'r hyn sy'n dilyn.

Cyhoeddodd Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru (y "Comisiwn") ei gynigion cychwynnol ar gyfer Adolygiad 2026 o etholaethau'r Senedd ar 3 Medi 2024. Nodwn fod y Comisiwn yn ymgynghori ar y rhain tan 30 Medi 2024.

[HEPGOR]

Goblygiadau'r gofynion 'etholaethau cyffiniol'

Mae Atodlen 2 paragraff 2(1) o Ddeddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024 yn

datgan bod yn "Rhaid i ardal pob etholaeth Senedd gynnwys ardaloedd cyfunedig dwy o etholaethau seneddol y DU yng Nghymru sy'n gyffiniol".

Mae'r Comisiwn yn cyfeirio at hyn ar dudalen 8 o'i adroddiad, ar ôl nodi: "Ynys Môn only has road connections to the mainland via the Bangor Aberconwy UK Parliamentary constituency", a chyn datgan ei farn: "that having clear communication and travel connections is a vital part of being able to provide for effective and convenient representation". Yna mae'n cynnig paru Ynys Môn a Bangor Aberconwy.

Credwn fod y Comisiwn yn gywir i wneud y paru hwn. Byddem yn mynd ymhellach a datgan bod rhaid i'r Comisiwn baru Ynys Môn a Bangor Aberconwy, gan fod yr unig gysylltiadau ffordd (a rheilffordd) o Ynys Môn i'r tir mawr drwy Fangor Aberconwy, ac mae'r ddeddfwriaeth sylfaenol berthnasol yn ei gwneud yn ofynnol i etholaethau sy'n cael eu paru fod yn gyffiniol. Pe bai'r Comisiwn yn paru Ynys Môn ag etholaeth arall, fel bod angen i bobl deithio drwy Fangor Aberconwy i fynd o un rhan o'u hetholaeth i'r llall, ni fyddai'r etholaeth honno'n gyffiniol.

Credwn felly nad oes gan y Comisiwn unrhyw ddewis ond paru etholaethau Senedd y DU ar hyd arfordir y Gogledd fel y mae wedi'i wneud.

Unwaith y bydd Ynys Môn wedi'i pharu â Bangor Aberconwy, rhaid i'r Comisiwn baru Gogledd Clwyd â Dwyrain Clwyd, gan nad yw Gogledd Clwyd yn gyffiniol ag unrhyw un arall o etholaethau San Steffan ac eithrio Bangor Aberconwy, y mae'n rhaid ei pharu ag Ynys Môn.

Gan fod Gogledd Clwyd wedi'i pharu â Dwyrain Clwyd, rhaid i'r Comisiwn baru Alun a Glannau Dyfrdwy â Wrecsam. Nid yw Alun a Glannau Dyfrdwy yn gyffiniol ag unrhyw un o etholaethau eraill Senedd y DU yng Nghymru ac eithrio Dwyrain Clwyd, sydd eisoes wedi'i pharu â Gogledd Clwyd.

Goblygiadau poblogaeth brin yng nghefn gwlad Cymru

Roedd rhywfaint o adroddiadau a sylwebaeth ar gynigion cychwynnol y Comisiwn yn canolbwyntio ar faint mawr etholaeth arfaethedig Dwyfor Meirionnydd, Sir Drefaldwyn a Glyndŵr. Fodd bynnag, nid yw hyn yn feirniadaeth o waith y Comisiwn, gan fod maint mawr yr etholaeth yn adlewyrchu poblogaeth brin llawer o gefn gwlad Cymru, oherwydd y rheolau sy'n berthnasol i ffurfio etholaethau Senedd y DU; ac o ystyried y drafodaeth uchod, dim ond â naill ai Sir Drefaldwyn a Glyndŵr neu Geredigion Preseli y gellir paru Dwyfor Meirionnydd.
Rydym yn cefnogi cynnig y Comisiwn, gan mai'r unig ddewis arall yw paru Dwyfor Meirionnydd â Cheredigion Preseli. Byddai hyn yn creu etholaeth sy'n ymestyn o

Gaernarfon i Abergwaun a fyddai, er yn debyg o ran arwynebedd, yn gofyn am bellteroedd ac amseroedd teithio hirach hyd yn oed, a heb lawer o elfennau cyffredin rhwng ei heithafion, fel y gallai ddwyn anfri ar yr adolygiad cyfan.

Mae Reform UK yn cefnogi cynigion eraill y Comisiwn hefyd ar gyfer paru etholaethau sy'n cael eu heffeithio gan boblogaeth brin y Canolbarth a'r Gorllewin.

Mae'r Comisiwn wedi ystyried ffiniau llywodraeth leol yn llwyddiannus ac wedi cynnal cysylltiadau lleol drwy gynnig 'Ceredigion a Sir Benfro' a 'Sir Gaerfyrddin' fel etholaethau. Rydym yn cefnogi'r rhain yn gryf.

Rydym yn rhagweld y bydd etholaeth arfaethedig Aberhonddu, Maesyfed, Castell-nedd a Dwyrain Abertawe yn fwy dadleuol, er ein bod yn ei chefnogi.

O ystyried y drafodaeth uchod, nid oes modd cyfuno etholaeth Aberhonddu, Maesyfed a Chwm Tawe ag unrhyw etholaeth arall i'r gogledd nac i'r gorllewin, ac nid ydym yn gweld dadleuon da dros ei chyfuno ag unrhyw un arall o'r etholaethau i'r de.

Mae dadleuon yn erbyn paru Aberhonddu a Maesyfed â Chwm Tawe yn berthnasol i Ystradgynlais hefyd, sydd wedi'i chysylltu ers tro byd ag Aberhonddu a Maesyfed at ddibenion Senedd y DU. Ymhellach, er ein bod yn cydnabod bod ymestyn yr etholaeth i Bontardawe yn ddadleuol, gwnaed y penderfyniad hwn yn flaenorol ar gyfer Senedd y DU, ac nid oes gan y Comisiwn unrhyw ddewis ond defnyddio'r etholaethau hynny fel blociau adeiladu.

Er y gellid dweud bod gan Bontardawe gysylltiadau gwael ag Aberhonddu a Maesyfed, mae'n amlwg bod ganddi gysylltiadau lleol cryf â Chastell-nedd a Dwyrain Abertawe. Rydym yn cefnogi etholaeth arfaethedig Aberhonddu, Maesyfed, Castell-nedd a Dwyrain Abertawe gan fod y cynnig yn well na'r opsiynau gwaeth eraill.

Gweithio gyda thopograffi cymoedd Cymru

Mae'n anodd integreiddio cymoedd y De yn briodol i ddim ond 16 etholaeth ar draws Cymru, ac mae anghysondebau'n anochel.

Mae'r Comisiwn yn llygad ei le mewn egwyddor yn ei gynigion cychwynnol. Lle bo'n bosibl, mae'n well parchu topograffi'r cymoedd, drwy ddefnyddio'r cymoedd hynny i gysylltu etholaethau o'r gogledd i'r de, yn hytrach na gorfodi etholaethau i baru o'r dwyrain i'r gorllewin ar draws cymoedd nad ydynt yn rhannu'r un cysylltiadau lleol a chymunedol.

Mae hyn yn glir gyda pharau 'Merthyr Tudful, Aberdâr a Phontypridd' a 'Blaenau Gwent,

Rhymni a Chaerffili', lle mae'r etholaethau sydd wedi'u paru yn rhedeg o'r gogledd i'r de i raddau helaeth gyda chyfuchliniau'r cymoedd, gan barchu cysylltiadau a chymunedau lleol, a pheidio â'u rhannu fel y byddai paru o'r dwyrain i'r gorllewin yn tueddu i'w wneud.

Yn yr un modd, rydym yn cefnogi'r cynnig arfaethedig i baru Casnewydd ac Islwyn, a pharu naturiol a hanesyddol Sir Fynwy a Thorfaen.

Credwn fod y Comisiwn yn gywir hefyd i baru cymunedau agos Bro Morgannwg a Phen-y-bont ar Ogwr, yn hytrach na gorfodi cyswllt annaturiol rhwng cefn gwlad Bro Morgannwg ac etholaeth o Gaerdydd.

Credwn fod y cyfuniad canlyniadol o ardaloedd Aberafan, Maesteg, Rhondda ac Ogwr fel etholaeth sydd â threftadaeth ddiwydiannol gysylltiedig yn cefnogi cysylltiadau lleol hefyd.

Paru yng Nghaerdydd

Credwn ei bod yn iawn i bedair etholaeth Caerdydd gael eu paru gyda'i gilydd, a bod y Comisiwn wedi cynnig y parau cywir yn y brifddinas.

Mae Dwyrain Caerdydd a Gogledd Caerdydd wedi'u cysylltu'n agosach drwy ddaearyddiaeth â Chasnewydd, Bryste a choridor yr M4 ymhellach i'r dwyrain i Loegr. Mae Gorllewin Caerdydd a De Caerdydd a Phenarth yn tueddu i edrych mwy tua'r gorllewin ar hyd yr M4 a thuag at Abertawe.

Mae cysylltiadau lleol a'r rhwydwaith ffyrdd yng Nghaerdydd, yn enwedig yr A4232, yn cysylltu De Caerdydd a Phenarth yn agosaf â Gorllewin Caerdydd, sy'n wir hefyd am Ddwyrain a Gogledd Caerdydd, gyda'r A48 a'u daearyddiaeth gysylltiedig i'r dwyrain o Afon Taf.

Mae'r bwlch a adawyd gan yr hyn a fyddai wedi bod yn ffordd orbital Caerdydd yr M4/A4232/A48(M) yn gadael Dwyrain Caerdydd a De Caerdydd a Phenarth â chysylltiad gwael drwy ffordd unol Rover Way. Mae safle gwastraff Ffordd Lamby ac Afon Rhymni'n cyfrannu at gysylltedd cymharol wael rhwng y ddwy etholaeth hon yn Senedd y DU hefyd.

**7520 – Aelod o'r Cyhoedd**

Mae'n hollbwysig bod etholaethau cymoedd y De yn rhedeg o'r gogledd i'r de i fyny ac i lawr y cymoedd, felly mae paru Merthyr Tudful ac Aberdâr â Phontypridd yn adlewyrchu cysylltiadau lleol yng nghymunedau'r cymoedd.
Yng Nghaerdydd, rwy'n cefnogi cynnig y Comisiwn i baru Gorllewin Caerdydd â De Caerdydd a Phenarth, gan eu bod wedi'u cysylltu'n agos gan yr A4232, ond wedi'u gwahanu oddi wrth weddill Caerdydd gan Afon Taf.

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
Democracy and Boundary Commission Cymru

Byddwn yn ddiolchgar pe baech yn ystyried fy sylwadau

[HEPGOR]

**7575 – Aelod o'r Cyhoedd**

Syr/Madam
Mae'n bwysig bod etholaethau cymoedd y De yn rhedeg o'r gogledd i'r de i fyny ac i lawr y cymoedd, felly mae paru Merthyr Tudful ac Aberdâr â Phontypridd yn adlewyrchu cysylltiadau lleol yng nghymunedau'r cymoedd.

Yng Nghaerdydd, rydym yn cefnogi cynnig y Comisiwn i baru Gorllewin Caerdydd â De Caerdydd a Phenarth, gan eu bod wedi'u cysylltu'n agos gan yr A4232, ond wedi'u gwahanu oddi wrth weddill Caerdydd gan Afon Taf.

**7609 – Aelod o'r Cyhoedd**

Rwy'n cytuno â chynigion y Comisiwn ar gyfer paru etholaethau sy'n cael eu heffeithio gan boblogaeth brin y Canolbarth a'r Gorllewin, gan gynnal cysylltiadau lleol drwy gynnig Ceredigion/Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin fel etholaethau.

**7634 – Aelod o'r Cyhoedd**

Mae'r etholaethau arfaethedig yn ymddangos yn rhesymegol.

**7638 – Aelod o'r Cyhoedd**

Mae cefnogi a pharchu cysylltiadau lleol yng Nghymru yn bwysig e.e. Yng Nghaerdydd, rwy'n cefnogi cynnig y Comisiwn i baru Gorllewin Caerdydd â De Caerdydd a Phenarth, gan eu bod wedi'u cysylltu'n agos gan yr A4232, ond wedi'u gwahanu oddi wrth weddill Caerdydd gan Afon Taf. Mae'n bwysig hefyd bod etholaethau cymoedd y De yn rhedeg o'r gogledd i'r de i fyny ac i lawr y cymoedd, felly mae paru Merthyr Tudful ac Aberdâr â Phontypridd yn adlewyrchu cysylltiadau lleol yng nghymunedau'r cymoedd.

**7659 – Aelod o'r Cyhoedd**

Mae'n bwysig bod etholaethau cymoedd y De yn rhedeg o'r gogledd i'r de i fyny ac i lawr y cymoedd, felly mae paru Merthyr Tudful ac Aberdâr â Phontypridd yn adlewyrchu cysylltiadau lleol yng nghymunedau'r cymoedd.

**7669 – Aelod o'r Cyhoedd**

Rwy'n cytuno â'r cynnig.

**7670 – Aelod o'r Cyhoedd**

dwi'n cytuno gyda'r cynnig

**7680 – Aelod o'r Cyhoedd**

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
Democracy and Boundary Commission Cymru

Gweler y sylwadau yn y ffeil atodedig

Cyflwyniad i'r Comisiwn Ffiniau

Hoffwn wneud y sylwadau canlynol ar ddrafft cyntaf Parau'r Senedd y Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau. Awgrymaf y dylai'r parau yn y gogledd fod fel a ganlyn: - Ynys Môn a Dwyfor Meirionnydd - Bangor a Gorllewin Clwyd - Dwyrain Clwyd, Alun a Glannau Dyfrdwy - Wrecsam, Glyndŵr a Maldwyn.

Mae rhesymeg y Comisiwn Ffiniau dros baru Maldwyn a Glyndŵr â Dwyfor Meirionnydd fel y dywedodd y Comisiwn:-

“Gwnaeth [y Comisiwn] ystyried opsiwn amgen, sef cyfuno Dwyfor Meirionnydd â Cheredigion Preseli, a chyfuno Maldwyn a Glyndŵr ag Aberhonddu, Maesyfed a Chwm Tawe. Fodd bynnag, roedd y Comisiwn o’r farn y byddai’r opsiwn amgen yn creu 2 etholaeth Senedd a fydddai’n fawr iawn ac yn anhwylus.

Mae’r Comisiwn o’r farn bod cysylltiadau ffordd rhesymol rhwng ardaloedd yr etholaeth a gynigir, er enghraifft rhwng Machynlleth a Dolgellau.

Er bod y Comisiwn o’r farn nad yw’n ddelfrydol cynnig etholaeth mor fawr, dyma’r opsiwn gorau o safbwynt cynnig cyfuniad o 2 etholaeth seneddol y DU sy’n gyffiniol yn yr ardal.”

Mae'r Comisiwn Ffiniau yn datgan yn ei resymeg dros y pâr hwn bod (1) rhai cyfuniadau o etholaethau yn rhy fawr ac anhwylus a (2) bod cysylltiadau ffyrdd da sy'n sail i'r paru.

Yn gyntaf, ar fater maint yr etholaeth.

Rwy'n gwrthwynebu maint y paru ar sail graddfa enfawr y ddaearyddiaeth a hefyd ar sail nifer y grwpiau sefydliadol nad ydynt efallai'n ymwneud â maint daearyddol ond sy'n ychwanegu'n llwyr at gymhlethdod yr etholaeth.

Mae'r paru arfaethedig presennol o roi Dwyfor Meirionnydd gyda Maldwyn a Glyndŵr yn cynnwys 4 cyngor sir ac yn cwmpasu lled Cymru o Langurig yn y pwynt de-ddwyreiniol i Ynys Enlli ar bwynt mwyaf gogledd-orllewin - nid yw'r ddau bwynt hynny'n gwybod dim am sut mae'r naill na'r llall yn byw ac ni all cynrychiolydd yn y Senedd wybod am eu hanghenion lleol na’u cynrychioli.

Yn ddaearyddol, y paru hwnnw yw'r mwyaf o ran maint ac mae ganddo'r nifer fwyaf o fynyddoedd sy'n gwneud y gwaith o drefnu a chynrychioli yn anodd iawn ac mae’n peryglu ymddiriedaeth ym mhrosesau democrataidd y Senedd. Mae gormod o bobl eisoes yn credu nad yw 'Caerdydd yn ein deall ni' a bydd y paru hwn yn gwneud dim ond ategu'r gred honno, yn ogystal â chryfhau cefnogaeth y rhai sydd am weld diwedd ar unrhyw ymreolaeth wleidyddol yng Nghymru.

O safbwynt trefnu, dyma’r cynnig sydd â’r mwyaf o bwysau gan ei fod wedi'i hollti rhwng y Cynghorau Sir canlynol: Sir Ddinbych, Gwynedd, Powys, a Wrecsam. Nid oes gan unrhyw

Aelod o'r Senedd, hen neu newydd, y gallu na'r cysylltiadau i wneud cyfiawnder â'r cynghorau hynny, na chynrychioli eu hanghenion yn y Senedd.

Yn yr un modd, nid oes unrhyw gysylltiadau hanesyddol rhwng y ddau bwynt hynny/ Mae'r naill yn gorwedd ar y ffin â Lloegr, a'r llall yn wynebu Môr Iwerddon, felly nid ydynt yn cydgyffwrdd yn gymdeithasol nac yn ddiwylliannol.

Ar fater rhwyddineb teithio, mae'r Comisiwn Ffiniau yn dweud bod cysylltiadau ffordd rhesymol rhwng ardaloedd yr etholaeth arfaethedig megis rhwng Machynlleth a Dolgellau.

Mae'n wir fod y darn hwn o'r ffordd yn dda, ond gofynnwn i chi ystyried ei bod yn cymryd 30 munud yn hirach i deithio o Langurig i Aberdaron nag y byddai'n ei wneud i yrru o Langurig i Gaerdydd. Mae hyn yn seiliedig ar amseroedd teithio a gynhyrchir gan gyfrifiadur ond, mewn gwirionedd, mae'n cymryd dros 3 awr i fynd o un pen o'ch etholaeth arfaethedig i'r llall ac mae rhai llwybrau yn fynyddig ar y naw.

Mae'n bosibl nad oes ffordd yn cysylltu Ynys Môn a Dwyfor Meirionnydd (er mai dim ond ychydig gannoedd o lathenni sydd yma) ond mae ganddynt filoedd o flynyddoedd o hanes, diwylliant, teyrnasoedd a chynghorau sir, ieithoedd, llenyddiaeth a chysylltiadau hanesyddol sy'n llawer mwy nag unrhyw gysylltiad cyffiniol rhwng Dwyfor Meirionnydd a Maldwyn - yn arbennig, byddai cynrychiolydd Dwyfor ac Ynys Môn dim ond yn gorfod gweithio o fewn cyfyngiadau 2 Gyngor Sir, tra byddai cynrychiolydd ar gyfer Dwyfor a Maldwyn a Glyndŵr yn gorfod gweithio gyda 4. Mae'r newidiadau a awgrymir yn gwneud cynrychiolaeth yn gliriach i etholwyr ac yn fwy hylaw i ddarpar gynrychiolwyr yn y Senedd.

Yn yr un modd, daeth y Comisiwn Ffiniau â Maldwyn a De Clwyd at ei gilydd yn etholaeth Maldwyn a Glyndŵr er gwaetha’r ffaith bod y brif ffordd sy'n eu cysylltu yn mynd trwy etholaeth arall a gwlad arall, Lloegr. Mae gyrru trwy ddarn byr o ychydig gannoedd o lathenni o Ynys Môn rownd cylchfan ac i lawr y slipffordd gyntaf i gyrraedd Dwyfor Meirionnydd o leiaf yn cadw'r gyrrwr o fewn yr un wlad, Cymru.

Mae'r awgrym o baru Maldwyn a Glyndŵr gyda Wrecsam yn cadw'r etholaeth i ddau Gyngor Sir, dwy ardal Comisiynydd Heddlu a Throseddu ac mae'n llawer mwy hygyrch o ran y rhwydwaith ffyrdd. Mae cysylltiadau gwaith eisoes wedi'u sefydlu yno, mae llai o ymyriad mynyddig ac mae llawer iawn o gysylltiadau diwylliannol a chymdeithasol.

Diolch am ystyried fy sylwadau.

**7684 – Aelod o’r Cyhoedd**

Rwy'n cytuno â'ch cynnig i efeillio Ynys Môn â Bangor Aberconwy gan fod hyn yn cyd-fynd yn daclus â'r ardal tua'r gogledd ac mae'n rhesymegol gan fod arfordir / glan cyffredin rhwng y ddwy etholaeth yn y Fenai.

**7685 – Aelod o’r Cyhoedd**

Rwy'n credu bod etholaeth Brycheiniog, Maesyfed a Chwm Tawe, yn enwedig drwy ei ymestyn ymhellach i dde Cymru, yn rhoi dewis mwy democrataidd i bleidleiswyr, o'i gymharu â'r hen etholaeth Brycheiniog a Maesyfed, yn enwedig o dan y system i bleidleisio dros aelodau i Senedd Cymru.

**7701 – Aelod o'r Cyhoedd**

Mae'n bwysig bod etholaethau cymoedd y De yn rhedeg o'r gogledd i'r de i fyny ac i lawr y cymoedd, felly mae paru Merthyr Tudful ac Aberdâr â Phontypridd yn adlewyrchu cysylltiadau lleol yng nghymunedau'r cymoedd.
Yng Nghaerdydd, rydym yn cefnogi cynnig y Comisiwn i baru Gorllewin Caerdydd â De Caerdydd a Phenarth, gan eu bod wedi'u cysylltu'n agos gan yr A4232, ond wedi'u gwahanu oddi wrth weddill Caerdydd gan Afon Taf.

**7703 – Aelod o'r Cyhoedd**

Mae'n ymddangos bod hyn yn ffordd dda o osod ffiniau, yn enwedig yn ne Cymru. Mae'n bwysig bod trefi'r cymoedd yn glynu gyda'i gilydd. Ni allwch fod yn cymysgu ar draws gwahanol ddyffrynnoedd, gan nad dyna orweddiad y tir. Rwyf hefyd yn cytuno â fy etholaeth, Dwyrain Caerdydd, yn cael ei baru â Gogledd Caerdydd.

**7704 – Aelod o'r Cyhoedd**

Rwy'n cytuno â chynigion cychwynnol y Comisiwn. Mae'n edrych yn iawn i fi.

Mae angen paru etholaethau'r Cymoedd o'r gogledd i'r de ar hyd y cymoedd.

Mae angen paru Dwyrain Caerdydd â Gogledd Caerdydd.

A dylai Gorllewin Caerdydd gael ei baru â De Caerdydd a Phenarth.

**7707 – Aelod o'r Cyhoedd**

Rwy'n credu bod y newidiadau arfaethedig yn cynrychioli gwell dull a safbwynt gynhwysfawr o farn y cyhoedd yn gyffredinol o'r Senedd. Gallai'r ffiniau newydd hefyd annog y cenedlaethau iau i gymryd rhan a dangos mwy o ddiddordeb yn y ffordd y caiff Cymru ei rhedeg yn y dyfodol.

**7712 – Aelod o'r Cyhoedd**

Rwy'n cefnogi'r cynigion o ran ffiniau gan eu bod yn ystyried cysylltiadau lleol rhwng etholaethau presennol a'r cysylltiadau daearyddol.

**7722 - Cllr Karl Whitehead - Cynghorydd lleol neu swyddog etholedig arall**

Nid oes gan y cynnig i gynnwys ardal Cyngor Tref Coedffranc gydag ardaloedd fel Aberhonddu unrhyw resymeg resymol nac ymarferol. Mae hyn oherwydd:
- maint daearyddol a thirwedd y sedd arfaethedig newydd, y mae pob un ohonynt wedi'u gwahanu gan ystod o amgylcheddau topograffig;

- natur amrywiol y ddwy sedd, un yn sedd amaethyddol a’r llall yn un ddiwydiannol;
- mae’r sedd newydd yn cwmpasu amrywiaeth o Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd a chyrff gwasanaethau cyhoeddus eraill nad oes ganddynt unrhyw beth yn gyffredin nac yn rhannu adnoddau cyhoeddus;

Fel dewis arall, mae gan etholaeth Castell-nedd a Dwyrain Abertawe fwy yn gyffredin ag Aberafan a Maesteg. Cyn hyn roedd Coedffranc yn etholaeth Aberafan ac mae ganddo gysylltiad diwylliannol a hanesyddol yno eisoes, yn ogystal â'r buddiannau economaidd, cyflogaeth a masnachol sefydledig.

**7725 – Aelod o’r Cyhoedd**

Rwy'n gwrthwynebu i etholaeth Castell-nedd a Dwyrain Abertawe i ymuno â Brycheiniog a Maesyfed. Bydd yr etholaeth hon yn rhy fawr yn ddaearyddol a bydd yn cynnwys gormod o wahanol awdurdodau lleol, byrddau iechyd ac ati. Mae gan Gastell-nedd a Dwyrain Abertawe fwy yn gyffredin ag Aberafan a Phen-y-bont ar Ogwr.

**7738 – Aelod o’r Cyhoedd**

Rwy'n cytuno â'r comisiynau a gynigiwyd etholaethau'r Senedd, yn enwedig mewn perthynas â pharu Merthyr Tudful ac Aberdâr â Phontypridd. Cefais fy ngeni ym Mhentre’r Eglwys (Pontypridd) ac rwyf wedi gweithio yn Hirwaun (Aberdâr) ac ym Merthyr Tudful. Yn fy marn i, mae'n gwbl synhwyrol i baru etholaethau yn seiliedig ar y ddaearyddiaeth leol, ac felly hanes yr ardal, yn rhedeg o'r gogledd i'r de ac nid eu hollti o'r dwyrain i'r gorllewin. Ar hyn o bryd rwy'n byw yng Nghaerffili ac yn gweithio ym Merthyr Tudful, ac wedi treulio'r rhan fwyaf o fy mywyd yn byw ac yn gweithio yn yr etholaethau hyn. Rwy'n teimlo bod trigolion Pontypridd, Merthyr Tudful ac Aberdâr yn rhannu cysylltiadau, anghenion lleol ac ymdeimlad cyffredin o gymuned.

Ar yr un sail, mae'n ymddangos bod paru Gorllewin Caerdydd â De Caerdydd a Phenarth, hefyd yn synhwyrol. Mae'r A4232 yn cysylltu coridor yr M4 yn agos â De Caerdydd, Penarth a Bae Caerdydd. Mae Afon Taf yn ffin ddaearyddol naturiol i Orllewin Caerdydd a De Caerdydd. Mae gen i ffrindiau a theulu yng Ngorllewin Caerdydd a De Caerdydd, ac rwy'n teimlo bod etholaethau Gorllewin Caerdydd a De Caerdydd a Phenarth o safbwynt demograffig wedi'u halinio'n eithaf da.

[HEPGOR]

**7742 – Aelod o’r Cyhoedd**

Mae'n gwneud synnwyr i etholaethau cymoedd de Cymru gael eu paru o'r gogledd i'r de i fyny ac i lawr y cymoedd gan fod hyn yn adlewyrchu cysylltiadau lleol rhwng y cymunedau.

**7745 – Aelod o’r Cyhoedd**

Rwy o'r farn y byddai buddiannau'r iaith Gymraeg ar eu hennill o gyfuno Gogledd a Gorllewin Caerdydd.

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
Democracy and Boundary Commission Cymru

Y ddwy rhan yma o'r ddinas yw'r ardal lle y mae'r defnydd o'r Gymraeg ar ei uchaf, fel a adlewyrchir yn safle ysgolion Glantaf a Phlasmawr, a'r ysgolian cynradd sy'n eu bwydo. Rwy wedi bod ynghlwm a'r ddwy ysgol fel rhiant ac aelod o staff. Rwy'n teimlo y byddai cael cynrychiolaeth ar y cyd i'r ddwy rhan hon o Gaerdydd yn hwb mawr i'r iaith Gymraeg yn y dyfodol. Rydym eisoes yn ystyried nodweddion ieithyddol wrth gynllunio cymunedau yng nghadarnleodd traddodiadol y Gymraeg (Gogledd a Gorllewin Cymru), ond mae'n bwysig ein bod hefyd yn gwneud hyn wrth ystyried Caerdydd, gan mai dyma nawr yw man twf a dyfodol ein hiaith.

Rwy'n awgrymu felly clymu Gogledd a Gorllewin Caerdydd gyda'u gilydd. Fe fyddai hyn yn goygu uno Dwyrain Caerydd a De Caerdydd a Phenarth hefyd, sydd yn gyfuniad rhesymol ac heb greu canlyniadau pellgyrhaeddol ar draws y map ehangach.

Rwy'n atodi map sy'n dangos y wardiau sydd a chanran uwch cyfartaledd Caerdydd o siaradwyr Cymraeg, yn ol cyfrifiad 2021 (wedi'u lliwio'n felyn). Dim ond tair eithriad sydd y tu allan i'r ddwy etholaeth hon.

**7748 – Aelod o'r Cyhoedd**

Hoffwn ymateb i ddrafft cyntaf Parau'r Senedd gan y Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau. Yn benodol, rwyf am gynnig dewis gwahanol o ran paru Sir Drefaldwyn a Glyndŵr gyda Dwyfor Meirionnydd.
Yn fyr, byddem yn gweld y parau yn y gogledd yn newid i fod:

- Ynys Môn a Dwyfor Meirionnydd
- Bangor a Gorllewin Clwyd
- Dwyrain Clwyd, Alun a Glannau Dyfrdwy
- Wrecsam, Glyndŵr, a Sir Drefaldwyn

Crynodeb
"Ystyriodd y Comisiwn y dewis arall o gyfuno Dwyfor Meirionnydd gyda Ceredigion Preseli, ac roedd Sir Drefaldwyn a Glyndŵr gydag Aberhonddu, Maesyfed a Chwm Tawe, fodd bynnag, roeddent o'r farn y byddai'r dewis yma yn creu dwy etholaeth Senedd fyddai'n fawr iawn ac yn lletchwith.

• Mae'r Comisiwn wedi creu etholaeth yn y Senedd sy'n fawr iawn ac yn lletchwith drwy gynnig i baru Dwyfor Meirionnydd gyda Sir Drefaldwyn a Glyndŵr.

Mae'r comisiwn yn dweud bod ei benderfyniad ar baru yn seiliedig ar gysylltiadau trafnidiaeth, cysylltiadau lleol, hanes a rennir, yr iaith Gymraeg ac ystyriaethau economaidd-gymdeithasol.
Mae'r cysylltiadau trafnidiaeth rhwng y ddwy etholaeth yn brin iawn.

o Mae'r ffin rhwng y ddwy etholaeth yn hir ond dim ond dwy ffordd A dda sy'n croesi’r ffin oherwydd y mynyddoedd sy'n ei ffurfio.
o Mae'r trên o'r Trallwng i Bwllheli yn cymryd 3 awr 20 munud. Mae'r trên o'r Trallwng i Gaerdydd yn cymryd 3 awr, er gwaethaf y ffaith ei fod yn teithio drwy Loegr.
o Mae Caerdydd yn nes ar y ffordd nag Aberdaron ar benrhyn Llŷn.

Cysylltiadau Lleol: Nid oes unrhyw gysylltiadau lleol hysbys rhwng yr etholaethau. Dim.

Hanes a Rennir: Yn yr un modd, nid oes unrhyw gysylltiadau hanesyddol rhwng y ddau bwynt hynny - nid hyd yn oed yn nheyrnasoedd hynafol dan Llewelyn Fawr ac y gellid dadlau ddim o dan Owain Glyndwr chwaith.

Daearyddiaeth: Mae un yn eistedd ar y ffin â Lloegr, mae'r llall yn wynebu Môr Iwerddon. Felly’n ddiwylliannol a chymdeithasol, nid ydynt yn gyfagos.

Cysylltiadau Economaidd Cymdeithasol: Nid oes cysylltiadau economaidd-gymdeithasol rhwng y ddwy etholaeth.
Bydd strwythur trefniadaeth cynghorau yn llanast llwyr gan fod disgwyl i'r etholaeth newydd gwmpasu'r Cynghorau Sir canlynol: Sir Ddinbych, Gwynedd, Powys, a Wrecsam. Ni all unrhyw aelod o'r Senedd wneud y cyfiawnder â hyn.

Mae fy Mharu Dewisol yn un nad yw'n ymddangos iddo gael ei ystyried gan y Comisiwn Etholiadol gan mai dim ond Dwyfor Meirionnydd a Brycheiniog a Maesyfed sy'n cael eu rhestru fel rhan o'r ystyriaeth. Fy newis yw paru Sir Drefaldwyn a Glyndwr gyda Wrecsam sy’n cadw'r etholaeth i ddau Gyngor Sir, dwy ardal Comisiynydd Heddlu a Throsedd ac mae'n llawer mwy hygyrch o ran y rhwydwaith ffyrdd.
Mae gennym eisoes y perthnasoedd gwaith wedi'u sefydlu, ychydig iawn o ymyrraeth fynyddig ac mae gennym gysylltiadau diwylliannol, hanesyddol ac economaidd-gymdeithasol llawer gwell.
Gofynnaf i'r Comisiwn Etholiadol ystyried hyn ac ailystyried. Nid yw'r cynnig a wneir yn cyd-fynd â'ch meini prawf ac mae'n anymarferol fel etholaeth. A bod yn onest, mae'n edrych fel nad yw'r Comisiwn yn poeni am ardaloedd gwledig Cymru.

**7749 – Aelod o’r Cyhoedd**

Gwnaed newidiadau i ffiniau seneddol San Steffan i greu gwell cydbwysedd rhwng nifer y bobl ym mhob etholaeth. Mae'n gwneud synnwyr perffaith i'r un peth fod yn berthnasol i ffiniau'r Senedd - mae hefyd yn cynorthwyo aelodau wrth ddelio â materion sydd o dan reolaeth San Steffan i gysylltu â dim ond 1 AS.

**7751 – Aelod o’r Cyhoedd**

Fel etholwr sy’n pleidleisio yng Nghymru, rwy'n cytuno â'r cynigion newydd ynghylch y newidiadau i ffiniau.

**7758 – Aelod o’r Cyhoedd**

Gweler yr atodiad

Cyflwyniad i'r Comisiwn Ffiniau mewn ymateb i grwpiau sefydliadol y Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth nad yw efallai'n sôn am faint daearyddol ond sy'n ychwanegu'n sicr at gymhlethdod yr etholaeth.

Hoffwn weld y parau fel a ganlyn;
Ynys Môn a Dwyfor Meirionnydd
Bangor a Gorllewin Clwyd
Dwyrain Clwyd, Alun a Glannau Dyfrdwy
Wrecsam Glyndŵr a Sir Drefaldwyn

Ysgrifennaf atoch i gydnabod y meini prawf a roddwyd i'r Comisiwn gan Ddeddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024.

Mae'r Comisiwn Ffiniau yn datgan yn ei resymeg dros y pâr hwn fod (1) rhai cyfuniadau o etholaethau yn rhy fawr ac anhylaw a bod (2) cysylltiadau ffordd da sy'n sail i'r paru.

Yn gyntaf, ar faint yr etholaeth.

Fel un o drigolion Glyndŵr, rwy'n gwrthwynebu maint y paru ar sail maint y ddaearyddiaeth a hefyd ar sail nifer y grwpiau sefydliadol nad ydynt efallai'n ymwneud â maint daearyddol ond sy'n ychwanegu'n llwyr at gymhlethdod yr etholaeth.

Mae paru presennol Dwyfor Meirionnydd gyda Sir Drefaldwyn a Glyndwr yn cynnwys pedwar cyngor sir a lled Cymru o Langurig ar ei ochr de-ddwyreiniol i Ynys Enlli ar y mwyaf gogledd-orllewinol a Glyndwr, sef Rhostyllen, Johnstown, Rhiwabon ac ati yn y gogledd ddwyrain ychydig filltiroedd o ganol Wrecsam gyda rhai o'r ystadau mwyaf difreintiedig yng Nghymru h.y. Plas Madog. Sut y gall y lleoedd a'r ardaloedd cyfagos wybod unrhyw beth am sut mae pobl yn yr un arall yn byw? Ni all un o bosibl gynrychioli'r ardaloedd hyn fel aelod o'r Senedd, gan geisio cynrychioli anghenion y trigolion.

Yn ddaearyddol, y paru hwn yw'r mwyaf ac mae ganddo'r nifer fwyaf o fynyddoedd sy'n gwneud y gwaith o drefnu a chynrychiolaeth yn anodd iawn ac yn peryglu ymddiriedaeth ym mhroses ddemocrataidd y Senedd. Mae llawer o bobl yn y gogledd yn benodol eisoes yn teimlo nad yw Caerdydd yn ein deall "ni", a bydd y paru hwn ond yn atgyfnerthu'r gred honno yn ogystal ag ychwanegu cefnogaeth i'r rhai sydd am weld diwedd ar unrhyw annibyniaeth wleidyddol yng Nghymru. Mae llawer o drigolion ardal Glyndŵr yn dal i ddod i delerau â'r cysylltiad etholaethol â Sir
Drefaldwyn yn teimlo yn fawr iawn bod eu cysylltiadau â Wrecsam a wastad wedi bod felly. Rydym yn talu ein treth cyngor ac ati i Wrecsam, nid Powys.

Mae gennym bedwar Cyngor Sir yn yr ardal arfaethedig hon; Sir Ddinbych, Gwynedd, Powys a Wrecsam. Sut y gall unrhyw un weithio rhwng yr holl gynghorau, deall pawb ac wedyn yn eu cynrychioli yn y Senedd?

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
Democracy and Boundary Commission Cymru

Nid yw'r amseroedd teithio rydych chi'n sôn amdanyn nhw'n realistig. Mae'r daith o leiaf dair awr a mwy o'r gogledd yng Nglyndŵr i lawr i'r de. Mae'n rhaid i ni eisoes fynd i Loegr ac yn ôl i Gymru i gyrraedd de etholaeth Sir Drefaldwyn a Glyndŵr. Mae cyrraedd Pen Llŷn dros ddwy awr sy'n cynnwys teithio trwy etholaethau eraill.

Ni welaf unrhyw beth yn gyffredin â de a gorllewin pellaf yr ardal rydych chi'n ei chynnig, mae Glyndŵr yn ardal boblog ddwys ar gyrion dinas Wrecsam.
Mae fy mharu dewisol o Drefaldwyn a Glyndwr gyda Wrecsam yn cadw'r etholaeth i ddau Gyngor Sir, dau Gomisiynydd Heddlu a Throseddu ac mae'n llawer mwy hygyrch i rwydweithiau ffyrdd sefydledig, perthnasoedd gwaith sefydledig a chysylltiadau diwylliannol a chymdeithasol llawer gwell.

Rwy'n credu, os byddwch yn symud ymlaen â'ch argymhellion presennol, y byddwch yn creu teimlad pellach a dyfnach yn nhrigolion ardal Glyndŵr eu bod yn cael eu hanghofio, eu bod yn cael eu torri i ffwrdd wedi'u difreinio o'u cysylltiadau a'u diwylliant. Bydd hyn hefyd yn dyfnhau eu drwgdybiaeth mewn gwleidyddion a'r prosesau gwleidyddol yn genedlaethol ac yng Nghymru

Diolch am ystyried fy ymateb

Preswylydd Acrefair. Wrecsam

**7759 – Aelod o'r Cyhoedd**

Rwyf am gynnig dewis arall yn lle paru Sir Drefaldwyn a Glyndŵr gyda Dwyfor Meirionnydd.
Hoffwn weld y parau yn y gogledd wedi newid i fod yn:

- Ynys Môn a Dwyfor Meirionnydd
- Bangor a Gorllewin Clwyd
- Dwyrain Clwyd, Alun a Glannau Dyfrdwy
- Wrecsam, Sir Drefaldwyn a Glyndŵr

1.0 Crynodeb
"Roedd y Comisiwn wedi ystyried dewis arall o gyfuno Dwyfor Meirionnydd gyda Cheredigion a Phreseli, a Sir Drefaldwyn a Glyndŵr gydag Aberhonddu, Maesyfed a Chwm Tawe, fodd bynnag, o'r farn y byddai'r dewis arall yn creu dwy etholaeth Senedd fyddai'n fawr iawn ac yn anhylaw.
• Mae'r Comisiwn wedi creu etholaeth yn y Senedd sy'n fawr iawn ac yn anhylaw yn ei gynnig i baru Dwyfor Meirionnydd gyda Sir Drefaldwyn a Glyndŵr.

Dywed y Comisiwn fod ei benderfyniad ar baru yn seiliedig ar gysylltiadau trafnidiaeth, cysylltiadau lleol, hanes a rennir, yr iaith Gymraeg ac ystyriaethau economaidd-gymdeithasol.
Mae'r cysylltiadau trafnidiaeth rhwng y ddwy etholaeth yn brin iawn.
o Mae'r ffin rhwng y ddwy etholaeth yn hir ond dim ond dwy ffordd A dda sy'n croesi

oherwydd y mynyddoedd sy'n ffurfio'r ffin honno.
o Mae'r trên o'r Trallwng i Bwllheli yn cymryd 3 awr 20 munud. Mae'r trên o'r Trallwng i Gaerdydd yn cymryd 3 awr, er gwaethaf y ffaith ei fod yn teithio drwy Loegr.
o Mae Caerdydd yn nes ar y ffordd nag Aberdaron ar benrhyn Llŷn.

Cysylltiadau Lleol: Nid oes unrhyw gysylltiadau lleol hysbys rhwng yr etholaethau. Dim.

Hanes a Rennir: Yn yr un modd, nid oes cysylltiadau hanesyddol rhwng y ddau bwynt hynny - nid hyd yn oed yn y teyrnasoedd hynafol dan Llewelyn Fawr a gellid dadlau ddim o dan Owain Glyndŵr chwaith. Tra bod un yn eistedd ar y ffin â Lloegr, mae'r llall yn wynebu Môr Iwerddon, felly yn ddiwylliannol a chymdeithasol, nid ydynt yn gynhaliol.

Cysylltiadau Economaidd-Gymdeithasol: Nid oes cysylltiadau economaidd-gymdeithasol rhwng y ddwy etholaeth. Bydd strwythur trefniadaeth cynghorau yn llanast llwyr gan fod disgwyl i'r etholaeth newydd gwmpasu'r Cynghorau Sir canlynol: Sir Ddinbych, Gwynedd, Powys, a Wrecsam. Ni all unrhyw aelod o'r Senedd wneud cyfiawnder â hyn.

Fy mharu dewisol yw un nad yw'n ymddangos iddo gael ei ystyried gan y Comisiwn Etholiadol gan mai dim ond Dwyfor Meirionnydd a Brycheiniog a Maesyfed sy'n cael eu rhestru fel rhan o'r ystyriaeth.
Mae ein paru dewisol o Sir Drefaldwyn a Glyndŵr gyda Wrecsam yn cadw'r etholaeth i ddau Gyngor Sir, dwy ardal Comisiynydd Heddlu a Throseddu ac mae'n llawer mwy hygyrch o ran y rhwydwaith ffyrdd. Mae gennym eisoes y perthnasoedd gwaith wedi'u sefydlu, ychydig iawn o ymyrraeth fynyddig sydd ac mae gennym gysylltiadau diwylliannol, hanesyddol ac economaidd-gymdeithasol llawer gwell. Gofynnwn i'r Comisiwn Etholiadol ystyried hyn ac ailystyried.

2.0 Rhesymeg y Comisiwn Ffiniau

Rydym yn cydnabod bod rhesymeg y Comisiwn Ffiniau dros baru Sir Drefaldwyn a Glyndŵr â Dwyfor Meirionnydd fel y nododd y Comisiwn:
“Fe wnaeth y Comisiwn ystyried y dewis arall o gyfuno Dwyfor Meirionnydd gyda Ceredigion a Phreseli, a Sir Drefaldwyn a Glyndŵr gydag Aberhonddu, Maesyfed a Chwm Tawe. Fodd bynnag, roeddent o'r farn y byddai'r dewis arall yn creu dwy etholaeth Senedd fyddai'n fawr iawn ac yn anhylaw.
Maen nhw o'r farn bod cysylltiadau ffordd rhesymol rhwng ardaloedd yr etholaeth arfaethedig fel rhwng Machynlleth a Dolgellau.
Er bod y Comisiwn o'r farn nad yw'n ddelfrydol cynnig etholaeth mor fawr, dyma'r opsiwn gorau o ran cynnig cyfuniad cyffiniol o 2 etholaeth seneddol y DU yn yr ardal.”

3.0 Rhesymau y dylai'r Comisiwn Ffiniau Ailystyried
Byddaf nawr yn nodi fy rhesymau, yn unol â'r meini prawf a roddwyd i'r Comisiwn gan Ddeddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024.

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
Democracy and Boundary Commission Cymru

Mae'r Comisiwn Ffiniau yn datgan yn ei resymeg dros y pâr hwn fod (1) rhai cyfuniadau o etholaethau yn rhy fawr ac anhylaw a bod (2) cysylltiadau ffordd da sy'n sail i'r paru.
Yn gyntaf ar y mater o faint yr etholaeth.
Rwy'n gwrthwynebu maint y paru ar sail graddfa enfawr y ddaearyddiaeth a hefyd ar sail nifer y grwpiau sefydliadol nad ydynt efallai'n siarad oherwydd y maint daearyddol ond sy'n ychwanegu'n llwyr at gymhlethdod yr etholaeth.
Mae paru presennol Dwyfor Meirionnydd gyda Sir Drefaldwyn a Glyndŵr yn cynnwys 4 cyngor sir a lled Cymru o Langurig ar ei ochr de-ddwyreiniol i Ynys Enlli ar y pwynt pellaf i'r gogledd-orllewin - nid yw'r ddau bwynt hynny'n gwybod dim am sut mae'r llall yn byw ac ni all cynrychiolydd yn y Senedd wybod na chynrychioli eu hanghenion lleol.
Yn ddaearyddol, y paru hwnnw yw'r mwyaf ac mae ganddo'r nifer fwyaf o fynyddoedd sy'n gwneud y gwaith o drefnu a chynrychiolaeth yn anodd iawn ac yn peryglu ymddiriedaeth ym mhrosesau democrataidd y Senedd. Mae gormod o bobl eisoes yn credu nad yw 'Caerdydd yn ein deall ni' a bydd y paru hwn ond yn atgyfnerthu'r gred honno, yn ogystal ag ychwanegu cefnogaeth i'r rhai sydd am weld diwedd ar unrhyw annibyniaeth wleidyddol yng Nghymru.
Yn sefydliadol, dyma'r straen mwyaf drwy gael ei rwygo rhwng y Cynghorau Sir canlynol: Sir Ddinbych, Gwynedd, Powys, a Wrecsam. Nid oes gan unrhyw Aelod o'r Senedd, hen neu newydd, y gallu na'r cysylltiadau i wneud cyfiawnder â'r cynghorau hyn, na chynrychioli eu hanghenion yn y Senedd.
Yn yr un modd, nid oes cysylltiadau hanesyddol rhwng y ddau bwynt hynny - nid hyd yn oed yn y teyrnasoedd hynafol dan Llewelyn Fawr a gellid dadlau ddim o dan Owain Glyndŵr chwaith. Tra bod un yn eistedd ar y ffin â Lloegr, mae'r llall yn wynebu Môr Iwerddon, felly'n ddiwylliannol a chymdeithasol, nid ydynt yn gynhaliol.
Y rhesymau hynny, a'r drafferth y bydd pobl gyffredin yn ei gael wrth ymgyrchu, yw pam rwy'n awgrymu'r newidiadau uchod i'r parau.
Ar fater rhwyddineb teithio, dywed y Comisiwn Ffiniau, "bod cysylltiadau ffordd rhesymol rhwng ardaloedd yr etholaeth arfaethedig fel rhwng Machynlleth a Dolgellau."
Er y gall y darn byr hwn o'r ffordd fod yn dda, gofynnwn i chi ystyried ei bod yn cymryd 30 munud yn hirach i deithio o Langurig i Aberdaron nag y byddai'n ei wneud i yrru o Langurig i Gaerdydd. Mae hyn yn seiliedig ar optimistiaeth amseroedd teithio a gynhyrchir gan gyfrifiaduron. Mewn gwirionedd, mae'n cymryd dros 3 awr i fynd o un pen o'ch etholaeth arfaethedig i'r llall ac mae rhai llwybrau ychydig yn orlawn o fynyddoedd.
Mae'n bosib nad oes gan Ynys Môn a Dwyfor Meirionnydd ffordd yn eu cysylltu (er mai dim ond ychydig gannoedd o lathenni sydd yma) ond mae ganddyn nhw filoedd o flynyddoedd o hanes, diwylliant, teyrnasoedd a chynghorau sir, ieithoedd, llenyddiaeth a chysylltiadau hanesyddol sy'n gysylltiad llawer gwell na rhwng Dwyfor Meirionnydd a Sir Drefaldwyn - yn enwedig gan y byddai cynrychiolydd Dwyfor ac Ynys Môn ond yn gweithio gydag ac o fewn cyfyngiadau 2 Gyngor Sir ond byddai'n rhaid i gynrychiolydd Dwyfor a Sir Drefaldwyn a Glyndŵr weithio gyda 4 - rwy'n teimlo bod fy newidiadau a awgrymir yn gwneud cynrychiolaeth yn gliriach i etholwyr ac yn fwy hylaw i ddarpar gynrychiolwyr yn y Senedd.
Yn yr un modd, byddwn i'n dadlau bod y Comisiwn Ffiniau yn dod â Sir Drefaldwyn a De Clwyd at ei gilydd yn Sir Drefaldwyn a Glyndwr er gwaethaf y ffaith bod y brif ffordd sy'n eu

cysylltu yn mynd trwy etholaeth arall a gwlad arall, Lloegr. Mae gorfod gyrru trwy ddarn byr o ychydig gannoedd o lathenni o Ynys Môn i lawr y ffordd ymadael gyntaf ac yna 3ydd allanfa cylchfan i gyrraedd Dwyfor Meirionnydd o leiaf yn cadw'r gyrrwr o fewn yr un wlad.
4.0 Fy Mharu Dewisol
Fy mharu dewisol yw un nad yw'n ymddangos iddo gael ei ystyried gan y Comisiwn Etholiadol gan mai Dwyfor Meirionnydd a Brycheiniog a Maesyfed yn unig sy'n cael eu rhestru fel rhan o'r ystyriaeth.
Mae fy mharu dewisol o Sir Drefaldwyn a Glyndŵr gyda Wrecsam yn cadw'r etholaeth i ddau Gyngor Sir, dwy ardal Comisiynydd Heddlu a Throseddu ac mae'n llawer mwy hygyrch o ran y rhwydwaith ffyrdd. Mae perthnasoedd gwaith eisoes wedi'u sefydlu, ychydig iawn o amhariad mynyddig sydd ac mae ganddynt gysylltiadau diwylliannol a chymdeithasol llawer gwell.
Rwy'n mawr obeithio y bydd yr ymateb hwn yn cael ei ystyried. Rwy'n deall pa mor anodd yw ailystyried unwaith y bydd datrysiad arfaethedig yn gyhoeddus, ond credaf yn ddiffuant y bydd ffydd yn y broses ddemocrataidd yn cael ei heffeithio gan y cynnig presennol os na chaiff ei newid.

**7760 – Aelod o'r Cyhoedd**

Dylid gwneud etholaeth Wrecsam a Sir Drefaldwyn / Glyndŵr yn un, byddai'r ardal yn llawer gwell felly.

**7761 – Aelod o'r Cyhoedd**

Gweler yr atodiad

Cyflwyniad i'r Comisiwn Ffiniau gan
[HEPGOR] Acrefair Wrecsam
Medi 2024
Hoffwn wneud cyflwyniad i Ddrafft cyntaf Parau'r Senedd gan y Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau, a chynnig dewis arall yn lle paru Sir Drefaldwyn a Glyndŵr gyda Dwyfor a Meirionydd.
Hoffwn weld fod y parau yn y gogledd yn newid i:
Ynys Môn a Dwyfor Meirionydd
Bangor a Gorllewin Clwyd
Dwyrain Clwyd Alun a Glannau Dyfrdwy
Wrecsam, Glyndŵr a Sir Drefaldwyn.

Rheswm dros Newid
Maint yr Etholaeth. Rwy'n gwrthwynebu maint y paru ar sail maint y ddaearyddiaeth, ni fydd cael etholaeth yn rhedeg o Rostyllen, Johnstown, Rhos, Rhiwabon, Acrefair, Cefn Mawr a'r Waun yn y gogledd i Ynys Enlli yn y gorllewin a Llangurig yn y de ddwyrain yn galluogi'r swyddog etholedig i wasanaethu anghenion yr etholwyr. Yn y gogledd mae gennym rai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru ac mae angen aelod o'r Senedd arnynt i'w cynrychioli. Mae anghenion yr ardaloedd yn hollol wahanol.

Cysylltiadau Ffyrdd
Er mwyn teithio rhwng gogledd a de Maldwyn a Glyndŵr mae'n rhaid i ni deithio y tu allan i'r etholaeth yn barod. Ar gyfer yr etholaeth arfaethedig bydd yn rhaid i ni yn y gogledd deithio trwy ddwy etholaeth arall.

Paru Dewisol
Mae fy mharu dewisol o Drefaldwyn a Glyndŵr a Wrecsam yn cadw'r etholaeth mewn dau gyngor sir, dwy ardal comisiynydd trosedd ac mae'n llawer mwy hygyrch gyda rhwydweithiau ffyrdd. Mae gan bob un ohonom berthynas waith sefydledig gyda Wrecsam wrth i ni ethol cynghorwyr, talu ein treth gyngor, a chael cysylltiadau diwylliannol a chymdeithasol llawer gwell.

Rwy'n gobeithio y bydd y cyflwyniad hwn yn cael ei ystyried. Rwy'n credu'n gryf pe byddai eich cynnig o baru yn mynd trwyddo byddai llawer o etholwyr yn ardal Glyndŵr yn teimlo'n fwy difreintiedig na roeddent yn ei deimlo pan ffurfiwyd etholaeth newydd Maldwyn a Glyndŵr. Rydym yn byw mewn democratiaeth ac nid difreinio pobl yw'r ffordd ymlaen. Diolch am ystyried fy nghyflwyniad.

**7762 – Aelod o'r Cyhoedd**

Dylid uno Sir Drefaldwyn a Glyndŵr gyda Wrecsam. Mae mwyafrif poblogaeth Sir Drefaldwyn a Glyndŵr yn byw yng ngogledd yr etholaeth yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Mae gan Riwabon, Cefn, Johnstown, Acrefair, a'r Rhos oll a chysylltiadau agosaf o lawer â Wrecsam na'r hyn sydd ganddynt â Phwllheli a Phenrhyn Llŷn.

Mae'n amlwg nad yw'r cynigion hyn yn cymryd dim neu fawr ddim ystyriaeth o bobl, ac mai dim ond ymarferiad ticio bocsys ydyw; da chi, ail-feddyliwch.

**7763 - Derek Wright - Cynghorydd lleol neu swyddog etholedig arall**

Mae'n wallgof ein paru ni yn ardal Wrecsam ag ardaloedd yr arfordir fel sy'n cael ei gynnig. Mae gennym yn M&G fwy yn gyffredin â Wrecsam

**7767 – Aelod o'r Cyhoedd**

Rwy'n teimlo y bydd y cynigion am y ffiniau newydd yn cynrychioli'n well gymunedau Cymru ac y cryfheir cysylltiadau lleol â'r ardal.

**7768 – Aelod o'r Cyhoedd**

• Mae'n bwysig i bariadau o etholaethau cymoedd de Cymru redeg o'r de i'r gogledd i fyny ac i lawr y cymoedd, felly byddai paru Merthyr Tudful ac Aberdâr gyda Phontypridd yn adlewyrchu cysylltiadau lleol yng nghymunedau'r cymoedd.

• Yng Nghaerdydd, rydym yn cefnogi'r Comisiwn yn paru Gorllewin Caerdydd gyda De Caerdydd a Phenarth, gan fod yr A4232 yn eu cysylltu'n agos, ond wedi eu gwahanu oddi wrth weddill Caerdydd gan yr afon Taf.

## 7769 – Aelod o'r Cyhoedd

Yng Nghaerdydd, mae'r paru arfaethedig yn gwneud llai o synnwyr na'r na'r dewis amgen Gogledd-Gorllewin a De-Ddwyrain. Yr wyf o blaid ffeirio'r rhain, a gellir gwneud hyn heb unrhyw sgîl-effeithiau.

Yn gyffredinol, mae cymeriad y ddinas yn hollti'n llawer iawn yn fwy ar hyd echel y Gogledd-De na'r Dwyrain-Gorllewin. Mae'r Gogledd - i symleiddio - yn fwy maestrefol, yn rhannol oherwydd iddo dyfu yn hanesyddol dros amser o gyfres o bentrefi (e.e. Radur, yr Eglwys Newydd, Llanisien, Llandâf) o boptu'r Afon Tâf. Mae Gogledd Caerdydd a Gorllewin Caerdydd yn ffitio'n fras i'r disgrifiad hwn. Mae gan y De - i symleiddio eto - gymeriad mwy trefol, adeiledig a diwydiannol, gyda'r hen ddociau a chanol y ddinas yn chwarae rhan fawr yn yr esblygu hwn. Unwaith eto, mae De Caerdydd a Phenarth, a Dwyrain Caerdydd yn debyg yn fras yn hyn o beth. O'r herwydd, rwy'n credu y byddai'r cymunedau hyn yn elwa o gyd-gynrychiolaeth yn y Senedd, i adlewyrchu'r elfen bwysig hon o gymeriad cyffredin.

I would also like to draw attention to the fact that the North-West is a stronmghold of the Welsh language and is key to its future. The welsh language would benefit from having joint representation between these two constituencies (Cardiff North and Cardiff West).

Yr wyf o'r farn na fyddai'r gwrthgynnig hwn yn gwaethygu trafnidiaeth yn y ddwy etholaeth arfaethedig - a dweud y gwir, gellid dadlau ei fod yn ei wella, yn enwedig wrth i'r Metro a Chrossrail Caerdydd ddod i fodolaeth.

Fy nghynnig i, felly, yw paru (1) Gogledd Caerdydd a Gorllewin Caerdydd, a (2) De Caerdydd a Phenarth gyda Dwyrain Caerdydd.

## 7770 – Aelod o'r Cyhoedd

Rwy'n meddwl mai gwell o lawer fyddai paru Maldwyn a Glyndŵr gyda Wrecsam

## 7772 – Aelod o'r Cyhoedd

gweler y llythyr atodol gyda sylwadau, yn benodol ar gyfer Alun, Glannau Dyfrdwy a Wrecsam.

## 7776 – Aelod o'r Cyhoedd

Paru gwell fuasai Maldwyn a Glyndŵr gyda Wrecsam, oherwydd fod gennym fwy yn gyffredin â hwy.

## 7777 – Aelod o'r Cyhoedd

Mae Maldwyn a Glyndŵr yn etholaeth San Steffan a ffurfiwyd yn ddiweddar. Rwy'n siŵr fod yr AS sydd newydd ei ethol yn dal i geisio dod o hyd i ffyrdd y gall wasanaethu pab rhan o'r etholaeth hon, o gofio'r ffyrdd gwledig a'r cludiant cyhoeddus cyfyngedig. Bydd paru'r

etholaeth hon gydag etholaeth Dwyfor Meirionnydd yn ei gwneud yn amhosib i'w gwasanaethu, nid yn unig oherwydd y cymhlethdodau teithio, ond oherwydd y gwahanol faterion sydd o bwys i bobl yr etholaethau hyn. Yn ddiwylliannol, byddai Ynys Môn, Bangor, a Dwyfor Meirionydd yn baru naturiol, felly hefyd Wrecsam gyda Glyndŵr a Maldwyn. Mae rhan ogleddol M&G eisoes o fewn ardal Cyngor Wrecsam, sydd eto'n cryfhau'r ddadl dros baru gyda'r ardal hon.

**7779 - Ar ran sefydliad (preifat neu gyhoeddus)**

Cyflwyniad PLE Gorllewin Caerdydd i Lafur Cymru ar gynigion y Comisiwn Ffiniau

Er ein bod yn croesawu cynnig y Comisiwn Ffiniau i beidio â gwahanu pedair etholaeth Caerdydd, yr ydym yn teimlo bod cysylltiadau cryfach rhwng Gorllewin Caerdydd a Gogledd Caerdydd na rhwng Gorllewin Caerdydd a De Caerdydd a Phenarth; ac yn yr un modd, mwy o gysylltiadau rhwng De Caerdydd a Phenarth a Dwyrain Caerdydd.

Nodwn hefyd na fyddai unrhyw newid ym mharu pedair etholaeth Caerdydd yn cael unrhyw sgîl-effeithiau ar unrhyw baru rhwng etholaethau eraill. Byddai felly yn newid annibynnol ar y cynigion cychwynnol.

Yr ydym felly yn annog y Comisiwn Ffiniau i newid yr agwedd hon ar eu cynigion, gan ystyried y ffactorau isod:

Yr iaith Gymraeg
Caerdydd yw'r ardal o Gymru sydd yn tyfu fwyaf a chyflymaf o ran y Gymraeg, ac y mae hyn ar ei ddwysaf yng Ngorllewin Caerdydd a Gogledd Caerdydd. O'r 14 ward yng Nghaerdydd sydd â mwy o siaradwyr Cymraeg na chyfartaledd Caerdydd o 10.1%, mae 11 yng Ngorllewin Caerdydd a Gogledd Caerdydd, gan gynnwys yr 8 uchaf. Byddai uno'r ardaloedd hyn dan gyfres gyffredin o gynrychiolwyr Senedd yn ei gwneud yn fwy tebygol y bydd eu nodweddion ieithyddol cyffredin yn cael eu cynrychioli'n effeithiol, a chyfrannu at uchelgais Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae cyflythrennu 'Gogledd a Gorllewin' a 'Dwyrain a De' yn ei gwneud yn haws i'r rhai sy'n llai rhugl eu Cymraeg i ynganu enwau'r ardaloedd, gan gynnal yr uchelgais i ddefnyddio enwau Cymraeg lle bo modd. Bydd hefyd yn help i wneud byrfoddau o enwau'r etholaethau.

Cymeriad cymysg cymunedau
Nodweddir gogledd a gogledd-orllewin Caerdydd gan nifer o gymunedau pentrefol, gan gynnwys yr ardal sy'n dod o dan y chwech o Gynghorau Cymuned Caerdydd sydd o fewn Gogledd Caerdydd a Gorllewin Caerdydd. Mae clymau cymuned hefyd yn bodoli ar draws nifer o bentrefi "Cwm Taf", megis Gwaelod-y-Garth a Ffynnon Taf, sy'n ymestyn ar draws ffin Gorllewin Caerdydd-Gogledd Caerdydd. Mae cymunedau hefyd lle mae lefelau uchel o dlodi, dros ardal eang yng Ngogledd Caerdydd (Gabalfa, Gogledd Llandaf) a Gorllewin Caerdydd (Trelái, Caerau, Pentrebaen).

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
Democracy and Boundary Commission Cymru

Gwasanaethau cyhoeddus
Mae cysylltiadau agos hefyd yn bodoli pan ddaw'n fater o wasanaethau lleol niferus, er enghraifft, dalgylch Ysgol Gyfun Radur, sy'n ymestyn dros yr afon a'r etholaeth i gynnwys Tongwynlais; cysylltiadau cryf rhwng y ddwy ysgol gyfun Gymraeg, Plasmawr a Glantaf; ac Ysbyty'r Waun yw'r brif ganolfan i wasanaethau gofal iechyd brys ac eilaidd yng Ngorllewin Caerdydd a Gogledd Caerdydd; a darpariaeth debyg o dai cymdeithasol ledled Gorllewin Caerdydd a Gogledd Caerdydd (Trelái, Caerau, Pentrebaen, Gogledd Llandaf, Gabalfa). Byddai uno'r gwasanaethau hyn dan gyfres gyffredin o gynrychiolwyr Senedd yn ei gwneud yn fwy tebygol y cynrychiolir eu diddordebau a'u nodweddion cyffredin, gan gynnwys strwythurau llywodraethiant, yn effeithiol.

Twf a datblygiad Caerdydd yn y dyfodol
Mae ehangu a datblygiad tai yng Nghaerdydd wedi'i ganoli yng Ngogledd-Orllewin y ddinas (e.e. Llysfaen, Pontprennau, Radur/Plasdŵr). Mae hyn yn creu crynodiad o drigolion newydd i'r ddinas, y gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt rannu nodweddion demograffig ac anghenion pan ddaw'n fater o gynrychiolaeth ddemocrataidd. Mae hefyd yn dra thebygol y bydd llawer o ddatblygiadau'r dyfodol yn canoli ar y rhan hon o'r ddinas, o ran ystyried datblygiadau newydd a hefyd gwarchod tirweddau sy'n bodoli eisoes (e.e., y "Lletem Werdd" y cyfeirir ati yn newis strategaeth CDLl Cyngor Caerdydd, sy'n cynnwys y mwyafrif o Orllewin Caerdydd a ffin ogleddol Gogledd Caerdydd). Bydd un set o gynrychiolwyr yn y lle gorau i gynrychioli trigolion lleol yn ystyrlon wrth i'r materion a'r penderfyniadau hyn gael eu hystyried dros y ddegawd(au) i ddod.

Wardiau awdurdodau lleol o Gaerdydd a Rhondda Cynon Taf
Fel y nodwyd gan y Comisiwn, byddai'r cynigion cychwynnol yn golygu y byddai aelodau'r Senedd dros etholaeth Gorllewin Caerdydd, De Caerdydd a Phenarth yn cynrychioli wardiau o dri awdurdod lleol gwahanol, pob un a'i nodweddion a'i briodweddau arbennig ei hun. Golygai hyn y byddai'n rhaid i'r cynrychiolwyr ymgyfarwyddo a thair set o bolisïau a rhanddeiliaid llywodraeth leol, ac y mae hyn yn debyg o fod yn andwyol i ansawdd y gwasanaeth i'r etholwyr. Mantais ein gwrthgynnig ni o baru Gorllewin Caerdydd a Gogledd Caerdydd fyddai lleihau'r cymhlethdod hwn trwy gynnwys dwy ward RCT (Ffynnon Taf a Phont-y-Clun) yn yr un etholaeth Seneddol. Byddai hefyd yn creu cysylltiadau cymunedol mwy dealladwy ar draws ffiniau awdurdodau lleol; er enghraifft, trwy uno dwy ardal gyfagos, Ffynnon Taf a Gwaelod y Garth yn un sedd.

Cysylltiadau etholaethau presennol
Rhannwyd etholaeth Senedd bresennol Canol Caerdydd rhwng De Caerdydd a Phenarth a sedd newydd Dwyrain Caerdydd. Trwy uno De Caerdydd a Phenarth gyda Dwyrain Caerdydd, byddai hen sedd Canol Caerdydd yn un etholaeth. Byddai Trowbridge, Llanrhymni a Thredelerch yn cael eu hail-uno â De Caerdydd a Phenarth yn ôl i un etholaeth. Fe wnâi hyn hi'n haws i'r etholwyr ddeall y newidiadau.

Cysylltiadau trafnidiaeth

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
Democracy and Boundary Commission Cymru

Er y gellir dadlau bod y coridorau trafnidiaeth i'r ddinas i gymudwyr yn rhedeg yn fras o'r Gogledd i'r De, mae patrwm a chyfeiriad teithio dyddiol i drigolion mewn gwirionedd yn cydgyfeirio ar nifer o lwybrau a safleoedd allweddol ar hyd a lled Gorllewin Caerdydd a Gogledd Caerdydd. Mae'r A48 (Rhodfa'r Gorllewin) sy'n ymestyn o'r Mynydd Bychan /Mynachdy yng Ngogledd Caerdydd at ffin Gorllewin Caerdydd yng Nghroes Cwrlwys yn llwybr o bwys i drigolion sy'n teithio bob dydd. Yn yr un modd, mae trigolion Gorllewin Caerdydd, gan gynnwys y rhai yn y ward sydd newydd ei hatodi, Pont-y-Clun i'r gogledd, yn debygol o fod yn teithio'n rheolaidd trwy'r ddwy brif groesffordd yn Coryton a Mynachdy, y ddwy yng Ngogledd Caerdydd. Mae coridor yr M4 tua'r gogledd, ynghyd â'r A48 i'r de a'r A470 sy'n cysylltu'r ddwy, yn creu cyswllt arbennig o gryf ar draws yr hyn fyddai'n etholaeth Gorllewin Caerdydd-Gogledd Caerdydd. Ategir hyn gan drydaneiddio Cwm Taf a gorsafoedd arfaethedig y Metro newydd sy'n gwasanaethu'r rheilffordd sydd yn gyfleus iawn yn cysylltu dwy lan yr afon yn Llandaf a Ffynnon Taf (Gogledd Caerdydd) a Radur (Gorllewin Caerdydd). Yr hyn sy'n bwysig yw bod y datblygiad rheilffyrdd hwn gan Drafnidiaeth Cymru yn canoli ar y Depo newydd dyn Ffynnon Taf, sy'n union ar ryngwyneb Afon Taf Gogledd Caerdydd/Gorllewin Caerdydd rhwng Caerdydd a'r cymoedd.

Nodweddion daearyddol
Mae dwy ffin ddaearyddol bendant i Gaerdydd, ar y Gogledd a'r De. Nodwedd y ffin ogleddol yw'r bryniau sy'n ymestyn ar draws Gogledd Caerdydd (Craig Llysfaen, Y Wenallt a Chraig yr Allt yn Nantgarw) at Orllewin Caerdydd (Bryn y Garth a Soar). Mae'r nodwedd unigryw hon yn uno Gorllewin Caerdydd a Gogledd Caerdydd; ar y llaw arall, mae, De Caerdydd a Phenarth a Dwyrain Caerdydd rhyngddynt yn cynnwys y cyfan o ffin ddeheuol, arfordirol Caerdydd. Mae'n wir dweud hefyd fod yr Afon Taf, a all ar yr olwg gyntaf fod yn rhaniad naturiol rhwng Gorllewin Caerdydd a Gogledd Caerdydd, mewn gwirionedd yn ffynhonnell hunaniaeth gyffredin i gymunedau o boptu Cwm Taf, gan ledu dros Ffynnon Taf, yr Eglwys Newydd a Gogledd Llandaf a Gabalfa yng Ngogledd Caerdydd, a Llandaf a Radur yng Ngorllewin Caerdydd. Mae cwrs yr holl afon dros feysydd glas yng Nghaerdydd o fewn i'r ddwy etholaeth hon, ac y mae materion cynaliadwyedd, gwarchodaeth ecolegol (rhag llifogydd) nac ansawdd a defnydd dŵr yn creu diddordeb cyffredin ar draws y ddwy etholaeth fyddai ar ei ennill o gynrychiolaeth ar y cyd (yn ogystal â chyswllt ag un etholaeth gydag with RCT i fyny'r afon). Mae hyn yn ategu ac yn cryfhau arwyddocâd y cysylltiadau rheilffordd trwy Ogledd a Gorllewin Caerdydd.

**7784 – Aelod o'r Cyhoedd**

Byddai'n well ganddo gysylltiad ag etholaeth Wrecsam fel yr amlinellir yn y ddogfen sydd ynghlwm.

**Cyflwyniad i'r Comisiwn Ffiniau gan Blaid Lafur Etholaeth Maldwyn a Glyndŵr.**

Medi 2024.

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
Democracy and Boundary Commission Cymru

Dymuna PLE Maldwyn a Glyndŵr  wneud cyflwyniad i ddrafft cyntaf Paru Ffiniau'r Senedd y Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau. Yn benodol, dymunwn gynnig dewis amgen yn lle paru Maldwyn a Glyndŵr gyda Dwyfor Meirionnydd.

Yn fyr, hoffem weld y paru yn y gogledd yn newid i'r isod:

- Ynys Môn a Dwyfor Meirionnydd
- Bangor a Gorllewin Clwyd
- Dwyrain Clwyd, Alun a Glannau Dyfrdwy
- Wrecsam, Maldwyn a Glyndŵr

**1.0 Crynodeb**

*"Fe wnaeth y Commission ystyried y dewis arall o gyfuno Dwyfor Meirionnydd gyda Cheredigion Preseli, a Maldwyn a Glyndŵr gyda Brycheiniog, Maesyfed a Chwm Tawe; fodd bynnag, y farn oedd y buasai'r dewis arall yn creu dwy etholaeth Seneddol fyddai'n fawr iawn ac yn anhydrin." Datganiad y Comisiwn*

- Mae'r Comisiwn wedi creu etholaeth Seneddol sydd yn fawr iawn ac yn anhydrin wrth gynnig paru Dwyfor Meirionnydd gyda Maldwyn a Glyndŵr.

Dywed y  Comisiwn fod eu penderfyniad ar y paru yn seiliedig ar gysylltiadau trafnidiaeth, cysylltiadau lleol, hanes a rennir, yr iaith Gymraeg ac ystyriaethau cymdeithasol-economaidd.

Bychan eithriadol yw'r **cysylltiadau trafnidiaeth** rhwng y ddwy etholaeth.

- Mae'r ffin rhwng y ddwy etholaeth yn hir, ond dim ond dwy ffordd A dda sy'n ei chroesi oherwydd bod y ffin mor fynyddig.
- Mae'r trên o'r Trallwng i Bwllheli yn cymryd 3 awr 20 munud. Mae'r trên o'r Trallwng i Gaerdydd yn cymryd 3 awr, er ei fod yn gorfod mynd trwy Loegr England
- Ar y ffordd, mae Caerdydd yn nes nac Aberdaron ar benrhyn Llŷn.

**Cysylltiadau Lleol:** Nid oes unrhyw gysylltiadau lleol hysbys rhwng yr etholaethau. Dim un.

**Hanes a rennir:** Yn yr un modd, nid oes cysylltiadau hanesyddol rhwng y ddau bwynt - ddim hyd yn oed yn yr hen deyrnasoedd dan Lywelyn Fawr a, gellid dadlau, nid dan Owain Glyndŵr. Er bod un etholaeth yn ffinio a Lloegr, wynebu Môr Iwerddon y mae'r llall, felly yn ddiwylliannol a chymdeithasol, nid ydynt yn cyd-gyffwrdd.

**Cysylltiadau cymdeithasol-economaidd:** Nid oes cysylltiadau cymdeithasol-economaidd o bwys rhwng y ddwy etholaeth. Yr unig un y gallwn ni feddwl amdano yw bod y ddwy â defnydd tir ar gyfer amaethyddiaeth, ond yr ydym yn derbyn hefyd mai dim ond canran fechan o bobl sy'n gweithio yn y sector hwn a bod y canolbwynt amaethyddol yn wahanol yn y naill etholaeth a'r llall. Nid yw hyn yn clymu'r ddwy etholaeth.

Bydd strwythur trefniadol y cynghorau yn llanast llwyr, gan y bydd disgwyl i'r etholaeth newydd ymestyn dros y Cynghorau Sir canlynol: Sir Ddinbych, Gwynedd, Powys, a Wrecsam. Ni all yr un Aelod Senedd wneud cyfiawnder â hyn.

**Ein dewis ni o baru**

Ein dewis ni o baru yw un nad yr ymddengys bod y Comisiwn Etholiadol wedi ei ystyried, gan mai Dwyfor Meirionnydd a Brycheiniog a Maesyfed yn unig a restrir fel rhan o'r ystyriaeth.

Mae ein dewis ni o baru, sef Maldwyn a Glyndŵr gyda Wrecsam yn cadw'r etholaeth i ddau Gyngor Sir, dwy ardal Comisiynwyr Heddlu a Throsedd, ac y mae'n fwy hygyrch o lawer o ran y rhwydwaith ffyrdd. Mae'r berthynas waith wedi ei sefydlu eisoes, nid oes fawr ddim mynyddoedd yn ein rhwystro, ac y mae gennym gysylltiadau diwylliannol, hanesyddol a chymdeithasol-economaidd gwell o lawer.

Gofynnwn i'r Comisiwn Etholiadol ystyried hyn, ac ailfeddwl.

**2.0 Rhesymeg y Comisiwn Ffiniau**

Yr ydym yn cydnabod mai rhesymeg y Comisiwn Ffiniau dros baru Maldwyn a Glyndŵr gyda Dwyfor Meirionnydd yw'r hyn a ddywedodd y Comisiwn:

*"Fe wnaeth y Commission ystyried y dewis arall o gyfuno Dwyfor Meirionnydd gyda Cheredigion Preseli, a Maldwyn a Glyndŵr gyda Brycheiniog, Maesyfed a Chwm Tawe; fodd bynnag, y farn oedd y buasai'r dewis arall yn creu dwy etholaeth Seneddol fyddai'n fawr iawn ac yn anhydrin.*

*Y maent o'r farn fod cysylltiadau ffyrdd rhesymol rhwng ardaloedd yr etholaeth arfaethedig megis yr un rhwng Machynlleth a Dolgellau.*

*Er bod y Comisiwn o'r farn nad yw'n ddelfrydol cynnig etholaeth mor fawr, dyma'r dewis gorau o ran cynnig cyfuniad sy'n cyd-gyffwrdd o 2 o etholaethau senedd y DU yn yr ardal."*

**3.0 Rhesymau y dylai'r Comisiwn Ffiniau ail-ystyried**

Byddwn yn awr yn gosod allan ein rhesymau, yn unol â'r meini prawf a roddwyd i'r Comisiwn dan Ddeddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024.

Dywed y Comisiwn Ffiniau mai eu rhesymeg dros y paru hwn yw (1) fod rhai cyfuniadau o etholaethau yn rhy fawr ac anhydrin a (2) fod cysylltiadau ffyrdd da sy'n sail i'r paru.

Yn gyntaf, ar fater maint yr etholaeth.

Yr ydym yn gwrthwynebu maint y paru ar sail anferthedd y ddaearyddiaeth a hefyd ar sail nifer y grwpiau trefniadol, heb fod yn ymwneud a maint daearyddol ond a fydd yn bendant yn ychwanegu at gymhlethdod yr etholaeth.

Mae paru presennol Dwyfor Meirionnydd gyda Maldwyn a Glyndŵr yn ymestyn dros 4 cyngor sir a Chymru benbaladr o Langurig yn y pen de-ddwyreiniol at Ynys Enlli yn y gogledd-orllewin eithaf – nid yw'r naill bwynt yn gwybod sut mae'r llall yn byw ac ni all cynrychiolydd yn y Senedd wybod am eu hanghenion lleol na'u cynrychioli.

Yn ddaearyddol, y paru hwn yw'r mwyaf ac y mae y mae'r rhan fwyaf o fynyddoedd, sy'n gwneud y gwaith o drefnu a chynrychioli yn enbyd o anodd, ac y mae risg o beryglu ymddiriedaeth ym mhrosesau democrataidd y Senedd. Mae gormod o bobl eisoes yn credu 'nad yw Caerdydd yn ein deall' ac ni wnaiff y paru hwn ddim ond ategu'r gred honno, yn ogystal â rhoi mwy o gefnogaeth i'r sawl sydd eisiau gweld diwedd ar unrhyw annibyniaeth wleidyddol yng Nghymru.

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru

Democracy and Boundary Commission Cymru

O ran trefniadaeth, y straen fwyaf yw'r rhaniad rhwng y Cynghorau Sir a ganlyn: Sir Ddinbych, Gwynedd, Powys, a Wrecsam. Nid oes gan unrhyw Aelod o'r Senedd, newydd na hen, y gallu na'r cysylltiadau i wneud cyfiawnder â'r cynghorau hynny, na chynrychioli eu buddiannau yn y Senedd.

Yn yr un modd, nid oes cysylltiadau hanesyddol rhwng y ddau bwynt – ddim hyd yn oed yn yr hen deyrnasoedd dan Lywelyn Fawr a, gellid dadlau, nid dan Owain Glyndŵr. Er bod un etholaeth yn ffinio â Lloegr, wynebu Môr Iwerddon y mae'r llall, felly yn ddiwylliannol a chymdeithasol, nid ydynt yn cyd-gyffwrdd.

Y rhesymau hynny, a'r drafferth a gaiff aelodau cyffredin wrth ymgyrchu, yw'r rhai sydd gennym dros awgrymu'r newidiadau uchod i'r paru.

Ar fater rhwyddineb teithio, dywed y Comisiwn Ffiniau fod, "*cysylltiadau ffordd rhesymol rhwng ardaloedd yr etholaeth arfaethedig fel rhwng Machynlleth a Dolgellau*."

Er y gall y darn byr hwn o ffordd fod yn dda, gofynnwch i chwi ystyried ei bod yn cymryd 30 munud yn hwy i deithio o Langurig i Aberdaron nag y cymer i yrru o Langurig i Gaerdydd. Mae hyn yn seiliedig ar optimistiaeth orffwyll arferol yr amseroedd teithio a gynhyrchir gan gyfrifiadur. Mewn gwirionedd, mae'n cymryd dros 3 awr i fynd o un pen o'ch etholaeth arfaethedig i'r llall, ac y mae rhai llwybrau yn hynod fynyddig.

Efallai nad oes ffordd yn cysylltu Ynys Môn a Dwyfor Meirionnydd (er mai diffyg o ambell ganllath yw hyn) ond y mae ganddynt filoedd o flynyddoedd o hanes, diwylliant, teyrnasoedd a chynghorau sir, ieithoedd, llenyddiaeth a chysylltiadau hanesyddol sydd yn sicr yn gorbwyso unrhyw gysylltiad o gyd-gyffwrdd rhwng Dwyfor Meirionnydd a Maldwyn - yn bennaf, byddai cynrychiolydd dros Ddwyfor ac Ynys Môn yn gweithio gyda 2 Gyngor Sir ac o fewn eu cyfyngiadau yn unig, ond byddai'n rhaid i gynrychiolydd dros Ddwyfor a Maldwyn a Glyndŵr yn gorfod gweithio gyda 4 - yr ydym yn teimlo fod y newidiadau a awgrymir gennym ni yn gwneud cynrychiolaeth yn gliriach i etholwyr ac yn haws eu rheoli i ddarpar-gynrychiolwyr yn y Senedd.

Yn yr un modd, buasem yn dadlau fod y Comisiwn Ffiniau wedi dwyn Maldwyn a De Clwyd ynghyd ym Maldwyn a Glyndŵr ar waetha'r ffaith fod y briffordd sy'n eu cysylltu yn mynd trwy etholaeth arall, a gwlad arall, Lloegr. Byddai gorfod gyrru ar hyd darn byr o rai cannoedd o lathenni o Ynys Môn o gwmpas cylchfan ac i lawr y ffordd ymuno gyntaf i gyrraedd Dwyfor Meirionnydd o leiaf yn cadw'r gyrrwr yn yr un wlad, Cymru.

**4.0 Ein dewis o baru**

Ein dewis ni o baru yw un nad yr ymddengys bod y Comisiwn Etholiadol wedi ei ystyried, gan mai Dwyfor Meirionnydd a Brycheiniog a Maesyfed yn unig a restrir fel rhan o'r ystyriaeth.

Mae ein dewis ni o baru, sef Maldwyn a Glyndŵr gyda Wrecsam yn cadw'r etholaeth i ddau Gyngor Sir, dwy ardal Comisiynwyr Heddlu a Throsedd, ac y mae'n fwy hygyrch o lawer o ran y rhwydwaith ffyrdd. Mae'r berthynas waith wedi ei sefydlu eisoes, nid oes fawr ddim mynyddoedd yn ein rhwystro, ac y mae gennym gysylltiadau diwylliannol, hanesyddol a chymdeithasol-economaidd gwell o lawer.

Gobeithiwn yn wir y caiff y cyflwyniad hwn ei ystyried. Yr ydym yn deall pa mor anodd yw ail-ystyried unwaith i ateb arfaethedig fod yn gyhoeddus, ond yr ydym yn grediniol y bydd y cynnig presennol yn tanseilio ffydd yn y broses ddemocrataidd oni chaiff ei newid changed.

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
Democracy and Boundary Commission Cymru

Diolch am ystyried ein cyflwyniad.

Dros ac ar ran Plaid Lafur Etholaeth Maldwyn a Glyndŵr

**7791 – Aelod o'r Cyhoedd**

Ni ddylid paru Maldwyn a Glyndŵr gyda Dwyfor Meirionnydd.
Rwy'n byw yn Ponciau LL14 1**, gwpl o filltiroedd y tu allan i Wrecsam ac yn ystyried fy hun yn rhan o gymuned Wrecsam.
Pan bleidleisiais yn yr etholiad cyffredinol diweddar, doeddwn i ddim yn teimlo'n hapus yn pleidleisio dros AS fyddai'n cynrychioli etholaeth mor fawr a daearyddol annealladwy, gyda'r rhan fwyaf ohoni yn wahanol o ran cymeriad a diddordebau i'm hardal fy hun.
Buaswn yn fwy anhapus fyth yn gorfod gwneud hynny yn etholiadau'r Senedd.
Byddai paru â Wrecsam yn ffurfio etholaeth fwy cydlynus yn rhannu'r un pryderon o ran trafnidiaeth, gofal iechyd, a materion diwydiannol/masnachol/economaidd/diwylliannol.
Byddai hefyd yn creu etholaeth fwy cydlynus yn ddaearyddol - nid yw Cymru, yn enwedig y gogledd, yn addas i raniadau 2-ddimensiwn syml ar fap. Mae'n hanfodol creu endidau sy'n gydlynus mewn realiti 3-dimensiwn.
Mae agosrwydd at y ffin â Lloegr yn ffactor gwahanol arall y dylid ei ystyried - mae ein cymunedau, er bod llawer yn Gymreig iawn eu natur, yn teimlo effaith hyn mewn llawer ffordd, gan gynnwys mynediad at wasanaethau a chyfleoedd am waith, etc., ynghyd â seilwaith trafnidiaeth sy'n wahanol iawn i'r hyn sy'n bodoli yn y gorllewin.
Nid wyf yn teimlo y gall unrhyw gynrychiolaeth fod yn wirioneddol effeithiol wrth geisio gwasanaethu buddiannau cyfres mor wasgaredig a gwahanol o gymunedau, a gobeithio y byddwch yn ail-ystyried.

**7793 – Aelod o'r Cyhoedd**

Fel rhywun sy'n byw yng Nghymru, rwyf yn llwyr gefnogi cynigion y Comisiwn Ffiniau

**7794 – Aelod o'r Cyhoedd**

Nid oes gennym dir cyffredin traddodiadol ag ardal Dwyfor ac yr ydym yn rhannu llawer mwy o hanes a Wrecsam. Dyma'n tref agosaf, y fan lle'r ydym yn mynd am driniaeth ysbyty, mae ein hacen yr un fath ac yr ydym yn deall diwylliant y ddinas. Mae gennym lawer llai yn gyffredin â Dwyfor, ac y mae'n ymddangos yn chwerthinllyd cynnig ein bod.

**7801 – Aelod o'r Cyhoedd**

Mae angen symud Llanfair Talhaiarn i'r un etholaeth ag Abergele. Abergele sy'n darparu'r cyfleusterau iechyd, addysg a siopa i'r sawl sy'n byw yno. Nid oes gan drigolion y pentref unrhyw ymlyniad â Bangor na Môn.

**7804 – Aelod o'r Cyhoedd**

Byddai'n gwneud mwy o synnwyr i baru Maldwyn a Glyndŵr gyda Wrecsam

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
Democracy and Boundary Commission Cymru

### 7805 – Aelod o'r Cyhoedd

Cytunaf yn gryf a'r etholaethau a gynigir gan y Comisiwn gan eu bod yn hyrwyddo cysylltiadau lleol i gymunedau, a rhwyddineb mynediad, yn enwedig yng nghymoedd y de.

### 7809 – Aelod o'r Cyhoedd

Cyfuno Maldwyn gyda Wrecsam.

### 7813 – Ar ran sefydliad (preifat neu gyhoeddus)

**Ymateb Cymdeithas yr Iaith Gymraeg i ymgynghoriad Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Cymru - Arolwg 2026: Cynigion Cychwynnol**

Mae Cymdeithas yr Iaith yn fudiad sydd wedi ymgyrchu'n ddi-drais dros y Gymraeg a holl gymunedau Cymru, fel rhan o'r chwyldro rhyngwladol dros ryddid a chyfiawnder ers dros 60 mlynedd.

Cefndir

1. Mae'r Gymdeithas yn croesawu'r ffaith fod yr ymgynghoriad hwn yn cael ei gynnal fel cam allweddol at wireddu'r diwygiadau i'r Senedd a gytunwyd drwy uwch-fwyafrif gan Aelodau'r Senedd yn gynharach eleni, yn sgil pasio Deddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024. Bydd y newidiadau, o fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd y maent yn eu cynnig, yn cryfhau gallu'r Senedd i weithredu yn gadarnhaol ar ran pobl Cymru, gyda pholisi a deddfwriaeth o ran y Gymraeg a buddiannau cymunedau Cymru yn ganolog i'r gwaith hwnnw. Byddant hefyd yn cyflwyno system etholiadol sy'n decach ac yn fwy cyfrannol, dan ddileu'n llwyr y drefn Cyntaf i'r Felin yn etholiadau'r Senedd, sy'n gyfraniad at y chwyldro rhyngwladol dros hawliau a rhyddid, a rhyddid i Gymru yn benodol fel gwlad annibynnol, ddemocrataidd sy'n chwarae ei rhan ar y llwyfan rhyngwladol.

2. Er bod Llywodraethau olynol Cymru ac Aelodau'r Senedd yn gyffredinol ers 1999 wedi methu â gwneud digon i adfer y Gymraeg yn brif iaith Cymru ac i sicrhau ei bod yn wirioneddol berthyn i bawb, yn enwedig ym maes addysg a'i thranc yn ei chadarnleoedd traddodiadol, does dim dwywaith fod cynnydd wedi bod o ran statws y Gymraeg a'r ymdeimlad o falchder tuag at yr iaith sydd wedi datblygu yn ystod chwarter canrif cyntaf datganoli. Yn yr ysbryd hwnnw felly y gwelwn benderfyniad yr Aelodau etholedig - o safbwynt y drefn o enwi etholaethau arfaethedig - yn achos y ffiniau i'w defnyddio un-tro yn unig yn etholiad 2026, ac mewn etholiadau dilynol wedi 2030, i sefydlu rhagdybiaeth clir o blaid pennu un enw ar bob etholaeth. Yn erbyn cefnlen fframwaith polisi a deddfwriaeth lle mae:
    - y Gymraeg yn iaith a chanddi statws swyddogol yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011
    - 'Cymru o ddiwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu' yn un o'r 7 nod llesiant yn unol â'r ddeddfwriaeth datblygu cynaliadwy Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

- targed â chefnogaeth drawsbleidiol i gael Miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 ac i ddyblu'r defnydd dyddiol ohoni, a
- lle mae'r Gymraeg, yn ôl ein llywodraeth genedlaethol, yn 'perthyn i bawb'

yna mae'n bur amlwg mai un enw Cymraeg a fwriedir ac a ddymunir gan y Senedd wrth graffu ar a chymeradwyo'r ddeddf. Nodwn fod y Bil wedi'i *gryfhau* yn ystod cyfnod craffu'r Bil, fel ag yr oedd, o'i gymharu â'r Bil fel y'i cyflwynwyd, a hynny er mwyn pwyso'r fantol o blaid y Gymraeg. Yn wir, nid oes ond angen edrych yn y Memorandwm

Esboniadol y ddeddfwriaeth, fel y'i diwygiwyd ar ôl Cyfnod 2, sy'n cynnwys Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg,  i gadarnhau'r bwriad.

*"310.Yn dilyn gwelliannau a wnaed yng Nghyfnod 2, mae'r Bil yn darparu bod rhaid i bob etholaeth gael enw unigol at ddibenion adnabod yr etholaeth mewn cyfathrebiad drwy'r Gymraeg a'r Saesneg, oni bai bod y Comisiwn yn ystyried y byddai hyn yn annerbyniol, ac os felly caniateir iddo gynnig enwau gwahanol i'w defnyddio wrth gyfathrebu drwy'r Gymraeg a'r Saesneg. Mae hyn yn golygu bod rhagdybiaeth y bydd y Comisiwn yn ceisio rhoi un enw i etholaeth yn y Senedd.* ***Bwriad hyn yw hwyluso a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a bwrw ymlaen â pholisïau a dyheadau datganedig Llywodraeth Cymru o ran polisi iaith****."* (ein pwyslais ni)

*712. Yn dilyn gwelliannau i'r Bil yng Nghyfnod 2, mae'r rhagdybiaeth bellach wedi newid fel y bydd y Comisiwn yn ceisio rhoi un enw i etholaeth yn y Senedd, ac ni fydd ond yn cynnig enwau gwahanol ar gyfer cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg pe bai'r Comisiwn yn ystyried bod un enw yn annerbyniol.* ***Effaith hyn yn ymarferol yw bod rhaid i'r enwau unigol a gynigir ar gyfer etholaethau fod yn dderbyniol i'w defnyddio yn y Gymraeg.*** *(eto, ein pwyslais ni) Mewn sefyllfa lle byddai enwau gwahanol yn cael eu cynnig yn y Gymraeg a'r Saesneg, mae'r gofyniad i gynnwys y ddau enw yn y fersiynau Cymraeg a Saesneg o adroddiadau yn parhau.*

Ategir a thanlinellir hyn gan gyfraniadau'r Aelodau Etholedig yng Nghofnod y Trafodion wrth graffu a chytuno'r ddeddfwriaeth a'r gwelliannau wnaed iddi.

3. I gyd-fynd gyda'r datblygiadau y cyfeiriwn atynt uchod, croesawn y ffaith fod swyddogaeth statudol newydd wedi'i rhoi i Gomisiynydd y Gymraeg - sef rheidrwydd i'r Comisiwn rag-ymgynghori gyda'r Comisiynydd ar orgraff enwau arfaethedig ar wahanol gymalau yn y broses adolygu ac i roi sylw i'w sylwadau, ac i wneud y Comisiynydd yn ymgynghorai statudol yn y cyfnodau o ymgynghori cyhoeddus fel bod cyfle ganddi i roi barn arbenigol ar sylwedd y dewis o enwau yn ogystal â'u horgraff, yn unol â'i swyddogaeth gyffredinol o hybu a hwyluso'r Gymraeg ac i fod yn bencampwr annibynnol dros yr iaith. Ystyriwn fod dyrchafu'r Comisiynydd a ffurfioli yn statudol ei rôl yn y cyswllt yma yn gydnabyddiaeth briodol ac amserol o'i rôl fel awdurdod ar argymell ffurfiau safonol enwau lleoedd, gan greu disgwyliad y bydd barn y Comisiynydd yn cario pwysau ychwanegol ac o'r newydd na ddylid ei anwybyddu fel sydd wedi digwydd yn y gorffennol mewn adolygiadau ffiniau lleol a chymunedol. Croesawn hefyd fod ymdrechion i osgoi blerwch a dryswch sydd wedi codi o waith rhagflaenydd y Comisiwn, drwy greu dyletswydd bod angen trin y Gymraeg yn briodol yn fersiynau Cymraeg a Saesneg dogfennau ac adroddiadau'r Comisiwn yn dilyn ymgynghori, yn arbennig yn y cyswllt hwn gan y daw'r cynigion terfynol i rym heb bleidlais yn y Senedd.

4. Mae i'w groesawu hefyd bod gennym am y tro cyntaf gorff statudol yng Nghymru, sy'n cael ei oruchwylio gan y Senedd ac sy'n gyfrifol am adolygu ffiniau etholaethau'r Senedd. Felly hefyd y ffaith fod y Gymraeg yn ystyriaeth faterol wrth lunio'r ffiniau hynny,

gyda'r Gymraeg yn gwlwm lleol perthnasol hefyd yn sgil gwelliannau pellach wnaed i'r Bil ar y pryd. Gyda swyddogaethau newydd felly, daw cyfrifoldeb i weithredu yn wahanol ac yn well, yn enwedig os yw'r corff am ennyn a chynnal parch a chefnogaeth pobl Cymru a'u cynrychiolwyr etholedig sydd wedi ymddiried yn y corff yma i wneud y gwaith ar ein rhan fel dinasyddion. Hyd y gwelwn, mae'r Comisiwn wedi derbyn golau gwyrdd a chyfarwyddyd clir gan yr Aelodau Etholedig sy'n pennu'r fframwaith y mae'n rhaid i'r Comisiwn ei ddilyn wrth gynnal adolygiadau o ran triniaeth y Gymraeg - nodwn fod y Comisiwn yn gwneud llawer yn y ddogfen i bwysleisio'r ffaith mai gweithredu ar gyfarwyddiadau'r Senedd a wna. Ystyriwn fod yr un peth yn wir o ran y drefn enwi a'r Gymraeg felly ac na ddylai'r Comisiwn wyro oddi wrth yr hyn ofynnwyd iddo'i wneud. Amlygwn ein anghrediniaeth ynghylch y ffaith nad yw'r egwyddorion a'r cyfarwyddyd clir yn y ddeddf, ynghyd â phwyslais y fframwaith polisi a deddfwriaeth ehangach o ran y Gymraeg, wedi eu cymhwyso i'r cynigion cychwynnol hyn yn briodol, yn adran 2 yr ymateb.

Y cynigion

5. Rydym yn cyfyngu ein sylwadau i'r materion yn ymwneud â'r Gymraeg ac enwi etholaethau, yn hytrach na chwestiynau ehangach yn ymwneud â'r dewis o etholaethau i'w pario.

6. Rydym yn gresynu nad yw'r Comisiwn hyd yma wedi cyrraedd y disgwyliadau sydd arno o ran y Gymraeg wrth fynd ati i gynnal gwaith allweddol ynghylch dyfodol ein democratiaeth. Ystyriwn ei fod yn fater difrifol tu hwnt yr ymddengys fod y Comisiwn yn rhwystro ewyllys Aelodau Etholedig y Senedd gyda'r dull o enwi etholaethau, sy'n groes i lythyren ac ysbryd y ddeddf. Mae'n anodd gennym ddeall ar ba sail mae'r Comisiwn wedi penderfynu ei bod yn annerbyniol yn y mwyafrif o achosion i gynnig enw uniaith Gymraeg, hyd yn oed pan fo hynny'n mynd yn groes i gynseiliau sydd eisoes wedi eu sefydlu gyda ffiniau etholaethau San Steffan y mae'r ymarfer hwn yn eu paru. Ystyrir Sir Gaerfyrddin / Carmarthenshire er enghraifft, er mwyn paru etholaethau Caerfyrddin a Llanelli. Mae'r enw uniaith "Caerfyrddin" eisoes wedi'i dderbyn ar lefel San Steffan ar gyfer y sedd honno. Mewn achosion eraill, serch hynny, megis Clwyd, lle cynigir un enw Cymraeg i'w ddefnyddio yn y ddwy iaith, ymddengys fod y Comisiwn o'r farn ei bod *yn* dderbyniol defnyddio un enw uniaith fel y mae'r Ddeddf yn ei ragweld yn y mwyafrif llethol o achosion. Canlyniad hyn yw trin ardaloedd yn wahanol i'w gilydd, anwybyddu'r ffaith fod y Gymraeg yn perthyn i bawb yng Nghymru, a chreu anghysondeb a chanlyniadau sy'n groes i fwriad y ddeddfwriaeth. Rydym wedi gohebu atoch ar wahân i godi cwyn o dan eich gweithdrefn gwynion ar y materion ehangach yma ynghylch diffyg rhesymeg ymddangosiadol gweithdrefn a dull enwi'r Comisiwn, gan eich gwahodd i osod allan ar ba sail, a pha egwyddorion yr ydych wedi'u mabwysiadu, i lywio'r broses sydd wedi arwain at y Cynigion hyn.

7. Mae'n resyn o beth hefyd fod y Comisiwn, er gwaetha'r sail statudol newydd i rôl

ddyrchafedig y Comisiynydd Iaith yn y broses, fel petai wedi anwybyddu ei argymhellion

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
Democracy and Boundary Commission Cymru

ar orgraff enwau megis ‘Alun’ yn Gymraeg ac ‘Alyn’ yn Saesneg. Eto, mae angen esboniad manwl am sut y gwnaeth y Comisiwn ‘roi sylw’ i argymhelliad y Comisiynydd ac yna dod i benderfyniad sy’n groes i hynny - ar ba sail ac yn defnyddio pa arbenigedd ac egwyddorion o’i eiddo ei hun y gwnaeth hyn? Eto, disgwyliwn ymateb llawn i hynny mewn ymateb i’r ohebiaeth ar wahân yr ydym wedi ei hanfon atoch i godi cwyn ffurfiol am y mater o dan eich gweithdrefn gwynion. Ein nod wrth ohebu yw sefydlu priodoldeb y weithdrefn a'r dull o enwi yn gyffredinol ar gyfer yr adolygiad 2026 hwn a sefydlu pa newidiadau sydd eu hangen iddynt cyn cymalau nesaf y broses er mwyn sicrhau y gall y camau nesaf gael eu cynnal yn unol â'r ddeddf a'r fframwaith polisi a deddfwriaeth ehangach ar gyfer y Gymraeg. Fodd bynnag, ein nod yn yr ymateb hwn yw dylanwadu ar sylwedd yr enwau fel yr awn ymlaen i'w wneud yn adran 3 yr ymateb.

8. O’r 16 etholaeth newydd a gynigir, dim ond dau sydd ag enw uniaith Gymraeg iddyn nhw, mae 14 arall yn ddwyieithog - sy’n hollol ddiangen mewn sawl achos lle mai sillafiad yw’r unig wahaniaeth rhwng y Gymraeg a’r Saesneg.

9. Ymhellach, mae’r Comisiwn wedi anwybyddu argymhellion statudol Comisiynydd y Gymraeg mewn dau achos, heb roi unrhyw esboniad dros hynny. Yn y ddau achos mae sylwadau Comisiynydd y Gymraeg yn hollol rhesymol. Rhaid gofyn pa ddiben sydd bod Comisiynydd y Gymraeg ym ymgynghorai os nad yw’r Comisiwn yn gweithredu ar sylwadau.

10. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn awgrymu defnyddio un sillafiad o Alun yn enw Saesneg etholaeth Alun, Glannau Dyfrdwy a Wrecsam; ac yn awgrymu defnyddio Pen-y-bont ar Ogwr yn enw Cymraeg etholaeth Bro Morgannwg a Phen-y-bont.
Yn y ddwy achos dywed cynigion y Comisiwn bod Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â’r orgraff. Dydy hynny ddim yn gywir mewn gwirionedd, gan fod awgrymiadau i’w newid.

Argymhellion posib fel ffordd ymlaen

11. Er mwyn dangos pa mor bosib yw cael enwau uniaith, Cymraeg, byrrach, sy’n hygyrch i bawb, ac yn wir yn fwy addas na threfn wedi'i mabwysiadu yn slafaidd o San Steffan i enwi ein cymunedau sy'n pentyrru enwau dieithr yn rhy aml, rydym wedi cynnig enwau amgen posib sy’n cyfarch y nod hwnnw, yn ddibynnol wrth gwrs ar ai’r etholaethau hyn fydd yn cael eu mabwysiadu fel y maent wrth i’r broses fynd ymlaen neu a fydd newidiadau. Derbyniwn hefyd mai mater o chwaeth yw enwi a bod sawl opsiwn ar gael - o enwau syml ynghylch daearyddiaeth ardal i enwau mwy hanesyddol a’r cyfleoedd sydd i’w hadfer. Yr egwyddor canolog o gael enw uniaith, yn Gymraeg, sydd wedi gyrru ein hawgrymiadau, gydag ymgais i gadw pethau mor syml ag sy’n bosib. Yn amlwg, bydd angen i chi addasu’r union enwau wrth i’r broses fynd yn ei blaen os bydd newid i'r parau a gynigir. Serch hynny, credwn ei fod yn cynnig fframwaith o’r newydd sy’n fwy priodol, yn gyfryw ag amcanion y Ddeddf a dymuniadau cynrychiolwyr etholedig pobl Cymru. Gwneir hynny mewn ymgais i ganfod ffordd adeiladol ymlaen.

12. Nodir yn y tabl isod ein cynigion ni mewn un rhes, ac enw cyfatebol cynigion y Comisiwn yn y rhes arall.

| **Cynigion Cymdeithas yr Iaith** | **Cynigion Y Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth** |
|---|---|
| Conwy Môn | Bangor Aberconwy Ynys Môn |
| Clwyd | Clwyd |
| Fflint Wrecsam | Alun, Glannau Dyfrdwy a Wrecsam |
| Eryri Maldwyn | Dwyfor Meirionnydd, Maldwyn a Glyndŵr |
| Penfro Ceredigion | Ceredigion a Sir Benfro |
| Sir Gâr | Sir Gaerfyrddin |
| Gŵyr Tawe | Gorllewin Abertawe a Gŵyr |
| Nedd Powys | Aberhonddu, Maesyfed, Castell-nedd a Dwyrain Abertawe |
| Afan Rhondda | Aberafan Maesteg, Rhondda ac Ogwr |
| Taf Cynon | Merthyr Tudful, Aberdâr a Phontypridd |
| Ebwy Rhymni | Blaenau Gwent, Rhymni a Chaerffili |
| Gwent | Sir Fynwy a Thorfaen |
| Casnewydd | Casnewydd ac Islwyn |
| Caerdydd Taf | Dwyrain a Gogledd Caerdydd |
| Caerdydd Elái | Gorllewin Caerdydd, De a Phenarth |
| Ogwr Morgannwg | Bro Morgannwg a Phen-y-bont |

13. Dywed y Comisiwn mae ei bolisi yw rhestru enwau etholaethau seneddol y DU yn nhrefn yr wyddor gan ddilyn trefn yr enwau Cymraeg wrth greu enw newydd ar etholaethau'r Senedd. Yn yr achosion hynny yn ein cynigion sydd yn enwi mwy nag un etholaeth bresennol, nid ydym yn gwrthwynebu newid eu trefn.

**Grŵp Hawl i'r Gymraeg Cymdeithas yr Iaith Medi 2024**

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
Democracy and Boundary Commission Cymru

**7815 - Ar ran sefydliad (preifat neu gyhoeddus)**

Annwyl aelodau o'r Comisiwn,

Fe welwch wedi'u hatodi sylwadau ysgrifenedig gan y Ganolfan Democratiaeth ac Etholiadau, Royal Holloway.

Buasem yn hapus i ateb unrhyw gwestiynau fydd gennych am y sylwadau hyn, er ein bod yn deall y byddwch yn debygol o dderbyn llawer iawn o gyflwyniadau o'r fath.

Yr eiddoch yn gywir,

[HEPGOR]
(ar ran aelodau'r Ganolfan Democratiaeth ac Etholiadau)

**Sylwadau ysgrifenedig ynghylch Adolygiad 2026 o Etholaethau'r Senedd**

Y Ganolfan Democratiaeth ac Etholiadau 2024-09-18

Am y ddogfen hon

**1** Sylwadau ysgrifenedig at Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru (a elwir wedi hyn, "y Comisiwn") yw hyn, yn dilyn eu cynigion cychwynnol am adolygiad 2026 o etholaethau'r Senedd, a gyhoeddwyd ar Fedi 3 2024. Ysgrifennwyd y ddogfen hon gan aelodau o'r Ganolfan Democratiaeth ac Etholiadau yn y Royal Holloway, Prifysgol Llundain. Yr awdur i ohebu ag ef yw [HEPGOR].

**2** Mae a wnelo'r sylwadau ysgrifenedig hyn â deuddeg o'r parau a gynigiwyd gan y Comisiwn. Ni wnaethom ystyried y pedwar par isod:

- Ynys Môn gyda Bangor Aberconwy
- Gogledd Clwyd gyda Dwyrain Clwyd
- Alun a Glannau Dyfrdwy gyda Wrecsam
- Dwyfor Meirionnydd gyda Maldwyn a Glyndŵr

Mae'r parau hyn yn angenrheidiol er mwyn i barau gydgyffwrdd. Yr ydym yn cefnogi cymhwyso'r maen prawf cydgyffwrdd. Rhown fwy o fanylion am oblygiadau cydgyffwrdd isod.

**3** Mae'r sylwadau ysgrifenedig hyn yn *gwrthwynebu* paru arfaethedig y Comisiwn ar y sail fod paru amgen yn well o'i farnu yn ôl hygyrchedd a natur gryno yr etholaethau a barwyd. Dangosir y paru amgen hwn yn Nhabl 1 a'i fapio yn Ffigwr 2.

**4** Nid yw'r sylwadau ysgrifenedig hyn yn ystyried materion enwi.

**5** Mae tair rhan i'r ymateb: y meini prawf a ddefnyddiwyd, y data a ddefnyddiwyd, a'r cynnig amgen.

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
Democracy and Boundary Commission Cymru

Y meini prawf a ddefnyddiwyd

**6** Noda'r Comisiwn fod gofyn iddynt baru etholaethau presennol San Steffan, ac y dylai etholaethau San Steffan sydd wedi eu paru fod yn *gyffiniol.*

**7** Mae'r gofyniad cyd-ffinio yn golygu bod yn rhaid paru Ynys Môn gyda Bangor Aberconwy, gan mai Bangor Aberconwy yw'r unig etholaeth San Steffan sydd â chyswllt tir ag Ynys Môn. Noda'r Comisiwn fod i baru Bangor Aberconwy ag Ynys Môn oblygiadau i Ogledd Clwyd. Mae Gogledd Clwyd yn rhannu ffin a dwy etholaeth: Bangor Aberconwy a Dwyrain Clwyd. Os nad oes modd paru Gogledd Clwyd gyda Bangor Aberconwy am fod Bangor Aberconwy eisoes wedi ei pharu ag Ynys Môn, rhaid felly, oherwydd y gofyniad cyd-ffinio, ei pharu â Dwyrain Clwyd. Mae hyn yn ei dro yn creu oblygiadau i Alun a Glannau Dyfrdwy, sy'n gorfod paru â Wrecsam.

**8** Credwn fod y gofyniad cyd-ffinio hefyd yn golygu bod yn rhaid paru Dwyfor Meirionnydd â Maldwyn a Glyndŵr. Mae Dwyfor Meirionnydd yn rhannu ffin â phedair o etholaethau eraill San Steffan: Bangor Aberconwy, Dwyrain Clwyd, Maldwyn a Glyndŵr, a Cheredigion Preseli. Neilltuwyd dwy o'r etholaethau hyn (Bangor Aberconwy a Dwyrain Clwyd) eisoes. Os yw cyd-ffinio yn golygu "rhannu ffin o unrhyw fath", yna gellid paru Dwyfor Meirionnydd â Cheredigion Preseli. Yn wir, dywed y Comisiwn iddynt ystyried y paru hwn (¶4.2). Fodd bynnag, mae'r ffin rhwng Dwyfor Meirionnydd a Cheredigion Preseli yn dilyn yr afon Dyfi, ac nid oes man i groesi'r Ddyfi nes cyrraedd Machynlleth. Awgrymwn nad oes modd paru Dwyfor Meirionnydd â Cheredigion Preseli am yr un rheswm na ellir paru Dwyfor Meirionnydd gydag Ynys Môn: y maent yn gyfagos, ond nid ydynt yn rhannu ffin ar y tir.

**9** Mae ein hymateb felly yn anwybyddu'r pedwar paru a grybwyllwyd yn y cyflwyniad, am ein bod yn credu bod y gofyniad am gyd-ffinio yn mynnu eu cael. Ni fyddai'r meini prawf a osodir allan gennym ni isod, fodd bynnag, yn cefnogi paru Dwyfor Meirionnydd gyda Cheredigion Preseli.

**10** O ran meini prawf ar wahân i rai cyffinio, ysgrifenna'r Comisiwn eu bod wedi cadw mewn cof ffiniau llywodraeth leol, ac

> "ystyriaethau daearyddol arbennig, gan gynnwys yn benodol faint, ffurf a hygyrchedd etholaeth Senedd arfaethedig"

**11** Fel y noda'r Comisiwn, mae hygyrchedd yn un ffactor sy'n berthnasol wrth greu ardaloedd etholiadol. (Defnyddiwn y term cyffredinol "ardaloedd etholiadol" i gyfeirio at baru etholaethau San Steffan; pan fyddwn yn defnyddio "etholaeth" yr hyn a olygwn yw etholaethau San Steffan. Yn eu hadroddiad, mae'r Comisiwn yn tynnu sylw at "gysylltiadau ffyrdd da" rhwng parau o etholaethau. Mae cysylltiadau ffyrdd da yn amod angenrheidiol ond nid digonol, i ardaloedd fod yn hygyrch rhwng ei gilydd. I unigolion heb gerbyd eu hunain, mae o bwys hefyd a oes cludiant cyhoeddus ar y cysylltiadau ffyrdd da hyn.

**12** Un ffordd o fesur hygyrchedd felly yw'r amser cyfartalog a gymer i un unigolyn a

ddewisir ar hap mewn ardal arfaethedig i deithio at unigolyn arall a ddewisir ar hap person yn yr un ardal, gan ddefnyddio cludiant cyhoeddus. Mae hyn yn adlewyrchu'r syniad deniadol y dylem ei gwneud yn hawdd i *gynrychiolwyr* sy'n dod o unrhyw ran o'r ardal i gwrdd ag *etholwyr* o unrhyw ran o'r ardal, a'u cyfarfod hwy yn y fan lle maent.

**13** Os bydd llwybrau cludiant cyhoeddus yn cael eu strwythuro gan lywodraethau lleol, gall y llwybrau hynny adlewyrchu ffiniau llywodraeth leol. Os bydd llwybrau cludiant cyhoeddus yn mynd â phobl i'r llefydd maent am fynd, mae'n fwy na thebyg y byddant hefyd yn adlewyrchu perthynas waith a phersonol. Gall mwy o hygyrchedd mewn ardal felly fod yn arwydd fod cysylltiadau lleol yn gryfach.

**14** Mae hygyrchedd yn cael ei hyrwyddo pan fod ardaloedd yn *gryno*. Mae natur gryno ardal yn faen prawf a ddefnyddir yn gyffredin wrth asesu cynlluniau am ffiniau. Mae a wnelo natur gryno ardaloedd hefyd â *ffurf* yr ardal. Felly mae natur gryno yn gysylltiedig â dau o'r meini prawf a ddefnyddiwyd gan y Comisiwn. Y ffordd fwyaf cyffredin o fesur y maen prawf hwn yw crynoder Polsby-Propper . Mae hyn yn gyfrannol â chymhareb arwynebedd yr ardal i radd ei pherimedr. Mae sgoriau uwch yn arwydd o fwy o grynoder.

## Y data a ddefnyddiwyd

**15** Mae'r Urban Big Data Centre (UBDC) ym Mhrifysgol Glasgow yn peri bod gwybodaeth ar gael ar amseroedd teithio ar gludiant cyhoeddus rhwng ardaloedd bychain ym Mhrydain Fawr. Byddwn ni'n defnyddio'r data hyn i greu ein mesur hygyrchedd. Yn benodol, byddwn yn defnyddio gwybodaeth am chwartel isaf amseroedd teithio'r bore rhwng Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOAs). Rydym yn defnyddio chwartel isaf yr amseroedd teithio yn hytrach na chanolrif yr amser teithio oherwydd bod hyn yn golygu colli llai o wybodaeth; ni adroddir am amseroedd teithio mwy na 150 munud yn y data a ryddheir.

**16** Unedau a ddefnyddir gan y Cyfrifiad yw LSOAs. Yn ôl y SYG,

> "Maent rhwng 400 a 1,200 o aelwydydd a chanddynt fel arfer boblogaeth drigiannol o rhwng 1,000 a 3,000

**17** O'r data hyn, gallwn ddysgu, er enghraifft, fod ein mesur o amser teithio ar gludiant cyhoeddus rhwng "Caerdydd 028D" (i'r gogledd o Barc Cathays) i "Fro Morgannwg 015E" (Dociau'r Bari, yn fras) tua 51 munud. Mae hyn yn is na'r amser teithio cyfartalog am ein bod yn defnyddio chwartel isaf amseroedd teithio'r bore yn hytrach na chanolrif yr amser teithio.

**18** Mae'r data hyn yn caniatáu i ni weithio allan fesur hygyrchedd ar gyfer paru etholaethau arfaethedig. Ar gyfer unrhyw baru arfaethedig, byddwn yn gwneud y canlynol:

- nodi pob LSOA sydd yn y naill etholaeth a'r llall;
- cynhyrchu pob cyfuniad o'r LSOAs hynny fesul dau;
- gweithio allan yr amser teithio rhwng y ddau LSOA hynny, yn union fel y gwnaethom uchod gyda Chaerdydd 028D a Bro Morgannwg 015E;
- gweithio allan y ffigwr cyfartalog (canolrif) am bob pwynt cychwyn a gorffen o fewn y parau o etholaethau arfaethedig

Yr ydym yn cymryd y ffigwr canolrif yn hytrach na'r ffigwr cymedrig am fod rhai o'n hamseroedd teithio rhwng pwyntiau wedi eu capio ar ychydig dros 150 munud.

**19** Oherwydd bod gan LSOAs boblogaethau sy'n fras yr un fath, mae hyn yn rhoi syniad o'r amser teithio ar gludiant cyhoeddus rhwng unrhyw unigolion a ddewisir ar hap o fewn yr ardal a gynigir. Nid yw'n adlewyrchu amser teithio cyfartalog siwrneiau a gymerir mewn gwirionedd rhwng pwyntiau yn yr ardal honno.

**20** Er mwyn gweithio allan fesuriadau crynoder, yr ydym yn dibynnu ar ffeiliau siâp ar gyfer ffiniau newydd (2024) San Steffan oedd ar gael gan y Swyddfa Ystadegau Genedlaethol. Ym mis Gorffennaf y rhyddhawyd y ffeiliau siâp hyn , ac y maent yn lluniau clir, wedi eu clipio i ffeiliau siâp yr arfordir.

**21** Ar gyfer cynnig y Comisiwn, yr amser teithio cyfartalog (cymedrig) rhwng rhannau o etholaethau a barwyd yw 91 munud; 0.176 yw'r sgôr crynoder.

Y cynnig amgen

**22** Seilir y cynnig amgen ar rifo 386 pariad posib o etholaethau. Credwn mai'r rhain yw'r holl bariadau posib sydd yn parchu gofyniad cyd-ffinio. Ar gyfer pob un o'r pariadau posib hyn, rydym yn gweithio allan amser teithio cyfartalog a mesuriadau crynoder. Byddwn yn canolbwyntio ar y pariadau posib hynny sydd â gwerthoedd da ar y ddau faen prawf.


**23** Yr ydym yn cynhyrchu'r pariadau posib fel a ganlyn.

1. Tynnu allan yr wyth etholaeth a barwyd eisoes oherwydd eu bod yn cyd-ffinio, a chanoli ar y 24 etholaeth sydd weddill
2. Creu'r 52 par cyffiniol posib o'r etholaethau sydd weddill.
3. Cyfrif nifer y parau yr ymddengys pob etholaeth ynddynt a didol etholaethau yn ôl y nifer o weithiau maent yn ymddangos mewn par.

4. Gan gychwyn gyda'r etholaeth sy'n ymddangos yn y lleiaf o'r pariadau o gan 3 - Llanelli - rydym yn creu canghennau ar gyfer pob pariad posib (dau ohonynt two: Llanelli-Caerfyrddin a Llanelli-Gŵyr).[trefn ^] Rydym yn cychwyn gyda'r etholaeth sydd â'r lleiaf o bariadau posib am fod hynny'n dileu canghennau dichonadwy fyddai'n gadael rhai etholaethau heb barau posib ymhellach i lawr y broses. Er enghraifft, gellid paru Caerfyrddin a Gŵyr hefyd gyda'i gilydd, ond byddai hyn yn gadael Llanelli heb unrhyw bariadau dichonadwy.
5. Ar gyfer pob cangen, byddwn wedyn yn nodi holl bariadau dilys posib yr etholaethau eraill y gellid eu hychwanegu at y gangen trwy dynnu ymaith unrhyw bariadau sy'n cynnwys un o'r etholaethau a ddefnyddiwyd eisoes. Er enghraifft, petai Llanelli yn cael ei pharu â Gŵyr, yna byddai pedwar pariad dichonadwy eraill sy'n cynnwys Gŵyr yn methu cael eu defnyddio.
6. Wedi tynnu allan y pariadau annilys, byddwn wedyn eto yn nodi'r etholaeth gyda'r nifer lleiaf o bariadau posib ar gyfer pob cangen ac yn ei hychwanegu at y gangen honno. Yn y ddwy gangen gychwynnol y mae etholaethau gydag un pariad posib yn unig, ac felly daeth ein canghennau yn 1) Llanelli-Caerfyrddin; Ceredigion Preseli-Canol a De Penfro, a 2) Llanelli-Gŵyr; Castell Nedd a Dwyrain Abertawe –Gorllewin Abertawe.
7. Dyma ni wedyn yn ail-adrodd y broses uchod o nodi ychwanegiadau dichonadwy ac ychwanegu at y canghennau blaenorol nes i ni greu'r 12 par posib ar gyfer pob cangen bosib. Lle bo mwy nag un ychwanegiad posib i'r gangen, byddwn yn hollti'r gangen i greu dwy neu fwy o ganghennau newydd (un ar gyfer pob ychwanegiad dichonadwy). Er enghraifft, yn y trydydd cam mae dau ychwanegiad dichonadwy i'r gangen gyntaf, felly fe'i holltir yn ddwy gangen newydd, 1a) Llanelli-Caerfyrddin; Ceredigion Preseli-Canol a De Penfro; Gŵyr-Gorllewin Abertawe, a 1b) Llanelli-Caerfyrddin; Ceredigion Preseli- Canol a De Penfro; Castell Nedd a Dwyrain Abertawe -Gorllewin Abertawe. Caiff pob cangen a holltwyd wedyn ei thrin fel cangen ar wahân ar gyfer cam nesaf y broses.
8. Mae'r broses hon yn esgor ar 386 o bariadau posib. Ni wnaeth arbrofi gyda chynhyrchu setiau o bariadau ar hap esgor ar unrhyw bariadau dilys nas canfuwyd trwy'r dull hwn, ac felly rydym yn hyderus ein bod wedi adnabod pob pariad cyffiniol posib.

**24** Ar gyfer pob cyfres bosib o bariadau/cynnig amgen, yr ydym yn gweithio allan yr amser teithio cyfartalog a'r mesuriadau crynoder. Yr oedd rhai cynigion yn amgen yn well o ran crynoder ond nid am amser teithio; yr oedd eraill yn rhagori o ran amser teithio ond nid ar grynoder. Mae'r cynigion wedi eu plotio yn ôl eu hygyrchedd a'u crynoder yn Ffigwr 1.

**25** Y cynnig a ddewiswyd gennym (sydd wedi ei blotio mewn gwyrdd yn Ffigwr 1) a berfformiodd orau ar grynoder. Mae'n rhagori ar gynnig y Comisiwn o ran hygyrchedd, ond nid y cynnig hwn yw'r perfformiwr gorau ar y metrig hwn. Yr oedd cynigion eraill a berfformiodd yn well o ran hygyrchedd yn gwahaniaethu mwy oddi wrth gynnig y Comisiwn. Y sail dros ddewis y cynnig amgen hwn yw ei fod yn esgor ar etholaethau cryno mwy hygyrch. Mae'r amser teithio cyfartalog rhwng unrhyw ddau bwynt yn yr ardal yn disgyn o 91 i 81.5 munud, a'r sgôr crynoder yn cynyddu (h.y., yn gwella) o 0.176 i 0.188.




Ffigwr 1: Cynllun gwasgar o hygyrchedd yn erbyn crynoder am y 386 cynnig amgen sy'n parchu cydffiniau. Mae cynigion sy'n nes at yr ochr dde isaf yn well na chynigion sy'n nes at y chwith uchaf. Mae cynnig y Comisiwn wedi ei blotio'n oren; mae'r cynnig hwn wedi ei blotio'n wyrdd.

**26** Mae'r cynnig hwn yn golygu paru'r etholaethau San Steffan a ddangosir yn Nhabl 1. Rhoddir parau etholaethau San Steffan yn nhrefn y wyddor yn ôl eu henwau Saesneg. Mae deg o'r parau yr un fath yn union yng nghynnig y Comisiwn ac yn y cynnig hwn, sef:

- Bangor Aberconwy Ynys Môn
- Clwyd
- Alun a Glannau Dyfrdwy a Wrecsam;
- Dwyfor Meirionnydd, Maldwyn a Glyndŵr

sydd oll yn ofynnol dan y gofyniad cyd-ffinio, a

- Brycheiniog, Maesyfed, Castell Nedd a Dwyrain Abertawe;
- Sir Gaerfyrddin (a ddangosir yn y tabl dan ddau enw'r etholaeth);
- Ceredigion a Phenfro;
- Gorllewin Abertawe a Gŵyr;
- Sir Fynwy a Thorfaen; a
- Casnewydd ac Islwyn.

**27** O ran y pariadau sy'n gwahaniaethu, cynigiwn sylwadau cryno isod:


- **Aberafan Maesteg a Phen-y-Bont ar Ogwr.** Mae'r paru hwn yn cysylltu dwy etholaeth arfordirol. Mae'n gwneud hynny yn hytrach na chysylltu Aberafan gyda Rhondda ac Ogwr tua'r gogledd-ddwyrain.

- **Blaenau Gwent, Rhymni, Merthyr Tudful ac Aberdâr.** Yn hytrach na chyfuno Blaenau Gwent gyda Chaerffili i'r de, mae'r paru hwn yn cysylltu Blaenau Gwent gyda Merthyr tua'r gorllewin.

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
Democracy and Boundary Commission Cymru

Tabl 1: Paru arfaethedig etholaethau San Steffan

| Etholaeth gyntaf | Ail etholaeth |
|---|---|
| Aberafan Maesteg | Pen-y-Bont ar Ogwr |
| Alun a Glannau Dyfrdwy | Wrecsam |
| Bangor Aberconwy | Ynys Môn |
| Blaenau Gwent a Rhymni | Merthyr Tudful ac Aberdâr |
| Brycheiniog, Maesyfed a Chwm Tawe | Castell Nedd a Dwyrain Abertawe |
| Caerfyrddin | Llanelli |
| Caerffili | Gogledd Caerdydd |
| Dwyrain Caerdydd | De Caerdydd a Phenarth |
| Gorllewin Caerdydd | Bro Morgannwg |
| Ceredigion Preseli | Canol a De Penfro |
| Dwyrain Clwyd | Gogledd Clwyd |
| Dwyfor Meirionnydd | Maldwyn a Glyndŵr |
| Gŵyr | Gorllewin Abertawe |
| Sir Fynwy | Torfaen |
| Dwyrain Casnewydd | Gorllewin Casnewydd ac Islwyn |
| Pontypridd | Rhondda ac Ogwr |




Ffigwr 2: Map manwl o bariadau arfaethedig ar gyfer y pariadau yn ne Cymru. Dangosir y ffiniau rhwng etholaethau San Steffan mewn llinell doredig; dangosir ffiniau rhwng pariadau arfaethedig etholaethau San Steffan mewn llinell solet.

- **Caerffili a Gogledd Caerdydd.** Mae'r paru hwn yn dod a Chaerffili i gysylltiad â Chaerdydd, sy'n gwella amseroedd teithio yn sylweddol.
- **Dwyrain Caerdydd a De Caerdydd a Phenarth.** Yn hytrach na pharu Gogledd a Dwyrain Caerdydd, fyddai'n rhoi ardal gydag amseroedd teithio isel iawn, mae'r paru hwn yn gwella amseroedd teithio i Dde Caerdydd a Phenarth. Y mae hyn yn golygu fod etholaethau yn Ninas Caerdydd yn lledaenu dros dair ardal yn hytrach na dwy. Yr ydym o'r farn y gall cael gwell hygyrchedd a chrynoder yn gyffredinol gyfiawnhau lledaenu etholaethau mewn ardal drefol dros nifer o etholaethau, yn enwedig lle byddai'n rhaid iddynt beth bynnag gael eu hollti dros fwy nag un etholaeth.
- **Gorllewin Caerdydd a Bro Morgannwg.** Gyda De Caerdydd eisoes wedi'i pharu, mae'n bosib paru Gorllewin Caerdydd gydag ardaloedd i gyfeiriad Bro Morgannwg, sy'n hybu amseroedd teithio.
- **Pontypridd a Rhondda ac Ogwr.** Mae Pontypridd, yn hytrach na chael ei huno a'i chymydog i'r gogledd (Merthyr Tudful ac Aberdâr) i greu etholaeth sydd braidd yn hir, bellach wedi'i huno â'r Rhondda tua'r gorllewin.

### Casgliad

**28** Yr ydym wedi cyflwyno cynnig amgen sydd yn creu etholaethau sy'n fwy cryno ac yn fwy hygyrch, lle mae etholaeth hygyrch yn un lle mae'r amser teithio cyfartalog ar gludiant cyhoeddus rhwng unrhyw ddwy fan cyn lleied ag sydd modd. Mae'r cynnig hwn yn dibynnu ar ddau faen prawf y gellir eu gweithio allan yn sydyn am nifer fawr o bariadau posib i etholaethau San Steffan. Nid yw'r cynnig hwn felly yn cymryd i ystyriaeth gymunedau sy'n digwydd yn naturiol na nodweddion daearyddol penodol, ac eithrio i'r graddau yr ailadroddir y nodweddion hynny yn y rhwydweithiau ffordd, rheilffordd a chludiant cyhoeddus.

**29** I'r sawl sy'n ymddiddori ym manylion technegol y sylwadau hyn, mae'r cod R a ddefnyddiwyd i weithio allan y pariadau posib a'r ystadegau cysylltiedig ar gael yn GitHub.

### 7817 – Ar ran sefydliad (preifat neu gyhoeddus)

Mae Plaid Lafur Etholaeth Maldwyn a Glyndŵr yn gwrthwynebu gefeillio ein hetholaeth a Dwyfor Meirionnydd. Credwn nad oes dadleuon da dros y paru hwn ar seiliau daearyddol, trafnidiaeth, hygyrchedd, hanesyddol, diwylliannol na chymdeithasol-economaidd.
Credwn mai'r paru mwyaf synhwyrol yw gyda Wrecsam, ac yr ydym wedi cyflwyno papur i gefnogi'r paru hwn. Gofynnwn yn daer i chi ail-ystyried.

### 7818 - Joel James MS - Aelod o Senedd Cymru

Annwyl Syr/Fadam

Fel un o Aelodau Rhanbarthol Senedd Cymru dros Ganol De Cymru, hoffwn wneud y sylwadau a ganlyn:

Yn y pen draw, rwy'n credu fod achos cryf dros uno etholaeth Pontypridd â Gorllewin Caerdydd ac nid Merthyr Tudful ac Aberdâr.

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
Democracy and Boundary Commission Cymru

Fel y cofiwch, efallai, yr oedd rhannau helaeth o Orllewin Caerdydd unwaith yn Etholaeth Seneddol Pontypridd; mae’r rhain yn cynnwys aneddfannau Pentyrch, Creigiau, Gwaelod y Garth, Capel Llanilltern, a hyd yn oed Radur, mi gredaf - gadawsant oll yr etholaeth yn dilyn y Pumed Adolygiad Cyfnodol yn 2010. Yn fwy diweddar, ychwanegwyd tref Pont-y-clun, sydd yn cynnwys Meisgyn a’r Groes-faen, o etholaeth Pontypridd i Orllewin Caerdydd yn dilyn Adolygiad Cyfnodol 2023. Mae hyn ynddo’i hun wedi achosi annormaledd etholiadol, gan fod rhannau o ward etholiadol ‘Gorllewin Pont-y-clun’ yn dal yn Etholaeth Pontypridd, gan yr amlygwyd hyn yn eich cynigion cychwynnol.

Ffactor arall sy’n cefnogi uno Pontypridd a Gorllewin Caerdydd yw’r cysylltiadau cymunedol cryf, gyda’r rhan fwyaf o etholaeth Pontypridd yn edrych tua Chaerdydd am waith, gweithgareddau siopa a chymdeithasol. Yn wir, mae gan aneddfannau Llanharan a Llanhari gysylltiadau arbennig o gryf â Phont-y-clun, felly hefyd Tonysguboriau a Llantrisant. Hefyd, mae gan aneddfannau fel Llanilltud Faerdre, Efail Isaf, Church Village a Thon-teg, oll gysylltiadau cryf â Chreigiau a Phentyrch am eu bod mor agos. Cefnogir hyn oll gan gysylltiadau trafnidiaeth cryf, gan gynnwys rheilffyrdd a bysus - ac nid yw’r rhain mor gryf i’r trigolion hynny sy’n mynd i Ferthyr ac Aberdâr.

O droi at Ferthyr Tydfil ac Aberdâr, rwyf yn pryderu nad oes gan fwyafrif helaeth y trigolion sy’n byw ym Mhontypridd gysylltiad na pherthynas o gwbl â’r cynnig hwn, fel yr amlinellwyd yn y paragraff blaenorol, a byddai’n fwy addas i’r etholaeth gael ei huno â Rhondda ac Ogwr, sydd nid yn unig yn rhannu nid yn unig gysylltiadau diwylliannol cryf oherwydd eu hanes a’u treftadaeth ddiwydiannol, ond hefyd seilwaith cryf a chysylltiadau trafnidiaeth. Amlygir hyn ymhellach trwy i aneddfannau fel Ynysybwl, Glyncoch a Chilfynydd gael eu trosglwyddo allan o Gwm Cynon ac i Bontypridd yn yr adolygiad cyfnodol diwethaf - ac yr oeddent oll yn uniaethu’n bendant â Phontypridd, nid ag Aberdâr a Chwm Cynon.

Dylid nodi hefyd mai un o gynigion gwreiddiol Adolygiad Cyfnodol 2023 oedd uno etholaethau Rhondda a Chwm Cynon, ac yr oedd hyn hefyd yn cydnabod y cysylltiadau cryf a rennir gan y ddwy etholaeth hon.

I droi at y ‘sgîl-effeithiau’:

Yn hytrach nag un De Caerdydd a Phenarth â Gorllewin Caerdydd, byddai’n cael ei uno ag etholaeth Bro Morgannwg. Cefnogir hyn nid yn unig gan y ffaith fod rhannau mawr o’r etholaeth eisoes yn rhannu ffin llywodraeth leol, ond hefyd fod aneddfannau yn Ne Caerdydd a Phenarth yn ddiweddar yn etholaeth Bro Morgannwg – e.e. Dinas Powys. Unwaith eto, mae Bro Morgannwg a De Caerdydd a Phenarth yn rhannu cysylltiadau cymunedol a thrafnidiaeth cryf, gyda’r rhan fwyaf o’r Fro yn edrych tua Chaerdydd i gymdeithasu, siopa a gweithio. Yn eu tro, mae trigolion De Caerdydd a Phenarth yn edrych tuag at y Fro am weithgareddau cymdeithasol a hamdden.

Yn hytrach nag uno Pen-y-bont ar Ogwr â Bro Morgannwg, byddai'n cael ei huno ag Aberafan Maesteg. Unwaith eto, mae'r paru hwn yn gwneud synnwyr am eu bod yn rhannu ffiniau llywodraeth leol, fod trigolion Aberafan Maesteg yn edrych yn bennaf tuag at Ben-y-bont i gymdeithasu, siopa a gwaith, a bod cysylltiadau trafnidiaeth cryf rhwng y ddau. Yn yr un modd, mae yn 'rhannu mwy o hanes' o gymharu â Phen-y-bont a Bro Morgannwg.

Diolch am eich ystyriaeth, ac edrychaf ymlaen at eich ymateb cyn gynted ag sydd modd.

Joel James AS

Aelod o'r Senedd dros Ganol De Cymru
Gweinidog yr Wrthblaid dros Bartneriaeth Gymdeithasol

**7820 – Aelod o'r Cyhoedd**

Yn fy marn i, credaf yn gryf y dylid dod â Gogledd Caerdydd a Gorllewin Caerdydd at ei gilydd. Mae natur Gymraeg y ddwy ardal yn ffactor bwysig i'w hystyried fan hyn. Rwy'n byw yn yr ardal, ac mae sicrhau ei datblygiad fel "cadarnle" (yn sicr yn ne Cymru) yn allweddol. Diolch

**7822 – Aelod o'r Cyhoedd**

Hoffwn gynghori fy mod yn cefnogi eu Cynigion Cychwynnol fel aelod o'r Cyhoedd yng Nghymru

[HEPGOR]

**7824 - Ar ran awdurdod lleol**

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
Parc Cathays
Caerdydd CF10 3NQ

18 Medi 2024
Annwyl Syr/Madam
ADOLYGIAD 2026 O ETHOLAETHAU'R SENEDD – CYNIGION CYCHWYNNOL Y COMISIWN FFINIAU I GYMRU
Ysgrifennaf i gyflwyno ymateb ffurfiol yr Aelodau Etholedig i'ch cynigion o ran Adolygiad 2026 o Etholaethau'r Senedd – Cynigion Cychwynnol y Comisiwn Ffiniau i Gymru. Cafodd yr ymateb hwn ei ystyried a'i fabwysiadu gan Bwyllgor Trosolwg a Chraffu trawsbleidiol y Cyngor yn ei gyfarfod ar 18 Medi 2024, gyda gwahoddiad agored i bob Aelod Etholedig. Mae'r ymatebion hyn hefyd yn cynrychioli ymateb ffurfiol y Cyngor.

Yn bennaf, bu'r Aelodau'n ystyried cynigion y Comisiwn a fydd yn effeithio ar etholaethau sirol RhCT fel a ganlyn:

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
Democracy and Boundary Commission Cymru

1. Aberafan Maesteg, Rhondda ac Ogwr (Aberafan Maesteg, Rhondda and Ogmore). Mae'r Comisiwn yn cynnig creu etholaeth sirol o'r canlynol: Etholaeth Seneddol y DU Aberafan Maesteg, ac: Etholaeth Seneddol y DU Rhondda ac Ogwr

2. Merthyr Tudful, Aberdâr a Phontypridd (Merthyr Tydfil, Aberdare and Pontypridd) a fydd yn cael ei chreu o'r canlynol: Etholaeth Seneddol y DU Merthyr Tudful ac Aberdâr, ac: Etholaeth Seneddol y DU Pontypridd

3. Dwyrain a Gogledd Caerdydd (Cardiff East and North). Mae'r Comisiwn yn cynnig creu etholaeth sirol o'r canlynol: Etholaeth Seneddol y DU Dwyrain Caerdydd, ac: Etholaeth Seneddol y DU Gogledd Caerdydd.

Mae sylwadau a phryderon yr Aelodau ynghylch y cynigion wedi'u crynhoi isod:

• Mynegodd yr aelodau bryderon ynghylch yr egwyddorion o alinio ag Etholaethau Seneddol y DU, a holwyd pam mae'r cynnig yn ymwneud ag 16 o etholaethau. Roedd yr aelodau o'r farn y byddai'r cynigion presennol yn ei gwneud hi'n anodd iawn i Aelodau o'r Senedd weithio ar draws nifer o Fyrddau Iechyd gwahanol, gan ddweud y byddent yn alinio'n well ag olion traed y Byrddau Iechyd Lleol neu'r Awdurdodau Lleol presennol.
• Teimlai'r aelodau y bydd y cylch gorchwyl eang sy'n perthyn i rôl Aelodau Etholaethol o'r Senedd mor helaeth fel y byddant yn cael eu datgysylltu'n ddaearyddol.
• Roedd yr aelodau'n anghytuno â datganiad y Comisiynydd bod cysylltiadau ffyrdd da iawn o fewn etholaeth arfaethedig Aberafan Maesteg, Rhondda ac Ogwr, a mynegwyd pryderon difrifol ynghylch mynediad ar ffyrdd, yn enwedig pe byddai mynyddoedd y Rhigos neu'r Maerdy ar gau.
• Teimlai'r aelodau nad oes unrhyw nodweddion a rennir yn bodoli â Rhondda (Pontycymer/Maesteg/Ogwr) a bod yr ardal hon wedi'i hychwanegu heb unrhyw gyfiawnhad ac nad oedd yn adlewyrchu cyfansoddiad daearyddol Rhondda.
• Roedd yr Aelodau'n gwrthwynebu'r cynigion presennol ac yn nodi bod yr ymgynghoriad yn gofyn am gynnig opsiynau eraill, felly, cynnig ffurfiol Aelodau RhCT yw etholaeth Rhondda Cynon Taf, neu os na fernir bod hyn yn bosibl, dylid ystyried Merthyr/Cynon a Rhondda/Pontypridd gan y trafodwyd bod yr ardaloedd hyn yn meddu ar gysylltiadau demograffig a diwylliannol tebyg.
• Roedd mwyafrif yr Aelodau'n cytuno bod angen rhagor o Aelodau yn y Senedd (er, ychwanegwyd na fydd hyn o reidrwydd yn boblogaidd ymhlith y cyhoedd)
• Bydd y cynigion presennol yn golygu colli cysylltiad lleol, gan ei gwneud yn anodd i'r cyhoedd adnabod/deall eu Haelodau o'r Senedd, ac mae'n bosibl y gallai'r cynigion arwain at ragor o waith achos i'r aelodau ac Aelodau Seneddol lleol. Credai'r Aelodau na fydd y cynigion presennol yn darparu'r gwasanaeth y mae pobl Cymru yn ei haeddu

Dymunwn i'r ymatebion sydd yn y llythyr gael eu hystyried yn rhan o'r broses ymgynghori gychwynnol. Yn ogystal â'n hateb ffurfiol, rwy'n ymwybodol y bydd aelodau unigol hefyd yn cyflwyno sylwadau ar ran eu wardiau etholiadol, ac yn yr un modd, y pleidiau gwleidyddol a gynrychiolir ar y Cyngor.

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
Democracy and Boundary Commission Cymru

Yr eiddoch yn gywir,

[HEPGOR]
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu, ar ran y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu.

**7825 – Aelod o'r Cyhoedd**

Mae etholaeth Maldwyn a Glyndŵr a Dwyfor Meirionnydd yn ymestyn dros holl led Cymru, a byddai hyn yn ei gwneud hi'n anodd dros ben i ymgyrchwyr ymgyrchu ynddi. Mae taith mewn car o ben draw Llŷn i Lanidloes yn cymryd ymhell dros ddwy awr a hanner. Ar ben hynny, nid oes llawer o gysylltiadau a rennir rhwng y ddwy etholaeth, yn wahanol i'r cysylltiadau rhwng ardal Glyndŵr ac etholaeth Wrecsam, sydd ill dwy yn dod o dan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Mae'r ardaloedd trefol i'r de a'r gorllewin o Wrecsam eisoes wedi'u rhannu'n ddwy gan ffin etholaeth San Steffan rhwng M a G a Wrecsam, ond byddai'r pariad hwn yn gwneud llawer mwy o synnwyr.

**7826 – Aelod o'r Cyhoedd**

Cefnogaf yn llwyr eu Cynigion Cychwynnol fel aelod o'r cyhoedd yng Nghymru.

Cofion
[HEPGOR]

**7827 – Aelod o'r Cyhoedd**

Rwy'n cefnogi hyn

**7828 – Aelod o'r Cyhoedd**

Hoffwn ddweud fy mod yn cytuno â'r newidiadau arfaethedig i'r ffiniau a fydd, yn fy marn i, yn gwella democratiaeth yng Nghymru.
[HEPGOR]
Ynys Môn

**7830 – Aelod o'r Cyhoedd**

1. Dwyrain Casnewydd a Gorllewin Casnewydd ac Islwyn i ffurfio Casnewydd ac Islwyn.
2. Torfaen a Blaenau Gwent i ffurfio Blaenau Gwent a Thorfaen.
3. Caerffili a Merthyr Tudful a Rhymni i ffurfio Merthyr a Chwm Rhymni
4. Dwyrain Caerdydd a De Caerdydd a Phenarth i ffurfio Bae Caerdydd a Phenarth.
5. Gogledd Caerdydd a Gorllewin Caerdydd i ffurfio Caerdydd Y Mynydd Bychan.
6. Pontypridd a Rhondda a | 6. Pontypridd a Bro Morgannwg i
Ogwr i ffurfio Pontypridd, | ffurfio Pontypridd a'r Fro.
Rhondda ac Ogwr. |
7. Pen-y-bont ar Ogwr a Bro Morgannwg. | 7.Pen-y-bont ar Ogwr a Rhondda ac Ogwr i
Fro Pen-y-bont ar Ogwr \ Arfordir Morgannwg. | ffurfio Rhondda, Pen-y-bont ac Ogwr.
8. Aberafan Maesteg a Chastell Nedd a Dwyrain Abertawe i ffurfio Castell Nedd Port Talbot

a Dwyrain Abertawe.
9. Gorllewin Abertawe a Gŵyr i ffurfio Gŵyr Abertawe.
10. Llanelli a Chaerfyrddin i ffurfio Caerfyrddin.
11. Canol a De Sir Benfro a Cheredigion i ffurfio Ceredigion a Sir Benfro.
12. Aberhonddu, Maesyfed, a Chwm Tawe, a Sir Fynwy i ffurfio Aberhonddu, Maesyfed, Sir Fynwy a Chwm Tawe.
13. Maldwyn a Glyndŵr a Wrecsam i ffurfio Wrecsam a Maldwyn.
14. Alun a Glannau Dyfrdwy a Dwyrain Clwyd i ffurfio Sir y Fflint a Sir Ddinbych.
15. Gogledd Clwyd, a Bangor ac Aberconwy i ffurfio Conwy a Bangor neu Golwyn a Bangor.
16. Dwyfor Meirionnydd ac Ynys Môn i ffurfio Gwynedd ac Ynys Môn.

1. Daw Casnewydd Islwyn â holl ddinas Casnewydd at ei gilydd. Enwir yr etholaeth ar ôl y ddwy ardal sy'n ei ffurfio.
2. Enwir Blaenau Gwent a Thorfaen ar ôl y ddwy fwrdeistref yn y cymoedd sy'n ffurfio'r etholaeth hon. Mae'n cynnwys dwy o gymunedau dwyrain y cymoedd ac felly'n ffurfio etholaeth dda ac unedig.
Sylwer: mae Torfaen a Sir Fynwy yn wahanol iawn. Un o gymunedau trefol y cymoedd yw Torfaen. Mae Sir Fynwy yn gymuned ffermio ac yn wledig. Nid ydynt yn gweddu'n dda iawn o gwbl – ond yn hytrach yn creu "priodas" wael. Priodas fantais. Bydd yn arwain at ysgariad!
3. Cwm/cymoedd Merthyr a Rhymni, a enwir ar ôl y ddwy ardal sy'n ei ffurfio. Mae Cwm Rhymni yn cynnwys Caerffili – mae'r enw ar gyfer pawb. Dwy dref yn y cymoedd sydd â chysylltiadau da. Gan gynnwys ffordd yr A472. Mae Treharris a Nelson yn gysylltiedig ac yn agos iawn, ond maent mewn etholaethau gwahanol.
4. Bae Caerdydd a Phenarth, mae hyn yn cynnwys de Caerdydd yn gyfan gwbl. Mae'r ardal hon yn un agos iawn. Mae llawer o'r bobl sy'n byw yma yn mentro tua'r gogledd yn anaml iawn neu ddim o gwbl. Byddai hyn yn ffurfio cymuned unedig.
5. Caerdydd Y Mynydd Bychan. Mae gan ran ogleddol Caerdydd ffyrdd tebyg o fyw ac ardal debyg.
6. Mae dau opsiwn: opsiwn ochr chwith, sef dod â chymunedau'r Cymoedd at ei gilydd. Opsiwn ochr dde, sef dod â rhan Treláí o Bontypridd a'r Fro at ei gilydd.
7. Mae dau opsiwn: gadael yr arfordir gyda'i gilydd. Opsiwn ochr dde, y cymoedd.
8.

**7831 – Aelod o'r Cyhoedd**

Rwy'n cefnogi'r cynnig cychwynnol. Peidiwch â'i newid.

[HEPGOR]

**7832 – Aelod o'r Cyhoedd**

Annwyl Syr Madam.

Rwyf wedi gweld y cynnig ar gyfer newid ffiniau yng Nghymru a theimlaf, fel dinesydd

yng Nghymru ac aelod o'r cyhoedd, ac yn enw cydraddoldeb a thegwch, fod hwn yn gam i'r cyfeiriad cywir a chefnogaf y cynnig hwn yn fawr iawn.

Cofion cynnes,

[HEPGOR]

**7833 – Aelod o'r Cyhoedd**

Credaf ei bod yn bwysig i barau o etholaethau cymoedd de Cymru redeg o'r gogledd i'r de i fyny ac i lawr y cymoedd, felly er enghraifft:
byddai paru Merthyr Tudful ac Aberdâr â Phontypridd yn adlewyrchu cysylltiadau lleol yng nghymunedau'r cymoedd.
Yng Nghaerdydd, rwy'n cefnogi cynnig y Comisiwn i baru Gorllewin Caerdydd â De Caerdydd a Phenarth, gan eu bod wedi'u cysylltu'n agos gan ffordd yr A4232, ond wedi'u gwahanu oddi wrth weddill Caerdydd gan afon Taf.

Cofion,
[HEPGOR]

**7834 – Aelod o'r Cyhoedd**

Annwyl Syr / Madam,

[HEPGOR]

Hoffwn fynegi fy nghefnogaeth i'ch cynigion cychwynnol fel aelod o'r Cyhoedd yng Nghymru.

Yr eiddoch yn gywir,

[HEPGOR]

**7835 – Aelod o'r Cyhoedd**

Helô,

Fy enw yw [HEPGOR] ac rwy'n byw ym Merthyr Tudful. Rwy'n cysylltu â chi i'ch annog i gadw at y cynigion cychwynnol o ran newid ffiniau.

Cefnogaf y cynigion cychwynnol a gobeithiaf y byddwch yn cadw atynt.

Diolch yn fawr.

[HEPGOR]

**7836 – Aelod o'r Cyhoedd**

Fel aelod o'r cyhoedd yng Nghymru, cefnogaf gynigion cychwynnol y Senedd yn llawn.

Cofion,

[HEPGOR]

**7837 – Aelod o'r Cyhoedd**

Annwyl Syr/Madam.
Fel aelod o'r Cyhoedd yng Nghymru, hoffwn gynnig fy nghefnogaeth i'ch cynigion cychwynnol ar gyfer newid ffiniau yng Nghymru.
Cofion
[HEPGOR]
Pen-y-bont ar Ogwr.

**7838 – Aelod o'r Cyhoedd**

Prynhawn Da,

Hoffwn roi gwybod i chi fy mod yn llwyr gefnogi'r newidiadau arfaethedig i'r ffiniau etholiadol, a gynigir ar hyn o bryd ar gyfer Cymru.
Teimlaf y bydd y newidiadau hyn yn sicrhau cynrychiolaeth decach o ran y system bleidleisio.

Yr eiddoch yn gywir

[HEPGOR]

**7839 – Aelod o'r Cyhoedd**

Credaf y byddai'n well paru De Caerdydd a Phenarth â Dwyrain Caerdydd (ac, o ganlyniad, Gorllewin Caerdydd â Gogledd Caerdydd).
Ymddengys i mi fod y ddwy sedd sy'n ffurfio de daearyddol y ddinas yn gweddu i'w gilydd fel cyfanwaith mwy cydlynus na'r hyn a gynigir ar hyn o bryd. Maent yn cynnwys yr holl arfordir, sydd â chymeriad diwydiannol a rennir yn hanesyddol ac yn y presennol, yn ogystal â'r ddaearyddiaeth naturiol amlwg o gwrdd ag aber Afon Hafren (mae afonydd Taf, Rhymni ac Elái bob un yn cwrdd ag Aber Afon Hafren yn Ne Caerdydd neu Ddwyrain Caerdydd), sy'n gwbl wahanol i rannau mwy gogleddol y ddinas sy'n arwain i'r cymoedd.
Ceir digonedd o gysylltiadau trafnidiaeth, gan gynnwys opsiynau ar y ffyrdd a threnau, sy'n cysylltu'r ddwy etholaeth. Byddai hyn hefyd yn uno nifer o ardaloedd sydd â chysylltiadau sy'n bodoli. Un ohonynt yw canol y ddinas a Cathays, y bu llawer o'r ardal yn hen etholaeth Caerdydd Canolog gynt, ond sydd bellach wedi'i chynnwys yn Ne Caerdydd a Phenarth. Yn yr un modd, yn nwyrain y ddinas, Llanrhymni, Tredelerch a Trowbridge. Bydd etholwyr yn yr ardaloedd hyn yn dechau dod i arfer â chael eu tynnu o hen etholaeth De Caerdydd a Phenarth: byddai paru Dwyrain Caerdydd a De Caerdydd a Phenarth bellach yn lleihau'r dryswch posibl, yn ogystal ag adlewyrchu'r dadleuon bod gan yr ardaloedd hyn gysylltiad sylfaenol, a wnaed yn ystod yr arolwg ffiniau San Steffan.

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
Democracy and Boundary Commission Cymru

Mae'r cynnig hwn yn golygu y byddai etholaeth newydd y Senedd yn cynnwys dim ond dau Awdurdod Lleol (sef Caerdydd a Bro Morgannwg), yn hytrach na thri pe bai De Caerdydd a Phenarth yn cael eu paru â Gorllewin Caerdydd (sy'n cynnwys ward sydd yn Rhondda Cynon Taf), ac rwy'n awgrymu y byddai'n arwain at fwy o gysondeb a symlrwydd i gynrychiolwyr etholedig ac etholwyr.

**7841 – Aelod o'r Cyhoedd**

Cefnogaf eu Cynigion Cychwynnol fel aelod o'r Cyhoedd yng Nghymru

**7844 – Aelod o'r Cyhoedd**

Hoffwn fynegi fy mod yn cefnogi'r cynigion cychwynnol fel aelod o'r cyhoedd yng Nghymru.

[HEPGOR]

**7846 – Aelod o'r Cyhoedd**

Cefnogaf eich Cynigion Cychwynnol ar gyfer ffiniau, fel aelod o'r cyhoedd yng Nghymru.
Gofynnaf i chi weithredu ar fyr rhan.[HEPGOR]

Cofion cynnes
[HEPGOR]

**7847 – Aelod o'r Cyhoedd**

> Fel aelod o'r cyhoedd yng Nghymru, cefnogaf eich Cynigion Cychwynnol yn llawn.
>
> Cofion,
>
[HEPGOR]

**7848 – Aelod o'r Cyhoedd**

Helo

Rwy'n bryderus o glywed bod symudiadau gwleidyddol i wrthdroi'r newidiadau arfaethedig i'r system etholiadol yng Nghymru sy'n gwneud yr etholiadau i'r Senedd yn broses fwy democrataidd.

Hoffwn gofrestru fy nghefnogaeth i'ch cynigion cychwynnol fel aelod o'r cyhoedd yng Nghymru.

Yn gywir

[HEPGOR]

**7849 – Aelod o'r Cyhoedd**

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru

Democracy and Boundary Commission Cymru

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru

Noder, os gwelwch yn dda, fy mod yn cefnogi cynigion cychwynnol y Comisiwn.

[HEPGOR]

**7851 – Aelod o'r Cyhoedd**

Annwyl Syr, Madam,
Rwy'n cefnogi'r cynigion cychwynnol fel dinesydd Cymru.
Yn gywir
[HEPGOR]
Rhuddlan
Sir Ddinbych

**7852 – Aelod o'r Cyhoedd**

Annwyl Syr / Madam,

Rwy'n ysgrifennu i gefnogi'r fenter yng Nghymru.

Rwy'n byw yn Abertawe.

Cofion cynnes
[HEPGOR]

**7854 – Aelod o'r Cyhoedd**

Cytunaf yn llwyr â'r cynigion newydd, rwy'n gyn-filwr yn y Fyddin ac yn ymwneud â phobl leol sydd i gyd yn cytuno.

**7856 – Aelod o'r Cyhoedd**

Helo, fel aelod o'r cyhoedd yng Nghymru rwy'n llwyr gefnogi eich cynigion cychwynnol ar newid ffiniau.

**7858 – Aelod o'r Cyhoedd**

Rwy'n meddwl bod y newidiadau arfaethedig i'r ffiniau yn gwneud synnwyr da i bobl sy'n byw yng Nghymru.

Gadewch i ni beidio â gwneud cawl o bethau.

Cofion cynnes

[HEPGOR]

**7859 – Aelod o'r Cyhoedd**

Dymunaf ddweud fy mod yn cefnogi'r ffiniau newydd fel aelod o'r cyhoedd yng Nghymru ac [fel rhywun] sy'n byw yn y Rhondda. [HEPGOR]

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
Democracy and Boundary Commission Cymru

**7862 – Aelod o'r Cyhoedd**

Mae gennych fy nghefnogaeth

Ar gyfer eich cynnig cychwynnol

Fel Cymro sydd wedi byw yn fy ngwlad ers 47 mlynedd rwy'n teimlo bod cael y rhyddid i ddewis yn hollbwysig.
Rydym yn byw mewn cymdeithas wych sydd wedi dod mor bell ar hyd yr oesoedd a'r hyn y mae llawer o bobl wedi marw ar hyd yr oesoedd i'w hamddiffyn, boed hynny trwy ryfeloedd neu gynnwrf gwleidyddol.

Nid wyf yn credu mewn ymdrechion i ddileu hawl nac i atal safbwyntiau a barn miliynau pan mae Prydain wedi gwneud cymaint i osod esiampl ar gyfer rhyddid ledled y byd. Does neb byth yn edrych ar ochr dda diwylliannau a chymdeithasau - maen nhw bob amser yn ymhelaethu ar yr holl bethau negyddol.

Rydym wedi gwneud cymaint o gynnydd yn ein ffordd o fyw fel na ddylem byth ganiatáu canslo neu ymdrechion eraill i darfu neu lygru'r hyn rydym yn ei werthfawrogi fwyaf…ein rhyddid.

Rwy'n gweld Prydain fel esiampl o obaith ac undod wedi'i gosod yn erbyn camweddau'r byd ac yn un y dylem bob amser fod yn falch ohoni i ddangos i ni bob amser sut i fod.

Dylem sefyll yn Unedig yn erbyn y bobl sy'n ceisio rhwygo'r hyn y mae'n ei olygu i fod yn Brydeinig, pan fo ganddi gymaint o oleuni cadarnhaol fel diwylliant sy'n trechu unrhyw gamweddau yn y gorffennol yn safbwyntiau rhannol rhai beirniaid anwybodus.

Bod yn amrywiol mewn cymdeithas ond lle mae'r rhai sy'n gwthio amrywiaeth yn ceisio dileu diwylliant sydd wedi bod yn fynegiant ohoni yn fwy na'r rhan fwyaf.

Mae'r bobl hynny, y gwleidyddion hynny sy'n gwneud hynny, yn anghywir iawn, a byddant bob amser yn anghywir i ymosod ar yr hyn sydd wedi'i lunio a'i greu dros y canrifoedd.
Byddant yn dinistrio diwylliant ac yn creu llawer o ddiwylliannau oddi mewn sy'n brwydro am oruchafiaeth oddi mewn dros reolaeth y tiroedd hyn. Dylai'r prif ddiwylliant bob amser gael ei gynnal a'i warchod.

Ac ni bydd heddwch byth eto pe caiff ei ddarostwng i feio a rhagrith eraill.
Mae pob cenedl yn haeddu diwylliant pennaf i gadw rheolaeth a threfn uwchlaw

anhrefn ac mae gan Brydain un o'r goreuon yn y byd oherwydd iddi gael mwy o ryddid na llawer, rhywbeth nad yw wedi ennyn y parch y mae'n ei haeddu.

Fy holl gariad a dymuniadau gorau i'r bobl sy'n gwneud yr hyn a allant i amddiffyn y gwerth hwnnw. Gwybod beth mae bod yn Brydeinig yn ei olygu a theimlo eu bod yn wladgarol ond yn y ffordd fwyaf cadarnhaol tuag at eu diwylliant a'u ffordd o fyw, sy'n well na chymaint o lefydd eraill heddiw.

yn gywir, [HEPGOR]

**7866 - Tom Giffard – Aelod o Senedd Cymru**

Ni chredaf fod trigolion Pen-y-bont ar Ogwr yn cael eu gwasanaethu orau drwy efeillio Pen-y-bont ar Ogwr a Bro Morgannwg.

Ar ôl yr Etholiad Cyffredinol mae trigolion wedi drysu ynghylch pwy yw'r AS am fod y ffiniau wedi newid. Er fy mod yn siŵr mai dros dro y bydd hyn. Mae trigolion wedi cwestiynu pam y gwnaed y newidiadau hyn yn enwedig yng Nghorneli.

Fy marn i yw, yn hytrach na gefeillio Pen-y-bont ar Ogwr a Bro Morgannwg, byddai trigolion Pen-y-bont ar Ogwr yn fwy addas i gael eu gefeillio ag Aberafan Maesteg.

Mae gan drigolion Porthcawl o fewn ffiniau Pen-y-bont ar Ogwr fwy o gysylltiad â chymunedau anghysbell yn Aberafan Maesteg, megis Corneli a'r Pîl. Mae Corneli a'r Pîl yn ddewis naturiol i drigolion Porthcawl wrth geisio prynu cartref pan all Porthcawl yn aml fod yn anfforddiadwy. Hefyd mae'r practis meddyg teulu yng Nghorneli yn nodwedd amlwg i drigolion Porthcawl.

Mae Porthcawl hefyd mewn perygl gwirioneddol o gael ei hynysu yn wleidyddol.

Mae gan drigolion hefyd gysylltiadau hirsefydlog â'r defnydd o draeth Aberafan, y gellir dadlau ei bod yn fwy ffafriol na thraeth y Barri oherwydd hwylustod teithio. Gellid dadlau bod hyn oherwydd rhwystrau daearyddol megis Afon Ogwr yn creu ffin naturiol rhwng cymunedau Porthcawl ac Aberogwr ac aneddiadau eraill ym Mro Morgannwg.

**7869 – Aelod o'r Cyhoedd**

Rwy'n cefnogi'r cynnig cychwynnol fel aelod o'r cyhoedd.
Cofion
[HEPGOR]

**7870 – Aelod o'r Cyhoedd**

Rwy'n cefnogi eich cynigion cychwynnol fel aelod o'r cyhoedd yng Nghymru. Diolch

Cofion cynnes

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
Democracy and Boundary Commission Cymru

[HEPGOR]

**7871 – Aelod o’r Cyhoedd**

Rwy'n gwrthwynebu paru Maldwyn a Glyndŵr â Dwyfor Meirionnydd. Y dewis arall amlwg yw Maldwyn â Wrecsam gan fod y paru hwn eisoes i bob pwrpas wedi'i wneud yn ffiniau'r etholaethau Seneddol. Byddai'n golygu maint llawer mwy rhesymol ac mae’r cysylltiadau cyfathrebu yn dda. Dylai Meirionnydd fod gydag Ynys Môn lle mae cysylltiad diwylliannol llawer cryfach. Mae hynny'n rhoi Bangor gyda Gorllewin Clwyd a Dwyrain Clwyd gydag Alun a Glannau Dyfrdwy. Dyma'r ffiniau amlwg.

**7874 – Aelod o’r Cyhoedd**

Byddai'n gwneud llawer mwy o synnwyr pe baech yn gwneud y canlynol.
- Ynys Môn a Dwyfor Meirionnydd
- Bangor a Gorllewin Clwyd
- Dwyrain Clwyd, Alun a Glannau Dyfrdwy
- Wrecsam, Glyndŵr, a Maldwyn

Mae Wrecsam a Maldwyn bellach wedi'u cysylltu â'i gilydd yn y ffiniau Seneddol. Mae'n gwneud synnwyr i ymestyn hynny. Nid yw Maldwyn a Meirionydd yn gwneud unrhyw synnwyr.

**7875 – Aelod o’r Cyhoedd**

Dim ond osgoi’r nonsens bod Maldwyn a Glyndŵr yn debyg yn ieithyddol a diwylliannol i Ogledd-orllewin Cymru. Mae hyn yn hollol anghywir.

**7877 – Aelod o’r Cyhoedd**

Mae'n bwysig bod etholaethau cymoedd y De yn rhedeg o'r gogledd i'r de i fyny ac i lawr y cymoedd, felly mae paru Merthyr Tudful ac Aberdâr â Phontypridd yn adlewyrchu cysylltiadau lleol yng nghymunedau'r cymoedd.

Yng Nghaerdydd, rydym yn cefnogi cynnig y Comisiwn i baru Gorllewin Caerdydd â De Caerdydd a Phenarth, gan eu bod wedi'u cysylltu'n agos gan yr A4232, ond wedi'u gwahanu oddi wrth weddill Caerdydd gan Afon Taf.

**7879 – Aelod o’r Cyhoedd**

Helo. Rwy'n ysgrifennu atoch i gefnogi eich Cynigion Cychwynnol fel aelod o'r cyhoedd yng Nghymru.
Mae’n bwysig i barau etholaethau cymoedd de Cymru redeg o’r gogledd i’r de i fyny ac i lawr y cymoedd, felly mae paru Merthyr Tudful ac Aberdâr â Phontypridd yn adlewyrchu cysylltiadau lleol yng nghymunedau’r cymoedd.
Yng Nghaerdydd, rydym yn cefnogi’r Comisiwn i baru Gorllewin Caerdydd â De Caerdydd a Phenarth, gan eu bod wedi’u cysylltu’n agos gan yr A4232, ond wedi’u gwahanu oddi wrth weddill Caerdydd gan afon Taf.

Cofion

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
Democracy and Boundary Commission Cymru

[HEPGOR]
Wedi'i anfon o fy iPhone

**7881 – Aelod o'r Cyhoedd**

Noder:

Fel aelod o'r cyhoedd yng Nghymru, rwy'n cefnogi eich Cynigion Cychwynnol.

Rwyf hefyd yn gwrthwynebu ehangu'r Senedd o'i 60 aelod presennol.

[HEPGOR]

**7882 – Aelod o'r Cyhoedd**

Annwyl Syr / Madam,

Rwy'n e-bostio i gyfleu fy nghefnogaeth i'ch cynigion cychwynnol i gyfuno etholaethau yng Nghymru. Rwy'n byw yn Nhonyrefail sydd bellach yn rhan o gymoedd y Rhondda ac rwy'n teimlo bod eich cynigion cychwynnol yn cyd-fynd yn ymarferol iawn wrth gadw cymunedau ein cymoedd sy'n rhannu gwerthoedd diwylliannol tebyg, yn ogystal â bod yn agos at ei gilydd yn ddaearyddol.
Gobeithio y gellir gweithredu'r newidiadau hyn i'r ffiniau hyn mewn ffordd synhwyrol.

Yn gywir,
[HEPGOR]

**7883 – Aelod o'r Cyhoedd**

Annwyl Foneddigion,
Dim ond nodyn i ddweud fy mod yn cefnogi eich cynigion cychwynnol fel aelod o'r cyhoedd yng Nghymru.
Cofion gorau
[HEPGOR]
Anfonwyd trwy Ap E-bost BT

**7884 - Ar ran sefydliad (preifat neu gyhoeddus)**

Amgaeir cyflwyniad Llafur Cymru i'r ymgynghoriad. Gwneir y cyflwyniad atodedig yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Cyflwyniad

1. Mae'r cyflwyniad hwn ar ran Llafur Cymru. Mae'n nodi safbwynt Llafur Cymru ar 16 o etholaethau Senedd newydd Cymru, fel y cytunwyd gan Bwyllgor Gweithredol Cymru ac yn dilyn ymgynghoriad mewnol â rhanddeiliaid megis Aelodau Seneddol, Aelodau o'r Senedd, Pleidiau Llafur Etholaethol (CLPs) a Grwpiau Llafur mewn llywodraethau lleol.

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
Democracy and Boundary Commission Cymru

2. Hoffem ddiolch i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru am eu gwaith ar lunio'r cynigion cychwynnol a chynnal yr ymgynghoriad cychwynnol hwn a chamau dilynol yr adolygiad.

3. Nodwn y meini prawf statudol ar gyfer cynnal yr adolygiad hwn, ac yn benodol y gofyniad i greu 16 pâr o etholaethau ar gyfer Senedd y DU. Mae hyn yn anochel yn cyfyngu ar yr opsiynau sydd ar gael ac yn golygu, mewn gwirionedd, mae'n debyg bod llai na dwsin o opsiynau hyfyw nad ydynt yn amlwg yn mynd yn groes i'r ffactorau statudol eraill, sef ffiniau llywodraeth leol, ystyriaethau daearyddol arbennig a chysylltiadau lleol.

4. Mae'r cyflwyniad hwn ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Y Cynigion Cychwynnol

5. Mae Llafur Cymru yn cefnogi'r cynigion cychwynnol ym mhob ardal, ar wahân i drefn y seddi yng Nghaerdydd. Byddwn yn amlinellu'r rhesymu dros hyn isod. Byddwn yn atal rhag gwneud sylw ar enwau etholaethau ar y cyfan nes bod y cynigion diwygiedig yn cael eu cyhoeddi. Felly byddwn yn gwneud cyflwyniadau manylach ar yr enwau fel rhan o'r ail broses ymgynghori.


Gogledd Cymru

6. Fel y nodwyd gan y Comisiwn, dim ond ar draws y Fenai i etholaeth Bangor Aberconwy trwy Borthaethwy a Phont Britannia sydd gan etholaeth Ynys Môn gysylltiadau ffordd. Mae diffyg cysylltiad ffordd, a'r gofyniad i'r 16 etholaeth fod yn gyffiniol, yn golygu bod rhaid paru Ynys Môn gyda Bangor Aberconwy, yn hytrach na Dwyfor Meirionnydd.

7. Ar ôl hynny, eto fel y nodwyd gan y Comisiwn, rhaid paru Gogledd Clwyd â Dwyrain Clwyd, ac felly rydym yn cefnogi'r etholaeth arfaethedig honno a'r enw Clwyd**.** Yn yr un modd, rhai paru Alun a Glannau Dyfrdwy a Wrecsam i greu etholaeth gyffiniol.


8. Rydym yn cefnogi paru etholaeth Dwyfor Meirionnydd gydag etholaeth Sir Drefaldwyn a Glyndŵr. Rydym yn nodi y gallai paru Dwyfor Meirionnydd â Cheredigion Preseli fod yn opsiwn yn lle hynny. Fodd bynnag, nid oes cysylltiad ffordd rhwng y ddwy etholaeth, ac felly byddai'n rhaid gadael yr etholaeth ar y ffordd i deithio rhwng gwahanol rannau ohoni, sy'n amlwg yn groes i'r polisi o greu etholaethau cyffiniol.

Ffin gymharol fyr sydd rhwng Dwyfor Meirionnydd a Cheredigion Preseli, fel y dangosir yn y ddelwedd isod.




Mae ffin yr etholaeth yn rhedeg ar hyd Afon Dyfi a'i haber sy'n ffurfio'r ffin rhwng siroedd Gwynedd a Cheredigion. Nid oes man croesi ffordd ar hyd y rhan hon o'r afon. Pe bai etholaethau Dwyfor Meirionnydd a Cheredigion Preseli yn cael eu

paru, er mwyn teithio ar y ffordd o Aberdyfi (yn etholaeth Dwyfor Meirionnydd) i Ynys Tachwedd (neu unrhyw leoliad arall yn etholaeth Preseli Ceredigion), byddai angen i chi yrru cyn belled â Machynlleth ac felly gadael yr etholaeth drwy fynd i mewn i etholaeth Sir Drefaldwyn a Glyndŵr.




Mae'n amlwg felly, er mwyn cydymffurfio â'r polisi i etholaethau fod yn gyffiniol, fod yn rhaid paru Dwyfor Meirionnydd â Sir Drefaldwyn a Glyndŵr fel y cynigir gan  y Comisiwn. Rydym felly'n cefnogi'r cynigion cychwynnol yn hyn o beth.

<u>Gorllewin Cymru a De Cymru</u>

9. Yn dilyn ymlaen o'r uchod, dylid paru etholaeth Ceredigion â Chanolbarth a De Sir Benfro fel y cynigiwyd gan y Comisiwn. Byddai hynny'n golygu y byddai Sir Benfro gyfan mewn un etholaeth.

10. Hyd at y pwynt hwn, rydym yn credu fod y parau o etholaethau'n dilyn yn naturiol o gymhwyso'r polisïau, sef y gofyniad i etholaethau fod yn gyffiniol, sy'n golygu nad oes mewn gwirionedd unrhyw gyfres bosib arall o gynigion ar gyfer y pum etholaeth dan sylw. O ran gweddill Cymru, mae mwy o opsiynau posib sy'n

fwy goddrychol eu natur. Isod, rydym yn nodi'r rhesymau pam ein bod yn cefnogi'r cynigion cychwynnol a hefyd yn nodi rhai o'r ystyriaethau a allai fod yn berthnasol wrth ystyried gwrthgynigion posibl.

11. Rydym yn cefnogi paru Caerfyrddin a Llanelli i greu etholaeth sy'n gyfan gwbl o fewn awdurdod lleol Sir Gaerfyrddin. Er ei bod yn gwneud rhywfaint o synnwyr i alw'r etholaeth honno yn Sir Gaerfyrddin o ganlyniad, honno fyddai'r unig etholaeth arfaethedig i gael yr un enw ag awdurdod lleol, gyda'r rhan fwyaf o'r lleill yn cynnwys elfennau o enwau'r ddwy etholaeth. Gallai Llanelli a Chaerfyrddin fod yn fwy dymunol, ond byddwn yn gwneud mwy o sylwadau ar yr enwau yn yr ail broses ymgynghori.

12. Mae sawl opsiwn posib ar gyfer paru etholaethau Abertawe. Mae gan Gastell- nedd a Dwyrain Abertawe gysylltiadau cryf ag Aberafan Maesteg a byddai'n creu etholaeth fwy cryno a diffiniedig, y byddai'r mwyafrif ohoni yn awdurdod lleol Castell-nedd Port Talbot. Un anfantais i'r cynnig cychwynnol yw ei fod yn creu sedd sy'n ymestyn o ganol Abertawe i ganol Cymru. Wedi dweud hynny, at ei gilydd, mae parau amgen ar gyfer Castell-nedd a Dwyrain Abertawe yn creu canlyniadau gwaeth mewn ardaloedd eraill, yn enwedig o ran sut i baru Bro Morgannwg, a bydd unrhyw etholaeth sy'n cael ei pharu â Brycheiniog, Maesyfed a Chwm Tawe yn gymharol fawr ac anhylaw. Felly, rydym yn cefnogi etholaethau arfaethedig Gorllewin Abertawe a Gŵyr a Brycheiniog, Maesyfed, Castell-nedd a Dwyrain Abertawe, ac o ganlyniad, rydym hefyd yn cefnogi'r parau hyn - Aberafan Maesteg, Rhondda ac Ogwr a Bro Morgannwg a Phen-y-bont ar Ogwr - sy'n llifo'n naturiol.

13. Rydym yn cefnogi etholaeth arfaethedig Merthyr Tudful, Aberdâr a Phontypridd, sydd fel y mae'r Comisiwn yn ei nodi yn uno Cwm Cynon mewn un etholaeth ac mae hefyd gysylltiadau cryf rhwng y ddwy etholaeth. Un enw amgen y gellid ei ystyried yw Merthyr Tudful, Cwm Cynon a Phontypridd er mwyn adfer yr enw hanesyddol Cwm Cynon nawr ei fod wedi ei uno mewn un etholaeth.


14. Rydym yn gryf o blaid dod â'r ddwy sedd yng Nghasnewydd at ei gilydd ac uno'r awdurdod lleol. Er bod gan y rhannau o Orllewin Casnewydd ac Islwyn sydd yn awdurdod lleol Caerffili gysylltiadau ag ardaloedd cyfagos yn awdurdodau

lleol Caerffili a Blaenau Gwent, mae paru'r etholaeth hon â Chasnewydd yn fwy dymunol. O ganlyniad i etholaeth Casnewydd, rhaid paru Sir Fynwy a Thorfaen sy'n etholaeth gydlynol, ac yn olaf byddai Blaenau Gwent a Rhymni wedyn yn cael ei baru â Chaerffili. Rydym yn cefnogi'r holl gynigion cychwynnol hyn.

15. Yn olaf, mae pedair etholaeth yng Nghaerdydd i'w hystyried. Nid ydym yn cefnogi'r cynigion cychwynnol ar gyfer yr ardal hon. Yn lle hynny, byddem yn cynnig paru Gorllewin Caerdydd a Gogledd Caerdydd a De Caerdydd a Phenarth a Dwyrain Caerdydd yn lle paru Gorllewin/De a Dwyrain/Gogledd.

16. Byddai gan etholaeth arfaethedig Gorllewin/De Caerdydd rannau o dri awdurdod lleol gan gynnwys ward amddifad, tra byddai paru Gorllewin a Gogledd Caerdydd, yn golygu bod dwy ward Rhondda Cynon Taf, sef Ffynnon Taf a Phont-y-clun, yn yr un etholaethau Senedd. Mae cymunedau fel Ffynnon Taf sy'n ymestyn ar draws y ffin Orllewinol a Gogleddol fel y mae pethau ar hyn o bryd ac a fyddai'n cael eu huno mewn etholaeth Senedd. Mae hefyd sawl dalgylch ysgol a rennir a gwasanaethau a rennir rhwng y Gogledd a'r Gorllewin, megis Ysbyty'r Mynydd Bychan. Mae cysylltiadau trafnidiaeth cryf rhwng y Gorllewin a'r Gogledd megis yr A48 a'r A470, a datblygiad gwasanaeth Metro newydd arfaethedig a fyddai'n cysylltu cymunedau ar ochrau eraill yr afon fel Llandaf a Ffynnon Taf a Radur yn well. Er y gellid ystyried Afon Taf fel ffin naturiol, mae hefyd yn darparu ymdeimlad cyffredin o hunaniaeth yn enwedig ar gyfer cymunedau ar bob ochr i'r cwm sydd â chysylltiadau cymunedol cryf. Un fantais o baru De Caerdydd a Phenarth a Dwyrain Caerdydd fyddai y byddai'n cadw cymunedau yn etholaeth bresennol Senedd Caerdydd Canolog gyda'i gilydd, a hefyd cymunedau Trowbridge, Llanrhymni a Thredelerch â'r rhai yn Ne Caerdydd a Phenarth y cawsant eu symud oddi wrthynt yn yr adolygiad San Steffan. Roedd y mater o gysylltiadau cymunedol yn yr ardal hon yn nodwedd o adolygiad San Steffan ac felly mae'n amlwg bod rhinwedd i'w huno yn yr un etholaeth Senedd.

17. Felly, byddem yn cynnig paru De Caerdydd a Phenarth a Dwyrain Caerdydd, a Gogledd Caerdydd a Gorllewin Caerdydd.




Casgliad

18. I grynhoi, rydym yn cefnogi'r cynigion cychwynnol ar draws Cymru, heblaw am y cynigion ar gyfer Caerdydd am y rhesymau a amlinellir uchod. Yn y pen draw, mae'r opsiynau'n gyfyngedig o ystyried y cyfyngiadau a osodwyd gan y rheolau a'r polisïau ac mewn rhannau helaeth o Gymru mae'r parau yn gymharol amlwg. Hoffem ddiolch eto i'r Comisiwn am eu gwaith ar y cynigion cychwynnol ac edrychwn ymlaen at gymryd rhan yn yr ail ymgynghoriad unwaith y bydd y cynigion diwygiedig wedi'u cyhoeddi.

**7886 – Aelod o'r Cyhoedd**

Mae'n ymddangos bod nam ar y wefan gan na allaf wneud y parau yr wyf yn dymuno eu gwneud. Felly, bydd yn rhaid iddo fod yn y neges hon.
Dechreuwn yn yr ardal yr wyf ynddi.

Mae'n dda cael dwy ochr Casnewydd gyda'i gilydd. Felly i ffurfio un o'r enw Casnewydd ac Islwyn. I Dorfaen y cymydog mwyaf addas fyddai Blaenau Gwent. Mae'r ddwy yn rhan o'r cymoedd gyda'r gymuned a'r bobl hynny. Byddai'n fwy priodol iddi fod gyda Chasnewydd. Mae llawer o gysylltiad a symudiad rhwng y ddwy. Mae Mynwy yn hollol wahanol. Mae'n wledig, yn ardal ffermio a'r bobl

mor wahanol. Ni fyddai'n ffurfio cyfanwaith cydlynol fel y byddai'r lleill.
Mae Caerffili a Merthyr Tudful a Rhymni yn dod â dwy ardal yn y cymoedd at ei gilydd. Mae ffordd dda sy'n eu cysylltu ac mae Nelson a Threharris yn eu huno gyda'i gilydd. Gellid ei galw'n Rhymni a Merthyr (Tudful) ar ôl yr ardaloedd.
Mae gan Ogledd Caerdydd a Gorllewin Caerdydd yr un cefndir i raddau helaeth ac mae'r bobl yn debyg.
Mae gan Ddwyrain Caerdydd a De Caerdydd a Phenarth yr holl ddinas mewn un ac mae pob ochr i'r canol yn debyg gyda'r un mathau o bobl.
Mae Pontypridd a'r Rhondda ac Ogwr yn dod â'r ddwy ran yma o'r cymoedd at ei gilydd, ac mae Pontypridd ar ben y Rhondda. Gallai'r tri enw fod yn enw iddi.
Mae Pen-y-bont ar Ogwr a Bro Morgannwg yn rhannu'r arfordir ac mae Pen-y-bont ar Ogwr ar un ystyr yn borth i'r fro. Gellid ei henwi yn Bridgend Vale.
Byddai gan Aberafan Maesteg a Chastell-nedd a Dwyrain Abertawe y rhan fwyaf o fwrdeistref Castell-nedd Port Talbot - y cyfan o'r ddwy dref fawr hyn. Byddai'n cael ei galw'n Castell-nedd Port Talbot a Dwyrain Abertawe.
Mae Gorllewin Abertawe a Gŵyr yn rhan o (Brif Gyngor) Abertawe a byddai'n ffurfio sedd Abertawe-Gŵyr.
Mae Llanelli a Chaerfyrddin yn yr un sir ac yn cynnwys y sir gyfan. Gellid ei henwi yn Caerfyrddin.
Byddai Canol a De Sir Benfro a Cheredigion Preseli yn rhoi Sir Benfro gyfan mewn un etholaeth. Gellid ei henwi yn Ceredigion a Sir Benfro.
Mae Aberhonddu, Maesyfed a Chwm Tawe a Mynwy ill dwy yn gymunedau ffermio yn y bôn. Mae cyfathrebu'n rhagorol ar hyd yr A40.
Maldwyn a Glyndŵr a Wrecsam. Mae hyn yn uno dinas Wrecsam gyfan mewn un etholaeth. Gellid ei galw'n Wrecsam a Maldwyn.
Mae Alun a Glannau Dyfrdwy a Dwyrain Clwyd yn galluogi Sir y Fflint gyfan i fod gyda'i gilydd.
Mae Sir y Fflint a Dinbych ill dwy yn siroedd gwledig. Ar hyd yr arfordir mae'n dod â threfi gwyliau Prestatyn a'r Rhyl at ei gilydd sydd i raddau helaeth yn ffurfio un. Gellid ei galw'n Sir y Fflint a Sir Ddinbych.
Byddai Gogledd Clwyd a Bangor Aberconwy yn dod â Bwrdeistref Conwy gyfan at ei gilydd mewn un sedd sy'n hynod fuddiol i'r cyngor, y cynrychiolydd a'r bobl. Gellid ei henwi ar ôl dwy dref fawr - Bangor a Cholwyn.
Byddai Dwyfor Meirionnydd ac Ynys Môn yn ffurfio un etholaeth. Mae'n dwyn ynghyd ddwy ardal amaethyddol wledig. Mae gan y bobl yno ffyrdd tebyg o fyw a byddent yn gweithio'n dda gyda'i gilydd. Mae ganddynt lawer yn gyffredin. Yn anad dim y ffaith bod y ddwy yn ardaloedd Cymraeg cryf. Mae o Ynys Môn i Ddwyfor Meirionnydd yn bellter byr gan fynd o Fangor i Aber Pwll, Y Felinheli ac ati ac i Gaernarfon.
Mae Ynys Môn yn llawer 'agosach' ac mewn mwy o gytgord â Gwynedd na Bwrdeistref Conwy. Mae hyn yn bwysicach o lawer na'r pellter i fynd o ddwy etholaeth bresennol San Steffan. Nid yw holl sedd bresennol Dwyfor Meirionnydd mewn gwirionedd yn yr un o'r ardaloedd hyn e.e. tref Caernarfon. Felly NID yw'n enw da. Mae'n cynnwys y rhan fwyaf o Wynedd (ac eithrio ardal Bangor). Gallai'r enw fod yn Wynedd ac Ynys Môn - ei dwy sir.

**7887 - Andrew Morel du Boil - Cynghorydd lleol neu swyddog etholedig arall**

Mae'r syniad o gyfuno Maldwyn a Gwynedd gyda'i gilydd yn hollol boncyrs. Sut y gall unrhyw aelod etholedig effeithiol gynrychioli maint enfawr yr etholaeth honno. Yn lle hynny dylid ei

rhannu'n ddwy a chael llai o aelodau yn cynrychioli'r naill a'r llall. Mae hyn yn berthnasol yn gyffredinol. [HEPGOR] Mae'r cynnig ar gyfer Maldwyn Glyndŵr a Dwyfor Meirionnydd yn golygu cael etholaeth yr un maint â rhanbarth presennol canolbarth a gorllewin Cymru, ac nid yw hynny'n gweithio!

**7888 – Aelod o'r Cyhoedd**

Rwy'n byw dair milltir o Wrecsam ac yn agos i Langollen hefyd. Roedd y newid diwethaf i'r ffiniau yn ein cysylltu â Maldwyn a oedd yn ddisynnwyr, ond mae'r cynnig diweddaraf hwn yn gwbl abswrd! Ychydig iawn sydd gennym yn gyffredin â Dwyfor sydd yn nes at benrhyn Llŷn ac mae yno nifer fawr o siaradwyr Cymraeg. Rydym hefyd yn dirgloëdig ac mae ein nodweddion daearyddol yn hollol wahanol.
Yn lle mynd ymhellach i'r De a'r Gorllewin, mae'n gwneud synnwyr ac yn wir yn rhesymegol uno'r etholaeth bresennol neu o leiaf y rhan fwyaf ohoni â Wrecsam na'r cynnig chwerthinllyd presennol hwn!

**7890 - Dr Altaf Hussain MS – Aelod o Senedd Cymru**

Nid wyf yn credu bod y parau arfaethedig yn parchu'r cysylltiadau traddodiadol rhwng Maesteg a Phen-y-bont ar Ogwr. Cynigiaf felly y dylid paru Aberafan Maesteg â Phen-y-bont ar Ogwr am y rhesymau canlynol;
• Mae cysylltiadau trafnidiaeth mawr fel yr M4 a phrif reilffordd Great Western yn rhedeg o'r dwyrain i'r gorllewin, nid o'r gogledd i'r de. Mae rheilffyrdd lleol hefyd yn rhedeg o fewn y ddwy etholaeth San Steffan sy'n uno cymunedau – er enghraifft, mae rheilffordd yn rhedeg o Bencoed trwy Ben-y-bont ar Ogwr i Faesteg. Nid oes trenau yn rhedeg o Aberafan/Maesteg i'r Rhondda yn yr un ffordd.
• Mae'r pâr newydd yn dilyn daearyddiaeth arfordir Cymru.
• Gwnaeth ffiniau San Steffan hollti Cyngor Sir Pen-y-bont ar Ogwr yn dair etholaeth wahanol. Byddai'r pâr newydd yn dod â dwy o'r tair etholaeth hynny at ei gilydd.
• Yn gymdeithasol ac yn economaidd mae gan y pâr fwy yn gyffredin o ran diwydiant hanesyddol, a phryderon o ran dyfodol diwydiannau lleol tebyg, yn fwy felly na'r parau eraill.

**7894 – Aelod o'r Cyhoedd**

Nid oes gan hen bentrefi glofaol de Wrecsam yn ymestyn o Lyn Ceiriog i Rostyllen unrhyw gysylltiad â chymunedau penrhyn Llŷn. Mae pentrefi de Wrecsam yn cysylltu'n naturiol â dinas Wrecsam, yn weinyddol, yn fasnachol, o ran gwaith ac yn gymdeithasol. Mae gwahanu'r cyswllt hwn yn wleidyddol yn drysu llawer o'r etholwyr a byddent yn gweld hyn fel colli AS. Byddai cam o'r fath yn cynyddu'r dadrithiad y mae'r pleidleisiwr cyffredin yn ei deimlo yn y broses ddemocrataidd. Nid yw'n hawdd egluro i rywun sydd am ymgynghori â'u AS eu bod hefyd yn cynrychioli etholwyr sy'n byw 175 km i ffwrdd.
Mae'r angen i gydraddoli etholaethau wedi arwain at yr anghysondeb enfawr bod Glyndŵr wedi'i rhoi ynghlwm wrth Faldwyn.
Byddai'r cynllun hwn yn cynyddu'r anghysondeb a byddai'n arwain at ddryswch pellach ymhlith yr etholwyr. Mae dryswch o'r fath yn arwain at ddadrithiad ynghylch democratiaeth.
Nid yw ffiniau presennol Glyndŵr yn cyd-fynd â ffiniau gwreiddiol y Cyngor Dosbarth felly nid oes cynsail ar gyfer cynnal Glyndŵr fel hunaniaeth ar wahân. Awgrymaf felly y dylid ymgorffori pentrefi de Wrecsam gyda Wrecsam.

**7897 - Ar ran sefydliad (preifat neu gyhoeddus)**

Gweler gyflwyniad ffurfiol gan Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru sy'n cefnogi cynigion i'r de o ffin Sir Drefaldwyn ac yn cynnig cymorth cymwys gyda chynnig arall ymhellach i'r gogledd.



# Adolygiad 2024 o'r ffiniau ar gyfer Etholaethau'r Senedd

# Ymateb i'r Ymgynghoriad Cyntaf

Welsh Liberal Democrats
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

# Tabl Cynnwys

Cyflwyniad ..... 26
Meini prawf ar gyfer adolygu Etholaethau Seneddol ..... 26
Enwi Etholaethau'r Senedd ..... 26
Crynodeb o'r Cynigion ar Lefel Etholaethau ..... 27
Sylwadau ar etholaethau penodol ..... 28
Gogledd Cymru ..... 28
Dwyfor Meirionydd ac Ynys Môn ..... 28
Wrecsam, Maldwyn a Glyndŵr ..... 28
Alun, Glannau Dyfrdwy a Dwyrain Clwyd ..... 28
Bangor Aberconwy a Gogledd Clwyd ..... 28
Crynodeb ..... 28
De Cymru ..... 28
Ceredigion a Sir Benfro ..... 28
Sir Gaerfyrddin ..... 28
Gorllewin Abertawe a Gŵyr ..... 29
Aberhonddu, Maesyfed, Castell-nedd a Dwyrain Abertawe ..... 29
Aberafan, Maesteg, Rhondda ac Ogwr ..... 29
Merthyr, Aberdâr a Phontypridd ..... 29
Sir Fynwy a Thorfaen ..... 29
Blaenau Gwent, Rhymni a Chaerffili ..... 29
Casnewydd ac Islwyn ..... 30
Dwyrain a Gogledd Caerdydd / Gorllewin Caerdydd, De a Phenarth ..... 30
Bro Morgannwg a Phen-y-bont ..... 30
Casgliadau ..... 30

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru

Democracy and Boundary Commission Cymru

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
Democracy and Boundary Commission Cymru

# Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn cynrychioli ymateb Democratiaid Rhyddfrydol Cymru i Gynigion Cychwynnol Adolygiad 2026 o etholaethau'r Senedd fel y'u cyhoeddwyd gan y Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau ym mis Medi 2024.

Mae'n drueni nad oes gan yr adolygiad hwn y pŵer i argymell newid i'r system bleidleisio arfaethedig. Er ein bod yn croesawu'r newid i un dull o ethol o dan system gyfrannol ar gyfer ethol ein Haelodau o'r Senedd, credwn fod system y rhestr gaeedig yn tynnu pŵer sylweddol oddi ar bleidleiswyr ac yn ei grynhoi yn nwylo swyddogion y pleidiau. Mae hyn yn ei gwneud hi'n llawer llai tebygol y bydd trafodaeth o fewn pleidiau ar ôl etholiad rhag ofn y bydd rhywrai'n cael eu dad-ddewis gan bwyllgorau'r pleidiau.

## Meini prawf ar gyfer adolygu Etholaethau Seneddol

O ran y meini prawf a ddefnyddiwyd, rydym yn cydnabod yr angen am etholaethau cyffiniol ac yn cydnabod y cynsail o ddefnyddio'r rhwydwaith ffyrdd i ddiffinio hyn yn adolygiad 2021 ar gyfer San Steffan a'r adolygiad blaenorol a ataliwyd.
Byddem fodd bynnag yn tynnu sylw at y ffaith bod gan Ynys Môn ffin warchodedig ar gyfer etholiadau San Steffan, a phe na bai hyn yn wir, byddai wardiau ychwanegol wedi eu hychwanegu ati ar y tir mawr ac mwy na thebyg y byddai'n rhannu ffin ag o leiaf dwy Etholaeth ar y tir mawr. Gyda hyn mewn golwg, er ein bod yn cymeradwyo'r cynigion ar gyfer Cymru gyfan, i'r gogledd o ffin Maldwyn, rydym yn cynnig, pe bai'r Comisiwn yn ceisio eithriad o'r rheol hon ar gyfer Ynys Môn, fod yna well ffit yn cysylltu Ynys Môn â Dwyfor Meirionydd fel y man cychwyn ar gyfer Gogledd Cymru.

Nesaf, nodwn y modd y fframiwyd penderfyniadau gyda'r nod o leihau nifer yr etholaethau mewn unrhyw un ardal gyngor a lle mae opsiynau'n bodoli i geisio aduno dau hanner etholaeth Senedd bresennol pan fydd wedi'i rhannu ar draws dwy sedd newydd yn San Steffan.

Fodd bynnag, mae angen i ni fynegi ein siom bod y ffiniau hyn yn gyfuniadau o ffiniau o ddeddfwrfa arall gan eu bod yn parhau â gor-gynrychiolaeth Ynys Môn, yn golygu bod angen etholaeth anghymesur o fawr yn Nwyfor Meirionnydd, Maldwyn a Glyndŵr, ac yn gadael wardiau cyngor yn rhychwantu dwy etholaeth wahanol.

Rydym yn derbyn y diffyg amser digonol i gynnal adolygiad o'r fath cyn etholiadau 2026 ond byddem yn annog argymhelliad bod adolygiad o'r fath yn cael ei gynnal cyn y gyfres ganlynol o etholiadau yn 2030.

## Enwi Etholaethau'r Senedd

Mae ffiniau'r Ddeddf yn golygu nad oes fawr o le i newid ffiniau. Yn yr achos hwn rydym yn derbyn yr enwau arfaethedig ac yn ymostwng i gyngor Comisiynydd y Gymraeg ar yr enwau cystrawennol gywir ar gyfer pob etholaeth.

# Crynodeb o'r Cynigion ar Lefel Etholaethau

Rydym yn derbyn y dybiaeth sylfaenol o 16 etholaeth fel ystyriaeth statudol.

Ar y pwynt hwn, rydym yn derbyn ac yn cefnogi'r ffiniau fel y'u cynigir yn y 12 etholaeth sydd i'r de o ffin Maldwyn. Ymhellach, o fewn telerau'r Ddeddf a'r diffiniad sefydledig o gyffinioldeb ar sail y ddau adolygiad diwethaf o etholaethau San Steffan, rydym yn derbyn y cynigion ar gyfer y 4 etholaeth ogleddol sy'n weddill.

Fodd bynnag, byddem yn gofyn i'r Comisiynwyr ystyried y cynnig, gan fod achos arbennig wedi'i wneud i roi statws gwarchodedig i Ynys Môn yn hytrach na'i gwneud i gyd-fynd â'r cwota ym mhroses San Steffan, y gellid hefyd wneud achos i roi statws arbennig iddi ar gyfer yr adolygiad hwn mewn perthynas â chyffinioldeb trwy gyswllt ffordd gan ganiatáu cyswllt â Dwyfor Meirionnydd.

Mewn perthynas â phob un o gynigion y Comisiwn, mae ein hymateb cryno fel a ganlyn:

| Rhif | Enw'r Etholaeth | Cynnig |
|---|---|---|
| 1 | Bangor Aberconwy Ynys Môn | Cefnogi'n Rhannol (dewis arall) |
| 2 | Clwyd | Cefnogi'n Rhannol (dewis arall) |
| 3 | Alun, Glannau Dyfrdwy a Wrecsam (Alyn, Deeside and Wrexham) | Cefnogi'n Rhannol (dewis arall) |
| 4 | Dwyfor Meirionnydd, Maldwyn a Glyndŵr (Dwyfor Meirionnydd, Montgomeryshire and Glyndŵr) | Cefnogi'n Rhannol (dewis arall) |
| 5 | Ceredigion a Sir Benfro (Ceredigion and Pembrokeshire) | Cefnogi'n llawn |
| 6 | Sir Gaerfyrddin (Carmarthenshire) | Cefnogi'n llawn |
| 7 | Gorllewin Abertawe a Gŵyr (Swansea West and Gower) | Cefnogi'n llawn |
| 8 | Aberhonddu, Maesyfed, Castell-nedd a Dwyrain Abertawe (Brecon, Radnor, Neath and Swansea East) | Cefnogi'n llawn |
| 9 | Aberafan Maesteg, Rhondda ac Ogwr (Aberafan Maesteg, Rhondda and Ogmore) | Cefnogi'n llawn |
| 10 | Merthyr Tudful, Aberdâr a Phontypridd (Merthyr Tydfil, Aberdare and Pontypridd) | Cefnogi'n llawn |
| 11 | Blaenau Gwent, Rhymni a Chaerffili (Blaenau Gwent, Rhymney and Caerphilly) | Cefnogi'n llawn |
| 12 | Sir Fynwy a Thorfaen (Monmouthshire and Torfaen) | Cefnogi'n llawn |
| 13 | Casnewydd ac Islwyn (Newport and Islwyn) | Cefnogi'n llawn |
| 14 | Dwyrain a Gogledd Caerdydd (Cardiff East and North) | Cefnogi'n llawn |
| 15 | Gorllewin Caerdydd, De a Phenarth (Cardiff West, South and Penarth) | Cefnogi'n llawn |
| 16 | Bro Morgannwg a Phen-y-bont (Vale of Glamorgan and Bridgend | Cefnogi'n llawn |

# Sylwadau ar etholaethau penodol

## Gogledd Cymru

O fewn cyfyngiadau'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau, rydym yn cefnogi'r cynigion a gyflwynwyd gan y Comisiwn. Fodd bynnag, pe bai'r Comisiwn yn barod i ystyried Ynys Môn fel eithriad byddem yn awgrymu'r canlynol.

### Dwyfor Meirionydd ac Ynys Môn

Mae'r brif ffordd gyswllt (A5) o Ynys Môn yn ymuno â'r tir mawr ac yn cysylltu â'r A487 o fewn etholaeth Bangor Aberconwy. Mae'r anheddiad agosaf yn yr etholaeth hon tua 200 metr i'r gogledd-ddwyrain o'r gyffordd hon. Mae ail anheddiad 1.5km i'r de-orllewin ger y gyffordd â'r A4087 yn Nwyfor Meirionydd yn Aberpwll. Nid yw cyswllt yr A5 yn mynd trwy unrhyw anheddiad o fewn etholaeth Bangor Aberconwy cyn y gylchfan gyntaf a gellid dadlau ei bod yn darparu cyswllt uniongyrchol i'r naill neu'r llall o'r ddwy sedd yn San Steffan. O gyfuno â Dwyfor Meirionnydd byddech yn creu etholaeth yn gyfan gwbl o fewn dwy ardal gyngor yn hytrach na'r tair yn y cynnig presennol.

### Wrecsam, Maldwyn a Glyndŵr

Gan weithio'n wrthglocwedd, mae gan Faldwyn a Glyndŵr ffin gyffredin â Wrecsam a Dwyrain Clwyd. Fodd bynnag, dim ond wardiau o ardal Cyngor Wrecsam sydd ganddi ar hyn o bryd. Byddai cyfuno ag etholaeth Wrecsam yn golygu bod Wrecsam gyfan ac eithrio ward wledig Llangollen mewn un sedd yn y Senedd, anghysondeb sydd hefyd yn bresennol yng nghynigion y Comisiwn.

### Alun, Glannau Dyfrdwy a Dwyrain Clwyd

Mae'r cynnig uchod yn gadael Alun a Glannau Dyfrdwy yn dirgaeëdig gan Ddwyrain Clwyd. Mae ganddo'r fantais ychwanegol o ddod â Sir y Fflint i gyd i mewn i un Etholaeth Senedd.

### Bangor Aberconwy a Gogledd Clwyd

Dyma'r unig gyfuniad sy'n weddill yn y gogledd a byddai'n arwain at Gyngor Conwy i gyd yn dod o fewn un Etholaeth Senedd.

### Crynodeb

Byddai'r newidiadau hyn yn lleihau ardal ddaearyddol yr etholaeth fwyaf arfaethedig yn sylweddol a byddai'n symleiddio'r ymgynghori ag Aelodau o'r Senedd ar gyfer Cynghorau Wrecsam, Sir y Fflint a Chonwy.

## De Cymru

### Ceredigion a Sir Benfro

Roedd y cynnig hwn yn ailsefydlu'r cysylltiad yn sedd hanesyddol Preseli Penfro ac yn creu etholaeth sy'n gyfan gwbl o fewn dwy ardal gyngor ac felly rydym yn ei gefnogi fel cymhwysiad cyson o'r canllawiau ac sy'n gadarn o ran gweithio ar lefel traws-weinyddol.

### Sir Gaerfyrddin

Yn yr un modd, rydym yn cefnogi'r syniad bod cydffiniaeth rhwng yr awdurdod lleol ac etholaeth y

Senedd.

## Gorllewin Abertawe a Gŵyr

Roedd fersiwn flaenorol Gorllewin Abertawe ar lefel San Steffan yn cynnwys cymunedau Cilâ a Dyfnant. Rydym yn croesawu'r ad-drefniad hwn a'r ailgysylltu hanesyddol. Rydym hefyd yn cydnabod na allai Gŵyr ond cysylltu fel yma neu ag Aberhonddu, Maesyfed a Chwm Tawe y credwn sydd â chysylltiadau hanesyddol cryfach mewn mannau eraill.
Fodd bynnag, oherwydd bod mympwyon y newidiadau i ffiniau yn anghyson, mae hyn yn golygu y bydd ward y Glannau yn cael ei rhannu dros ddwy Etholaeth y Senedd.

## Aberhonddu, Maesyfed, Castell-nedd a Dwyrain Abertawe

Dyma'r ail etholaeth y credwn sydd â diffyg cydlyniant naturiol y gellid bod wedi'i gyflawni drwy adolygiad cynhwysfawr yn seiliedig ar lefel wardiau cyngor. Ein canfyddiad yw bod diffyg hygrededd llwyr yn y syniad y gall etholaeth sy'n ymestyn o'r pontydd dros afon Tawe ger Sainsbury yn Abertawe yr holl ffordd i fyny Cwm Tawe ac yna i fyny at Raeadr a Threfyclo yng ngogledd Sir Faesyfed dros 80 milltir i ffwrdd ac sy'n cynnwys tair ardal gyngor, mewn unrhyw fodd ganiatáu cynrychiolaeth effeithiol o gymunedau gwledig a threfol.
Fodd bynnag, o ystyried y canllawiau, rydym yn cytuno mai'r pâr hwn, gan gynnwys etholaeth hanesyddol Castell-nedd o'i fewn, yw'r ffit orau o ystyried y byddai unrhyw gyfuniad arall yn achosi sgil-effeithiau andwyol ar draws gweddill de Cymru.

## Aberafan, Maesteg, Rhondda ac Ogwr

Yr unig ddewis arall yn lle'r pâr hwn yw cysylltu Aberafan â Phen-y-bont ar Ogwr. Byddai'r pâr hwn wedyn yn arwain at oblygiadau ymhellach i'r dwyrain a fyddai'n gwanhau'n ddifrifol y cysylltiadau sy'n cael eu cynnig yn y cynlluniau gwreiddiol. Ar y sail honno, byddem yn cefnogi'r cynnig hwn.

## Merthyr, Aberdâr a Phontypridd

Rydym yn cefnogi'r cynnig hwn sy'n ail-greu'r cysylltiad drwy Gwm Cynon a gollwyd yn adolygiad San Steffan ac sy'n creu etholaeth gydlynol yn seiliedig ar gysylltiadau craidd yr A470 a Chymoedd Cynon a Thaf.

## Sir Fynwy a Thorfaen

Drwy gyfuno dwy etholaeth Casnewydd yn un, a chydnabod y cysylltiadau cymunedol cryf sy'n cael eu hadfer drwy ailuno wardiau hen etholaeth Castell-nedd rydych yn cael eich gadael â'r sefyllfa lle mai dim ond Sir Fynwy a Thorfaen sy'n rhannu ffin gyffredin â'i gilydd neu Blaenau Gwent a Rhymni. Mae hyn yn golygu nad oes dewis arall ar ôl yn hytrach na'u cyfuno i sicrhau nad yw cysylltiadau cryfach mewn mannau eraill yn cael eu torri.

## Blaenau Gwent, Rhymni a Chaerffili

Fel yn achos cymaint o seddi eraill, unwaith y mae cysylltiadau cymunedol cryf a dorrwyd gan adolygiad San Steffan yn cael eu hailsefydlu, mae'r opsiynau mewn mannau eraill yn mynd yn gyfyngedig. Yn yr achos hwn, canlyniad y penderfyniad i dynnu dau hanner hen Etholaeth Castell-nedd yn ôl at ei gilydd yw creu'r pâr rhwng Sir Fynwy a Thorfaen a amlinellwyd uchod. Mae hyn wedyn yn gadael creu'r sedd fel sy'n cael ei gynnig gan y Comisiwn fel yr opsiwn mwyaf ymarferol. Byddai'r dewis arall yn arwain at dorri cyswllt Cwm Cynon ac yn cynyddu nifer yr etholaethau a fyddai'n ymwneud â Chyngor Caerffili. Mae hyn yn groes i ymagwedd ein plaid o ail-greu cysylltiadau hanesyddol a lleihau nifer yr Aelodau Seneddol o fewn ardal gyngor.

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
Democracy and Boundary Commission Cymru

### Casnewydd ac Islwyn

Un o'r egwyddorion allweddol i Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru wrth baratoi'r cyflwyniad hwn oedd sicrhau, lle bynnag y bo'n bosibl, bod Dinasoedd Cymru sydd wedi'u rhannu ar lefel San Steffan yn cael eu huno yn yr un sedd yn y Senedd. Mae'r cynnig hwn yn bodloni'r nod hwnnw ac yn sicrhau bod gan endid Cyngor Casnewydd gynrychiolaeth gyffredin.

### Dwyrain a Gogledd Caerdydd / Gorllewin Caerdydd, De a Phenarth

Fel y Brifddinas nid yw'n gwneud unrhyw synnwyr rhesymegol i rannu Caerdydd yn fwy o etholaethau nag sydd angen felly rydym yn croesawu'r penderfyniad i greu 2 etholaeth Senedd o'r 4 etholaeth yn San Steffan. Gallai achos gael ei wneud dros gysylltu Penarth â gweddill ardal cynghorau Bro Morgannwg. Fodd bynnag, credwn y byddai'r newidiadau canlyniadol o gael 18 Aelod o'r Senedd yn cynrychioli Caerdydd yn golygu y byddai gan Gaerdydd ddylanwad anghyfrannol ar y Senedd. At hynny, byddai'r effaith ar ardaloedd eraill yn golygu bod angen cysylltu Pontypridd â Gorllewin Caerdydd a cholli'r cyfle i ailgysylltu Cwm Cynon. Felly, rydym yn gwrthod hyn o'n hystyriaeth.

Y cwestiwn wedyn yw paru. Yma rydym yn cefnogi cynnig y Comisiwn. Mae De Caerdydd a Phenarth eisoes yn pontio Afon Taf ac mae nifer o ffyrdd yn cysylltu'r ddwy etholaeth. Mewn cyferbyniad, mae'r cyfuniad Gogledd/Gorllewin wedi'i gyfyngu i ddim ond tri man i groesi'r afon, a dim ond un ohonynt, yn Llandaf, y gellid ei hystyried yn ffordd breswyl. Mae hyn yn cyferbynnu â'r ffin rhwng y Dwyrain a'r Gogledd sydd, heblaw lle mae'n dilyn y rheilffordd, yn tueddu i ddilyn ffyrdd lle mae ystadau tai yn y naill etholaeth a'r llall yn ymledu i bob ochr i'r llinell rhyngddynt.

### Bro Morgannwg a Phen-y-bont

Yr unig gwestiwn mewn perthynas â'r pâr hwn sy'n deillio o'r penderfyniad ynghylch Caerdydd yw a allwch chi greu gwell cyfuniad. Yr unig ddewis arall ar gyfer y Fro fyddai cysylltiad ag etholaeth Pontypridd. Fodd bynnag, mae'r ffin gyffredin hon yn gyfyngedig gyda'r mwyafrif ohoni'n rhedeg ar hyd yr M4 a'r gweddill mewn cefn gwlad agored. Felly, deuwn i'r casgliad mai trech o lawer na hyn yw manteision cynlluniau'r Comisiwn ar gyfer Pontypridd sy'n ail-greu'r cysylltiad ar hyd Cwm Cynon i gyd.

## Casgliadau

Mae'r strwythur deddfwriaethol ar gyfer yr adolygiad hwn yn llawer mwy cyfyngedig na'r adolygiad arferol o etholaethau ac o'r herwydd credwn fod yr opsiynau ar gyfer y ffiniau arfaethedig yn eithriadol o gyfyngedig. O'r herwydd, byddai Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn cymeradwyo'r cynigion a gyflwynwyd fel y ffit orau oddi mewn i'r canllawiau statudol a'n barn ein hunain ar geisio adfer cysylltiadau hanesyddol tra'n lleihau nifer Aelodau o'r Senedd sy'n cynrychioli ardal gyngor.

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
Democracy and Boundary Commission Cymru

Fodd bynnag, byddem yn annog y Comisiynwyr i ystyried yr amgylchiadau unigryw sy'n bodoli mewn perthynas ag Ynys Môn. Mae hon yn etholaeth warchodedig ar lefel San Steffan a chanlyniad y ffaith ei bod yn etholaeth lai a'r ffaith mai un ffordd gyswllt sydd i'r tir mawr yw nad oes dewis yn y ffiniau yng ngogledd Cymru gan arwain at un etholaeth ddaearyddol enfawr. Byddai hyn wedi ei negyddu pe bai hwn yn adolygiad ar lefel wardiau. Os yw'r Comisiynwyr yn bwriadu archwilio'r opsiwn hwn, rydym yn cynnig dewis arall, a amlinellir uchod, sy'n lleihau maint ardal etholaeth ac sy'n cynyddu nifer y cynghorau sydd o fewn un Sedd Senedd.

## 7898 – Aelod o'r Cyhoedd

Gweler y cyflwyniad wedi'i uwchlwytho. Er mwyn bod yn hynod ofalus, rydym hefyd wedi anfon yr atodiad drwy e-bost i consultations@boundaries.wales.

Mae'r cyflwyniad yn nodi ein rhesymau dros anghytuno â chynnig y Comisiwn ac yn dadlau dros baru Gogledd Caerdydd a Gorllewin Caerdydd.

**CYFLWYNIAD I GOMISIWN DEMOCRATIAETH A FFINIAU CYMRU**

**Cefndir**:

1. Gan Adran 17 *o Ddeddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024* (Deddf 2024), mae Atodlen 2 iddi yn gwneud darpariaeth ar gyfer swyddogaethau Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru (y Comisiwn) wrth benderfynu pa etholaethau sydd i'w paru ar gyfer etholiad cyffredinol yng Nghymru a gynhelir ar ôl 6 Ebrill 2026 a chyn i reoliadau o dan adran 49J o Ddeddf *Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru ac ati 2013* ddod i rym.

2. Rydym yn drigolion Tongwynlais o fewn etholaeth Seneddol y DU, Gogledd Caerdydd, ac wedi bod felly ers dros 40 mlynedd. Mae gennym y sylwadau a ganlyn i'w gwneud mewn ymateb i ddogfen ymgynghori'r Comisiwn ar etholaethau newydd y Senedd.

3. Mae paragraff 1 o Atodlen 2 i Ddeddf 2024 yn darparu bod yn rhaid i bob etholaeth newydd y Senedd gynnwys ardaloedd cyfun dwy etholaeth seneddol y DU yng Nghymru sy'n gyffiniol.

4. Mae paragraff 4 o Atodlen 2 i Ddeddf 2024 yn darparu:
Wrth ystyried y cyfuniadau posibl o etholaethau seneddol y DU yng Nghymru, caiff y Comisiwn gymryd i ystyriaeth—

> (a) ffiniau llywodraeth leol sy'n bodoli ar ddyddiad yr adolygiad;
>
> (b) ystyriaethau daearyddol arbennig, gan gynnwys, yn benodol, maint, siâp a hygyrchedd etholaeth arfaethedig yn y Senedd;

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
Democracy and Boundary Commission Cymru

(c) unrhyw gysylltiadau lleol (gan gynnwys cysylltiadau lleol sy'n ymwneud â'r defnydd o'r Gymraeg) a fyddai'n cael eu torri gan y parau arfaethedig.

5. Edrychwn ar y ffactorau hyn isod ond cyn gwneud hynny mae'n werth nodi goblygiadau paragraff 1 o Atodlen 2: bod y Comisiwn yn adeiladu ar waith a phenderfyniadau'r Comisiwn Ffiniau i Gymru sydd hefyd yn cyfyngu ar gwmpas ei allu i bennu ffiniau.

6. Yn achos Gogledd Caerdydd, yr etholaethau cyffiniol sy'n bodloni'r gofyniad ym Mharagraff 1 o Atodlen 2 uchod yw Caerffili, Dwyrain Caerdydd, De Caerdydd a Phenarth, Gorllewin Caerdydd, Gorllewin Casnewydd ac Islwyn a Phontypridd.

**Ffiniau awdurdodau lleol sy'n bodoli ar ddyddiad yr adolygiad**

7. Yn anochel, pan fydd etholaethau'r Senedd yn croesi ffiniau awdurdodau lleol, rhaid i Aelodau o'r Senedd feithrin arbenigedd ar weinyddiaeth a pholisïau mwy nag un awdurdod lleol sy'n golygu mwy o waith a mwy o bwysau ar amser yr Aelodau o'r Senedd.

8. Ar y sail hon yn unig felly mae'n ddymunol iawn bod cyn lleied â phosibl o groesi ffiniau a byddem yn diystyru paru â Chaerffili, Gorllewin Casnewydd ac Islwyn a Phontypridd ac rydym yn derbyn bod y canlyniad gorau i Ogledd Caerdydd i'w gael trwy baru ag etholaeth arall yn ardal Caerdydd.

9. Ond, fel y nodwyd eisoes uchod, oherwydd bod yn rhaid i'r Comisiwn dderbyn ffiniau Senedd y DU fel y maent, ni ellir diystyru croesi ffiniau yn gyfan gwbl gan fod etholaethau ardal Caerdydd a bennwyd gan y Comisiwn Ffiniau i Gymru eisoes yn gwneud hynny.

10. Yn achos De Caerdydd a Phenarth sy'n pontio'r ffin rhwng Dinas a Sir Caerdydd a Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg, mae hyn yn hirsefydlog. Byddai paru Gogledd Caerdydd a De Caerdydd a Phenarth yn golygu bod yn rhaid i'r Aelodau o'r Senedd ymgodymu â pholisïau tri awdurdod lleol, sef Dinas a Sir Caerdydd, Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg a Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf[1]. Rydym yn awgrymu bod hyn yn annymunol iawn ac yn rheswm dros ddiystyru paru o'r fath.

11. Yn fwy diweddar, oherwydd diwygiad diweddar i Ddeddf Etholaethau Seneddol 1986, a gyflwynodd Gwota Etholiadol y DU (UKEQ)[2] a'r rheol 5% o wyriad, mae dwy etholaeth fwrdeistref seneddol Gogledd Caerdydd a Gorllewin Caerdydd yn croesi'r ffin rhwng Dinas a Sir Caerdydd a Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.

12. Mae'r ffin yn cael ei chroesi yng Ngogledd Caerdydd lle mae ward yr Eglwys Newydd a Thongwynlais yn Ninas a Sir Caerdydd a ward Ffynnon Taf ym Mwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn cwrdd, ac yng Ngorllewin Caerdydd lle mae ward Creigiau/Sain Ffagan yn Ninas a Sir Caerdydd a ward Pont-y-Clun ym Mwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn cwrdd.

13. Bydd gweinyddiaeth a pholisïau Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf felly yn effeithio ar Ogledd Caerdydd a Gorllewin Caerdydd ac, fel yr eglurwyd ym mharagraff 7 uchod, bydd angen arbenigedd ehangach a bydd yn golygu mwy o waith i Aelod o'r Senedd. Awgrymwn mai'r ffordd fwyaf effeithlon o gyflawni hyn yw trwy dîm o Aelodau o'r Senedd o un etholaeth y Senedd. Y goblygiad naturiol, felly, yw y dylid paru Gogledd Caerdydd a Gorllewin Caerdydd. Os caiff Gorllewin Caerdydd ei pharu â De Caerdydd a Phenarth, byddai'n wynebu'r un broblem ag y byddai Gogledd Caerdydd mewn paru o'r fath, sef ymgodymu â pholisïau tri (3) awdurdod lleol. Mae hyn yn ffordd hynod aneffeithlon i symud ymlaen ac yn rysáit ar gyfer dryswch.

**Ystyriaethau daearyddol arbennig, gan gynnwys, yn benodol, maint, siâp a hygyrchedd etholaeth arfaethedig yn y Senedd:**

14. I'r gogledd mae Caerdydd wedi'i ffinio'n ddaearyddol gan y gadwyn o fryniau sy'n ymestyn ar draws Gogledd Caerdydd – Craig Llys-faen, Y Wenallt a Chraig yr Allt yn Nantgarw – i Orllewin Caerdydd – y Garth a Soar – ac felly trwy hynny mae Gorllewin Caerdydd a Gogledd Caerdydd wedi'u huno. I'r de mae'r ffin sy'n cael ei ffurfio gan yr arfordir yn uno De Caerdydd a Phenarth a Dwyrain Caerdydd. Awgrymir bod hon yn ystyriaeth ddaearyddol arbennig sy'n cefnogi paru Gogledd Caerdydd â Gorllewin Caerdydd, a Dwyrain Caerdydd â De Caerdydd a Phenarth.

15. Mae Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd yn cynnwys ardal warchodedig o'r enw Lletem Las. Mae'r ardal wedi'i diogelu i atal ymlediad trefol a chynnal y gwahaniad rhwng Caerdydd a'r cymunedau cyfagos. Mae wedi'i lleoli'n bennaf i'r gogledd o Gaerdydd, gan ymestyn o Greigiau yng Ngorllewin Caerdydd i Bentref Llaneirwg yng Ngogledd Caerdydd. Mae'r nodwedd gyffredin hon rhwng y ddwy etholaeth seneddol yn y fwrdeistref yn ystyriaeth ddaearyddol arbennig arall sy'n cefnogi paru Gogledd Caerdydd a Gorllewin Caerdydd.

16. Er ein bod yn nodi, at ddibenion pennu ffiniau etholaethau seneddol y DU, bod Afon Taf yn cynnig nodwedd naturiol sy'n gwahanu Gogledd Caerdydd oddi wrth Orllewin Caerdydd, awgrymwn, wrth asesu'r darlun ehangach sy'n ofynnol gan y camau paru statudol, mae'r ymdeimlad cyffredin o berthyn sydd ar waith ymhlith y cymunedau ar hyd dyffryn yr afon o Ffynnon Taf, Tongwynlais, yr Eglwys Newydd, Ystum Taf a Gabalfa yng Ngogledd Caerdydd, a Llandaf a Radur yng Ngorllewin Caerdydd, yn dod yn hollbwysig. Mae'r ddwy etholaeth wedi'u cysylltu gan bont ffordd yn wardiau Llandaf / Ystum Taf a chan ffordd ym Mhont Ynys[3] sy'n cysylltu cymunedau Tongwynlais / Ffynnon Taf / Pentyrch, gyda'r olaf yn cynnwys Gwaelod y Garth. Rhwng y ddwy bont ffordd, mae yna hefyd groesfannau i gerddwyr/beicwyr oddi ar Daith Taf wrth y Bont Haearn, Tongwynlais, (yn arwain i Fferm Gelynis a Threforgan), a'r Bont Las yn Radur (yn rhoi mynediad i orsaf reilffordd Radur). Mae holl gwrs maes glas yr afon o fewn Caerdydd wedi'i gynnwys

yn y ddwy etholaeth hyn, ac mae materion cynaliadwyedd, ecoleg, amddiffyn rhag llifogydd, llygredd ac ansawdd dŵr, a'r defnydd o'r ddyfrffordd, yn creu buddiannau cyffredin ar draws y ddwy etholaeth ac maent yn ystyriaeth arbennig o bwysig yn ddaearyddol ac o ran hygyrchedd a fyddai'n elwa o gynrychiolaeth gan un etholaeth.

17. Mae gwasanaeth Stagecoach 136 o Greigiau yng Ngorllewin Caerdydd i Ganol Dinas Caerdydd yn teithio drwy Bentyrch (Gorllewin Caerdydd) a'r Eglwys Newydd a Gabalfa (Gogledd Caerdydd). Mae hon yn ystyriaeth bwysig o ran trafnidiaeth gyhoeddus a hygyrchedd sy'n cefnogi paru Gorllewin Caerdydd a Gogledd Caerdydd o ran y gynrychiolaeth orau i'w darparu gan Aelodau'r Senedd.

18. Tra bod Gogledd Caerdydd a De Caerdydd a Phenarth yn cyffwrdd ar ddarn byr o'r ffin rhwng ward Cathays yn Ne Caerdydd a Phenarth a wardiau Gabalfa a'r Mynydd Bychan yng Ngogledd Caerdydd, awgrymwn fod y maint a'r siâp eicon amserydd wy hir a geir yn sgil hyn yn rhywbeth i'w osgoi ac yn rheswm arall i ddiystyru paru'r ddwy etholaeth seneddol y DU.

19. Er mwyn bod yn gyflawn, dylem ddweud hefyd fod y siapiau a'r meintiau hir ac anhylaw a fyddai'n cael eu creu yn rheswm arall dros ddiystyru paru Gogledd Caerdydd a Chaerffili, Gorllewin Casnewydd ac Islwyn neu Bontypridd.

20. Yn ogystal ag Afon Taf, mae hygyrchedd i ac o, ac oddi mewn i Ogledd Caerdydd a Gorllewin Caerdydd yn cael ei wella'n sylweddol drwy ddatblygiad parhaus Metro De Cymru, gan gynnwys trydaneiddio rheilffyrdd y Cymoedd. Mae bwriad creu gorsaf Metro newydd yn yr Hen Iard Lo ym Mynachdy (Ward Gabalfa yng Ngogledd Caerdydd). Mae'r rheilffordd yn cysylltu dwy ochr yr afon yn Llandaf a Ffynnon Taf (Gogledd Caerdydd) a Radur (Gorllewin Caerdydd). Bydd depo newydd Trafnidiaeth Cymru yn Ffynnon Taf (Gogledd Caerdydd) yn dod yn "ganolbwynt" i'r Metro. Mae'r datblygiad wedi'i ganoli ar ryngwyneb Afon Taf Gogledd Caerdydd/Gorllewin Caerdydd. Unwaith eto, mae gan etholaethau seneddol Gogledd Caerdydd a Gorllewin Caerdydd fuddiannau cyffredin pwerus. Mae hon yn ystyriaeth hygyrchedd hynod bwysig arall sy'n ffafrio paru Gogledd Caerdydd a Gorllewin Caerdydd.

21. O ran cysylltiadau ffyrdd, y prif hybiau traffig sy'n rhoi mynediad i Gaerdydd yw cyffyrdd 30 (Porth Caerdydd) a 32 (Coryton) yr M4 – y ddau yng Ngogledd Caerdydd – cyffordd 33 yr M4 (Capel Llanilltern) – yng Ngorllewin Caerdydd – wedi'u cysylltu â Chroes Cwrlwys ger yr A4232(N) – yng Ngorllewin Caerdydd – sy'n croestorri â'r A48 sy'n rhedeg drwy Gaerdydd.

22. Yn ogystal, trwy gyfrwng yr A48M oddi ar yr M4 sy'n troi'n Rhodfa'r Dwyrain (A48), mae cyfnewidfa/trosffordd Gabalfa yng Ngogledd Caerdydd yn rhoi mynediad i Ganol Dinas Caerdydd; Gogledd Caerdydd drwy Rodfa'r Gogledd/A470 sy'n arwain at gyfnewidfa Coryton a'r Cymoedd; a Gorllewin Caerdydd trwy Rodfa'r Gorllewin (A48) sy'n arwain at Bont Trelái ac oddi yno i Groes Cwrlwys.

23. Yn ddyddiol, mae cymudwyr, sy’n teithio i mewn ac allan o’r ddinas ar gyfer gwaith, yn symud i gyfeiriad gogledd-de yn fras ac yn cydgyfeirio yn yr hybiau hyn, gan achosi tagfeydd, (gan gynnwys cymudwyr o’r Cymoedd ac yn y gogledd-orllewin o amgylch ward Pont-y-Clun, Rhondda Cynon Taf, sydd wedi’i chysylltu’n ddiweddar. Mae coridor yr M4 i’r gogledd, a’r A48 i’r de, gyda’r A4232(N) a’r A470 yn cysylltu’r ddau, yn ffurfio’r fframwaith traffig sylfaenol ar gyfer symud ar draws lled etholaeth arfaethedig Gorllewin Caerdydd-Gogledd Caerdydd. Awgrymir bod gan y ddwy etholaeth, sef Gogledd Caerdydd a Gorllewin Caerdydd fuddiannau cyffredin sylweddol yn y gwaith o reoli a rheoleiddio’r hybiau a’r llwybrau hyn, a’r teithiau drwyddynt ac ar eu hyd, a dyma reswm arall ar sail hygyrchedd dros baru'r ddwy etholaeth.

24. Mae Taith Taf, sy’n cychwyn ym Mae Caerdydd, yn rhedeg trwy Orllewin Caerdydd yng Ngerddi Sophia, Caeau Pontcanna, a thrwy Ogledd Caerdydd ym Mharc Hailey, Fferm y Fforest, yr Eglwys Newydd a Thongwynlais, cyn parhau i'r gogledd i Aberhonddu. Mae hwn yn llwybr Teithio Llesol pwysig i’r gwaith ac ar gyfer byw’n iach a hamdden sy’n cysylltu Gogledd Caerdydd a Gorllewin Caerdydd. Unwaith eto, caiff anghenion y rhan hon o goridor teithio beiciau/cerddwyr hynod bwysig a’i ddefnyddwyr yng nghyd-destun Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 eu cynrychioli orau gan dîm unigol o Aelodau o’r Senedd o un etholaeth y Senedd. Mae hon yn ystyriaeth hygyrchedd arall sy'n ffafrio paru Gogledd Caerdydd â Gorllewin Caerdydd.

**Unrhyw Gysylltiadau Lleol (gan gynnwys Cysylltiadau Lleol sy'n Ymwneud â'r Defnydd o'r Gymraeg) a fyddai'n cael eu Torri gan y Parau Arfaethedig.**

25. *Clymau Iaith Gymraeg*: Caerdydd yw'r ardal fwyaf niferus a’r ardal sy'n tyfu gyflymaf yng Nghymru o ran yr iaith Gymraeg. Mae'r duedd hon, mewn gwirionedd, wedi'i chrynhoi'n fawr yng Ngorllewin Caerdydd a Gogledd Caerdydd. Mae gan bedair ar ddeg (14) o wardiau yng Nghaerdydd fwy o siaradwyr Cymraeg na chyfartaledd Caerdydd o 10.1%; o'r rhain, mae un ar ddeg (11) yng Ngorllewin Caerdydd a Gogledd Caerdydd, gan gynnwys yr wyth ward sydd â'r ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg[4]. Maent yn ffurfio bloc cyffiniol sy'n ymestyn o'r Gorllewin i'r Dwyrain, o Greigiau a Phentyrch yn y Gogledd Orllewin, drosodd i Lys-faen yn y Dwyrain, gan gynnwys y ddwy ysgol uwchradd hanesyddol gysylltiedig yng Nglantaf a Phlasmawr. Awgrymir y bydd paru Gogledd Caerdydd a Gorllewin Caerdydd yn rhoi i darged y Senedd o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 lais cryfach a mwy effeithiol o fewn y Senedd a’r genedl. Awgrymir ymhellach fod yn rhaid i “dorri clymau” yn y cyd-destun hwn hefyd olygu tanseilio a gweithredu mewn modd nad yw’n hyrwyddo polisi a dyheadau’r Senedd o ran y Gymraeg.

26. *Clymau eraill:* Mae'r un bloc cyffiniol hwn wedi'i nodweddu gan gymunedau mwy gwledig sy'n seiliedig ar bentrefi, mewn cyferbyniad â natur gynhenid drefol canol y ddinas a llawer o rannau dwyreiniol a deheuol y ddinas sy'n ymestyn i'r arfordir. Amlygir hyn gan y ffaith bod pob un o chwe Chyngor Cymuned Caerdydd yn gorwedd o fewn Gogledd Caerdydd (Llys-faen; Pentref Llaneirwg; Tongwynlais) a

Gorllewin Caerdydd (Radur a Threforgan, Pentyrch - sy'n cwmpasu Creigiau, Gwaelod y Garth a Phentyrch - a Sain Ffagan). Ymhellach, oddi mewn i Ogledd Caerdydd, mae ward Ffynnon Taf ym Mwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn cynnwys pentref Nantgarw ac mae hyn yn cydffinio â Chymuned Ffynnon Taf a Nantgarw sydd hefyd â'i Chyngor Cymuned ei hun. Byddai uno'r cymunedau hyn o dan set gyffredin o gynrychiolwyr y Senedd yn ei gwneud yn fwy tebygol y byddai eu buddiannau a'u nodweddion cyffredin, gan gynnwys strwythurau llywodraethu, yn cael eu cynrychioli'n effeithiol. Mae llawer o'r buddiannau cyffredin hyn yn adlewyrchu natur dyffryn Afon Taf fel cyswllt trafnidiaeth hanfodol i'r rhanbarth.

27. Yn ogystal, wrth fynd heibio mae'n werth nodi y byddai lleoli ward Ffynnon Taf, Rhondda Cynon Taf, a ward Pentyrch (sy'n cynnwys Gwaelod y Garth), Dinas a Sir Caerdydd yn yr un sedd Senedd yn hybu ac yn osgoi torri clymau naturiol rhwng y ddwy gymuned fechan yma.

28. Yn olaf, mae Ysgol Gynradd Tongwynlais yng Ngogledd Caerdydd yn ysgol fwydo ar gyfer Ysgol Gyfun Radur yng Ngorllewin Caerdydd. Er mwyn i Aelod o'r Senedd ddarparu'r gynrychiolaeth orau, dylai ysgolion cynradd ac uwchradd fod yn eu hetholaeth.

**Casgliadau**

29. Mae'r Comisiwn wedi cynnig paru Gogledd Caerdydd a Dwyrain Caerdydd. Awgrymwn, o gymhwyso'r ystyriaethau uchod a restrir ym mharagraff 4 o Atodlen 2 a'n rhesymeg ein hunain, nad yw cynnig y Comisiwn yn adlewyrchu'r trefniadau gorau ar gyfer etholaeth Gogledd Caerdydd na hyd yn oed etholaethau eraill ym mwrdeistref Caerdydd.

30. Yng ngoleuni'r ystyriaethau a'r rhesymu hyn gofynnwn am baru Gogledd Caerdydd â Gorllewin Caerdydd ac nid Dwyrain Caerdydd. Awgrymwn, ar wahân i baru De Caerdydd a Phenarth, nad yw'r newid hwn yn cael unrhyw sgil-effaith arall.

**Rydym yn cydsynio i CDFfC gysylltu â ni i ddarparu diweddariadau e-bost am yr adolygiad hwn o ffiniau etholiadol.**

**30 Medi 2024**

*[1] Gweler paragraff rhif 11.*
*[2] Wedi'i ddiffinio ym mharagraff 2 o Atodlen 2 i Ddeddf Etholaethau Seneddol 1986 fel y'i diwygiwyd.*
*[3] Mewn gwirionedd mae dwy bont ffordd ym Mhont Ynys ac mae un ohonynt yn adeilad rhestredig gradd II sydd yng ngofal CADW.*
*[4] Wedi'i ddiffinio fel y rhai sy'n gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg yn ôl Cyfrifiad 2021.*

**7899 - Ar ran sefydliad (preifat neu gyhoeddus)**

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
Democracy and Boundary Commission Cymru

[HEPGOR]

Rwy’n ysgrifennu ar ran Plaid Lafur Etholaeth Castell-nedd a Dwyrain Abertawe i gofrestru gwrthwynebiadau i’r cynigion ffiniau arfaethedig ar gyfer Sedd y Senedd yn 2026, lle byddai Castell-nedd a Dwyrain Abertawe, ac Aberhonddu, Maesyfed a Chwm Tawe yn cael eu paru i ffurfio Sedd newydd yn y Senedd.

Dymunwn godi’r gwrthwynebiadau a ganlyn i’r cynnig –

1. Teimlir bod maint yr etholaeth yn rhy fawr. Bydd yn dechrau yn ward St Thomas yn Abertawe, a bydd yn cwmpasu ardal Llanandras a Cheintun ar y ffin â Lloegr.

Bydd teithio o glwb The Dockers yn Abertawe (yr adeilad cyntaf yn yr etholaeth newydd) i'r ffin ogleddol yn cymryd dros 2 awr mewn car a bydd yn amhosibl i aelod o'r cyhoedd deithio ar drafnidiaeth gyhoeddus.

Mae pobl yn hoffi gallu uniaethu â’r gwleidyddion sy’n eu cynrychioli a gwybod eu bod yn byw yn lleol ac yn rhannu’r un profiadau bywyd, yn defnyddio’r un gwasanaethau cyhoeddus, ac yn anfon eu plant i ysgolion yn yr un ardal.

Yn y pen draw fe allech chi gael yr holl ASau yn byw mewn un rhan o'r sedd lle bydd gan bobl bellteroedd hir i gwrdd â nhw ar gyfer cymorthfeydd cyngor ac ati.

Mae pobl yn hoffi cyfarfod â'u cynrychiolwyr wyneb yn wyneb a bydd maint yr etholaeth hon yn rhwystr mawr i bobl allu cyfarfod â'u cynrychiolydd wyneb yn wyneb.

Efallai bod tueddiad i ddibynnu ar e-bost a chyfathrebu electronig yn yr oes sydd ohoni ond nid yw llawer o bobl oedrannus yn defnyddio e-bost ac ati ac eto mae anawsterau wrth gwrdd â'u cynrychiolydd am fod yn broblem fawr.

Mae hon yn ardal llawer rhy fawr i gael ei chwmpasu'n ddigonol o fewn un sedd.

2. Mae’r ddwy etholaeth bresennol a fydd yn ffurfio’r sedd newydd yn gwbl amrywiol gyda hen etholaeth Castell-nedd a Dwyrain Abertawe yn hen ardal ddiwydiannol, tra bod etholaeth Brycheiniog a Maesyfed yn ei hanfod yn sedd wledig gyda chanran fawr o’i phoblogaeth yn cael ei chyflogi yn y sector amaethyddol.

Caiff natur amrywiol y seddi ei hadlewyrchu yn y drefn bresennol lle mae Brycheiniog a Maesyfed o fewn Sedd Ranbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru. Bu Castell-nedd a Dwyrain Abertawe yn rhan o sedd Gorllewin De Cymru ers 1999 ac mae gan bobl rywfaint o ddealltwriaeth o hyn.

Mae am fod yn ddryslyd iawn i bobl gael eu cynnwys gyda phobl mewn cymunedau efallai 60-70 milltir i ffwrdd nad oes ganddyn nhw ddim byd yn gyffredin â nhw.

3. Bydd yr etholaeth newydd yn cwmpasu 3 ardal Awdurdod Lleol wahanol, gwahanol wasanaethau heddlu a thân ac achub a byrddau iechyd gwahanol. Bydd hyn yn cyflwyno heriau i bobl sy'n cynrychioli'r etholaeth.

4. Rydym yn cydnabod yn yr ymateb i'r Comisiwn Ffiniau bod ein sedd ragflaenol yn cyfeirio'n gryf at y cysylltiadau rhwng Castell-nedd a Chwm Tawe. Mae'r newidiadau dilynol sydd wedi ymgorffori ardaloedd o hen etholaeth Dwyrain Abertawe i greu etholaeth newydd Castell-nedd a Dwyrain Abertawe wedi newid cyfansoddiad yr etholaeth.

5. Er ein bod yn cydnabod y bydd adolygiad llawn o'r ffiniau ar ôl etholiadau 2026, rydym yn ofni y bydd y cynigion, os cânt eu derbyn, yn sail i'r adolygiad llawn o'r ffiniau ac y byddant yn anodd iawn eu newid unwaith y byddant mewn grym ar gyfer etholiadau 2026.

Byddai pobl Castell-nedd a Dwyrain Abertawe yn well eu byd fel rhan o sedd Castell-nedd, Dwyrain Abertawe, Aberafan a Maesteg oherwydd -

• Cysylltiad naturiol gan y byddai gan bobl sy'n byw yn rhannau Castell-nedd, Dwyrain Abertawe ac Aberafan o sedd newydd gysylltiadau o'u cyfnod fel rhan o hen ardal Cyngor Sir Gorllewin Morgannwg.
• Byddai'r bobl yn y sedd newydd i gyd yn byw ac yn gweithio ar hyd coridor yr M4 ac yn gallu uniaethu â phobl eraill sy'n byw yn y sedd.
• Treftadaeth gyffredin gan eu bod yn gyn gymunedau diwydiannol.
• Mae Dwyrain Abertawe, Castell-nedd, Aberafan a Maesteg yn rhannu gwasanaethau cyhoeddus fel Byrddau Iechyd, cydbartneriaethau awdurdodau lleol a gwasanaethau cyhoeddus eraill.
• Byddai teithio o fewn sedd Dwyrain Abertawe, Castell-nedd, Aberafan a Maesteg yn gymharol syml a gellid ei wneud gan ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus mewn cyfnodau byr o amser o gymharu â'r anawsterau sy'n ymwneud â chyrraedd gogledd ardal sedd arfaethedig Aberhonddu, Maesyfed, Castell-nedd a Dwyrain Abertawe.

I gloi, teimlwn fod maint yr etholaeth arfaethedig, nodweddion gwahanol y ddwy etholaeth sydd i'w paru a diffyg buddiannau cyffredin y bobl sy'n byw yn yr etholaeth newydd arfaethedig yn cyflwyno heriau difrifol i'r sedd newydd.

Credwn mai 'ffit' llawer mwy synhwyrol fyddai paru Castell-nedd a Dwyrain Abertawe

ag Aberafan a Maesteg, dwy sedd sy’n rhannu treftadaeth gyffredin, ac yn rhannu gwasanaethau ar y cyd, a gallai trigolion deithio oddi mewn i’r sedd bosibl hon yn llawer haws nag yn achos Sedd Aberhonddu, Maesyfed, Castell-nedd a Dwyrain Abertawe. Credwn hefyd y gellid nodi paru mwy priodol ar gyfer Aberhonddu a Maesyfed â seddi gwledig eraill sy'n ffinio â sedd bresennol Aberhonddu, Maesyfed a Chwm Tawe.

Diolch am ystyried ein cyflwyniad.

Yn gywir

[HEPGOR]
Ysgrifennydd Plaid Lafur Etholaeth Castell-nedd a Dwyrain Abertawe

**7900 – Aelod o’r Cyhoedd**

Rwy’n cefnogi’r Cynigion Cychwynnol fel aelod o’r cyhoedd yng Nghymru.

**7901 – Aelod o’r Cyhoedd**

Mae’r argymhellion sy’n cael eu cynnig yn ateb cyffredin iawn ac yn ateb adeiladol i gael Sir Gaerfyrddin fel un Etholaeth Senedd i’r dyfodol. Gyda chysylltiadau ffordd a rheilffordd ar gyfer y pleidleiswyr ac ati.
Yn gwbl gefnogol fel pleidleisiwr.

Cofion
[HEPGOR]

**7903 – Aelod o’r Cyhoedd**

Annwyl Syr / Madam,

Noder os gwelwch yn dda fy mod yn derbyn eich cynigion cychwynnol ar gyfer y newidiadau i’r ffiniau etholiadol. Mae hyn yn gwneud synnwyr amlwg. Mae'n deg ac yn gyfiawn.

Yn gywir,

[HEPGOR]

**7904 – Aelod o’r Cyhoedd**

Helo

Prynhawn da

Rwy'n ysgrifennu ynghylch Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru, rwy'n

ysgrifennu i ddweud fy mod yn cefnogi eu Cynigion Cychwynnol i'r newidiadau i'r ffiniau fel aelod o'r cyhoedd yng Nghymru.

Diolch yn fawr

[HEPGOR]
[HEPGOR]

**7905 – Aelod o'r Cyhoedd**

Annwyl foneddigion,

Parthed yr Adolygiad o Ffiniau Cymru, hoffwn eich hysbysu fy mod, fel un o drigolion Dyfnant, Abertawe, yn llwyr gefnogi cynigion cychwynnol y Comisiwn.

Cofion cynnes
[HEPGOR]

**7907 – Aelod o'r Cyhoedd**

Annwyl Syr / Madam,
Fel un o drigolion Cymru, rwyf yn ysgrifennu i gefnogi cynigion cychwynnol Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru i baru etholaethau i adlewyrchu cysylltiadau lleol.
[HEPGOR]

**7908 – Aelod o'r Cyhoedd**

I bwy y gallai fod yn berthnasol .. fel aelod o'r cyhoedd yng Nghymru rwyf yn cefnogi eich cynigion cychwynnol. Cofion gorau [HEPGOR]

**7909 – Aelod o'r Cyhoedd**

Fel aelod o'r cyhoedd, wedi fy ngeni ac yn byw yng Ngogledd Cymru, hoffwn ddweud fy mod yn cytuno â'r newidiadau i'r ffiniau sy'n cael eu trafod. Hynny yw ei bod yn gwneud synnwyr i Ogledd Clwyd a Dwyrain Clwyd fod gyda'i gilydd ac Alun a Glannau Dyfrdwy a Wrecsam.
[HEPGOR]
Wrecsam
Wedi'i anfon o fy iPad

**7910 – Aelod o'r Cyhoedd**

I bwy bynnag y gallai fod yn berthnasol.
Rwy'n cefnogi eich cynnig, fel aelod o'r cyhoedd yng Nghymru.
Wedi'i anfon o fy iPhone

**7911 – Aelod o'r Cyhoedd**

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
Democracy and Boundary Commission Cymru

Hoffwn gadarnhau, fy mod yn cefnogi eich cynigion cychwynnol,
A minnau'n aelod o'r cyhoedd yng Nghymru.

[HEPGOR]

**7912 – Aelod o'r Cyhoedd**

• Mae'n bwysig i barau etholaethau cymoedd de Cymru redeg o'r gogledd i'r de i fyny ac i lawr y cymoedd, felly mae paru Merthyr Tudful ac Aberdâr â Phontypridd yn adlewyrchu cysylltiadau lleol yng nghymunedau'r cymoedd.
• Yng Nghaerdydd, rydym yn cefnogi'r Comisiwn i baru Gorllewin Caerdydd â De Caerdydd a Phenarth, gan eu bod wedi'u cysylltu'n agos gan yr A4232, ond wedi'u gwahanu oddi wrth weddill Caerdydd gan afon Taf.
Felly, rydw i
yn cefnogi Cynigion Cychwynnol y Comisiwn.

**7913 – Aelod o'r Cyhoedd**

Annwyl Foneddigion,

Ysgrifennaf i gefnogi cynigion cychwynnol y comisiwn, yn benodol:

• Mae'n bwysig i barau etholaethau cymoedd de Cymru redeg o'r gogledd i'r de i fyny ac i lawr y cymoedd, felly mae paru Merthyr Tudful ac Aberdâr â Phontypridd yn adlewyrchu cysylltiadau lleol yng nghymunedau'r cymoedd.
• Yng Nghaerdydd, rydym yn cefnogi'r Comisiwn i baru Gorllewin Caerdydd â De Caerdydd a Phenarth, gan eu bod wedi'u cysylltu'n agos gan yr A4232, ond wedi'u gwahanu oddi wrth weddill Caerdydd gan afon Taf.
[HEPGOR]

**7914 – Aelod o'r Cyhoedd**

Annwyl Syr/Madam
Rwy'n ysgrifennu i ddatgan fy nghefnogaeth i'ch cynigion cychwynnol ar gyfer newidiadau i ffiniau. Byddaf yn siomedig tu hwnt os bydd yna unrhyw wyro oddi wrth y cynnig o ganlyniad i ymyrraeth gan drydydd partïon.
Diolch.
Cofion cynnes
[HEPGOR]
Aberdâr

**7915 – Aelod o'r Cyhoedd**

Dim ond gair i ddweud fy mod yn cytuno â chynnig cychwynnol y Comisiwn. Rwy'n byw yng Nghwmbrân, ac mae'r cynnig ar gyfer yr ardal hon yn bendant yn rhesymegol.
Cofion, [HEPGOR]

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
Democracy and Boundary Commission Cymru

**7916 – Aelod o'r Cyhoedd**

[HEPGOR] Ond os bydd yn digwydd rydym yn cefnogi eich ymgynghoriad cyntaf, [HEPGOR] Diolch. [HEPGOR]

**7917 – Aelod o'r Cyhoedd**

Foneddigion
• Mae'n bwysig bod etholaethau yng nghymoedd y de yn cael eu paru ag etholaethau sydd i'r gogledd neu'r de ohonynt, i fyny ac i lawr y cymoedd. Felly, mae paru Merthyr Tudful ac Aberdâr â Phontypridd yn adlewyrchu cysylltiadau lleol yng nghymunedau'r cymoedd.
• Yng Nghaerdydd, rydym yn cefnogi'r ffaith bod y Comisiwn wedi paru Gorllewin Caerdydd â De Caerdydd a Phenarth, oherwydd bod yr A4232 yn eu cysylltu'n agos â'i gilydd a bod afon Taf yn eu gwahanu oddi wrth weddill Caerdydd.

Sicrhewch fod y safbwyntiau hyn yn cael eu nodi, os gwelwch yn dda.

[HEPGOR]

Anfonwyd drwy gyfleuster ebost diogel Proton Mail.

**7918 – Aelod o'r Cyhoedd**

Fel aelod o'r cyhoedd yng Nghymru, rwy'n cefnogi eich Cynigion Cychwynnol ar gyfer yr Adolygiad o Ffiniau yng Nghymru.

[HEPGOR]

**7919 – Aelod o'r Cyhoedd**

Noswaith dda
Rwyf wedi adolygu'r newidiadau cychwynnol i ffiniau ac, fel rhywun sy'n byw ym Mlaenau, byddwn yn cefnogi paru etholaethau â rhai sydd i'r gogledd neu'r de ohonynt, fel y cynigir gan y Comisiwn Ffiniau, oherwydd mae'n ymddangos mai'r dull hwnnw o weithredu yw'r un mwyaf ymarferol a syml.
Cofion cynnes
[HEPGOR]

**7920 – Aelod o'r Cyhoedd**

Helô. Rwy'n cefnogi eich cynigion cychwynnol, fel aelod o'r cyhoedd yng Nghymru.

**7921 – Aelod o'r Cyhoedd**

Rwy'n cefnogi eich cynigion cychwynnol. Rwy'n aelod o'r cyhoedd yng Nghymru.

[HEPGOR]

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
Democracy and Boundary Commission Cymru

**7922 – Aelod o'r Cyhoedd**

Annwyl Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru,

Rwy'n ysgrifennu fel rhywun sy'n byw yn Sir Fynwy, ar y ffin â Thorfaen, i fynegi fy nghefnogaeth i'r newidiadau a gynigir i ffiniau ar gyfer etholiad y Senedd yn 2026. Er bod yna amrywiaeth o safbwyntiau ynghylch ehangu'r Senedd, rwyf o'r farn bod y parau a gynigir, yn enwedig yn achos Sir Fynwy a Thorfaen, yn rhai ymarferol a manteisiol am sawl rheswm. Hoffwn amlinellu pum pwynt allweddol, sy'n cyd-fynd â dadleuon a gyflwynwyd gan Reform UK, sy'n cefnogi'r farn hon:

Cysylltiadau naturiol a hanesyddol â Thorfaen
Mae'r cynnig i baru Sir Fynwy â Thorfaen yn gwneud synnwyr, oherwydd mae'r ardaloedd hyn yn rhannu hanes hir a chysylltiadau lleol. Ceir cysylltiadau agos rhwng cymunedau yn y ddwy ardal, ac mae'n bwysig cynnal y cysylltiadau hynny yn ein cynrychiolaeth wleidyddol. Dyma rai cysylltiadau hanesyddol penodol sy'n amlygu'r cysylltiad naturiol rhwng Sir Fynwy a Thorfaen, sy'n ategu'r newidiadau a gynigir i ffiniau etholaethau'r Senedd:
• Treftadaeth ddiwydiannol gyffredin: Mae gan Sir Fynwy a Thorfaen hanes diwydiannol cyfoethog, yn enwedig o amgylch Pont-y-pŵl yn Nhorfaen, lle'r oedd gweithfeydd haearn, camlesi a thramffyrdd yn chwarae rôl hanfodol. Roedd Camlas Sir Fynwy a Brycheiniog, a ddatblygwyd yn y 18fed ganrif a'r 19eg ganrif, yn cysylltu Sir Fynwy ag ardaloedd diwydiannol Torfaen, ac yn hwyluso symud glo, haearn a nwyddau eraill rhwng yr ardaloedd hynny. Roedd y gamlas hon, a oedd yn rhedeg drwy Bont-y-moel yn Nhorfaen, yn cysylltu'r ardal â'r rhwydwaith diwydiannol ehangach ac yn meithrin cysylltiadau economaidd a chymdeithasol rhwng y ddwy ardal.
• Mae llwybrau trafnidiaeth yn ffafrio cysylltiadau sy'n rhedeg rhwng y gogledd a'r de: Yn hanesyddol, mae daearyddiaeth yr ardal wedi hybu cysylltiadau rhwng y gogledd a'r de. Er enghraifft, roedd Camlas Sir Fynwy a Brycheiniog a Chwm Afon Lwyd yn creu cysylltiadau trafnidiaeth effeithlon rhwng y ddwy ardal, yn enwedig ar gyfer masnachu diwydiannol. Ar y llaw arall, mae cysylltiadau rhwng y dwyrain a'r gorllewin yn y cymoedd yn aml yn fwy heriol oherwydd y topograffi naturiol sy'n ffafrio llwybrau sy'n rhedeg ar hyd y cymoedd (rhwng y gogledd a'r de) yn hytrach nag ar eu traws (rhwng y dwyrain a'r gorllewin).
• Cysylltiadau gweinyddol blaenorol: Yn hanesyddol, roedd Sir Fynwy a Thorfaen yn rhan o'r hen Sir Fynwy cyn i lywodraeth leol gael ei had-drefnu fwy nag unwaith yn yr 20fed ganrif. Câi ardal Torfaen ei llywodraethu dan Sir Fynwy nes i newidiadau greu ardaloedd gweinyddol ar wahân. Mae'r hanes cyffredin hwn o safbwynt llywodraethiant yn atgyfnerthu ymhellach y cysylltiadau naturiol sydd rhwng y ddwy ardal.
• Seilwaith trafnidiaeth cyffredin: Mae Sir Fynwy a Thorfaen yn rhannu llawer o seilwaith, megis ffordd yr A4042 sy'n rhedeg rhwng y gogledd a'r de ac yn cysylltu

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
Democracy and Boundary Commission Cymru

trefi'r Fenni (yn Sir Fynwy) a Phont-y-pŵl (yn Nhorfaen) â'i gilydd ac sy'n golygu bod cysylltiadau teithio a chysylltiadau economaidd rhwng yr ardaloedd yn fwy ymarferol. Mae'r ffordd hon yn llwybr o bwys sy'n cysylltu'r ddwy ardal, ac mae'n dangos effeithiolrwydd trafnidiaeth rhwng y gogledd a'r de.

• Gorgyffwrdd economaidd a diwylliannol: Mae gan y ddwy ardal gysylltiadau economaidd, diwylliannol a chymdeithasol hir oherwydd bod y ddwy ardal mor agos i'w gilydd ac oherwydd eu datblygiadau hanesyddol cyffredin. Er enghraifft, mae Tirwedd Ddiwydiannol Blaenafon, sy'n un o Safleoedd Treftadaeth y Byd UNESCO, yn agos i'r ffin rhwng Sir Fynwy a Thorfaen ac yn symbol o orffennol diwydiannol annatod y ddwy ardal.

• Mae'r enghreifftiau hyn yn dangos y cysylltiadau hanesyddol, economaidd a daearyddol rhwng Sir Fynwy a Thorfaen, ac yn golygu bod y cynnig i baru'r etholaethau hyn yn rhesymegol ac yn fanteisiol ar gyfer cynrychiolaeth effeithiol yn y Senedd.

Rhesymeg ddaearyddol glir

Mae'r Comisiwn, yn gywir ddigon, wedi ystyried daearyddiaeth, gan sicrhau bod y ffiniau'n adlewyrchu ardaloedd naturiol, hygyrch. Mae paru Sir Fynwy a Thorfaen â'i gilydd yn parchu'r topograffi naturiol a'r cysylltiadau ffyrdd, ac yn osgoi creu etholaethau gwasgarog a fyddai'n anghydlynus.

Cefnogi etholaethau cyffiniol

Fel y nodwyd yn adroddiad y Comisiwn, mae'r angen i etholaethau fod yn gyffiniol yn rheidrwydd cyfreithiol ac ymarferol. Mae Sir Fynwy a Thorfaen yn cyd-fynd â'i gilydd yn naturiol, a byddai unrhyw baru amgen yn creu rhaniadau artiffisial na fyddent yn fanteisiol i drigolion.

Cynrychioli buddiannau gwledig a threfol

Mae cyfuno tirwedd wledig Sir Fynwy ag ardaloedd mwy trefol Torfaen yn darparu cynrychiolaeth gytbwys. Mae'n sicrhau bod lleisiau gwledig a threfol yn cael eu clywed yn y Senedd, a bod cymeriad unigryw pob ardal yn dal i gael ei adlewyrchu.

Alinio effeithiol â chymunedau sydd i'r gogledd/de

Yng nghyd-destun y parau eraill a gynigir, mae etholaeth Sir Fynwy-Torfaen yn parchu'r modd y mae cymunedau yng Nghymru yn alinio'n naturiol â chymunedau sydd i'r gogledd/de ohonynt. Mae'r dull hwn o weithredu yn osgoi'r rhaniadau problemus rhwng y dwyrain a'r gorllewin, a welwyd mewn ardaloedd eraill, a fyddai'n amharu ar gysylltiadau lleol ac yn creu dryswch diangen.

I gloi, credaf fod y newidiadau a gynigir i ffiniau, yn enwedig paru Sir Fynwy a Thorfaen â'i gilydd, yn adlewyrchu dull ymarferol ac ystyriol iawn o sicrhau cynrychiolaeth effeithiol i drigolion. Rwy'n cefnogi ymdrechion y Comisiwn yn llwyr ac yn annog pobl eraill i rannu eu safbwyntiau.

Diolch am ystyried fy sylwadau.

Yn gywir,
[HEPGOR]
Un o drigolion Sir Fynwy

**7923 – Aelod o'r Cyhoedd**

Annwyl Syr,
Hoffwn gefnogi eich Cynigion Cychwynnol, fel aelod o'r cyhoedd yng Nghymru.

Cofion gorau
[HEPGOR]

**7924 – Aelod o'r Cyhoedd**

Annwyl bawb
Rydym yn byw yn Aberteifi, Ceredigion ers amser ac rydym yn cefnogi yn llwyr y cysylltiadau newydd a gynigir rhwng etholaethau cyfagos sydd i'r gogledd/de o'i gilydd.

Byddai cysylltu neu baru Caernarfon â Cheredigion Preseli yn hunllefus, oherwydd mae iaith pobl y gogledd yn wahanol iawn, iawn i'r iaith a ddefnyddir yma, sef "Winglish". Ni allwn ddeall pobl y gogledd. Mae fel iaith hollol wahanol.

Plwyfoldeb ydyw, mewn gwirionedd. Rydym am warchod ein hardal ein hunain, ac rydym yn dwlu ar yr iaith a'r holl wahanol ffyrdd y caiff ei siarad.

Cofion gorau atoch i gyd

[HEPGOR]
[HEPGOR]

**7925 – Aelod o'r Cyhoedd**

ANNWYL SYR,
RWY'N CEFNOGI / RWY'N CYTUNO Â CHANFYDDIADAU'R COMISIWN YNGHYLCH PARU'R ARDALOEDD YNG NGHYMRU, OND MAE TREFYNWY YN LLOEGR AC MAE DADL DDA DROS DDWEUD BOD SIR Y FFLINT YN LLOEGR HEFYD.
YR EIDDOCH YN GYWIR
[HEPGOR]

**7926 – Aelod o'r Cyhoedd**

I bwy bynnag a fynno wybod.

Derbyniwch y neges hon fel cefnogaeth i'r Cynigion Cychwynnol ynghylch ffiniau etholaethol gan aelod o'r cyhoedd yng Nghymru.

Nid yw'r etholaethau seneddol fel y maent yn awr yn addas i'r rhan fwyaf o Gymru...
Roedd angen edrych yn fanylach o lawer ar y parau.
Mae angen i gysylltiadau lleol a chymunedau gael eu parchu'n fwy helaeth.
Heb os, dylai etholaethau Caerdydd gael eu paru â'i gilydd; ni ddylent gael eu hollti fel sy'n digwydd ar hyn o bryd.

Nid yw cysylltiadau lleol yn y cymoedd wedi cael eu parchu bob amser. Byddai eu cysylltu'n agosach â'i gilydd yn adlewyrchu'n fwy helaeth gysylltiadau lleol â chymunedau.

Byddai Cymru yn gwerthfawrogi system lle mae'n hawdd casglu safbwyntiau, a fyddai'n gwneud mwy o synnwyr ac yn adlewyrchu tueddiadau pleidleisio ar ffurf fwy modern sy'n haws ei deall.

Byddwn yn ddiolchgar pe bai modd i chi gadarnhau eich bod wedi cael y neges hon.

Diolch.
Cofion cynnes
[HEPGOR] Abertawe.

**7927 – Aelod o'r Cyhoedd**

Foneddigion
Fel un o ddinasyddion a threthdalwyr Cymru, hoffwn ddangos fy nghefnogaeth i'r newidiadau a gynigir, ac rwy'n hollol gefnogol i ychwanegu plaid Reform yng Nghymru.
Mae pobl yn haeddu dewis.

Cofion cynnes

[HEPGOR]

**7928 – Aelod o'r Cyhoedd**

Ysgrifennaf at Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru i ddweud fy mod yn cefnogi ei Gynigion Cychwynnol, fel aelod o'r cyhoedd yng Nghymru.

[HEPGOR]

**7929 – Aelod o'r Cyhoedd**

Foneddigion

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
Democracy and Boundary Commission Cymru

Ynghlwm y mae dolen gyswllt yr wyf yn cefnogi ei chynnwys yn llwyr, a byddwn yn annog y Comisiwn Ffiniau i wrando arno.

Cofion cynnes

[HEPGOR]

**7932 – Aelod o'r Cyhoedd**

Rwy'n byw yng Nghwm Garw, i'r gogledd o Ben-y-bont ar Ogwr.

Mae'n gwm y mae ei ben draw ar gau; does dim ffordd allan ar y top. I bob pwrpas, mae'n gwm nad yw'n arwain i unman.

Yn hanesyddol, mae'r cwm wedi bod yn rhan o ardal Pen-y-bont ar Ogwr erioed, gan fod y dref wrth enau'r cwm ac na allwch deithio i unman mewn gwirionedd heb fynd drwy Ben-y-bont ar Ogwr.

O'r map sy'n dangos y ffiniau a gynigir, mae'n ymddangos eich bod yn ailadrodd y camgymeriad a ddigwyddodd y tro diwethaf y cafodd yr etholaethau seneddol eu hail-lunio.

Rydym wedi cael ein rhoi gyda Phontypridd a chymoedd y Rhondda.

Mae hynny'n ddwl.

Efallai nad ydym yn bell o'r Rhondda fel yr hed y frân, ond nid oes ffordd uniongyrchol o deithio yno heb fynd i gyfeiriad y de drwy Ben-y-bont ar Ogwr, yna i gyfeiriad y dwyrain ar hyd yr M4, ac yna i gyfeiriad y gogledd unwaith eto yn Llantrisant neu Gaerdydd; oni bai eich bod yn teithio i gyfeiriad y de unwaith eto, yna draw i gwm Ogwr ac i fyny'r cwm hwnnw, cyn croesi dros dop y Bwlch – nad yw'n ffordd uniongyrchol, a dweud y lleiaf.

Nid ydym yn rhan o'r un gymuned. Rydym filltiroedd i ffwrdd, sut bynnag y byddech yn teithio.

Nid oes dim i gysylltu ein cymunedau, sydd ar wahân i'w gilydd. Rydym mewn siroedd ac ardaloedd cyngor lleol sy'n wahanol.

Mae Blaengarw, Pontycymer a Llangeinwyr yn rhan o gymuned Pen-y-bont ar Ogwr, ac yn wir maent yn perthyn i Fwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Rydych fel pe baech yn tynnu llinellau ar fap heb ystyried y topograffi, cysylltiadau

cyfathrebu a hanes y gymuned.

Hyderaf y byddwch yn ailystyried eich cynigion ac yn ystyried y ddaearyddiaeth unigryw sy’n golygu mai ni yw braich ogleddol Pen-y-bont ar Ogwr ac nad oes gennym gysylltiadau uniongyrchol ag unrhyw gymuned arall, i gyfeiriad y dwyrain na’r gorllewin.

Cofion

[HEPGOR]

**7933 – Aelod o’r Cyhoedd**

Annwyl Gomisiwn
Rwy’n byw yn Llangollen. Rwy’n credu ei bod yn syniad da bod dwy ardal Clwyd yn cael eu huno i greu un ardal. Rwy’n credu mai felly’r oeddent ar un adeg efallai, beth amser yn ôl. Mae’r parau eraill yn gwneud synnwyr oherwydd eu bod yn agos i’w gilydd yn y gogledd. Ni allaf roi sylwadau ar y de oherwydd nid wyf yn adnabod yr ardaloedd yn ddigon da.

[HEPGOR]

**7934 – Aelod o’r Cyhoedd**

Rwy’n cefnogi eich cynigion cychwynnol ynghylch ffiniau, fel aelod o’r cyhoedd yng Nghymru. [HEPGOR]

**7935 – Aelod o’r Cyhoedd**

Fel aelod o’r cyhoedd yng Nghymru, rwy’n cefnogi’r cynnig cychwynnol ynghylch y ffiniau.

**7936 – Aelod o’r Cyhoedd**

Helo
Nodwch fy mod yn cymeradwyo'r newidiadau ffiniau fel un o drigolion Cymru. Mae gen i deulu yn rhanbarth y cymoedd ac rwy'n credu y bydd yn fuddiol i gael y gynrychiolaeth ychwanegol hon.
Cofion
[HEPGOR]

**7937 – Aelod o’r Cyhoedd**

RWY'N CEFNOGI'R NEWIDIADAU RYDYCH CHI WEDI'U GWNEUD I GREU’R ARDALOEDD NEWYDD

[HEPGOR]

**7938 – Aelod o'r Cyhoedd**

Fel aelod o'r cyhoedd yng Nghymru, ysgrifennaf atoch i'ch hysbysu fy mod i'n cytuno â'ch cynnig cychwynnol ar gyfer newidiadau i etholaethau'r Senedd ac yn eu cefnogi.

Cofion cynnes

[HEPGOR]

**7939 – Aelod o'r Cyhoedd**

Hoffwn i, fel un o drigolion Cymru, ddweud fy mod yn cytuno â'r awgrym cychwynnol ar gyfer y ffiniau

[HEPGOR]

**7940 – Aelod o'r Cyhoedd**

Shw'mae,
Fel aelod o'r cyhoedd yng Nghymru, rwy'n cysylltu â chi i ddweud fy mod yn cefnogi'r cynigion cychwynnol ar gyfer y newidiadau i ffiniau.

[HEPGOR]

**7941 – Aelod o'r Cyhoedd**

Rwy'n cefnogi'r Cynigion Cychwynnol fel aelod o'r cyhoedd yng Nghymru.
[HEPGOR]

**7942 – Aelod o'r Cyhoedd**

Syr/Madam

Rwy'n ysgrifennu fel aelod cyffredin o'r cyhoedd sydd â diddordeb yng ngwleidyddiaeth Cymru. Rwyf wedi bod yn dilyn y posibilrwydd o ddod â ffiniau newydd i etholaethau Cymru ers etholiad cyffredinol 2019 ac rwyf am gofrestru'r farn taw cynnig cyntaf y Comisiwn ar y newidiadau posibl yw'r un y dylid ei ddilyn.

Yn gywir

[HEPGOR]

[HEPGOR]

**7943 – Aelod o'r Cyhoedd**

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
Democracy and Boundary Commission Cymru

Fel dinesydd Cymru rwy'n cefnogi'r newid arfaethedig i'r ffiniau yng nghymoedd y De.
[HEPGOR]

**7944 – Aelod o'r Cyhoedd**

Annwyl Syr/Madam,

Roedd yr adolygiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar o ffiniau Cymru yn iawn yn fy marn i. Rwy'n ei gefnogi heb ddiwygiadau.

[HEPGOR]

**7945 – Aelod o'r Cyhoedd**

Ar ôl adolygu popeth rwy'n cytuno'n gryf â'r cynigion ffiniau newydd,
Cofion [HEPGOR]

**7946 – Aelod o'r Cyhoedd**

Adolygiad y Senedd 2026 – Ffiniau arfaethedig ar gyfer etholaethau newydd y Senedd (Medi 2024)

Annwyl Gwnsler Cyffredinol James a'r Comisiwn Ffiniau
Rwy'n gwrthwynebu'r ffiniau Etholaethol arfaethedig gan fy mod yn credu nad ydynt, yn enwedig ar gyfer yr etholaethau gwledig hynny sy'n hynod fawr yn ddaearyddol, yn adlewyrchu demograffeg a barn pleidleiswyr cymunedau lleol sydd wedi hen ymsefydlu yma. Rwy'n byw yn Sir Drefaldwyn, ond yn ddigon anfoddog fy myd i fod yn byw o fewn awdurdod lleol Powys sydd yn llawer rhy fawr. Yn Etholiad Cyffredinol diweddar y DU, cefais fy hun yn rhan o etholaeth ehangach (ac a enwyd mewn ffordd braidd yn rhyfedd) Sir Drefaldwyn a Glyndŵr - rwyf mewn penbleth llwyr o feddwl sut y gallai unrhyw Lywodraeth uno dwy ddemograffeg mor wahanol (a hynny dim ond er mwyn cadw niferoedd pleidleiswyr yn lled-gyfartal ar draws holl etholaethau Cymru).
Ond nawr rwy'n gweld y gallwn fod yn rhan o etholaeth hollol enfawr yn etholiadau'r Senedd yn y dyfodol. Unwaith eto, byddai demograffeg yr etholaeth yn wahanol iawn, ac efallai mai'r unig ffactor a fyddai'n ein huno yw'r ffaith bod yr etholwyr i gyd yn byw rhywle yng Nghymru. Mae hynny'n gwbl anghywir! Mae mor anghywir â chynyddu nifer yr aelodau o'r Senedd o 60 i 96, a'r ffaith na fyddaf yn gallu pleidleisio dros ymgeisydd unigol ar gyfer AS ond yn hytrach y byddaf yn gorfod derbyn un wedi'i orfodi arnaf trwy roi pleidlais i'r Blaid Wleidyddol yn unig. (Sut fydda i'n gallu cyflwyno fy enw fel Ymgeisydd Annibynnol ar gyfer etholaeth 'Dwyfor Meirionydd, Maldwyn a Glyndŵr' yn etholiad nesa'r Senedd).

Gofynnaf i'r ddau ohonoch gydnabod eich bod wedi erbyn yr e-bost hwn, a hoffwn

gael rhywfaint o esboniad gan y Cwnsler Cyffredinol y tu ôl i'r newidiadau annemocrataidd hyn i lywodraethu Cymru.

[HEPGOR]

**7947 – Aelod o'r Cyhoedd**

Rwy'n cytuno â'r cynigion newydd
[HEPGOR]

**7948 – Aelod o'r Cyhoedd**

Gomisiwn Ffiniau,

Mae fy ngwraig a minnau'n byw yn Cross Hands, Sir Gaerfyrddin, a hoffem fynegi ein cefnogaeth i'ch cynigion cychwynnol.

Yn ein barn ni, mae'r Comisiwn wedi ystyried ffiniau llywodraeth leol yn llwyddiannus ac wedi cynnal cysylltiadau lleol trwy gynnig 'Ceredigion a Sir Benfro' a 'Sir Gaerfyrddin' fel etholaethau ac rydym yn cefnogi'r rhain yn gryf.

Gofynnwn â pharch am i'n barn gael ei hystyried.

Cofion cynnes, [HEPGOR]

**7949 – Aelod o'r Cyhoedd**

Annwyl Syr/Fadam

Rwy'n e-bostio fel aelod o'r cyhoedd yng Nghymru i gadarnhau fy mod yn llwyr gefnogi cynigion cychwynnol Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru ar gyfer ein system etholiadol yng Nghymru. Rwy'n teimlo eu bod yn parchu cysylltiadau lleol a'r dolenni rhwng cymunedau.

[HEPGOR]

**7950 – Aelod o'r Cyhoedd**

Rwy'n cefnogi Cynigion Cychwynnol y Comisiwn am y rhesymau canlynol
• Mae'n bwysig bod trefniadau paru etholaethau cymoedd de Cymru yn rhedeg o'r gogledd i'r de lan a lawr y cymoedd, felly mae paru Merthyr Tudful, Aberdâr â Phontypridd yn adlewyrchu cysylltiadau lleol yng nghymunedau'r cymoedd.
•

• Yng Nghaerdydd, rwy'n cefnogi cynigion y Comisiwn i baru Gorllewin Caerdydd â De Caerdydd a Phenarth, gan eu bod wedi'u cysylltu'n agos drwy'r A4232, ond

wedi'u gwahanu oddi wrth weddill Caerdydd drwy'r afon.

[HEPGOR]
[HEPGOR]

**7951 – Aelod o'r Cyhoedd**

Annwyl Syr/Madam
Fel trigolion Cymru yn ein 80au sydd wedi gwylio gyda braw ac anghrediniaeth wrth weld y difrod mae Llywodraeth Cymru a'i Phrif Weinidogion wedi'i wneud i'n gwlad ers datganoli, hoffem fynegi barn ar y newidiadau arfaethedig i'r ffiniau.

Rydyn ni'n deall bod y newidiadau arfaethedig yn rhai y bu hir ddisgwyl amdanynt er mwyn datrys rhywfaint o'r dryswch a'r aneffeithlonrwydd o ran y ffordd orau o gynrychioli rhai o'r rhanbarthau. Ni allwn ddweud bod gennym ddigon o fanylion i ddeall popeth yn llawn, ond rydym yn deall y rhesymeg a'r synnwyr cyffredin y tu ôl i'r cynigion ac yn eu cefnogi i'r carn.

Rydym yn deall y gallai'r gwrthwynebiad iddynt ddod gan yr union bobl sydd wedi achosi'r angen i wneud y fath newidiadau oherwydd eu hanallu gwleidyddol.

Gofynnwn i chi ymwrthod â phwysau o'r fath a mynd ati i gyflwyno'r newidiadau hyn i'r ffiniau cyn gynted â phosibl.

[HEPGOR]

**7952 – Aelod o'r Cyhoedd**

Helo, [HEPGOR]
Dim ond nodyn i ddweud fy mod yn cytuno â'ch cynigion cychwynnol ar newidiadau i ffiniau. Fel preswylydd yng Nghymru byddaf yn ward newydd Clwyd. [HEPGOR]

**7953 – Aelod o'r Cyhoedd**

Annwyl Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru,
Hoffwn nodi fy mod i, fel dinesydd Cymru, yn cefnogi'r cynigion cychwynnol ar gyfer y ffiniau a hoffwn iddynt barhau felly.

Diolch
[HEPGOR]

A fyddech gystal â chadarnhau eich bod wedi derbyn y neges

**7954 – Aelod o'r Cyhoedd**

Annwyl Syr/Madam

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
Democracy and Boundary Commission Cymru

Cyfeiriaf at yr adolygiad ynghylch ffiniau at ddibenion pleidleisio. Hoffwn i chi nodi fy marn fel preswylydd yng Nghymru fel a ganlyn i gefnogi Cynigion Cychwynnol y Comisiwn:

Dylai parau etholaethau Cymoedd De Cymru yn fy marn i, redeg o'r gogledd i'r de i fyny ac i lawr y cymoedd. Mae paru Merthyr Tudful, Aberdâr â Phontypridd yn adlewyrchu cysylltiadau lleol yng nghymunedau'r cymoedd.
O ran Caerdydd, oherwydd cysylltiad yr A4232, paru Gorllewin Caerdydd, De Caerdydd a Phenarth. Mae gweddill Caerdydd yn cael ei wahanu gan afon Taf.

Diolch
[HEPGOR]

**7955 – Aelod o'r Cyhoedd**

Annwyl Syr/Madam
Rwy'n cysylltu i ddweud fy mod yn llwyr gefnogi cynigion cychwynnol y Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth ynghylch ffiniau etholaethau Cymru.
Mae'n bwysig i barau etholaethol Cymoedd De Cymru redeg o'r gogledd i'r de i fyny ac i lawr y cymoedd, felly mae paru Merthyr Tudful, Aberdâr â Phontypridd yn adlewyrchu cysylltiadau lleol yng nghymunedau'r cymoedd.

Yng Nghaerdydd, rwy'n cefnogi cynnig y Comisiwn i baru Gorllewin Caerdydd â De Caerdydd a Phenarth, gan eu bod wedi'u cysylltu'n agos gan yr A4232, ond wedi'u gwahanu oddi wrth weddill Caerdydd trwy afon Taf.

Mae uno Dwyrain Abertawe, tref Castell-nedd a'r gogledd i fyny'r cymoedd i Aberhonddu, Llanfair-ym-Muallt, ac ati, yn darparu etholaeth gydag amrywiaeth o gymunedau trefol a phentrefi / gwledig.

Cofion,

[HEPGOR]

**7956 – Aelod o'r Cyhoedd**

Rwy'n cefnogi eu cynigion cychwynnol, fel aelod o'r cyhoedd yng Nghymru.
[HEPGOR]
Llandrillo-yn-Rhos
Conwy

**7958 – Aelod o'r Cyhoedd**

Annwyl Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru,
Fel aelod o'r cyhoedd yng Nghymru, ysgrifennaf i gefnogi yn llwyr gynigion cychwynnol y Comisiwn ar gyfer yr adolygiad o ffiniau yng Nghymru. Ar ôl byw ym

Merthyr, Pontypridd, a Phen-y-bont ar Ogwr erbyn hyn, ac ar ôl gweithio yng Nghaerdydd a Chwm Ogwr, rwy'n gwerthfawrogi'r cysylltiadau lleol a chymunedol sydd yn yr ardaloedd hyn.
Mae'r penderfyniad i uno etholaethau â rhai sydd i'r gogledd/de ohonynt yng nghymoedd y de'n hanfodol er mwyn cynnal y clymau cymunedol cryf sy'n diffinio'r ardaloedd hyn. Ar ôl byw ym Merthyr a Phontypridd, credaf fod eich cynnig i grwpio'r ardaloedd hyn gydag Aberdâr yn adlewyrchu'n effeithiol y cysylltiadau cymdeithasol a daearyddol naturiol sydd o fewn yr ardaloedd hyn.
Credaf hefyd fod penderfyniad y Comisiwn i baru Bro Morgannwg â Phen-y-bont ar Ogwr, lle rwy'n byw ar hyn o bryd, yn ddewis ystyriol. Mae'r bartneriaeth hon yn parchu'r cysylltiadau cyffredin rhwng y cymunedau hyn mewn modd sy'n well o lawer na phe bai ardal wledig Bro Morgannwg yn cael ei huno ag un o etholaethau Caerdydd. Byddai pâr o'r fath yn teimlo'n anghydlynus ac yn artiffisial.
Yn ogystal, ar ôl gweithio fel Nyrs Practis yng Nghwm Ogwr, rwy'n cefnogi yn llwyr y cynnig i gyfuno Aberafan, Maesteg, Rhondda ac Ogwr i greu un etholaeth. Mae'r ardaloedd hyn yn rhannu treftadaeth ddiwydiannol gref a chysylltiadau lleol sy'n bodoli ers amser maith, a ddylai gael eu gwarchod yn gywir ddigon yn eich argymhellion terfynol.
Yn olaf, ar ôl gweithio yng Nghaerdydd yn Ysbyty Athrofaol Cymru, rwy'n deall y rhesymeg dros baru Gorllewin Caerdydd â De Caerdydd a Phenarth. Mae'r A4232 yn darparu cysylltiad cryf rhwng yr ardaloedd hyn, ac mae Afon Taf yn ffin naturiol rhyngddynt a gweddill y ddinas, sy'n golygu bod y cynnig hwn yn un ymarferol a chydlynus.
Hoffwn ganmol y Comisiwn am y ffordd feddylgar y mae wedi cydnabod a gwarchod cysylltiadau lleol ym mhob un o'r cynigion hyn, a hyderaf y bydd y craffter hwn yn parhau'n sail i'r argymhellion terfynol.
Cofion gorau,
[HEPGOR]

**7959 – Aelod o'r Cyhoedd**

Annwyl Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru,

Rwy'n gobeithio eich bod yn cadw'n iawn. Ysgrifennaf i gefnogi'r Cynigion Cychwynnol ar gyfer Adolygiad 2026 o etholaethau'r Senedd.

Credaf fod y modd y cynigir paru etholaethau, yn enwedig yng nghymoedd y de, yn parchu cysylltiadau lleol a chymunedau. Er enghraifft, mae paru Merthyr Tudful ac Aberdâr â Phontypridd yn cydnabod buddiannau cyffredin a chysylltiadau yng nghymunedau'r cymoedd.

Yn ogystal, mae paru Gorllewin Caerdydd â De Caerdydd a Phenarth yn gwneud synnwyr oherwydd bod yr A4232 yn eu cysylltu'n ddaearyddol â'i gilydd ond bod ffiniau clir rhyngddynt a gweddill Caerdydd.

Hoffwn annog y Comisiwn i lynu wrth y cynigion hyn, oherwydd maent yn gwella cynrychiolaeth effeithiol ac yn adlewyrchu nodweddion unigryw ein cymunedau.

Diolch am ystyried fy sylwadau.

Cofion gorau,
[HEPGOR]

**7960 – Aelod o'r Cyhoedd**

Ysgrifennaf i gefnogi'r cynigion cychwynnol ynghylch newidiadau i ffiniau ar gyfer etholaethau newydd y Senedd. Rydych wedi gwahodd sylwadau ac adborth.
Ar ôl edrych yn ofalus ar y cynlluniau daearyddol, maent er syndod yn gwneud llawer o synnwyr.
Dylai ardaloedd gael eu cysylltu â'i gilydd ar sail cymoedd sydd i'r gogledd/de o'i gilydd ac ar sail nodweddion daearyddol, sy'n pennu lleoliad y ffyrdd, y rheilffyrdd, y trefi ac ati sy'n cysylltu'r ardaloedd yn naturiol â'i gilydd. Yn yr un modd, mae'n ymddangos bod y trefniadau ar gyfer ardaloedd arfordirol a mewndirol yn gweithio'n dda. Byddai'n hollol anghydnaws ac anymarferol cysylltu ardaloedd nad ydynt yn cysylltu ac yn cydweithio'n naturiol â'i gilydd, ar sail nodweddion y dirwedd a'r cymoedd.
[HEPGOR]

**7961 – Aelod o'r Cyhoedd**

Annwyl Gomisiwn, Ymgynghorwyr,

Ysgrifennaf i gefnogi Cynigion Cychwynnol Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru, fel aelod o'r cyhoedd yng Nghymru.

Mae'n bwysig bod etholaethau yng nghymoedd y de yn cael eu paru ag etholaethau sydd i'r gogledd neu'r de ohonynt, i fyny ac i lawr y cymoedd. Felly, mae paru Merthyr Tudful ac Aberdâr â Phontypridd yn adlewyrchu cysylltiadau lleol yng nghymunedau'r cymoedd.
Yng Nghaerdydd, rwy'n cefnogi'r ffaith bod y Comisiwn wedi paru Gorllewin Caerdydd â De Caerdydd a Phenarth, oherwydd bod yr A4232 yn eu cysylltu'n agos â'i gilydd a bod afon Taf yn eu gwahanu oddi wrth weddill Caerdydd.
Yn fy marn i, mae'n rhaid i'r Comisiwn baru Ynys Môn â Bangor Aberconwy, gan fod yr unig gysylltiadau ffyrdd (a rheilffyrdd) sydd rhwng Ynys Môn a'r tir mawr yn mynd drwy Fangor Aberconwy, a bod y ddeddfwriaeth sylfaenol berthnasol yn mynnu bod etholaethau a gaiff eu paru â'i gilydd yn gyffiniol. Pe bai'r Comisiwn yn paru Ynys Môn ag etholaeth arall yn lle hynny, byddai angen i bobl deithio drwy Fangor Aberconwy i fynd o un rhan o'u hetholaeth i ran arall, ac ni fyddai'r etholaeth arall yn gyffiniol ag Ynys Môn.

Felly, credaf mai'r unig ddewis sydd gan y Comisiwn yw paru etholaethau seneddol y DU ar hyd arfordir y gogledd yn y modd y mae wedi'u paru.

Ar ôl paru Ynys Môn â Bangor Aberconwy, mae'n rhaid i'r Comisiwn baru Gogledd Clwyd â Dwyrain Clwyd, gan nad yw Gogledd Clwyd yn gyffiniol ag unrhyw un o etholaethau eraill San Steffan, ar wahân i etholaeth Bangor Aberconwy y mae'n rhaid ei pharu ag Ynys Môn.

Gan fod etholaeth Gogledd Clwyd wedi'i pharu â Dwyrain Clwyd, mae'n rhaid i'r Comisiwn baru Alun a Glannau Dyfrdwy â Wrecsam. Nid yw Alun a Glannau Dyfrdwy yn gyffiniol ag unrhyw un o etholaethau seneddol eraill y DU yng Nghymru, ar wahân i etholaeth Dwyrain Clwyd, sydd wedi'i pharu yn barod â Gogledd Clwyd.

Mae'r ffaith bod yr etholaeth yn fawr yn adlewyrchu poblogaeth denau llawer o gefn gwlad Cymru, o ganlyniad i'r rheolau a ddefnyddiwyd i ffurfio etholaethau seneddol y DU. O ystyried y drafodaeth uchod, dim ond ag etholaeth Maldwyn a Glyndŵr neu etholaeth Ceredigion Preseli y gellir paru Dwyfor Meirionnydd.

Rwy'n cefnogi cynnig y Comisiwn, oherwydd yr unig opsiwn arall yw paru Dwyfor Meirionnydd ag etholaeth Ceredigion Preseli. Byddai hynny'n creu etholaeth a fyddai'n ymestyn o Gaernarfon i Abergwaun, ac er y byddai ei harwynebedd yn debyg byddai'n golygu mwy fyth o bellter ac o amser teithio i fynd o amgylch yr etholaeth.

Rwyf hefyd yn cefnogi cynigion eraill y Comisiwn ar gyfer paru etholaethau y mae poblogaeth denau'r canolbarth a'r gorllewin yn effeithio arnynt.
Mae'r Comisiwn wedi llwyddo i ystyried ffiniau llywodraeth leol ac wedi cynnal cysylltiadau lleol drwy gynnig 'Ceredigion a Sir Benfro' a 'Sir Gaerfyrddin' fel etholaethau. Rwy'n cefnogi'r rhain yn frwd.

Mae'r Comisiwn yn gywir o ran egwyddor yn ei gynigion cychwynnol. Os oes modd, gorau oll os gellir parchu topograffi'r cymoedd drwy eu defnyddio i gysylltu etholaethau â'i gilydd o'r gogledd i'r de, yn hytrach na gorfodi etholaethau i ffurfio pâr o'r dwyrain i'r gorllewin ar draws cymoedd nad ydynt yn rhannu'r un cysylltiadau lleol a chymunedol.

Mae hynny'n amlwg yn achos parau 'Merthyr Tudful, Aberdâr a Phontypridd' a 'Blaenau Gwent, Rhymni a Chaerffili', lle mae'r etholaethau sydd wedi'u paru â'i gilydd yn cyd-redeg ag amlinellau'r cymoedd o'r gogledd i'r de yn gyffredinol, gan barchu cymunedau a chysylltiadau lleol heb eu hollti. Dyna fyddai'n dueddol o ddigwydd pe baent yn cael eu paru fel arall o'r dwyrain i'r gorllewin.

Yn yr un modd, rwy'n cefnogi cynnig y Comisiwn i baru Casnewydd ag Islwyn, a'r

cam naturiol i baru Sir Fynwy a Thorfaen â'i gilydd, sy'n ddwy etholaeth sydd â chysylltiadau hanesyddol.
Rwyf o'r farn bod y Comisiwn hefyd yn gywir i baru cymunedau Bro Morgannwg a Phen-y-bont ar Ogwr, sydd â chysylltiadau agos â'i gilydd, yn hytrach na gorfodi cysylltiad annaturiol rhwng etholaeth wledig Bro Morgannwg ac etholaeth yng Nghaerdydd, sef y brifddinas.
Rwyf o'r farn bod cyfuno ardaloedd Aberafan, Maesteg, Rhondda ac Ogwr â'i gilydd fel etholaeth sydd â threftadaeth ddiwydiannol gysylltiedig hefyd yn hybu cysylltiadau lleol.

Rwy'n gobeithio y bydd y gefnogaeth hon o gymorth gyda'r penderfyniadau terfynol.

Cofion gorau,
Diolch.
[HEPGOR]
27.09.2024

**7962 – Aelod o'r Cyhoedd**

Ymateb i'r ymgynghoriad oddi wrth [HEPGOR]
Cyhoeddodd Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru (y "Comisiwn") ei Gynigion Cychwynnol ar gyfer Adolygiad 2026 o etholaethau'r Senedd ar 3 Medi 2024.
Gwelwn fod y Comisiwn yn ymgynghori yn eu cylch tan 30 Medi 2024.
Mae Reform UK yn gwrthwynebu ehangu'r Senedd o'i nifer bresennol o aelodau, sef 60.
Fodd bynnag, rwyf/rydym yn cydnabod bod y Comisiwn yn cyflawni ei ddyletswyddau statudol, ac yn y cyd-destun hwnnw y mae Reform UK yn cyflwyno'r ymateb hwn i'r ymgynghoriad.

Goblygiadau'r gofyniad i gael 'etholaethau cyffiniol'
Yn ôl Atodlen 2, paragraff 2(1) Deddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024, "Rhaid i ardal pob etholaeth Senedd gynnwys ardaloedd cyfunedig dwy o etholaethau seneddol y DU yng Nghymru sy'n gyffiniol."
Mae'r Comisiwn yn cyfeirio at hynny ar dudalen 2 ei adroddiad, ar ôl nodi mai "dim ond cysylltiadau ffyrdd sydd gan etholaeth seneddol y DU Ynys Môn â'r tir mawr, drwy etholaeth seneddol y DU Bangor Aberconwy" a chyn datgan ei farn "bod cael cysylltiadau cyfathrebu a theithio clir yn rhan hanfodol o allu darparu ar gyfer cynrychiolaeth effeithiol a chyfleus". Mae yna'n cynnig paru Ynys Môn â Bangor Aberconwy.
Rwyf/Rydym o'r farn bod y Comisiwn yn gywir i baru'r etholaethau hyn â'i gilydd. Byddem yn mynd mor bell â dweud bod yn rhaid i'r Comisiwn baru Ynys Môn â Bangor Aberconwy, gan fod yr unig gysylltiadau ffyrdd (a rheilffyrdd) sydd rhwng Ynys Môn a'r tir mawr yn mynd drwy Fangor Aberconwy, a bod y ddeddfwriaeth sylfaenol berthnasol yn mynnu bod etholaethau a gaiff eu paru â'i gilydd yn gyffiniol.

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
Democracy and Boundary Commission Cymru

Pe bai'r Comisiwn yn paru Ynys Môn ag etholaeth arall yn lle hynny, byddai angen i bobl deithio drwy Fangor Aberconwy i fynd o un rhan o'u hetholaeth i ran arall, ac ni fyddai'r etholaeth arall yn gyffiniol ag Ynys Môn.
Felly, rwyf/rydym yn credu mai'r unig ddewis sydd gan y Comisiwn yw paru etholaethau seneddol y DU ar hyd arfordir y gogledd yn y modd y mae wedi'u paru.
Ar ôl paru Ynys Môn â Bangor Aberconwy, mae'n rhaid i'r Comisiwn baru Gogledd Clwyd â Dwyrain Clwyd, gan nad yw Gogledd Clwyd yn gyffiniol ag unrhyw un o etholaethau eraill San Steffan, ar wahân i etholaeth Bangor Aberconwy y mae'n rhaid ei pharu ag Ynys Môn.
Gan fod etholaeth Gogledd Clwyd wedi'i pharu â Dwyrain Clwyd, mae'n rhaid i'r Comisiwn baru Alun a Glannau Dyfrdwy â Wrecsam. Nid yw Alun a Glannau Dyfrdwy yn gyffiniol ag unrhyw un o etholaethau seneddol eraill y DU yng Nghymru, ar wahân i etholaeth Dwyrain Clwyd, sydd wedi'i pharu yn barod â Gogledd Clwyd.

Goblygiadau poblogaeth denau yng nghefn gwlad Cymru
Roedd rhai adroddiadau a sylwadau ynghylch cynigion cychwynnol y Comisiwn yn canolbwyntio ar y ffaith bod etholaeth Dwyfor Meirionnydd, Maldwyn a Glyndŵr, a gynigir gan y Comisiwn, yn fawr. Fodd bynnag, nid beirniadaeth o waith y Comisiwn yw hynny, oherwydd
• Mae'r ffaith bod yr etholaeth yn fawr yn adlewyrchu poblogaeth denau llawer o gefn gwlad Cymru, o ganlyniad i'r rheolau a ddefnyddiwyd i ffurfio etholaethau seneddol y DU; ac
• O ystyried y drafodaeth uchod, dim ond ag etholaeth Maldwyn a Glyndŵr neu etholaeth Ceredigion Preseli y gellir paru Dwyfor Meirionnydd.
Rwyf/Rydym yn cefnogi cynnig y Comisiwn, oherwydd yr unig opsiwn arall yw paru Dwyfor Meirionnydd ag etholaeth Ceredigion Preseli. Byddai hynny'n creu etholaeth a fyddai'n ymestyn o Gaernarfon i Abergwaun, ac er y byddai ei harwynebedd yn debyg byddai'n golygu mwy fyth o bellter ac o amser teithio i fynd o amgylch yr etholaeth ac yn golygu mai bach iawn o bethau fyddai'n gyffredin rhwng pegynau'r etholaeth, i'r fath raddau fel y gallai ddwyn anfri ar yr holl adolygiad.
Fel aelod o Reform UK, rwyf/rydym hefyd yn cefnogi cynigion eraill y Comisiwn ar gyfer paru etholaethau y mae poblogaeth denau'r canolbarth a'r gorllewin yn effeithio arnynt.
Mae'r Comisiwn wedi llwyddo i ystyried ffiniau llywodraeth leol ac wedi cynnal cysylltiadau lleol drwy gynnig 'Ceredigion a Sir Benfro' a 'Sir Gaerfyrddin' fel etholaethau. Rydym yn cefnogi'r rhain yn frwd.
Rwyf/Rydym yn rhagweld y bydd etholaeth Aberhonddu, Maesyfed, Castell-nedd a Dwyrain Abertawe, a gynigir gan y Comisiwn, yn fwy dadleuol, er ein bod yn cefnogi'r cynnig.
O ystyried y drafodaeth uchod, nid yw'n bosibl cyfuno etholaeth Aberhonddu, Maesyfed a Chwm Tawe ag unrhyw etholaeth sydd i'r gogledd na'r gorllewin ohoni, ac ni allwn weld unrhyw ddadleuon da dros ei chyfuno ag unrhyw etholaethau eraill

sydd i'r de ohoni.
Mae dadleuon sy'n nodi nad oes gan Aberhonddu a Maesyfed gysylltiadau â Chwm Tawe hefyd yn berthnasol i Ystradgynlais, sydd wedi bod yn gysylltiedig ers amser maith ag Aberhonddu a Maesyfed at ddibenion seneddol. At hynny, er ein bod yn cydnabod bod ymestyn yr etholaeth hyd at Bontardawe yn ddadleuol, cafodd y penderfyniad hwnnw ei wneud yn flaenorol ar gyfer Senedd y DU, ac nid oes gan y Comisiwn unrhyw ddewis ond defnyddio'r etholaethau hynny fel blociau adeiladu.
Er bod gan Bontardawe gysylltiadau gwael efallai ag Aberhonddu a Maesyfed, mae'n amlwg bod gan y lle gysylltiadau lleol cryf â Chastell-nedd a Dwyrain Abertawe.
Rydym o blaid yr etholaeth Aberhonddu, Maesyfed, Castell-nedd a Dwyrain Abertawe a gynigir, ac yn teimlo ei bod yn opsiwn mwy ffafriol na rhai eraill sy'n waeth.

Gweithio gyda thopograffi cymoedd y de
Mae'n anodd integreiddio cymoedd y de yn briodol i mewn i 16 yn unig o etholaethau ar draws Cymru, ac mae'n anochel y bydd yna wyriadau.
Mae'r Comisiwn yn gywir o ran egwyddor yn ei gynigion cychwynnol. Os oes modd, gorau oll os gellir parchu topograffi'r cymoedd drwy eu defnyddio i gysylltu etholaethau â'i gilydd o'r gogledd i'r de, yn hytrach na gorfodi etholaethau i ffurfio pâr o'r dwyrain i'r gorllewin ar draws cymoedd nad ydynt yn rhannu'r un cysylltiadau lleol a chymunedol.
Mae hynny'n amlwg yn achos parau 'Merthyr Tudful, Aberdâr a Phontypridd' a 'Blaenau Gwent, Rhymni a Chaerffili', lle mae'r etholaethau sydd wedi'u paru â'i gilydd yn cyd-redeg ag amlinellau'r cymoedd o'r gogledd i'r de yn gyffredinol, gan barchu cymunedau a chysylltiadau lleol heb eu hollti. Dyna fyddai'n dueddol o ddigwydd pe baent yn cael eu paru fel arall o'r dwyrain i'r gorllewin.
Yn yr un modd, rwyf/rydym yn cefnogi cynnig y Comisiwn i baru Casnewydd ag Islwyn, a'r cam naturiol i baru Sir Fynwy a Thorfaen â'i gilydd, sy'n ddwy etholaeth sydd â chysylltiadau hanesyddol.
Rwyf/Rydym o'r farn bod y Comisiwn hefyd yn gywir i baru cymunedau Bro Morgannwg a Phen-y-bont ar Ogwr, sydd â chysylltiadau agos â'i gilydd, yn hytrach na gorfodi cysylltiad annaturiol rhwng etholaeth wledig Bro Morgannwg ac etholaeth yng Nghaerdydd, sef y brifddinas.
Rwyf/Rydym o'r farn bod y cyfuniad sy'n digwydd o ganlyniad i hynny, sef paru ardaloedd Aberafan, Maesteg, Rhondda ac Ogwr â'i gilydd fel etholaeth sydd â threftadaeth ddiwydiannol gysylltiedig, hefyd yn hybu cysylltiadau lleol.

Y parau yng Nghaerdydd
Rwyf/Rydym yn credu ei bod yn gywir i'r pedair etholaeth yng Nghaerdydd gael eu paru â'i gilydd, a bod y Comisiwn wedi cynnig y parau cywir yn y brifddinas.
Mae daearyddiaeth yn cysylltu Dwyrain Caerdydd a Gogledd Caerdydd yn agosach â Chasnewydd, Bryste a choridor yr M4 ymhellach i'r dwyrain i mewn i Loegr. Mae Gorllewin Caerdydd a De Caerdydd a Phenarth yn tueddu i edrych yn fwy tuag at y

gorllewin ar hyd yr M4 ac i gyfeiriad Abertawe.
Mae cysylltiadau lleol, cysylltiadau eraill a'r rhwydwaith ffyrdd yng Nghaerdydd, yn enwedig yr A4232, yn cysylltu De Caerdydd a Phenarth yn fwyaf agos â Gorllewin Caerdydd. Mae cysylltiadau lleol, cysylltiadau eraill a'r rhwydwaith ffyrdd yng Nghaerdydd yn cysylltu Dwyrain Caerdydd yn fwyaf agos â Gogledd Caerdydd, oherwydd yr A48 a daearyddiaeth gysylltiedig y ddwy etholaeth i'r dwyrain o afon Taf. Mae'r bwlch a adawyd yn y ffordd, a fyddai fel arall wedi bod yn ffordd amgylchynol (M4/A4232/A48(M)) i Gaerdydd yn golygu bod Ffordd Rover, nad yw'n ffordd ddeuol, yn cysylltu Dwyrain Caerdydd yn wael â De Caerdydd a Phenarth. At hynny, mae afon Rhymni a safle gwastraff Ffordd Lamby yn cyfrannu i gysylltedd eithaf gwael rhwng y ddwy etholaeth dan sylw, sy'n etholaethau seneddol y DU.

Yr eiddoch yn gywir
[HEPGOR]

**7963 – Aelod o'r Cyhoedd**

Hoffwn fynegi fy marn a datgan fy mod yn cefnogi'r cynigion cychwynnol a gyflwynwyd gan y Comisiwn.
Rwy'n byw yng Nghasnewydd yn y de.
Cofion cynnes

[HEPGOR]

**7964 – Aelod o'r Cyhoedd**

I bwy bynnag a fynno wybod
Nodwch fy mod, fel aelod o'r cyhoedd yng Nghymru, yn cefnogi'n llwyr y cynigion gwreiddiol a gyflwynwyd gan y Comisiwn.
Diolch.
Cofion,
[HEPGOR]

**7965 – Aelod o'r Cyhoedd**

Hoffwn gofnodi fy nghefnogaeth i'r cynnig cychwynnol gan y Comisiwn Ffiniau, fel aelod o'r cyhoedd yng Nghymru.
[HEPGOR]
Un o drigolion etholaeth Blaenau Gwent

**7966 - Brian James - Cynghorydd lleol neu swyddog etholedig arall**

Annwyl Syr/Madam

Fel un o Gynghorwyr Cymuned Llanilltud Faerdref, hoffwn wneud y sylw canlynol gan ofyn iddo gael ei ystyried.

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
Democracy and Boundary Commission Cymru

Credaf y dylai etholaeth Pontypridd gael ei huno â Gorllewin Caerdydd yn hytrach na Merthyr Tudful ac Aberdâr.

Y rheswm am hynny yw bod rhannau mawr o Orllewin Caerdydd yn arfer perthyn i etholaeth seneddol Pontypridd, megis Pentyrch, Creigiau a Gwaelod-y-garth, a bod cysylltiadau cymunedol a chysylltiadau trafnidiaeth cryf rhwng y ddwy etholaeth – megis llwybrau bysiau rheolaidd a phrif reilffordd.

Mae'n fwy anodd o lawer i drigolion Pontypridd deithio i fyny'r cwm i gyfeiriad Aberdâr a Merthyr, ac mae'r ffocws i gyd ar deithio i Gaerdydd yn bennaf – i weithio, siopa a chael adloniant.

Credaf fod y farn hon yn cael ei hategu ymhellach gan y ffaith bod Pont-y-clun wedi'i symud yn ddiweddar i Orllewin Caerdydd, ond bod llawer o bobl yno'n dal i ystyried eu bod yn byw yn etholaeth Pontypridd – rwy'n meddwl bod rhan o Bont-y-clun yn dal i fod ym Mhontypridd. Dylid cywiro hynny er mwyn osgoi dryswch.

Rwy'n ymwybodol y bydd hynny'n effeithio ar etholaethau eraill, ond gellid datrys y broblem drwy uno De Caerdydd a Phenarth â Bro Morgannwg, sydd â chysylltiadau cryf yn barod (ar lefel llywodraeth leol a thrafnidiaeth ac ar lefel gymunedol); uno Pen-y-bont ar Ogwr ag Aberafan Maesteg; ac yn olaf uno Merthyr Tudful ac Aberdâr â Rhondda ac Ogwr.

Credaf y byddai'r trigolion sy'n byw yno yn cefnogi'r rhain i gyd.

Yn gywir

Cynghorydd Brian James
Cynghorydd Cymuned dros Lanilltud Faerdref

**7968 – Aelod o'r Cyhoedd**

Fel rhywun sy'n byw yng Nghymru, rwy'n cefnogi'r newidiadau a gynigir i ffiniau.
[HEPGOR]
Pen-y-bont ar Ogwr
[HEPGOR]

**7969 - Anthony Ernest - Cynghorydd lleol neu swyddog etholedig arall**

Prynhawn da,

Ynghlwm uchod y mae fy sylwadau i'r Comisiwn.

Diolch.

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
Democracy and Boundary Commission Cymru

Anthony Ernest (Cyngh.)

Y CYNGHORYDD SIR ANTHONY M ERNEST F.T.S., M.R.S.G.B.
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL BRO MORGANNWG

29 Medi 2024
[HEPGOR]

Comisiwn Ffiniau Cymru
CAERDYDD

ETHOLAETH A GYNIGIR AR GYFER Y SENEDD – DE CAERDYDD A PHENARTH/GORLLEWIN CAERDYDD

Annwyl Syr/Madam,

Ysgrifennaf yn rhinwedd fy swydd fel Aelod Hŷn o Gyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg, ers rhyw 30 mlynedd, cyn-Gadeirydd (Maer) yr Awdurdod, a chyn-Gynghorydd Tref Penarth (a Maer ddwy waith) sydd wedi bod yn gwasanaethu cymuned Penarth a'r gymuned gyfagos ers 40 mlynedd.

Wedi ystyried, fy marn i a barn nifer dda o gynghorwyr lleol yn ogystal â llawer o ffrindiau a thrigolion lleol, yw na ddylai Penarth, Dinas Powys, Llandochau a Sili gael eu huno â Gorllewin Caerdydd yn yr "etholaeth wedi'i pharu" newydd a awgrymir gennych, sef De Caerdydd a Gorllewin Caerdydd, a hynny am nifer dda o resymau yr wyf am ymhelaethu arnynt isod:

1. Teimlir yn gryf iawn y byddai'n fwy addas o lawer cynnwys Dinas Powys a Phenarth, yn ogystal â Sili a Llandochau, yn etholaeth newydd Bro Morgannwg. Mae'r trigolion yn teimlo bod ganddynt gysylltiad cryf, o safbwynt ffisegol a chymdeithasol, â Bro Morgannwg yn hytrach na Gorllewin Caerdydd, sy'n ardal drefol dros ben o'r ddinas, nad oes gan yr aneddiadau uchod ddim cysylltiad o gwbl â hi.
2. Mae Ffin Llywodraeth Leol Bro Morgannwg ar lawr gwlad eisoes yn cwmpasu'r cymunedau uchod, a dyma'r cartref mwyaf cyfleus ac ymarferol ar gyfer darparu gwasanaethau hanfodol i'r pedair cymuned dan sylw. Ar hyn o bryd, ceir rhaniad lletchwith oherwydd bod yr aneddiadau uchod yn rhan o Dde Caerdydd tra mae gweddill ardal y Fro yn gorwedd yn gysurus yn ei hardal weinyddol ei hun ac yn cael mwy o fudd o hynny.
3. Mae gan Ddinas Powys a Phenarth gysylltiadau cymdeithasol ac economaidd cryf. Mae plant Dinas Powys yn mynd i ysgol uwchradd ym Mhenarth neu i ysgol Gymraeg yn y Barri. Mae llwybrau bysiau'n mynd allan o Benarth i'r Fro a'r Barri (88,

92, 93, 94, 95). Mae’n rhaid i bobl Dinas Powys a Phenarth fynd i’r Barri am apwyntiadau ysbyty (ar gyfer mân anafiadau a phrofion llygaid).
4. Yn y Barri y mae prif lyfrgell y Fro, nid yng Nghaerdydd, ac o safbwynt addysgol mae’r Ysgol Gatholig yn y Barri yn gwasanaethu’r Fro yn ei chyfanrwydd, gan gynnwys y pedwar anheddiad uchod.
5. Mae cysylltiad anorfod rhwng y Fro a Dinas Powys a Phenarth, yn weinyddol, yn economaidd ac yn ddiwylliannol. O safbwynt atebolrwydd gwleidyddol, mae’r ffaith nad yw cymaint o gyrff cyhoeddus allweddol yn rhannu’r un ffiniau yn achosi dryswch i’r trigolion ac i’r etholwyr yn gyffredinol.
6. Mae’n ofynnol i’r Comisiwn ystyried cysylltiadau o’r fath yn yr “etholaethau wedi’u paru” newydd – ffactorau megis cydlyniant cymdeithasol, priffyrdd sy’n cysylltu â’i gilydd, y gallu i deithio rhwng amryw rannau’r etholaeth, ac yn y bôn y “gymuned fuddiant” rhwng yr etholaeth bartner a awgrymir a’r cynnig a grybwyllir.
7. Nid oes gan etholaeth Gorllewin Caerdydd, ac ni fu ganddi erioed, unrhyw gysylltiadau cymdeithasol na diwylliannol â Phenarth, Dinas Powys, Llandochau a Sili.
8. Nid oes gan etholaeth Gorllewin Caerdydd unrhyw gysylltiadau teithio uniongyrchol â’r aneddiadau uchod – nid oes unrhyw wasanaethau bws na thrên yn cysylltu’r ardaloedd hyn nad ydynt yn perthyn i’w gilydd.
9. Nid oes unrhyw arwydd o “gymuned fuddiant”, ac ni fu “cymuned fuddiant” erioed, rhwng pobl dda Gorllewin Caerdydd a phobl dda Dwyrain Bro Morgannwg.

I grynhoi, ein barn ni yw y byddai aneddiadau Penarth, Dinas Powys, Sili a Llandochau yn cael eu gwasanaethu’n well o lawer pe baent yn cael eu cynnwys yn yr etholaeth Bro Morgannwg newydd ar gyfer y Senedd. Yno, gall trigolion yr aneddiadau ddisgwyl cael eu gwasanaethu’n fwy effeithiol o lawer gan ASau a gaiff eu hethol dan y system cynrychiolaeth gyfrannol newydd a gyflwynir ar gyfer 2026.

Gofynnir, gyda phob parch, i’r Comisiynwyr wneud newidiadau i’r cynigion yn unol â’r uchod.

Y Cynghorydd Sir Anthony M. Ernest
29 Medi 2024

**7970 – Aelod o’r Cyhoedd**

Annwyl Syr,

Fel aelod o’r cyhoedd yng Nghymru ac ar ôl byw gydol fy oes yng nghymoedd y de, hoffwn gofnodi fy nghefnogaeth i Gynigion Cychwynnol y Comisiwn.

Yn fy marn i, mae’n hollbwysig bod etholaethau’n cael eu paru ag etholaethau sydd i’r gogledd neu’r de ohonynt, i fyny ac i lawr y cymoedd. Felly, mae paru Merthyr Tudful ac Aberdâr â Phontypridd yn adlewyrchu cysylltiadau lleol yng nghymunedau’r

cymoedd.

Cofion
[HEPGOR]

Rwyf wedi darllen ….. yn ddiweddar ac, fel aelod o'r cyhoedd yng Nghymru, hoffwn gofnodi fy nghefnogaeth i...
Anfonwyd o fy iPad

**7971 – Aelod o'r Cyhoedd**

Annwyl Syr/Madam,

Hoffwn eich hysbysu, fel aelod o'r cyhoedd yng Nghymru, fy mod yn cefnogi eich Cynigion Cychwynnol.

**7972 – Aelod o'r Cyhoedd**

Helô
Mae fy nheulu i gyd a finnau yn cefnogi'r Cynigion Cychwynnol, fel aelodau o'r cyhoedd yng Nghymru.

[HEPGOR]

**7973 – Aelod o'r Cyhoedd**

Ysgrifennaf i ddatgan fy mod yn cefnogi eich cynnig gwreiddiol ynghylch ffiniau. Rwy'n pryderu y gallai'r cynnig hwn gael ei herio.

Rwy'n bleidleisiwr cofrestredig sy'n byw yn [HEPGOR]

Yr eiddoch yn gywir

[HEPGOR]

**7974 – Aelod o'r Cyhoedd**

Helô

Dim ond gair i roi gwybod i chi fy mod yn cefnogi eich cynnig cychwynnol ynghylch ffiniau Cymru, fel un o ddinasyddion Cymru.

[HEPGOR]
Anfonwyd o fy iPhone

**7975 – Aelod o'r Cyhoedd**

Annwyl Syr,
Ysgrifennaf heddiw ar ran fy ngwraig a finnau i gefnogi eich cynigion ynghylch y newidiadau i ffiniau Cymru. Ceisiais gwblhau'r arolwg y bore yma (28.09.2024) ond cefais wybod bod yna wall ac nad oedd modd i fi gysylltu ag ef.
[HEPGOR]

Hoffem ddiolch i chi am eich gwaith da parhaus.
Yr eiddoch yn gywir

[HEPGOR]
Anfonwyd o fy iPad

**7976 – Aelod o'r Cyhoedd**

Foneddigion,

Fel rhywun a anwyd ac a fagwyd yng Nghasnewydd, rwy'n hollol o blaid eich cynigion cychwynnol, a hynny am un neu ddau reswm, sef:

Er mwyn cynnal cysylltiadau lleol yng nghymunedau'r cymoedd a chadw'r parau presennol.

Yn gywir,

[HEPGOR]

**7977 – Aelod o'r Cyhoedd**

Annwyl Syr
Ar ôl bod yn byw gydol fy oes yng nghymoedd y de, rwy'n teimlo ei bod yn bwysig i fi gofnodi fy nghefnogaeth i Gynigion Cychwynnol y Comisiwn.
Mae'n hollbwysig bod etholaethau'n cael eu paru ag etholaethau sydd i'r gogledd neu'r de ohonynt, i fyny ac i lawr y cymoedd. Felly, mae paru Merthyr Tudful ac Aberdâr â Phontypridd yn adlewyrchu cysylltiadau lleol yng nghymunedau'r cymoedd.
Cofion
[HEPGOR]
Anfonwyd o fy iPhone

**7978 – Aelod o'r Cyhoedd**

Annwyl Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru,
Cyf. 'Adolygiad Senedd 2026, dweud eich dweud am gynigion ffiniau etholaethau y Senedd'
Yn gryno, rwyf yn cytuno ag etholaethau Senedd arfaethedig y comisiwn, yn enwedig mewn cysylltiad â pharu Merthyr Tudful ac Aberdâr gyda Phontypridd. Fe'm

ganwyd ym Mhentre'r Eglwys (Pontypridd) ac rwyf wedi gweithio yn Hirwaun (Aberdâr) ac ym Merthyr Tudful. Yn fy marn i, mae'n gwbl synhwyrol paru etholaethau ar sail y ddaearyddiaeth leol, ac felly hanes yr ardal, gan redeg o'r gogledd i'r de ac nid eu hollti o'r dwyrain i'r gorllewin. Rwyf yn byw yng Nghaerffili ac yn gweithio ym Merthyr Tudful ar hyn o bryd, ac rwyf wedi treulio'r rhan fwyaf o'm bywyd yn byw ac yn gweithio yn yr etholaethau hyn. Teimlaf fod trigolion Pontypridd, Merthyr Tudful ac Aberdâr yn rhannu cysylltiadau ac anghenion lleol, ac ymdeimlad cyffredin o gymuned.
Ar yr un sail, mae'n ymddangos bod paru Gorllewin Caerdydd â De Caerdydd a Phenarth, hefyd yn ddull synhwyrol. Mae'r A4232 yn cysylltu coridor yr M4 yn agos â De Caerdydd, Penarth a Bae Caerdydd. Mae Afon Taf yn ffin daearyddol naturiol ar gyfer Gorllewin Caerdydd a De Caerdydd. Mae gennyf gyfeillion a theulu yng Ngorllewin Caerdydd a De Caerdydd, ac rwyf yn teimlo, o safbwynt demograffig, fod etholaethau Gorllewin Caerdydd a De Caerdydd a Phenarth wedi eu halinio'n eithaf da.
Cofion gorau,
[HEPGOR]

**7979 – Aelod o'r Cyhoedd**

Annwyl syriaid,

Fel rhywun sy'n byw yn Aberdâr, RhCT, ysgrifennaf i gadarnhau fy mod yn cefnogi eich cynigion.

Hoffwn ei gwneud yn hysbys ad yn glir fy mod i o blaid Cynigion Cychwynnol y Comisiwn.

Gwir obeithiaf na fyddwch yn ildio i Lobïwyr sy'n ceisio newid eich syniadau er eu budd eu hunain.

Diolch yn fawr,

[HEPGOR]

**7980 – Aelod o'r Cyhoedd**

Annwyl Syriaid/Fadam

Fel dinesydd Cymreig [HEPGOR]

Ysgrifennaf i gefnogi'r cynigion cychwynnol ynghylch newidiadau ffiniau.

Mae'n bwysig cynnal cysylltiadau lleol yn yr ardal.

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
Democracy and Boundary Commission Cymru

Hefyd
• Mae'n bwysig bod parau etholaethau cymoedd de Cymru yn rhedeg o'r gogledd i'r de i fyny ac i lawr y cymoedd, felly mae paru Merthyr Tudful ac Aberdâr â Phontypridd yn adlewyrchu cysylltiadau lleol yng nghymunedau y cymoedd.
• Yng Nghaerdydd, rydym yn cefnogi'r Comisiwn yn paru Gorllewin Caerdydd â De Caerdydd a Phenarth, gan eu bod wedi eu cysylltu'n agos gan yr A4232, ond wedi eu gwahanu oddi wrth weddill Caerdydd gan Afon Taf.
• Mae'n iawn i bedair etholaeth Caerdydd gael eu paru gyda'i gilydd, a bod y Comisiwn wedi cynnig y parau cywir yn y brifddinas.
Mae cylymau a chysylltiadau Lleol, a'r rhwydwaith ffyrdd yng Nghaerdydd, yn enwedig yr A4232, yn cysylltu De Caerdydd a Phenarth yn agosaf at Orllewin Caerdydd, sydd hefyd yn wir am Ddwyrain Caerdydd a'r Gogledd gyda'r A48 a'u daearyddiaeth gysylltiedig i'r dwyrain o Afon Taf.
Mae'r bwlch a adewir yn yr hyn a fyddai wedi bod yn ffordd amgylchynol M4/A4232/A48(M) Caerdydd fel arall yn gadael Dwyrain Caerdydd a De Caerdydd a Phenarth wedi eu cysylltu'n wael â Ffordd Rover nad yw'n ffordd ddeuol. Mae safle gwastraff Ffordd Lamby ac Afon Rhymni hefyd yn cyfrannu at gysylltedd cymharol wael rhwng y ddwy etholaeth seneddol y DU hyn.
Cofion
[HEPGOR]

**7981 – Aelod o'r Cyhoedd**

Helo,

Hoffwn ddatgan yn glir fy mod yn cefnogi cynnig cychwynnol y Comisiwn a fy mod yn dymuno iddo aros ar waith ar gyfer Cymru gyfan.
Hefyd—
• Mae'n bwysig bod parau etholaethau cymoedd de Cymru yn rhedeg o'r gogledd i'r de i fyny ac i lawr y cymoedd, felly mae paru Merthyr Tudful ac Aberdâr â Phontypridd yn adlewyrchu cysylltiadau lleol yng nghymunedau y cymoedd.
• Yng Nghaerdydd, rydw i'n cefnogi'r Comisiwn yn paru Gorllewin Caerdydd â De Caerdydd a Phenarth, gan eu bod wedi eu cysylltu'n agos gan yr A4232, ond wedi eu gwahanu oddi wrth weddill Caerdydd gan Afon Taf.
Cofion,
[HEPGOR]
Anfonwyd o'm iPhone

**7982 – Aelod o'r Cyhoedd**

Hoffwn ddweud fy mod yn cefnogi eu Cynigion Cychwynnol fel aelod o'r cyhoedd yng Nghymru.

[HEPGOR]

**7983 -Aelod o'r Cyhoedd**

Hoffwn leisio fy nghefnogaeth dros y newidiadau a gynigiwyd gan Gomisiwn Ffiniau Cymru.
[HEPGOR]

**7984 – Aelod o'r Cyhoedd**

Helo, fel preswylydd gydol oes yng NGHYMRU ac sy'n falch iawn o'r ffaith honno. Er fy mod yn cytuno â'r newidiadau arfaethedig teimlaf fod yr hyn a ganlyn yn bwysig:

• Mae'n bwysig bod parau etholaethau cymoedd de Cymru yn rhedeg o'r gogledd i'r de i fyny ac i lawr y cymoedd, felly mae paru Merthyr Tudful ac Aberdâr â Phontypridd yn adlewyrchu cysylltiadau lleol yng nghymunedau y cymoedd.
• Yng Nghaerdydd, rydw i'n cefnogi'r Comisiwn yn paru Gorllewin Caerdydd â De Caerdydd a Phenarth, gan eu bod wedi eu cysylltu'n agos gan yr A4232, ond wedi eu gwahanu oddi wrth weddill Caerdydd gan Afon Taf.

Diolch am ddarllen yr e-bost hwn, [HEPGOR] Pontnewydd, Cwmbrân.

**7985 – Aelod o'r Cyhoedd**

Annwyl Syr/Madam:

Fel preswylydd yng Nghymru, rwyf yn llwyr GEFNOGI'r newidiadau arfaethedig a nodir gan y Comisiwn Ffiniau
...
Cofion cynnes,
[HEPGOR]

**7986 – Aelod o'r Cyhoedd**

Annwyl Syr/Madam/Arall,
Ysgrifennaf ynghylch y newid ffiniau arfaethedig sy'n ymwneud â Cheredigion, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro. Nid wyf yn ifanc, ond rwyf yn hoffi cael yr wybodaeth ddiweddaraf am ddiweddariadau gwleidyddol ein gwlad. Mae'n rhaid i mi gyfaddef nad oedd y newidiadau arfaethedig y newidiadau hawsaf i'w deall. Fodd bynnag, o ran fy ardal i, Ceredigion, teimlaf yn gyfforddus ynghylch creu cyswllt rhwng yr ardaloedd uchod. Dywedaf hyn oherwydd, yn ystod y deugain mlynedd yr wyf wedi byw yma, fy mod wedi cael sawl cysylltiad â'r ardaloedd hynny, yn enwedig Sir Gaerfyrddin. Felly teimlaf yn gyfforddus pe byddwn yn ymuno â'n gilydd. Gobeithiaf y bydd eich holl waith yn cyfrannu at ddarparu cynrychiolaeth fwy realistig o'n pleidleisiau ar ddiwrnodau pleidleisio. Gwnaeth trafodaethau diweddar â'm hŵyr 23 oed imi deimlo'n drist pan ddywedodd wrthyf nad yw erioed wedi pleidleisio ac nad yw'n bwriadu gwneud hynny. Mae'n credu na fydd ei bleidlais dros ba blaid bynnag yn gwneud unrhyw wahaniaeth oherwydd y ffordd y mae "popeth wedi'i sefydlu".

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
Democracy and Boundary Commission Cymru

Diolch am eich holl waith caled gyda'r mater hwn.
[HEPGOR]

**7987 - Karl Johnson - Cynghorydd lleol neu swyddog etholedig arall**

Annwyl Syr/Madam:

Rwyf yn Gynghorydd Bwrdeistref Sirol sy'n cynrychioli ward Llanilltud Faerdref ar CBS Rhondda Cynon Taf. Hoffwn wneud y sylwadau canlynol:

Teimlaf fod achos cryf dros uno etholaeth Pontypridd â Gorllewin Caerdydd, ac nid Merthyr Tudful ac Aberdâr.

Ar un adeg, roedd rhannau helaeth o Orllewin Caerdydd yn Etholaeth Seneddol Pontypridd, gan gynnwys aneddiadau Pentyrch, Creigiau, Gwaelod y Garth, Capel Llanilltern—a gadawodd pob un ohonynt yr etholaeth yn sgil y Pumed Adolygiad Cyfnodol yn 2010. Yn ddiweddar, ychwanegwyd tref Pont-y-clun, sy'n cynnwys Meisgyn a'r Groes-faen, o etholaeth Pontypridd at Orllewin Caerdydd yn sgil Adolygiad Cyfnodol 2023. Mae hyn wedi achosi annormalrwydd etholiadol, oherwydd bod rhannau o ward etholiadol 'Gorllewin Pont-y-clun' yn dal i fyw yn etholaeth Pontypridd.

Cefnogir ymuno â Phontypridd a Gorllewin Caerdydd ymhellach oherwydd cysylltiadau cymunedol cryf, gyda'r mwyafrif o etholaeth Pontypridd yn edrych tua'r de tuag at Gaerdydd ar gyfer gwaith, manwerthu a gweithgareddau cymdeithasol. Mae gan aneddiadau Llanharan a Llanhari gysylltiadau enwedig o gryf â Phont-y-clun, fel sydd gan Tonysguboriau a Llantrisant. Mae gan aneddiadau megis Llanilltud Faerdre, Efail Isaf, Pentre'r Eglwys a Thon-teg, gysylltiadau cryf â Chreigiau a Phentrych oherwydd eu hagosrwydd. Cefnogir hyn i gyd gan gysylltiadau trafnidiaeth cryf, gan gynnwys rheilffyrdd a bysiau—nad ydynt mor gryf ar gyfer y trigolion hyn sy'n mynd i Ferthyr ac Aberdâr.

Gan droi at Ferthyr Tudful ac Aberdâr, rwyf yn poeni nad oes gan y mwyafrif helaeth o'r trigolion sy'n byw ym Mhontypridd unrhyw gysylltiad nac affinedd â'r cynnig hwn ac y byddai'n fwy gweddus i'r etholaeth ymuno â'r Rhondda ac Ogwr. Maent yn rhannu cysylltiadau diwylliannol cryf oherwydd eu hanes diwydiannol, ond cysylltiadau seilwaith a thrafnidiaeth cryf. Amlygir hyn ymhellach drwy drosglwyddiad aneddiadau megis Ynys-y-bwl, Glyn-coch a Chilfynydd allan o Gwm Cynon ac i Bontypridd yn yr adolygiad cyfnodol diwethaf—yr oedd pob un ohonynt yn uniaethu yn gadarn â Phontypridd ac nid ag Aberdâr na Chwm Cynon.

Dylid nodi hefyd mai un o gynigion gwreiddiol Adolygiad Cyfnodol 2023 oedd uno etholaethau Rhondda a Chwm Cynon. Roedd hynny eto'n cydnabod y cysylltiadau cryf a rennir gan y ddwy etholaeth hyn.

Yn lle uno De Caerdydd a Phenarth â Gorllewin Caerdydd, byddai'n cael ei huno ag etholaeth Bro Morgannwg. Cefnogir hyn gan y ffaith bod rhannau helaeth o'r etholaeth eisoes yn rhannu ffin llywodraeth lleol yn ogystal ag aneddiadau yn Ne Caerdydd a Phenarth a oedd yn etholaeth Bro Morgannwg yn ddiweddar—ee Dinas Powys. Mae Bro Morgannwg a De Caerdydd a Phenarth yn rhannu cysylltiadau cymunedol a thrafnidiaeth cryf, ac mae'r rhan fwyaf o'r Fro yn edrych tuag at Gaerdydd ar gyfer gweithgareddau cymdeithasol, manwerthu a chyflogaeth. Mae trigolion De Caerdydd a Phenarth yn edrych tuag at y Fro ar gyfer gweithgareddau cymdeithasol a hamdden.

Yn lle uno Pen-y-bont ar Ogwr â Bro Morgannwg, byddai'n uno ag Aberafan Maesteg. Mae'r paru hyn yn gwneud synnwyr oherwydd ffiniau llywodraeth lleol a rennir; mae trigolion Aberafan a Maesteg yn edrych yn bennaf tuag at Ben-y-bont ar Ogwr ar gyfer gweithgareddau cymdeithasol, manwerthu a chyflogaeth, ac mae cysylltiadau trafnidiaeth cryf rhwng y ddau. Yn yr un modd, mae ganddynt fwy o 'hanes a rennir' gyda'i gilydd o'u cymharu â Phen-y-bont ar Ogwr a Bro Morgannwg.

Diolch am eich ystyriaeth yn y mater hwn, ac edrychaf ymlaen at eich ymateb cyn gynted â phosibl.

Y Cynghorydd Karl R Johnson

Cynghorydd CBS Rhondda Cynon Taf
ar gyfer Llanilltud Faerdref ac Efail Isaf

[HEPGOR]

**7988 – Y Cynghorydd Vince Driscoll - Cynghorydd lleol neu swyddog etholedig arall**

Annwyl Syr
Ysgrifennaf yn y gobaith y byddech yn ailystyried eich cynnig i baru etholaeth Bro Morgannwg ag etholaeth Pen-y-bont ar Ogwr.
Credaf y byddai'n well ei pharu â De Caerdydd a Phenarth. Mae eisoes yn rhannu ffin llywodraeth lleol â De Caerdydd a than yn ddiweddar roedd anheddiad Dinas Powys yn etholaeth y Fro.
Mae'r ddwy etholaeth hyn (Bro a Chaerdydd) yn rhannu cysylltiadau cymunedol a thrafnidiaeth cryf. Ac mae rhannau helaeth o'r Fro yn mynd tuag at Gaerdydd ar gyfer cyfleusterau manwerthu, cymdeithasol a Chyflogaeth. Ac mae trigolion de Caerdydd yn mynd y ffordd arall ar gyfer cynigion Cymdeithasol a hamdden.
Byddai Pen-y-bont yn cael ei pharu'n well gydag Aberafan/Maesteg yn hytrach na Bro Morgannwg, gan eu bod hwythau hefyd yn rhannu ffiniau llywodraeth lleol. Ac

mae trigolion Aberafan/Maesteg yn mynd tuag at Ben-y-bont ar Ogwr ar gyfer cyfleoedd manwerthu a chyflogaeth, sy'n ychwanegu bod cysylltiadau trafnidiaeth cryf rhwng y ddwy etholaeth hefyd.
Yn olaf, mae gan Ben-y-bont ar Ogwr hanes a rennir cryfach gydag Aberafan Maesteg o'i gymharu â Bro Morgannwg.
Rhowch eich ystyriaethau llawn i'r pwyntiau hyn cyn gwneud eich penderfyniad terfynol.
Yn gywir
Y Cynghorydd Vince Driscoll
Ward Dinas Powys

**7989 – Aelod o'r Cyhoedd**

Diolch am eich gwaith hyd yn hyn.

Credaf eich bod wedi sicrhau'r cydbwysedd gorau posibl â'ch Cynigion Cychwynnol. O ystyried eich gofynion statudol, mae'n anochel y bydd rhai etholaethau yn fawr iawn, a chredaf eich bod wedi gwneud y parau gorau posibl yn yr amgylchiadau sy'n eich wynebu. Rwyf yn cefnogi eich Cynigion Cychwynnol yn eu cyfanrwydd.

Mae'n ymddangos bod eich parau yng ngogledd Cymru yn deillio'n naturiol o'ch angen i baru Ynys Môn â Bangor Aberconwy, o ystyried eich dealltwriaeth o'r hyn y mae 'cyffiniol' yn ei olygu, ac rwyf yn ofni y gallai unrhyw benderfyniad arall adael eich argymhellion yn agored i adolygiad barnwrol.

Rwyf yn cefnogi eich cynnig i baru Aberhonddu, Maesyfed, Castell-nedd a Dwyrain Abertawe, oherwydd bod y Comisiwn Ffiniau Seneddol eisoes wedi rhoi ardal Cwm Tawe yn yr un etholaeth ag Aberhonddu a Maesyfed. O ystyried hynny, mae'r ffaith amlwg bod gan ardal Cwm Tawe gysylltiadau agos â Chastell-nedd, a chysylltiadau rhesymol agos â Dwyrain Abertawe, yn milwrio'n gryf o blaid y parau yr ydych wedi eu cynnig.

Mae'r cymoedd yn cysylltu cymunedau gyda'i gilydd, ond mae'r bryniau rhwng y cymoedd yn eu gwahanu. O ganlyniad, rwyf yn eich canmol am gysylltu etholaethau'r cymoedd o'r gogledd i'r de yn eich parau yn gyffredinol, yn enwedig lle mae'r cymoedd ar eu hiraf yn ne-ddwyrain Cymru. Er enghraifft, mae Cwm Taf a Chwm Cynon yn cysylltu Merthyr Tudful ac Aberdâr yn y drefn honno i lawr at Bontypridd ac mae Cwm Ebwy yn cysylltu Casnewydd ac Islwyn. Diolch am barchu hyn a'r cysylltiadau lleol a chymunedol dilynol.

Rwyf hefyd yn cefnogi eich parau yng Nghaerdydd. Mae'r cysylltiadau trafnidiaeth rhwng Gorllewin Caerdydd a De Caerdydd a Phenarth yn dda iawn drwy'r A4232. I'r gwrthwyneb, mae'r cysylltiadau rhwng De Caerdydd a Phenarth a Dwyrain Caerdydd yn gymharol wael oherwydd man cyfyng Ffordd Rover nad yw'n ffordd ddeuol. Mae

Afon Taf hefyd yn ffurfio ffin naturiol ac arwyddocaol yn ddiwylliannol i wahanu dau bâr Caerdydd yr ydych wedi eu cynnig yn gywir yn eich cynnig cyntaf, yn fy marn i.

Gobeithiaf yn fawr y byddwch yn cadw at eich Cynigion Cychwynnol synhwyrol ac a ystyriwyd yn dda.

[HEPGOR]

Noder: Rwyf wedi rhoi fy nghyfeiriad i chi er gwybodaeth ac nid i'w gyhoeddi.

**7990 – Aelod o'r Cyhoedd**

Fel aelod o'r cyhoedd yng Nghymru, rwyf yn cefnogi'r cynnig cychwynnol o ran newidiadau i'n ffiniau. Anfonwyd o'm iPhone

**7991 – Aelod o'r Cyhoedd**

Annwyl Syr,
Fel preswylydd yng Nghymru sy'n byw yn ardal Llangefni yn Ynys Môn, hoffwn roi gwybod i chi fy mod yn llwyr gefnogi eich cynigion cychwynnol ar gyfer yr adolygiad ffiniau.
[HEPGOR]
Anfonwyd drwy Ap BT Email

**7992 – Aelod o'r Cyhoedd**

Annwyl syr/madam

Rwyf yn cefnogi'r Cynigion Cychwynnol fel aelod o'r cyhoedd yng Nghymru.

Yn gywir,

[HEPGOR]

**7993 – Aelod o'r Cyhoedd**

Annwyl Syr/Madam

Rwyf yn cofrestru fel pleidleisiwr fy nghefnogaeth i'ch cynigion cychwynnol.

Cofion
[HEPGOR]

**7994 – Aelod o'r Cyhoedd**

Annwyl Syr
Hoffwn gofrestru gyda chi fy mod yn cefnogi cynigion gwreiddiol y Comisiwn.

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
Democracy and Boundary Commission Cymru

Diolch
[HEPGOR]

Anfonwyd o'm iPad

**7995 – Aelod o'r Cyhoedd**

Fel aelod o'r cyhoedd sy'n talu trethi yng Nghymru, rwyf yn cefnogi eich Cynigion Cychwynnol.!!

**7996 – Aelod o'r Cyhoedd**

Rwyf yn cefnogi eich cynigion cychwynnol fel aelod o'r cyhoedd yng Nghymru.

Cofion
[HEPGOR]

**7997 – Aelod o'r Cyhoedd**

Annwyl Dîm,

Fel un o drigolion Caerdydd, hoffwn leisio fy newis i gefnogi eich cynigion cychwynnol o ran pennu ffiniau.

Fy mhrif reswm yw oherwydd yng Nghaerdydd, rydw i'n cefnogi'r Comisiwn yn paru Gorllewin Caerdydd â De Caerdydd a Phenarth, gan eu bod wedi eu cysylltu'n agos gan yr A4232, ond wedi eu gwahanu oddi wrth weddill Caerdydd gan Afon Taf.

Rwyf yn gwerthfawrogi eich bod yn gwrando ar fy safbwyntiau.

Cofion,

[HEPGOR]

**7998 – Aelod o'r Cyhoedd**

Annwyl Dîm Ymgynghoriadau

Fel dinesydd Cymreig, ysgrifennaf atoch i gefnogi'r newidiadau arfaethedig i'r system ffiniau, yn enwedig gan fod y map ardaloedd pleidleisio presennol yn dangos bod y system bresennol yn gwbl annheg. Bu hyn yn fantais i un blaid wleidyddol benodol yn unig, yr ydym wedi bod yn sownd â hi mewn grym ers dros ddegawd bellach, a dyma'r rheswm pam nad yw cynifer o bobl yn mynd i'r drafferth i bleidleisio; maen nhw'n teimlo nad yw'n werth chweil oherwydd ein bod ni i gyd yn gwybod pwy fydd

yn ennill, hyd yn oed os nad yw'r mwyafrif ohonom ni eisiau iddynt ennill.

Am yr un rheswm, does gen i ddim amheuaeth mai gwleidyddion Llafur Cymru fydd y rhai mwyaf uchel eu cloch wrth brotestio yn erbyn unrhyw newidiadau, oherwydd y byddai'n golygu colli'r fantais annheg honno. Fodd bynnag, mae'n hen bryd i ni, y cyhoedd sy'n pleidleisio, gael system decach, a dyna pam yr wyf yn erfyn arnoch i weithredu'r newidiadau arfaethedig.

Diolch, yn gywir

[HEPGOR]

Anfonwyd o'm iPhone

**7999 – Aelod o'r Cyhoedd**

Annwyl Dîm,

Fel un o drigolion Caerdydd, hoffwn leisio fy newis i gefnogi eich cynigion cychwynnol o ran pennu ffiniau.

Un prif reswm yw oherwydd fy mod yn cefnogi'r Comisiwn yn paru Gorllewin Caerdydd â De Caerdydd a Phenarth, gan eu bod wedi eu cysylltu'n agos gan yr A4232, ond wedi eu gwahanu oddi wrth weddill Caerdydd gan Afon Taf.

Rwyf yn gwerthfawrogi'r cyfle a roddir i gyflwyno fy safbwyntiau.

Cofion,

[HEPGOR]

**8000 – Aelod o'r Cyhoedd**

Annwyl dîm

Fel aelod o'r cyhoedd yng Nghymru, hoffwn gefnogi'r newidiadau arfaethedig ar gyfer newid y ffiniau etholiadol.

Cofion a dymuniadau gorau

[HEPGOR]

Sir Ddinbych

**8001 – Aelod o'r Cyhoedd**

Rwyf yn cefnogi'r Cynigion Cychwynnol ar gyfer ffiniau y Senedd fel aelod o'r cyhoedd yng Nghymru.

Cofion
[HEPGOR]

**8002 – Aelod o'r Cyhoedd**

Rwyf yn cefnogi'r cynnig

**8003 – Aelod o'r Cyhoedd**

Rwyf yn cefnogi eich cynnig cychwynnol o ran diwygio ffiniau [HEPGOR] Anfonwyd o'm iPhone

**8004 – Aelod o'r Cyhoedd**

[HEPGOR]
Fodd bynnag, hoffwn gyflwyno'r ymateb hwn i'r ymgynghoriad.

Rwyf yn credu bod y Comisiwn yn gywir wrth wneud y parau hyn a chredaf hefyd y dylai'r Comisiwn baru Ynys Môn a Bangor Aberconwy, gan fod yr unig gysylltiadau ffordd (a rheilffyrdd) o Ynys Môn i'r tir mawr drwy Fangor Aberconwy, a bod y ddeddfwriaeth sylfaenol berthnasol yn ei gwneud yn ofynnol i etholaethau pâr fod yn gyffiniol. Pe byddai'r Comisiwn yn lle hynny yn paru Ynys Môn ag etholaeth arall, felly byddai angen i bobl deithio drwy Fangor Aberconwy i fynd o un rhan o'u hetholaeth i'r llall, yna ni fyddai'r etholaeth honno'n gyffiniol.
Credaf felly nad oes gan y Comisiwn ddewis ond paru etholaethau Seneddol y DU ar hyd arfordir gogledd Cymru fel y gwnaeth.
Ymhellach, dylai'r Comisiwn baru Gogledd Clwyd â Dwyrain Clwyd, gan nad yw Gogledd Clwyd yn cydgyffwrdd ag unrhyw etholaeth San Steffan arall ac eithrio Bangor Aberconwy y mae'n rhaid ei pharu ag Ynys Môn.
Oherwydd bod Gogledd Clwyd yn cael ei pharu â Dwyrain Clwyd, mae'n rhaid i'r Comisiwn baru Alun a Glannau Dyfrdwy â Wrecsam. Nid yw Alun a Glannau Dyfrdwy yn cydgyffwrdd ag unrhyw etholaeth seneddol arall yn y DU yng Nghymru ac eithrio Dwyrain Clwyd, sydd eisoes wedi ei pharu â Gogledd Clwyd.
Mae'n syniad da ystyried ffiniau llywodraeth leol drwy gynnig 'Ceredigion a Sir Benfro' a 'Sir Gaerfyrddin' fel etholaethau. Rwyf yn cefnogi'r rhain yn gryf os nad yw'r terfyn ar etholaethau yn gallu creu etholaeth Sir Benfro a fyddai wedi bod yn well. Nid oes cysylltiadau naturiol rhwng Sir Benfro a Cheredigion oherwydd y defnydd cyfyngedig o'r Gymraeg yn Sir Benfro ac yn enwedig yn y De.

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
Democracy and Boundary Commission Cymru

Rwyf yn cefnogi etholaeth arfaethedig Aberhonddu, Maesyfed, Castell-nedd a Dwyrain Abertawe y Comisiwn.

Mae'n anodd integreiddio cymoedd y de yn briodol i 16 etholaeth yn unig ledled Cymru, ac mae anghysonderau'n anochel.
Mae'r Comisiwn yn iawn mewn egwyddor yn ei gynigion Cychwynnol. Pan fo hynny'n bosibl, mae'n well parchu topograffi y cymoedd, drwy ddefnyddio'r cymoedd hynny i gysylltu etholaethau rhwng y gogledd a'r de, yn hytrach na gorfodi etholaethau i baru rhwng y dwyrain a'r gorllewin ar draws cymoedd nad ydynt yn rhannu'r un cysylltiadau lleol a chysylltiadau cymunedol.
Mae hyn yn amlwg gyda pharau 'Merthyr Tudful, Aberdâr a Phontypridd' a 'Blaenau Gwent, Rhymni a Chaerffili', lle mae'r etholaethau pâr yn rhedeg o'r gogledd i'r de gyda chyfuchliniau y cymoedd i raddau helaeth, gan barchu cysylltiadau a chymunedau lleol, a pheidio â'u rhannu fel y byddai parau eraill o'r dwyrain i'r gorllewin yn tueddu i'w gwneud.
Yn yr un modd, rwyf yn cefnogi pâr arfaethedig Casnewydd ac Islwyn y Comisiwn, a phâr naturiol Sir Fynwy a Thorfaen sy'n cysylltu yn hanesyddol.
Mae'r Comisiwn hefyd yn gywir wrth baru cymunedau clymog Bro Morgannwg a Phen-y-bont ar Ogwr, yn hytrach na gorfodi cysylltiad annaturiol rhwng cefn gwlad Bro Morgannwg ac etholaeth o brifddinas Caerdydd.
Mae cyfuno ardaloedd Aberafan, Maesteg, Rhondda ac Ogwr fel etholaeth sydd â threftadaeth diwydiannol cysylltiedig hefyd yn cefnogi cysylltiadau lleol.
Credaf ei bod yn iawn i bedair etholaeth Caerdydd gael eu paru gyda'i gilydd, a bod y Comisiwn wedi cynnig y parau cywir yn y brifddinas.
Mae Dwyrain Caerdydd a Gogledd Caerdydd wedi eu cysylltu'n agosach gan ddaearyddiaeth gan fod Casnewydd, Bryste a choridor yr M4 ymhellach i'r dwyrain i Loegr. Mae Gorllewin Caerdydd a De Caerdydd a Phenarth yn tueddu i edrych yn fwy tua'r gorllewin ar hyd yr M4 a thuag at Abertawe.
Mae cylymau a chysylltiadau Lleol, a'r rhwydwaith ffyrdd yng Nghaerdydd, yn enwedig yr A4232, yn cysylltu De Caerdydd a Phenarth yn agosaf at Orllewin Caerdydd, sydd hefyd yn wir am Ddwyrain Caerdydd a'r Gogledd gyda'r A48 a'u daearyddiaeth gysylltiedig i'r dwyrain o Afon Taf.
Mae'r bwlch a adewir yn yr hyn a fyddai wedi bod yn ffordd amgylchynol M4/A4232/A48(M) Caerdydd fel arall yn gadael Dwyrain Caerdydd a De Caerdydd a Phenarth wedi eu cysylltu'n wael â Ffordd Rover nad yw'n ffordd ddeuol. Mae safle gwastraff Ffordd Lamby ac Afon Rhymni hefyd yn cyfrannu at gysylltedd cymharol wael rhwng y ddwy etholaeth seneddol y DU hyn.
[HEPGOR]

**8005 – Aelod o'r Cyhoedd**

Hoffwn gofnodi fy nghefnogaeth i gynigion cychwynnol y Comisiwn.

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
Democracy and Boundary Commission Cymru

Rwyf yn aelod o'r cyhoedd.

[HEPGOR]

**8006 – Aelod o'r Cyhoedd**

Hoffwn gofnodi fy nghefnogaeth i gynigion cychwynnol y Comisiwn.

[HEPGOR]

**8007 - Ar ran sefydliad (preifat neu gyhoeddus)**

Adolygiad 2026 o Etholaethau y Senedd
Ymateb i Ymgynghoriad y Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol
Medi 2024
Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru (BCEC)
Mae Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru (BCEC) wedi bodoli ers 2017. Er ei fod yn gweithredu o dan drefniad gwirfoddol ar hyn o bryd, heb unrhyw sail statudol na phwerau ffurfiol, a than yn ddiweddar iawn, heb unrhyw gyllid grant cenedlaethol, cydnabyddir BCEC gan y rhwydwaith etholiadau proffesiynol, partneriaid cenedlaethol a'r ddwy lywodraeth.
Mae BCEC yn gwneud yr hyn a ganlyn:
• cydlynu'r gwaith o gynllunio ac yn dadrisgio pob digwyddiad etholiadol yng Nghymru—etholiadau na chedwir yn ôl ac etholiadau a gedwir yn ôl;
• cynghori ar y broses o gynllunio, drafftio a gweithredu polisi diwygio etholiadol, deddfwriaeth ac arloesedd profi/peilot, a pholisïau ac adolygiadau eraill,
• cynnal a chefnogi rhwydwaith cadarn o swyddogion canlyniadau a gweinyddwyr etholiadol; a
• hybu arferion da, arloesol a chyson.
Swyddogaeth BCEC wrth wneud ymatebion i'r ymgynghoriad
Gall BCEC ddarparu cyngor arbenigol ar (1) ymarferoldeb gweithredu darpariaethau deddfwriaeth ddrafft ar ôl eu cyhoeddi, a hefyd ar bolisïau cenedlaethol ac adolygiadau eraill (2) y risgiau y bydd angen eu rheoli i sicrhau y gellir gweinyddu unrhyw ddiwygio etholiadol, cofrestru etholiadol parhaus a'r digwyddiadau etholiadol eu hunain yn effeithlon ac yn ddiogel, gyda gonestrwydd, a chydag ymddiriedaeth a hyder yr etholwyr a'r holl randdeiliaid a (3) y gofynion adnoddau ar gyfer swyddogion canlyniadau a thimau gwasanaethau etholiadau mewn awdurdodau lleol a'u partneriaid cenedlaethol.
Mae'r Bwrdd yn cyfrannu at ddatblygu a drafftio deddfwriaeth ac adolygiadau polisi—o'r gysyniadaeth hyd eu cyhoeddiad—yn y cefndir, drwy gyswllt agos â gweision sifil, gyda phartneriaid cenedlaethol ac ochr yn ochr â nhw.

Ymateb i'r Ymgynghoriad
Adolygodd BCEC gynigion cychwynnol y Comisiwn ar gyfer adolygiad Etholaethau y Senedd, a pharu'r 32 Etholaeth Seneddol i ffurfio 16 Etholaeth Senedd newydd, yn

ei gyfarfod ddechrau mis Medi.
Mae BCEC yn cydnabod bod y ddeddfwriaeth ar gyfer yr ymarfer adolygu yn rhagnodol o ran nifer a dosbarthiad yr etholaethau, a chyda'r ffactorau statudol, wrth benderfynu ar y dewisiadau paru. O ystyried rhagweladwyedd y cynigion cychwynnol a wnaed, a'r rhesymeg sy'n sail i'r dewis o barau i sicrhau cydymffurfiaeth â'r presgripsiwn deddfwriaethol, nid oes gennym unrhyw awgrymiadau penodol i'w gwneud i wella'r cynigion cychwynnol.
O ystyried yr angen i gydymffurfio â'r presgripsiwn deddfwriaethol, a'r cyfyngiadau eithafol ar ddewisiadau i wneud hynny, ni fyddem yn disgwyl llawer yn realistig pe byddai unrhyw newid rhwng y cynigion cychwynnol a'r cynigion terfynol a ddaw i'r amlwg ar ôl ymgynghori.
Gofynnwn i unrhyw gynigion lleol eraill a gyflwyner gan awdurdodau lleol gael eu hystyried yn llawn—boed yn unigol neu'n glystyrau—lle gwneir dadl gref ac sy'n cydymffurfio. Gofynnwn ichi roi sylw penodol i ddadleuon a wneir tros enwau amgen ar gyfer etholaethau, ac yn fwy priodol, o dan y gofyniad uniaith.
Diolch am y cyfle i wneud sylwadau ac i gyfrannu.

**8008 – Aelod o'r Cyhoedd**

Annwyl syr,

Rwyf yn cefnogi'r cynigion cychwynnol fel aelod o'r cyhoedd yng Nghymru.
[HEPGOR]

**8009 – Aelod o'r Cyhoedd**

Annwyl syr
Fel aelod o'r cyhoedd yng Nghymru, dymunaf roi gwybod ichi fy mod yn cefnogi cynigion cychwynnol y comisiynau a'm bod eisiau ichi barchu cysylltiadau lleol. [HEPGOR]

**8010 – Aelod o'r Cyhoedd**

I bwy bynnag a fynno wybod

Rwyf yn cefnogi eich cynigion cychwynnol fel aelod o'r cyhoedd yng Nghymru

Yn gywir
[HEPGOR]
Prestatyn

**8011 – Aelod o'r Cyhoedd**

Annwyl Syriaid,

Gweler y llythyr isod i'ch sylw.

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
Democracy and Boundary Commission Cymru

Yn gywir,
[HEPGOR]

[HEPGOR]
Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
Llawr Gwaelod, Hastings House
Fitzalan Court
Caerdydd
CF24 0BL
Trwy e-bost i: consultations@boundaries.wales
27 Medi 2024
Annwyl Syriaid,
Ysgrifennaf atoch er mwyn ymateb i'r ymgynghoriad a lansiwyd ar 3 Medi 2024 mewn cysylltiad ag Adolygiad Senedd 2026 (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel "y ddogfen").
Rwyf yn croesawu ethol Aelodau o'r Senedd (ASau) yn gwbl seiliedig ar system cynrychiolaeth cymesur. Ystyriaf fod hyn yn gynrychiolaeth llawer tecach o'r dadansoddiad o bleidleisiau, felly mae'n fwy tebygol o wella nifer y pleidleiswyr sy'n pleidleisio a lleihau difaterwch pleidleiswyr. Rwyf yn anghytuno'n gryf â'r cynnydd yn nifer yr ASau i 96 ac er nad yw'r pwynt penodol hwn yn ddarostyngedig i'r ymgynghoriad hwn, gofynnaf yn barchus ichi nodi fy ngwrthwynebiad.
O ran y materion penodol o dan yr ymgynghoriad, amlinellir fy safbwyntiau isod, sef:
Bangor Aberconwy Ynys Môn. O ystyried mai dim ond cysylltiadau cyfathrebu a ffyrdd sydd gan Ynys Môn â Bangor Aberconwy (para.1.2 o'r ddogfen), rwyf yn cytuno ag uniad arfaethedig dwy etholaeth y DU.
Clwyd. Rwyf yn cytuno ag uniad arfaethedig Gogledd Clwyd a Dwyrain Clwyd, yn enwedig o gofio bod rhaid uno Bangor Aberconwy ag Ynys Môn.
Alun, Glannau Dyfrdwy a Wrecsam (Alyn, Deeside and Wrexham). Rwyf yn cytuno â chynnig y Comisiwn ar gyfer yr etholaeth honno, ar sail meini prawf y ffiniau. Fodd bynnag, mae'r Comisiynydd wedi cynnig y defnydd o "un sillafiad: Alun" (para. 3.3 o'r ddogfen). Does dim esboniad dros y penderfyniad hwn ond mae'n debyg y byddai newid y sillafiad Saesneg o 'Alyn' i Alun yn arwain at gamsillafu enw sydd wedi hen sefydlu. O'r herwydd, nid yw'r newid arfaethedig yn y fersiwn Saesneg yn gwneud llawer o synnwyr i siaradwyr Cymraeg a Saesneg. Gofynnaf yn barchus i'r Comisiynydd ystyried dychwelyd i enw 'Alyn' ar gyfer fersiwn Saesneg yr etholaeth hon. 2

Dwyfor Meirionnydd, Maldwyn a Glyndŵr (Dwyfor Meirionnydd, Montgomeryshire and Glyndŵr). Er bod yr etholaeth arfaethedig yn cwmpasu ardal sylweddol yn ddaearyddol, dyma'r dewis gorau ar gyfer cyfuno dwy etholaeth seneddol y DU cyffiniol yn yr ardal.
Ceredigion a Sir Benfro (Ceredigion and Pembrokeshire). Rwyf yn cytuno'n gryf â pharu arfaethedig ddwy etholaeth Seneddol y DU a fyddai'n uno Sir Benfro yn un

etholaeth (mae cynnig tebyg yn achos Clwyd).
Sir Gaerfyrddin (Carmarthenshire). Rwyf yn cytuno'n gryf â pharu arfaethedig dwy etholaeth Senedd y DU a sefydlu cysylltiadau lleol rhwng yr ardaloedd hyn.
Gorllewin Abertawe a Gŵyr (Swansea West and Gower). Rwyf yn cytuno â pharu arfaethedig dwy etholaeth Senedd y DU a sefydlu cysylltiadau lleol rhwng yr ardaloedd hyn.
Aberhonddu, Maesyfed, Castell-nedd a Dwyrain Abertawe (Brecon, Radnor, Neath and Swansea East). Rwyf yn cytuno â pharu arfaethedig dwy etholaeth Senedd y DU a sefydlu cysylltiadau lleol rhwng yr ardaloedd hyn.
Aberafan Maesteg, Rhondda ac Ogwr (Aberafan Maesteg, Rhondda and Ogmore). Rwyf yn cytuno â pharu arfaethedig dwy etholaeth Senedd y DU a sefydlu cysylltiadau lleol rhwng yr ardaloedd hyn.
Merthyr Tudful, Aberdâr a Phontypridd (Merthyr Tydfil, Aberdare and Pontypridd). Mae'r parau rhwng y gogledd a'r de yn ddewis amgenach na pharu rhwng y dwyrain a'r gorllewin. Rwyf yn cytuno â pharu arfaethedig dwy etholaeth Senedd y DU a sefydlu cysylltiadau lleol rhwng yr ardaloedd hyn.
Blaenau Gwent, Rhymni a Chaerfili (Blaenau Gwent, Rhymney and Caerphilly). Mae'r parau rhwng y gogledd a'r de yn ddewis amgenach na pharu rhwng y dwyrain a'r gorllewin. Rwyf yn cytuno â pharu arfaethedig dwy etholaeth Senedd y DU a sefydlu cysylltiadau lleol rhwng yr ardaloedd hyn.
Sir Fynwy a Thorfaen (Monmouthshire and Torfaen). Rwyf yn cytuno â pharu arfaethedig dwy etholaeth Senedd y DU a sefydlu cysylltiadau lleol rhwng yr ardaloedd hyn.
Casnewydd ac Islwyn (Newport and Islwyn). Rwyf yn cytuno â pharu arfaethedig dwy etholaeth Senedd y DU a sefydlu cysylltiadau lleol rhwng yr ardaloedd hyn. 3

Dwyrain a Gogledd Caerdydd (Cardiff East and North). Rwyf yn cytuno â pharu arfaethedig dwy etholaeth Senedd y DU, yn unol â'r cysylltiadau lleol sefydledig rhwng yr ardaloedd hyn, y seilwaith ffyrdd a daearyddiaeth yr ardal.
Gorllewin Caerdydd, De a Phenarth (Cardiff West, South and Penarth). Rwyf yn cytuno â pharu arfaethedig dwy etholaeth Senedd y DU, yn unol â'r cysylltiadau lleol sefydledig rhwng yr ardaloedd hyn, y seilwaith ffyrdd a daearyddiaeth yr ardal.
Bro Morgannwg a Phen-y-bont (Vale of Glamorgan and Bridgend). Rwyf yn cytuno â pharu arfaethedig dwy etholaeth Senedd y DU a sefydlu cysylltiadau lleol rhwng yr ardaloedd hyn.
Yn gywir
[HEPGOR]

**8012 – Aelod o'r Cyhoedd**

Annwyl syr,

Yng Nghaerdydd, rydw i'n cefnogi'r Comisiwn yn paru Gorllewin Caerdydd â De Caerdydd a Phenarth, oherwydd y cysylltiad agos â'r A4232, ond mae Afon Taf yn ei

gwahanu oddi wrth weddill Caerdydd.

Felly, rwyf yn cefnogi cynnig cychwynnol y comisiwn yn llawn.

[HEPGOR]

**8013 – Aelod o'r Cyhoedd**

Shw'mai?
Hoffem wrthwynebu'r cynnig i gyfuno etholaethau Pen-y-bont ar Ogwr a Bro Morgannwg. Teimlwn y gall y chwe chynrychiolydd Senedd arfaethedig a fydd yn cynrychioli'r etholaethau uchod i gyd fyw yn un o'r etholaethau, ac efallai na fyddant yn cynrychioli eu pleidleiswyr yn ddigonol. Bydd y system restru'n dileu'r cysylltiad rhwng yr ymgeisydd llwyddiannus a'r etholwyr, gan mai'r pleidiau fydd yn dewis yr ymgeisydd. Teimlwn fod y system bresennol yn fwy dymunol, ac y bydd y system arfaethedig yn gam yn ôl.
Ni fydd y newidiadau yn dod â'r broses o wneud penderfyniadau yn agosach at y cyhoedd. Rydym yn erfyn ar y Senedd i ailystyried y cynigion er mwyn cyflwyno system decach i'r etholwyr.
Cofion cynnes
[HEPGOR]
Anfonwyd o'm iPad

**8015 - Adam Robinson - Cynghorydd lleol neu swyddog etholedig arall**

Annwyl Syr/Madam

Fel un o gynghorwyr tref gymunedol Llantrisant, hoffwn wneud y sylwadau a ganlyn:

Credaf fod achos cryf dros uno etholaeth Pontypridd â Gorllewin Caerdydd, ac nid Merthyr Tudful ac Aberdâr.

Dyma'r rhesymau dros hyn:

1) Ar un adeg, roedd rhannau helaeth o Orllewin Caerdydd yn Etholaeth Seneddol Pontypridd, mae'r rhain yn cynnwys aneddiadau Pentyrch, Creigiau, Gwaelod y Garth, Capel Llanilltern, a hyd yn Radur rwy'n credu—a gadawodd pob un ohonynt yr etholaeth yn sgil y Pumed Adolygiad Cyfnodol yn 2010.

2) Ychwanegwyd tref Pont-y-clun, sy'n cynnwys Meisgyn a'r Groes-faen, o etholaeth Pontypridd at Orllewin Caerdydd yn sgil Adolygiad Cyfnodol 2023. Mae hyn ynddo ei hun wedi achosi annormalrwydd etholiadol, oherwydd bod rhannau o ward etholiadol 'Gorllewin Pont-y-clun' yn dal i fyw yn etholaeth Pontypridd, fel yr amlygir hefyd yn eich cynigion cychwynnol.

3) Cefnogir ymuno â Phontypridd a Gorllewin Caerdydd ymhellach oherwydd cysylltiadau cymunedol cryf, gyda'r mwyafrif o etholaeth Pontypridd yn edrych tua'r de tuag at Gaerdydd ar gyfer gwaith, manwerthu a gweithgareddau cymdeithasol. Yn wir, mae gan aneddiadau Llanharan a Llanhari gysylltiadau enwedig o gryf â Phont-y-clun, fel sydd gan Tonysguboriau a Llantrisant.

4) Mae gan Lanilltud Faerdre, Efail Isaf, Pentre'r Eglwys a Thon-teg, gysylltiadau cryf â Chreigiau a Phentrych oherwydd eu hagosrwydd.

5) O ran Merthyr Tudful ac Aberdâr, credaf yn bersonol nad oes gan y mwyafrif helaeth o drigolion sy'n byw ym Mhontypridd unrhyw gysylltiad nac affinedd o gwbl â'r cynnig hwn, fel yr amlinellir yn y paragraff blaenorol, ac y byddai'n fwy gweddus i'r etholaeth ymuno â'r Rhondda ac Ogwr, sy'n rhannu cysylltiadau diwylliannol cryf oherwydd eu hanes a'u hetifeddiaeth ddiwydiannol yn ogystal â seilwaith a chysylltiadau trafnidiaeth cryf.

6) Dangosir hyn ymhellach gan drefi a phentrefi amrywiol megis Ynys-y-bwl, Glyn-coch a Chilfynydd allan o Gwm Cynon ac i Bontypridd yn yr adolygiad cyfnodol diwethaf—yr oedd pob un ohonynt yn uniaethu yn gadarn â Phontypridd ac nid ag Aberdâr na Chwm Cynon.

7) O'r cynigion cynharach, credaf y cynigiwyd uno etholaethau Rhondda a Chwm Cynon. Roedd hynny eto'n cydnabod y cysylltiadau cryf a rennir gan y ddwy etholaeth hyn.

Diolch am eich ystyriaeth yn y mater hwn, ac edrychaf ymlaen at eich ymateb cyn gynted â phosibl.

Diolch

Y Cynghorydd Adam Robinson
Anfonwyd o'm iPhone

**8016 – Aelod o'r Cyhoedd**

Hoffwn ichi gydnabod fy mod yn cefnogi'r Cynigion Cychwynnol fel aelod o'r cyhoedd yng Nghymru.
• Mae'n bwysig bod parau etholaethau cymoedd de Cymru yn rhedeg o'r gogledd i'r de i fyny ac i lawr y cymoedd, felly mae paru Merthyr Tudful ac Aberdâr â Phontypridd yn adlewyrchu cysylltiadau lleol yng nghymunedau y cymoedd.
• Yng Nghaerdydd, rydw i'n cefnogi'r Comisiwn yn paru Gorllewin Caerdydd â De Caerdydd a Phenarth, gan eu bod wedi eu cysylltu'n agos gan yr A4232, ond wedi eu gwahanu oddi wrth weddill Caerdydd gan Afon Taf.

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
Democracy and Boundary Commission Cymru

[HEPGOR]

**8017 – Aelod o'r Cyhoedd**

Annwyl Syr, Fel aelod o'r cyhoedd sy'n byw yn ardal Llangoed, Ynys Môn, rwyf yn cefnogi argymhelliad cychwynnol y Comisiwn.

Yn gywir

[HEPGOR]

**8018 – Aelod o'r Cyhoedd**

Rwyf yn cytuno â'r newidiadau ffiniau, mae wedi bod yn rhy hir. Mae Llafur a'r Toriaid yn cael seddi heb i lawer bleidleisio drostyn nhw.

**8019 – Aelod o'r Cyhoedd**

Helo, fel un o drigolion Sir Caerffili, ysgrifennaf atoch i roi gwybod ichi fod fy ngwraig a minnau yn llwyr gymeradwyo'r cynnig i gyfuno Merthyr Tudful, Aberdâr a Phontypridd â Blaenau Gwent, Rhymni a Chaerffili. Mae gan y cymunedau hyn tuag at ogledd y dyffryn affinedd topograffig naturiol rhwng y gogledd a'r de yn hytrach nag unrhyw bariad o'r dwyrain i'r gorllewin sy'n rhychwantu dau ddyffryn gwahanol. Maent yn fwy tebygol o fod â buddiannau cyffredin.
Cofion

**8020 – Aelod o'r Cyhoedd**

Fel preswylydd, rwyf o blaid y newidiadau cychwynnol i'r ffiniau ac yn disgwyl y byddwch dan bwysau gan bobl sy'n dymuno ennill mantais wleidyddol.
Cofion [HEPGOR]
Gelli-gaer

**8021 – Aelod o'r Cyhoedd**

Mae'r 'Comisiwn' yn cyflawni ei ddyletswyddau statudol. Mae Atodlen 2 paragraff 2(1) o Ddeddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024 yn datgan "Rhaid i ardal pob etholaeth Senedd gynnwys pob un o ardaloedd cyfun dwy etholaeth seneddol cyffiniol y DU yng Nghymru".

Felly, yn Nhudalen 8 o'i Adroddiad, mae cael cysylltiadau cyfathrebu a theithio clir yn rhan hanfodol o allu darparu cynrychiolaeth effeithiol a chyfleus y mae Ynys Môn a Bangor Aberconwy yn cael eu paru.
Rwyf yn cytuno â'r Comisiwn.

Gofynnaf felly y byddai'n well paru Gogledd Clwyd â Dwyrain Clwyd, a chan nad yw

Gogledd Clwyd yn ffinio ag unrhyw etholaeth San Steffan arall ac eithrio Bangor Aberconwy ac mae'n rhaid ei pharu â Gogledd Clwyd.

Paru oherwydd poblogaeth brin yng Nghymru Ddwyfor Meirionnydd â Sir Drefaldwyn a Glyndŵr neu Geredigion Preseli byddwn yn sicr yn cefnogi hyn gan nad yw'r dewis arall yn dderbyniol fel arall. Rwyf yn cytuno â'r Comisiwn.

Mae'r Comisiwn wedi awgrymu ystyried ei gysylltiadau lleol fod Ceredigion a Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin yn barau addas. Rwyf yn cytuno â'r awgrym hwn.

Rwyf yn cefnogi parau arfaethedig etholaethau Aberhonddu, Maesyfed, Castell-nedd, Dwyrain Abertawe fel rhai a ffefrir ar gyfer Cymoedd Cymru.

Dylai'r cymoedd sy'n rhedeg rhwng y gogledd a'r de baru Merthyr Tudful, Aberdâr, Pontypridd a Blaenau Gwent, Rhymni a Chaerffili oherwydd eu cysylltiadau hirsefydlog lleol fel cymunedau. Rwyf yn sicr yn cefnogi hyn.

Mae Casnewydd ac Islwyn yn paru'n naturiol â Sir Fynwy a Thorfaen, sy'n gwneud hyn yn awgrym ardderchog gan y Comisiwn.

Mae'r Comisiwn yn gywir wrth baru Bro Morgannwg â Phen-y-bont ar Ogwr sydd â chysylltiad agos y teimlaf sy'n bâr naturiol.

Dylid paru Aberfan, Maesteg, Rhondda ac Ogwr oherwydd eu cysylltiadau diwydiannol.

Dyma'r parau cywir gan y Comisiwn ar gyfer pedair etholaeth Caerdydd a'u cysylltiadau. Rwyf yn cytuno.

Rwyf yn sicr yn gobeithio mai dyma'r tro olaf inni ailwampio ein ffiniau gan fod yn rhaid cofio'r gost a'r hyn sy'n cymell y Senedd i godi hyn unwaith eto.
[HEPGOR]

**8022 – Aelod o'r Cyhoedd**

Rwyf yn cefnogi'r cynigion cychwynnol ar gyfer newidiad ffiniau y Senedd.

**8023 – Aelod o'r Cyhoedd**

Ychwanegwch fy mhleidlais o blaid yr holl ffiniau newydd Anfonwyd o'm iPhone

**8024 – Aelod o'r Cyhoedd**

Syr....
Fel preswylydd yng Nghymru, hoffwn roi fy nghefnogaeth lawn i gynigion y comisiwn ffiniau Diolch [HEPGOR]

**8025 - Ar ran sefydliad (preifat neu gyhoeddus)**

Plaid Lafur Etholaeth Gogledd Caerdydd

YMATEB I GYNIGION CYCHWYNNOL COMISIWN DEMOCRATIAETH A FFINIAU CYMRU

Rydym yn croesawu cynigion cychwynnol y Comisiwn i'r graddau eu bod yn cadw pedair etholaeth Seneddol Caerdydd ynghyd, sy'n cwmpasu Cyngor Caerdydd cyfan. Fodd bynnag, awgrymwn fod y Comisiwn yn ailystyried ei benderfyniad i baru Gorllewin Caerdydd â De Caerdydd a Phenarth. Yn hytrach, rydym yn cynnig paru Gorllewin Caerdydd a Gogledd Caerdydd, a De Caerdydd a Phenarth â Dwyrain Caerdydd.
Yn gryno, awgrymwn fod paru Gorllewin a Gogledd Caerdydd yn gyfuniad sy'n cyd-fynd yn gryfach â natur newidiol Caerdydd, a'r dewisiadau a'r penderfyniadau sydd o'n blaenau. Yn ogystal â chysylltiadau hanesyddol a diwylliannol dwfn sy'n llifo mewn cyfeiriad llorweddol ar draws y ddwy etholaeth, bydd dinasyddion a chymunedau Gorllewin Caerdydd a Gogledd Caerdydd yn elwa yn ystod y degawd nesaf o gynrychiolaeth ar y cyd yn y Senedd gan set o gynrychiolwyr a rennir. Dosberthir y cysylltiadau cryf a naturiol rhwng Gorllewin Caerdydd a Gogledd Caerdydd a'r manteision o gynrychiolaeth a rennir yn chwe phrif thema:

1. Y Gymraeg a'i thwf yng Nghaerdydd. Er mai Caerdydd yw'r ardal mwyaf niferus ac sy'n tyfu gyflymaf yng Nghymru o ran y Gymraeg, crynhoir y duedd hon, mewn gwirionedd, yng Ngorllewin Caerdydd a Gogledd Caerdydd. Mae gan bedair ward ar ddeg yng Nghaerdydd fwy o siaradwyr Cymraeg na chyfartaledd Caerdydd, sef 10.1%; o'r rhain, mae un ar ddeg yng Ngorllewin Caerdydd a Gogledd Caerdydd, gan gynnwys yr wyth ward sydd â'r ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg[1]. Gellir dadlau mai'r ardaloedd hyn yw cadarnleoedd newydd y Gymraeg ac maent yn ffurfio bloc cyffiniol sy'n ymestyn o'r Gorllewin i'r Dwyrain, o Greigiau a Phentyrch yn y Gogledd Orllewin, draw at Lys-faen yn y Dwyrain, gan gynnwys y ddwy ysgol uwchradd a gysylltir yn hanesyddol yng Nglantaf a Phlasmawr. Byddai uno'r ardaloedd hyn o dan set gyffredin o gynrychiolwyr yn y Senedd yn gwneud cynrychioli eu cymeriad ieithyddol cyffredin yn effeithiol yn fwy tebygol, er mwyn cyfrannu at uchelgais Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

*[1] Diffinnir fel y rhai sy'n gallu siarad, darllen ac ysgrifennu yn Gymraeg yn ôl Cyfrifiad 2021.*

2. Cymeriad cymunedol a chysylltiadau lleol yn y pentref. Nodweddir band gogledd-orllewinol Caerdydd gan nifer o gymunedau pentrefol, mewn cyferbyniad â natur gynhenid canol y ddinas a llawer o rannau dwyreiniol a deheuol y ddinas sy'n ymestyn at yr arfordir sy'n fwy trefol. Amlygir natur wahanol iawn nodweddion cymunedol a rennir yn y band gogledd-orllewinol hwn gan y ffaith bod pob un o chwe

Chyngor Cymuned Caerdydd yng Ngogledd Caerdydd (Llys-faen; Pentref Laneirwg; Tongwynlais) ac yng Ngorllewin Caerdydd (Radur a Threforgan; Pentyrch; Sain Ffagan). Mae bondiau cymunedol hefyd yn bodoli ar draws nifer o bentrefi “Dyffryn Taf”, megis Gwaelod y Garth a Ffynnon Taf, sy’n ymestyn ar draws y ffin rhwng Gorllewin Caerdydd a Gogledd Caerdydd. Mae cysylltiadau agos hefyd yn bodoli o ran nifer o wasanaethau lleol, er enghraifft dalgylch Ysgol Gyfun Radur sy’n ymestyn dros ffin yr afon a’r etholaeth i gynnwys Tongwynlais. Byddai uno’r cymunedau hyn o dan set gyffredin o gynrychiolwyr yn y Senedd yn ei gwneud yn fwy tebygol y bydd eu diddordebau a’u nodweddion cyffredin, gan gynnwys strwythurau llywodraethu, yn cael eu cynrychioli’n effeithiol. Mae llawer o’r diddordebau cyffredin hyn yn adlewyrchu natur dyffryn Afon Taf fel cyswllt trafnidiaeth hanfodol ar gyfer y rhanbarth.

3. Datblygu ac ehangu’r ddinas tua’r gogledd-orllewin yn y dyfodol. Crynhoir y gwaith ehangu a datblygu tai diweddar yng Nghaerdydd yng ngogledd-orllewin y ddinas (e.e. Llys-faen, Pontprennau, Radur/Plasdŵr). Mae hyn yn creu crynhoad o drigolion newydd i’r ddinas y gellir disgwyl yn rhesymol iddynt rannu nodweddion ac anghenion demograffig o ran cynrychiolaeth ddemocrataidd. Mae hefyd yn debygol iawn y canolbwyntir llawer o’r datblygiad yn y dyfodol yn y rhan hon o’r ddinas, o ran ystyried datblygiadau newydd yn ogystal â diogelu tirweddau presennol (e.e. y “Lletem Las” y cyfeirir ati yn strategaeth CDLl a ffefrir Cyngor Caerdydd, sy’n rhychwantu’r rhan fwyaf o ffin ogleddol Gorllewin Caerdydd a Gogledd Caerdydd). Un set o gynrychiolwyr fydd yn y sefyllfa orau i gynrychioli trigolion lleol yn gydlynol wrth i’r materion a’r penderfyniadau hyn gael eu hystyried yn ystod y degawd(au) nesaf.

4. Ffiniau awdurdodau lleol gyda RhCT. Fel y nodir gan y Comisiwn, byddai’r cynigion cychwynnol yn golygu y byddai aelodau y Senedd ar gyfer etholaeth Gorllewin Caerdydd, De Caerdydd a Phenarth yn cynrychioli wardiau sydd ar draws tri awdurdod lleol y mae gan bob un ohonynt gymeriad a phriodoleddau gwahanol. Byddai hyn yn golygu bod angen i gynrychiolwyr ymgyfarwyddo â thair set o bolisïau a rhanddeiliaid llywodraeth leol, sy’n debygol o fod yn niweidiol i ansawdd y gwasanaethau a ddarperir i’r etholwyr. Byddai gan ein gwrthgynnig o baru Gorllewin Caerdydd â Gogledd Caerdydd y fantais o gyfyngu’r cymhlethdod hwn drwy gynnwys wardiau RhCT (Ffynnon Taf a Phont-y-clun) yn yr un etholaeth Senedd. Byddai hefyd yn cynyddu cydlyniad cysylltiadau cymunedol ar draws ffiniau Awdurdodau Lleol, er enghraifft uno dwy ardal a gysylltir yn agos, Ffynnon Taf a Gwaelod y Garth, mewn un sedd.

5. Cludiant a symud rhwng y gorllewin a’r gogledd i breswylwyr. Er y gellir dadlau bod coridorau trafnidiaeth i’r ddinas ar gyfer cymudwyr yn rhedeg yn bennaf rhwng y gogledd a’r de, mewn gwirionedd, mae patrwm a chyfeiriad teithiau dyddiol preswylwyr yn cydgyfeirio ar nifer o lwybrau a safleoedd allweddol ar draws

Gorllewin Caerdydd a Gogledd Caerdydd. Mae'r A48 (Western Avenue) sy'n ymestyn o'r Mynydd Bychan/Mynachdy yng Ngogledd Caerdydd at ffin Gorllewin Caerdydd yng Nghroes Cwrlwys yn dramwyfa bwysig i drigolion sy'n gwneud teithiau dyddiol. Yn yr un modd, mae trigolion Gorllewin Caerdydd, gan gynnwys y rhai yn ward Pont-y-clun a ychwanegwyd at y gogledd yn ddiweddar, yn debygol o deithio'n rheolaidd drwy'r ddwy brif groesffordd yn Coryton a Mynchady, y lleolir y ddwy ohonynt yng Ngogledd Caerdydd. Mae coridor yr M4 i'r gogledd, ynghyd â'r A48 i'r de a'r A470 sy'n cysylltu'r ddau, yn creu cysylltiad enwedig o gryf ar draws lled etholaeth Gorllewin Caerdydd-Gogledd Caerdydd. Atgyfnerthir hyn yn gryf gan drydaneiddio Dyffryn Taf a gorsafoedd Metro newydd arfaethedig i wasanaethu'r rheilffordd sy'n cysylltu dwy ochr yr afon yn gyfleus yn Llandaf a Ffynnon Taf (Gogledd Caerdydd) a Radur (Gorllewin Caerdydd). Mae'r datblygiad rheilffordd Trafnidiaeth Cymru hwn yn canolbwyntio'n hanfodol ar y Depo newydd yn Ffynnon Taf, yn uniongyrchol ar ryngwyneb Afon Taf Gogledd Caerdydd/Gorllewin Caerdydd rhwng Caerdydd a'r cymoedd.

6. Daearyddiaeth naturiol. Yn ddaearyddol, mae gan Gaerdydd ddwy ffin wahanol yn y Gogledd a'r De. Nodweddir ei ffin ogleddol gan y gadwyn o fryniau sy'n ymestyn ar draws Gogledd Caerdydd (Craig Llys-faen, Y Wenallt a Chraig yr Allt yn Nantgarw) hyd at Orllewin Caerdydd (Mynydd y Garth a Soar). Mae hyn yn uno Gorllewin Caerdydd a Gogledd Caerdydd yn unigryw, mewn cyferbyniad, mae De Caerdydd a Phenarth a Dwyrain Caerdydd rhyngddynt yn cynnwys ffin ddeheuol ac arfordirol Caerdydd yn ei chyfanrwydd. Mae hefyd yn wir bod Afon Taf, a allai ymddangos yn rhaniad naturiol rhwng Gorllewin Caerdydd a Gogledd Caerdydd ar yr olwg gyntaf, yn ffynhonnell gref o hunaniaeth gyffredin i gymunedau ar hyd y naill ochr i Gwm Taf mewn gwirionedd, gan rychwantu Ffynnon Taf, yr Eglwys Newydd ac Ystum Taf a Gabalfa yng Ngogledd Caerdydd, a Llandaf a Radur yng Ngorllewin Caerdydd. Cynhwysir cwrs maes glas yr afon gyfan yng Nghaerdydd yn y ddwy etholaeth hyn, ac mae materion cynaliadwyedd, diogelwch ecolegol (llifogydd), ansawdd a'r defnydd o ddŵr yn creu diddordeb cyffredin ar draws y ddwy etholaeth a fyddai'n elwa o gynrychiolaeth ar y cyd (yn ogystal ag un cyswllt etholaethol â RhCT i fyny'r afon). Mae hyn yn adleisio ac yn atgyfnerthu arwyddocâd y cysylltiadau rheilffordd drwy Ogledd a Gorllewin Caerdydd.

Credwn fod pob un o'r themâu hyn yn dangos cryfder y cysylltiad rhwng Gorllewin Caerdydd a Gogledd Caerdydd a'r manteision y byddai dinasyddion yn eu cael yn sgil cael eu cynrychioli ar y cyd mewn un etholaeth yn y Senedd. Nodwn hefyd na fyddai penderfyniad y Comisiwn i fabwysiadu'r parau hyn (na pharau dilynol De Caerdydd a Phenarth a Dwyrain Caerdydd) yn cael sgil-effaith ar barau arfaethedig eraill. O'r herwydd, rydym yn galw ar y Comisiwn i adolygu ei gynigion ac i gyfuno Gorllewin Caerdydd a Gogledd Caerdydd yn Etholaeth Senedd newydd Gogledd Caerdydd-Gorllewin Caerdydd.

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
Democracy and Boundary Commission Cymru

**8026 – Aelod o'r Cyhoedd**

Annwyl Syriaid
Hoffwn ichi gofnodi fy mod yn cefnogi argymhellion y comisiwn ynghylch ffiniau etholaethau.

Mae'n bwysig cydnabod natur unffurf rhai ardaloedd ac nad ydynt yn cael eu cymysgu â daearyddiaeth sydd ag anghenion gwahanol iawn.

Bydd anghenion Sir Fynwy a Dyffryn Wysg yn amrywio'n sylweddol o'u cymharu ag aliniadau rhwng y gogledd a'r de yn ardaloedd traddodiadol y cymoedd, hefyd mae'n gwneud synnwyr cydnabod cyn belled ag y bo modd ddemograffeg gwahanol Caerdydd, Casnewydd, Abertawe a Bro Morgannwg er enghraifft.
Yn gywir
[HEPGOR]
Anfonwyd o'm iPad

**8027 – Aelod o'r Cyhoedd**

Rwyf o blaid y cynigion cychwynnol a gyflwynwyd gan Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru lle mae'n gwneud cynigion ar gyfer newidiadau i Ffiniau Etholaethau y Senedd.

**8028 – Aelod o'r Cyhoedd**

Ysgrifennwn mewn cysylltiad â'r cynigion a gyhoeddwyd.
Rydym yn cefnogi eich cynigion presennol a ddylai arwain at ailgydbwyso cyflwr marwaidd presennol democratiaeth yng Nghymru. Mae goruchafiaeth barhaol un blaid wedi arwain at ddirywiad sylweddol.
Rydym wedi ein calonogi'n enwedig gan gyfuniad Pen-y-bont ar Ogwr â Bro Morgannwg gan fod y cymunedau hyn wedi cydweithio'n gymdeithasol ac yn economaidd yn draddodiadol.
Cofion
[HEPGOR]

**8030 – Aelod o'r Cyhoedd**

Annwyl Syr/Madam
Fel preswylydd yng Nghymru, ysgrifennaf i gefnogi cynigion cychwynnol Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru i baru etholaethau sy'n adlewyrchu cysylltiadau lleol.
[HEPGOR]

**8031 – Aelod o'r Cyhoedd**

Fel aelod o'r cyhoedd yng Nghymru, hoffwn ei gwneud yn hysbys fy mod yn cefnogi'r Newidiadau Arfaethedig Cychwynnol i'r System Etholiadol gan y Comisiwn Ffiniau.

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
Democracy and Boundary Commission Cymru

Yn gywir
[HEPGOR]

**8032 - Ar ran sefydliad (preifat neu gyhoeddus)**

Annwyl [HEPGOR],

Amgaeaf ein hymateb swyddogol. Rhowch wybod inni os oes gennych unrhyw gwestiynau neu sylwadau—wrth gwrs, byddem wrth ein boddau yn trafod ymhellach â chi.

Gyda llaw, sylwais yn eich e-bost isod eich bod wedi ein gwahodd yn benodol i edrych ar enwau Cymraeg yr etholaethau. Er nad oes amheuaeth nad orgraff y Gymraeg yw prif arbenigedd ein Panel, nid ydym yn gyfyngedig i gynghori ar ffurfiau Cymraeg yr enwau yn unig, wrth gwrs. Gwelwch ein bod wedi gwneud awgrymiadau ac argymhellion ar yr enwau i'w defnyddio yn y ddwy iaith—ac yn wir rydym wedi awgrymu sut y gallech chi gyflawni un enw Cymraeg i'w ddefnyddio yn y ddwy iaith.

Pob hwyl gyda'r cam nesaf—edrychwn ymlaen at dderbyn y cais nesaf gennych chi. A allwch chi roi syniad inni pryd y bydd angen ein mewnbwn arnoch chi nesaf tybed?

[HEPGOR]

Comisiwn
Democratiaeth a
Ffiniau Cymru

Democracy
and Boundary
Commission Cymru

[redacted]
Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
Drwy e-bost at:
[redacted]

27/09/2024/

Annwyl Gomisiwn,

**Adolygiad 2026 o etholaethau'r Senedd: Cynigion cychwynnol**

Diolch yn fawr am y gwahoddiad i ymateb yn swyddogol i'r cynigion cychwynnol ar gyfer enwau'r etholaethau. Rydym yn falch iawn o'r cyfle i ymateb am y tro cyntaf fel ymgynghorai statudol ar yr enwau hyn yn unol â gofynion Deddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024. Mae'r Ddeddf yn creu nifer o ofynion penodol i ymgynghori â'r Comisiynydd ar bob cam o'r broses ac rydym yn croesawu hynny'n fawr gan ei fod yn gosod sail statudol i'r cydweithio cyson sydd wedi bod rhwng ein swyddogion am faterion enwi ers nifer o flynyddoedd bellach.

Fel y gwyddoch, rydym eisoes wedi cyflwyno nifer o fân welliannau yn y cyfnod cyn cyhoeddi'r adroddiad, yn unol â gofynion y ddeddf, er mwyn tacluso llithriadau gramadegol ac orgraffyddol ayb. Rydych wedi diwygio'r ffurfiau a nodir yn y ddogfen ymgynghori i adlewyrchu ein cyngor ni yn y mwyafrif o achosion ond mae rhai materion y dylid eu hystyried ymhellach yn cael eu pwysleisio yn y rhestr yn Atodiad 1.

Mae'r Ddeddf yn nodi'n benodol iawn mai dyletswydd i ymgynghori â ni am 'orgraff' yr enwau oedd gennych chi wrth baratoi eich adroddiad cychwynnol ac mai dyma'r cyfle i ni gyflwyno barn ehangach am yr enwau sydd gerbron. Mae'r cyfnod ymgynghori wedi darparu cyfle i ni ymgynghori â'n Panel Safoni Enwau Lleoedd ni ac mae'n bleser gennym gyflwyno eu sylwadau arbenigol nhw hefyd yn Atodiad 1.

Ond dyma hefyd gyfle i ni nodi'n ffurfiol ac yn gyhoeddus yr hyn rydym eisoes wedi ei gyfleu yn anffurfiol, sef bod y fethodoleg enwi rydych wedi ei fabwysiadu ar gyfer y cynigion cychwynnol hyn yn anorfod yn arwain at enwau hir ac anhylaw. Mae hefyd wedi

arwain at beth anghysondeb yn y defnydd o gomas i wahanu elfennau. Ond yn fwy na hynny, mae'r fethodoleg o gyfuno enwau sydd eisoes wedi sefydlu wedi arwain at restr lle mae enwau gwahanol i'w defnyddio yn Gymraeg a Saesneg ar gyfer pob enw ac eithrio *Bangor Aberconwy Ynys Môn* a *Clwyd*.

Nid ydym yn teimlo fod hyn yn cyd-fynd ag ysbryd y Ddeddf sy'n creu gofyniad i bob etholaeth Seneddol gael 'enw unigol' oni bai fod y Comisiwn yn ystyried y byddai hyn yn annerbyniol. Mewn achosion o'r fath 'caniateir i'r etholaeth gael enwau gwahanol at ddibenion ei hadnabod mewn cyfathrebiad drwy'r Gymraeg a'r Saesneg'. Mae geiriad y Ddeddf yn creu disgwyliad mai cael un enw fyddai'r norm ond bod caniatâd i ddarparu dau enw pan nad yw hynny'n bosibl.

Yn achos yr enwau sydd gerbron, yr unig ffordd o greu enw unigol ar gyfer pob etholaeth fyddai penderfynu mabwysiadu'r enwau Cymraeg yn unig, fel y gwneir yn achos *Bangor Aberconwy Ynys Môn*. Mae'r enw hwn yn sylfaenol wahanol i'r enwau eraill gan ei fod yn hepgor atalnodau a chysyllteiriau er mwyn creu un enw ar gyfer y ddwy iaith. Roedd gan ein Panel farn ranedig ar y confensiwn hwn – roedd rhai yn gweld mantais hepgor cysyllteiriau gan fod hyn yn hepgor yr angen i dreiglo enwau. Mae angen amser i wyntyllu'r confensiwn hwn ymhellach a bydd diddordeb mawr gennym mewn deall beth yw ymateb y cyhoedd i'r cynnig hwn. Gall ddarparu patrwm i'w efelychu.

Gwyddom eich bod yn agored i ystyried sylwadau ar yr enwau yn rhan o Arolwg 2026 ac rydym yn mawr obeithio y gwnewch chi dderbyn awgrymiadau arloesol a mentrus gan yr etholwyr ynghylch pa enwau fyddai'n eu cynrychioli orau. Mae gennym ninnau awgrymiadau am enwau amgen y byddai modd i ni drafod â chi. Dyma gadarnhau ein parodrwydd a'n hymrwymiad statudol ni i'ch cefnogi chi wrth ichi ailystyried yr enwau yng ngoleuni tystiolaeth yr ymgynghoriad hwn.

Rydym yn deall hefyd, wrth gwrs, y cynhelir adolygiad llawn pellach cyn etholiad Senedd 2030. Bydd hyn yn gyfle euraidd ac angenrheidiol i edrych eto ar y ffiniau hyn ac ystyried pa enwau fyddai'n eu cynrychioli orau. Mae'n hanfodol fod y Comisiwn yn arwain ar y drafodaeth hon gan anelu yn fwriadol ac yn uchelgeisiol at ganfod un enw ar gyfer pob etholaeth a bachu yn y cyfle symbolaidd hwn i bwysleisio statws y Gymraeg yng Nghymru a dathlu cyfoeth ei enwau lleoedd hanesyddol.

Yr eiddoch yn gywir,

[redacted]

[redacted]
Comisiynydd y Gymraeg

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
Democracy and Boundary Commission Cymru

03/11

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Copi e-bost at: [redacted] Prif Weithredwr/Ysgrifennydd

## Atodiad 1

| Argymhelliad y Panel Safoni Enwau Lleoedd (Enw Cymraeg)<br><br>Recommendation of the Place-names Standardisation Panel (Welsh name) | Argymhelliad y Panel Safoni Enwau Lleoedd Comisiynydd y Gymraeg (Enw Saesneg)<br><br>Recommendation of the Place-names Standardisation Panel (English name) | Sylwadau Comisiynydd y Gymraeg ar y Cynnig Cychwynnol<br><br>Welsh Language Commissioner's comments on the Initial Proposal |
|---|---|---|
| **Aberafan, Maesteg, Rhondda ac Ogwr** | **Aberafan, Maesteg, Rhondda and Ogmore** | Roedd y Panel o'r farn y byddai'n well gwahanu'r elfennau *Aberafan* a *Maesteg* â choma er cysondeb. Nid oedd y Panel yn credu bod gan *Aberafan Maesteg* ddigon o hunaniaeth fel uned i'w gynnwys fel un enw yn rhan o enw hwy, ac nid yw bodolaeth etholaethau diweddar yn ddigon o gyfiawnhad dros eu huno.<br><br>The Panel felt that the elements *Aberafan* and *Maesteg* could be separated by a comma for consistency. The Panel did not feel that *Aberafan Maesteg* has sufficient identity as a unit to be treated as a single name as part of a longer name and that recent constituency names do not provide sufficient justification for joining them. |

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru

Democracy and Boundary Commission Cymru



Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

| | | |
|---|---|---|
| **Alun, Glannau Dyfrdwy a Wrecsam** | **Alun, Deeside and Wrexham** | Dylid anelu at arfer un ffurf yn unig pan nad oes ond llythyren neu ddwy o wahaniaeth rhwng y 'ffurf Gymraeg' a'r 'ffurf Saesneg'. Rydym felly'n argymell defnyddio'r ffurf safonol *Alun* yn yr enwau Cymraeg a Saesneg, fel y gwneir yn enw'r ysgol uwchradd yn yr Wyddgrug, er enghraifft.<br><br>If the difference between the 'Welsh form' and the 'English form' consists of only one or two letters, the use of a single form is recommended. We, therefore, recommend using the standard form *Alun* in both Welsh and English names, as seen in the name of the high school in Mold, for example. |

| | | |
|---|---|---|
| **Bangor Conwy Môn** | **Bangor Conwy Môn** | Dylid nodi bod yr enw hwn yn eithriad i'r patrwm cyffredinol gan hepgor cysylltеiriau ac atalnodau a chynnig un enw Cymraeg i'w ddefnyddio ym mhob iaith (gweler y sylwadau pellach yng nghorff y llythyr).<br><br>Roedd y Panel o'r farn y dylid symleiddio'r enw hwn ymhellach drwy ddefnyddio *Môn* yn unig. Awgrymodd y Panel ymhellach y gellid defnyddio *Conwy* yn hytrach nag *Aberconwy*.<br><br>It should be noted that this name is an exception to the general naming pattern as it omits conjunctions and commas and is a single name for use in all languages (please see the related comments in the accompanying letter).<br><br>The Panel believes that this name could be further simplified by using simply *Môn*. The Panel also suggested that *Conwy* could be used instead of *Aberconwy*. |
| **Blaenau Gwent, Rhymni a Chaerffili** | **Blaenau Gwent, Rhymney and Caerphilly** | |

| | | |
|---|---|---|
| **Brycheiniog, Maesyfed, Nedd a Thawe** | **Brecon, Radnor, Neath and Tawe** | Sylwer mai *Brycheiniog* (*Breckonshire*) sydd ei angen fan hyn gan fod ardal ehangach dan sylw na thref *Aberhonddu*.<br><br>Sylwer mai *Nedd* (*Neath*) sydd ei angen fan hyn gan fod ardal ehangach dan sylw na thref *Castell-nedd*.<br><br>Roedd y Panel yn awgrymu y byddai *Tawe* yn gallu cynrychioli'r ardal yn y ddwy iaith gan hepgor yr angen am bwyntiau cwmpawd yn yr enw hwn ac yn enw *Gorllewin Abertawe a Gŵyr*.<br><br>Please note that *Brycheiniog* (*Breckonshire*) should be used here as the name refers to a broader area than the town of *Aberhonddu* (*Brecon*).<br><br>Please note that *Nedd* (*Neath*) should be used here as the name refers to a broader area than the town of *Castell-nedd*.<br><br>The Panel believed that *Tawe* could be used to represent the area in both languages and would avoid the need for compass points in this name and in *Swansea West and Gower*. |
| **Dwyrain a Gogledd Caerdydd** | **Cardiff East and North** | |

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
Democracy and Boundary Commission Cymru



Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

| | | |
|---|---|---|
| **Gorllewin a De Caerdydd a Phenarth** | **Cardiff West and South and Penarth** | Nid yw'r cynnig a nodwyd yn y cynigion cychwynnol yn gweithio'n foddhaol yn y Gymraeg.<br><br>The form suggested in the initial proposals does not work in Welsh. |
| **Sir Gaerfyrddin** | **Sir Gaerfyrddin** | Byddai modd i'r Comisiwn fachu yn y cyfle i fabwysiadu'r enw *Sir Gaerfyrddin* yn unig yn yr achos hwn gan fod cynsail wedi ei osod drwy ddefnyddio *Caerfyrddin* yn unig yn enw ar etholaeth Senedd y DU.<br><br>The Commission could take the opportunity to adopt the single name *Sir Gaerfyrddin* in this case as there has been a precedent set in adopting only *Caerfyrddin* as the name of the UK Parliamentary Constituency name. |

| | | |
|---|---|---|
| **Ceredigion a Sir Benfro** | **Ceredigion and Pembrokeshire** | Byddai modd i'r Comisiwn ystyried cwtogi'r enw hwn yn y ddwy iaith gan y byddai'n dderbyniol hepgor yr elfen *sir/shire*: *Ceredigion a Phenfro*; *Ceredigion and Pembroke*.<br><br>The Commission could consider shortening this name in both languages as it would be acceptable to omit *sir/shire*: *Ceredigion a Phenfro; Ceredigion and Pembroke*. |
| **Clwyd** | **Clwyd** | |

| | | |
|---|---|---|
| **Dwyfor, Meirionnydd, Maldwyn a Glyndŵr** | **Dwyfor, Meirionnydd, Montgomeryshire and Glyndŵr** | Roedd y Panel o'r farn y byddai'n well gwahanu'r elfennau *Dwyfor* a *Meirionnydd* â choma er cysondeb. Nid oedd y Panel yn credu bod gan *Dwyfor Meirionnydd* ddigon o hunaniaeth fel uned i'w gynnwys fel un enw yn rhan o enw hwy, ac nid yw bodolaeth etholaethau diweddar yn ddigon o gyfiawnhad dros eu huno.<br><br>Beth fyddai barn y Comisiwn am hepgor yr elfen *shire* yn yr enw *Montgomeryshire* (cymharer â *Brecon*, *Radnor*)?<br><br>The Panel felt that the elements *Dwyfor* and *Meirionnydd* could be separated by a comma for consistency. The Panel did not feel that *Dwyfor Meirionnydd* has sufficient identity as a unit to be treated as a single name as part of a longer name and recent constituency names do not provide sufficient justification for joining them.<br><br>How would the Commission feel about omitting the *shire* in the name *Montgomeryshire* (compare with *Brecon*, *Radnor*)? |
| **Abertawe a Gŵyr** | **Swansea and Gower** | Gweler y nodyn am *Brycheiniog, Maesyfed, Nedd a Thawe*. Byddai derbyn yr argymhelliad hwnnw yn hepgor yr angen |

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
Democracy and Boundary Commission Cymru



Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

| | | |
|---|---|---|
| | | i ddefnyddio pwynt cwmpawd yn yr enw hwn.<br><br>Please see the note on *Brecon, Radnor, Neath and Tawe*. Adopting this recommendation would avoid the need to use a compass point in this name. |
| **Merthyr Tudful, Aberdâr a Phontypridd** | **Merthyr Tydfil, Aberdare and Pontypridd** | |
| **Mynwy a Thorfaen** | **Monmouthshire and Torfaen** | Roedd y Panel yn teimlo y gellid symleiddio'r enw Cymraeg ymhellach drwy hepgor yr elfen *sir*. Beth fyddai barn y Comisiwn am hepgor yr elfen *shire* yn yr enw Saesneg (cymharer â *Brecon*, *Radnor*)?<br><br>The Panel believed that the Welsh name could be simplified further by omitting the *sir* element. How would the Commission feel about omitting the *shire* in the English name (compare with *Brecon*, *Radnor*)? |
| **Casnewydd ac Islwyn** | **Newport and Islwyn** | |

| | | |
|---|---|---|
| **Bro Morgannwg a Phen-y-bont ar Ogwr** | **Vale of Glamorgan and Bridgend** | Rydym yn argymell defnyddio'r enw llawn, *Pen-y-bont ar Ogwr,* mewn cyd-destunau ffurfiol a swyddogol.<br><br>We recommend using the full name, *Pen-y-bont ar Ogwr*, in formal or official contexts. |

**8033 – Aelod o'r Cyhoedd**

Helo,

Dim ond neges gyflym, fel rhywun sydd wedi bod yn breswylydd yng Nghymru drwy gydol fy oes, hoffwn ddweud fy mod yn cefnogi eich Cynigion Cychwynnol ar gyfer Adolygiad etholaethau y Senedd 2026.

Cofion,

[HEPGOR]

[HEPGOR]

**8034 – Aelod o'r Cyhoedd**

Rwyf yn cefnogi Cynigion Cychwynnol y ffiniau a nodir, fel aelod o'r cyhoedd yng Nghymru

[HEPGOR]

**8035 - Chris Evans - Aelod Seneddol**

I bwy bynnag a fynno wybod,

Ysgrifennaf mewn cysylltiad â'r ymgynghoriad parhaus ynghylch Adolygiad 2026 Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru o ffiniau etholaethau y Senedd.

Rwyf yn cefnogi etholaeth arfaethedig Blaenau Gwent, Rhymni a Chaerffili yn gyffredinol a gynhwysir yn y cynigion cychwynnol.

Fodd bynnag, un maes sy'n peri pryder yw'r cynnig hwn gan ei fod ar hyn o bryd yn cadw'r rhaniad yn ward llywodraeth leol Cefn Fforest a Phengam. Mewn unrhyw gynigion diwygiedig, efallai y byddai'n well mynd i'r afael â hyn er mwyn sicrhau y cynhwysir y ward gyfan mewn un etholaeth.

Yn gywir,

Chris Evans AS

AS dros Gaerffili
[HEPGOR]

**8036 – Aelod o'r Cyhoedd**

Fel preswylydd a phleidleisiwr cofrestredig yng Nghymru, hoffwn gofrestru fy nghefnogaeth lwyr i adroddiad cychwynnol y Comisiwn Ffiniau ar ffiniau etholiadol yn y dyfodol

**8037 – Aelod o'r Cyhoedd**

Annwyl Syr/Madam

Hoffwn ddweud fy mod yn cefnogi eich cynigion ffiniau cychwynnol ar gyfer 2026 fel preswylydd Aberhonddu. Fy nghod post yw [HEPGOR] Aberhonddu.

Cofion cynnes

[HEPGOR]

**8038 – Aelod o'r Cyhoedd**

Hoffwn gefnogi eich cynigion fel aelod o'r cyhoedd yng Nghymru. [HEPGOR] [HEPGOR] [HEPGOR]

**8039 – Aelod o'r Cyhoedd**

[HEPGOR]

Fodd bynnag, os oes rhaid iddi barhau, ymddengys ei bod yn gwneud synnwyr alinio'r "etholaethau" newydd yn fras yn unol â'r cynigion a amlinellir gan y cynllun presennol.

[HEPGOR]

Diolch am eich sylw.

[HEPGOR]

Anfonwyd o Outlook ar gyfer Android

**8040 – Aelod o'r Cyhoedd**

Hoffwn leisio fy nghefnogaeth i'r cynnig cychwynnol.

**8041 – Aelod o'r Cyhoedd**

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
Democracy and Boundary Commission Cymru

Fel aelod o'r cyhoedd, hoffwn ichi gofrestru bod fy ngŵr a minnau yn cefnogi eich cynigion cychwynnol ynghylch newid ffiniau
Yn gywir
[HEPGOR]

**8042 – Aelod o'r Cyhoedd**

Ysgrifennaf atoch fel aelod o'r Cyhoedd yng Nghymru i gefnogi eich cynigion cychwynnol. Rwyf yn cefnogi parau Gorllewin Caerdydd a De Caerdydd a Phenarth y Comisiwn oherwydd eu bod wedi eu cysylltu'n agos gan yr A4232 ond wedi eu gwahanu oddi wrth weddill Caerdydd gan Afon Taf.

**8043 – Aelod o'r Cyhoedd**

Helo, hoffwn ddweud fy mod yn cytuno â'ch cynnig cychwynnol i baru Wrecsam ac Alun Glannau Dyfrdwy oherwydd bod hynny'n gwneud synnwyr gan eu bod mor agos at ffin Lloegr. Diolch yn fawr, [HEPGOR]

**8044 - Jamie Daniel - Cynghorydd lleol neu swyddog etholedig arall**

Annwyl Syr/Madam,

Gobeithiaf eich bod yn dda. Fel Cynghorydd Tref ar gyfer Ward Ganol Pont-y-clun ar Gyngor Tref Pont-y-clun, hoffwn wneud y sylwadau a ganlyn:

Rwyf yn eirioli'n gryf dros uno etholaeth Pontypridd â Gorllewin Caerdydd yn hytrach na Merthyr Tudful ac Aberdâr at ddibenion newidiadau ffiniau etholaethau y Senedd cyn Etholiad 2026 y Senedd.

Yn dilyn Adolygiad Cyfnodol 2023, cafodd tref Pont-y-clun—gan gynnwys Meisgyn a'r Groes-faen—ei throsglwyddo o etholaeth Pontypridd i Orllewin Caerdydd. Mae'r newid hwn wedi arwain at anghysondeb etholiadol, gan fod ardal Tyla Garw yn ward etholiadol 'Gorllewin Pont-y-clun' yn parhau i fod yn rhan o Etholaeth Pontypridd.

Cryfheir y cynnig i uno Pontypridd a Gorllewin Caerdydd gan gysylltiadau cymunedol arwyddocaol, wrth i'r mwyafrif o drigolion Pontypridd edrych tua'r de tuag at Gaerdydd ar gyfer cyflogaeth, siopa, ac ymrwymiadau cymdeithasol. Mae gan aneddiadau Llanharan a Llanhari, ynghyd â Thonysguboriau a Llantrisant, gysylltiadau enwedig o gryf â Phont-y-clun (ac o'r herwydd, Etholaeth Gorllewin Caerdydd). Hefyd, mae ardaloedd megis Llanilltud Faerdref, Efail Isaf, Pentre'r Eglwys, a Thon-teg yn rhannu perthynas agos â Chreigiau a Phentrych, a gefnogir gan gysylltiadau trafnidiaeth cadarn gan gynnwys gwasanaethau trenau a bysiau—cysylltiadau sy'n nodedig yn wannach ar gyfer y rhai sy'n cymudo i Ferthyr Tudful ac Aberdâr.

O ran Merthyr Tudful ac Aberdâr, rwyf yn pryderu nad yw'r mwyafrif o drigolion

Pontypridd yn teimlo llawer o gysylltiad â’r ardal hon, os o gwbl. Yn hytrach, credaf y byddai’r etholaeth yn cyd-fynd yn well â’r Rhondda ac Ogwr, sy’n rhannu cysylltiadau diwylliannol dwfn sydd wedi eu gwreiddio yn eu treftadaeth ddiwydiannol yn ogystal â chysylltiadau seilwaith a thrafnidiaeth cryf. Enghraifft o hyn yw trosglwyddiad aneddiadau megis Ynys-y-bwl, Glyn-coch, a Chilfynydd o Gwm Cynon i Bontypridd yn ystod yr adolygiad cyfnodol diwethaf—y mae pob un ohonynt yn uniaethu’n agosach â Phontypridd nac ag Aberdâr a Chwm Cynon.

Mae hefyd yn bwysig nodi mai un o’r cynigion cychwynnol o Adolygiad Cyfnodol 2023 oedd uno etholaethau Rhondda a Chwm Cynon, gan gydnabod ymhellach y cysylltiadau cryf y mae’r ardaloedd hyn yn eu rhannu.

Rwyf yn credu’n gryf y byddai hon yn etholaeth gyfun fwy priodol o ystyried y pwyntiau a restrir uchod. Diolch yn fawr am eich ystyriaeth yn y mater hwn, ac edrychaf ymlaen at eich ymateb cyn gynted â phosibl.

Cofion cynnes,

Jamie

Jamie Daniel | Cynghorydd / Councillor | Canol Pont-y-clun
Yn cwmpasu Pont-y-clun, Ynys-ddu, Hendy a Meisgyn Isaf
[HEPGOR]

Ffôn: [HEPGOR]
[HEPGOR]

Mae Swyddfeydd y Cyngor ar agor fel arfer o ddydd Llun i ddydd Gwener, 10am tan hanner dydd ac eithrio Gwyliau Banc.
Ystyriwch yr amgylchedd a meddwl cyn argraffu’r neges hon os gwelwch yn dda.
Croesawn ohebiaeth yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi gormodol. Rhowch wybod inni os Cymraeg neu ddwyieithog yw eich dewis iaith.
Mae’r Cyngor wedi ymrwymo i warchod eich preifatrwydd pan fyddwch yn defnyddio ein gwasanaethau neu’n cysylltu â ni. Bydd unrhyw ddata personol a roddwch inni, gan gynnwys enw, manylion cyswllt, cyfeiriadau e-bost yn cael eu rheoli yn unol â’n polisi preifatrwydd sydd ar gael ar ein gwefan: Pontyclun.net/privacy.
Ar gyfer y derbynnydd/derbynyddion a enwir yn unig y bwriedir y trosglwyddiad hwn a gallai gynnwys deunydd personol, sensitif neu gyfrinachol a dylid ei drin yn unol â hynny. Oni bai mai chi yw’r derbynnydd a enwir (neu fod gennych awdurdod i’w dderbyn ar ran y derbynnydd), ni chewch ei gopïo na’i ddefnyddio, na’i ddatgelu i neb arall. Os ydych wedi derbyn y trosglwyddiad hwn mewn camgymeriad, rhowch wybod i’r anfonwr ar unwaith.

Pontyclun Town Council | Pontyclun Community Centre
[HEPGOR]
The Council Offices are normally open Monday to Friday 10am to noon, excluding Bank holidays.
Please consider the environment and think before you print this message.
We welcome correspondence in Welsh and corresponding with us in Welsh will not lead to an undue delay. Let us know your language choice if Welsh or bilingual.
The Council is committed to protecting your privacy when you use our services or contact us. Any personal data you provide us, including name, contact details, email addresses will be managed in accordance with our privacy policy which is published on our website at Pontyclun.net/privacy.
This transmission is intended for the named addressee(s) only and may contain personal, sensitive or confidential material and should be handled accordingly. Unless you are the named addressee (or authorised to receive it for the addressee) you may not copy or use it, or disclose it to anyone else. If you have received this transmission in error please notify the sender immediately.

**8045 – Aelod o'r Cyhoedd**

Fel preswylydd yng Nghymru, rwyf yn llwyr gefnogi gweithredu'r awgrymiadau gwreiddiol ar gyfer ffiniau Cymru ac rwyf yn gwbl yn erbyn unrhyw ddiwygiadau eraill i ddiystyru'r rhain.

**8046 – Aelod o'r Cyhoedd**

Annwyl Syr/Madam,

Rwyf yn e-bostio i ddweud fy mod yn cefnogi Cynigion Cychwynnol y Comisiwn Ffiniau. Gwnaf hynny fel pleidleisiwr yng Nghymru ac fel aelod o'r cyhoedd yng Nghymru.

Rwyf yn cefnogi'r Cynigion Cychwynnol, am sawl rheswm, gan gynnwys:

Mae'n bwysig bod parau etholaethau cymoedd de Cymru yn rhedeg o'r gogledd i'r de i fyny ac i lawr y cymoedd, felly mae paru Merthyr Tudful ac Aberdâr â Phontypridd yn adlewyrchu cysylltiadau lleol yng nghymunedau y cymoedd.

Yng Nghaerdydd, rydym yn cefnogi'r Comisiwn yn paru Gorllewin Caerdydd â De Caerdydd a Phenarth, gan eu bod wedi eu cysylltu'n agos gan yr A4232, ond wedi eu gwahanu oddi wrth weddill Caerdydd gan Afon Taf.

Diolch am wrando ar fy llais.

Yn gywir,
[HEPGOR]

**8047 – Aelod o'r Cyhoedd**

Rwyf yn anfon e-bost atoch i ddweud fy mod yn llwyr gefnogi'r ffiniau newydd.

**8048 – Aelod o'r Cyhoedd**

Annwyl Syr/Madam, hoffwn fynegi fy nghefnogaeth i gynigion cychwynnol y Comisiwn ynghylch y parau a awgrymir. Diolch.— [HEPGOR]
Anfonwyd o'm iPhone

**8049 – Aelod o'r Cyhoedd**

Annwyl Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru,

Ysgrifennaf fel preswylydd ym Mhen-y-bont ar Ogwr a gyrrwr hurio preifat sy'n gweithredu ledled Cymru i fynegi fy nghefnogaeth gref i Gynigion Cychwynnol y Comisiwn ynghylch yr adolygiad ffiniau arfaethedig. Mae fy mhrofiad helaeth o weithio ymhlith gwahanol gymunedau wedi rhoi cipolwg gwerthfawr i mi ar y cysylltiadau lleol a'r ddaearyddiaeth sy'n siapio ein rhanbarthau.

Rwyf yn cymeradwyo'r Comisiwn am ei ddull meddylgar o adolygu etholaethau ar hyd llinellau gogledd-de yng nghymoedd y de. O'm teithiau, nodaf yn uniongyrchol pa mor agos y mae Merthyr Tudful, Aberdâr a Phontypridd yn gysylltiedig, yn gymdeithasol ac yn ddaearyddol. Mae'r A470 a llwybrau lleol eraill yn hwyluso mynediad rhwydd ymhlith y cymunedau hyn, gan ei gwneud yn rhesymegol eu grwpio gyda'i gilydd mewn ffordd sy'n adlewyrchu'n gywir agweddau dyddiol y trigolion.

Hefyd, mae'r penderfyniad i baru Pen-y-bont ar Ogwr â Bro Morgannwg yn ganmoladwy. Mae'r rhanbarthau hyn yn rhannu cysylltiadau cymunedol arwyddocaol, mae'r aliniad hwn yn amlygu'r cysylltiadau hynny. Mae ffyrdd allweddol megis yr A48 a'r M4 yn galluogi cludiant rhwng Pen-y-bont ar Ogwr a Bro Morgannwg, gan atgyfnerthu'r syniad bod yr ardaloedd hyn yn perthyn gyda'i gilydd yn naturiol. Mewn cyferbyniad, byddai cysylltu Bro Morgannwg wledig ag etholaeth yng Nghaerdydd yn amharu ar y perthnasoedd sefydledig ac yn creu gwahaniad artiffisial nad yw'n bodloni buddiannau y cymunedau.
Rwyf yn cefnogi'r cynnig i uno Aberafan, Maesteg, Rhondda a Dyffryn Ogwr yn un etholaeth. Mae fy ngwaith yn mynd â mi drwy'r ardaloedd hyn ac rwyf yn cydnabod eu treftadaeth ddiwydiannol a'u cysylltiadau cymdeithasol a rennir a ffurfiwyd dros amser. Mae'r A465 a'r B4281 yn darparu cysylltiadau hanfodol rhwng cymunedau o'r fath, a bydd eu cadw gyda'i gilydd mewn un etholaeth yn helpu i gadw eu

perthnasoedd hanfodol.
Yn olaf, mae fy mhrofiadau yng Nghaerdydd yn atgyfnerthu fy nghefnogaeth i baru Gorllewin Caerdydd â De Caerdydd a Phenarth. Mae ffordd gyswllt yr A4232 yn llwybr trafnidiaeth hanfodol sy'n cysylltu'r ardaloedd hyn yn effeithiol, ac mae Afon Taf yn darparu ffin naturiol oddi wrth weddill y ddinas, gan wneud y trefniad hwn yn ymarferol ac yn gydlynol.
Rwyf yn gwerthfawrogi mewnwelediad a sensitifrwydd y Comisiwn i'r cysylltiadau daearyddol a diwylliannol sy'n diffinio ein cymunedau. Rwyf yn gobeithio ac yn credu y bydd yr argymhellion terfynol yn parhau i adlewyrchu'r perthnasoedd pwysig hyn, gan sicrhau bod lleisiau pobl Cymru yn cael eu cynrychioli'n effeithiol.
Cofion gorau,
[HEPGOR]

Anfonwyd o'm iPhone

**8050 – Aelod o'r Cyhoedd**

Rwyf yn byw yn Llanandras, Powys [HEPGOR] ac yn cefnogi'r newidiadau ffiniau newydd arfaethedig, [HEPGOR]

**8051 – Aelod o'r Cyhoedd**

Annwyl Syr neu Fadam

Hoffwn gefnogi'r ffiniau arfaethedig ar gyfer Cynulliad Cymru. Rwyf wedi bod yn breswylydd yng Nghymru ers 32 mlynedd ac yn ystyried y byddai'r newidiadau yn ei gwneud yn haws i mi a'm cymdogion gysylltu â chynrychiolwyr y Cynulliad.

Dymuniadau gorau

[HEPGOR]

**8052 – Aelod o'r Cyhoedd**

Hei
Dim ond eisiau cefnogi'r cynigion cychwynnol a amlinellir yn yr adroddiad.
Yn enwedig creu etholaeth Clwyd.
Diolch
[HEPGOR]

**8053 – Aelod o'r Cyhoedd**

Diolch am wahodd fy safbwyntiau yn yr ymgynghoriad hwn.
Yn fras, rwyf yn cymeradwyo'r newidiadau arfaethedig cychwynnol. Ar ôl gweithio ledled Cymru am fwy na 40 mlynedd, gallaf weld y rhesymeg y tu ôl i 'uno' etholaethau cyfagos yng nghyd-destun y gofyniad 'ffin gyffiniol'.

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
Democracy and Boundary Commission Cymru

Mae'r cynigion wedi arwain at etholaethau mawr yng nghefn gwlad canolbarth a gorllewin Cymru, ond ar ôl gweithio'n helaeth yn yr ardaloedd hynny gallaf werthfawrogi bod eu poblogaethau isel wedi arwain at y ffiniau arfaethedig.

Yn un o drigolion Ceredigion, gallaf werthfawrogi ei haffinedd â Sir Benfro, a'i mynediad parod iddi, sy'n gwneud paru'r ardaloedd hyn yn ddewis rhesymegol fel un etholaeth.

**8054 – Aelod o'r Cyhoedd**

Prynhawn da

Ysgrifennaf, fel aelod o'r cyhoedd yng Nghymru, i'ch hysbysu fy mod yn cefnogi Cynigion Cychwynnol y Comisiwn.

Cofion cynnes

[HEPGOR]

**8056 – Aelod o'r Cyhoedd**

Rwyf yn cefnogi eich cynigion cychwynnol fel aelod o'r cyhoedd yng Nghymru.

**8057 – Aelod o'r Cyhoedd**

Annwyl Syr/Madam,
Ysgrifennaf fel aelod o'r cyhoedd sy'n byw yng Nghymru i'ch hysbysu fy mod yn cefnogi eich cynigion cychwynnol ynghylch ffiniau etholaethau yng Nghymru.
Cofion
[HEPGOR]

**8058 – Aelod o'r Cyhoedd**

Rwyf yn cefnogi eich cynigion cychwynnol fel aelod o'r cyhoedd yng Nghymru.

**8059 – Aelod o'r Cyhoedd**

Fel pleidleisiwr cofrestredig yn ne Cymru, rwyf yn gadarn yn erbyn pob cynnig i ychwanegu a newid etholaethau ac i gynyddu aelodau y Senedd.
Ac eithrio:

Mae'n bwysig bod parau etholaethau cymoedd de Cymru yn rhedeg o'r gogledd i'r de i fyny ac i lawr y cymoedd, felly mae paru Merthyr Tudful ac Aberdâr â Phontypridd yn adlewyrchu cysylltiadau lleol yng nghymunedau y cymoedd.

Yng Nghaerdydd, rydw i'n cefnogi'r Comisiwn yn paru Gorllewin Caerdydd â De Caerdydd a Phenarth, gan eu bod wedi eu cysylltu'n agos gan yr A4232, ond wedi

eu gwahanu oddi wrth weddill Caerdydd gan Afon Taf.

Mae pob cynnig arall yn y mater hwn yn anghynaladwy o safbwynt gweinyddol ac ariannol, sy'n ei wneud yn newid costus a diangen.

Y bwriad amlwg i unrhyw un a phob un sy'n edrych ar ddatblygiad arfaethedig yr etholaethau yw dylanwadu ar y canlyniadau pleidleisio yn yr etholiad nesaf.

Mor frawychus ag y bo hynny i'w ddarllen, mewn gwirionedd, dim ond i'r blaid Lafur y mae hynny'n gwneud synnwyr.

Nid wyf yn cydsynio nac yn cymeradwyo'r newidiadau arfaethedig hyn.

[HEPGOR]

Anfonwyd o'm Galaxy

**8060 – Aelod o'r Cyhoedd**

Rwyf yn cefnogi'r adolygiad cychwynnol yn gadarn fel y'i cefnogir gan Reform UK

Cofion Cynnes
[HEPGOR]
Casnewydd, De Cymru

**8061 – Aelod o'r Cyhoedd**

Prynhawn da,
Rwyf wedi darllen y ddogfen ymgynghori a hoffwn ddweud fy mod yn cefnogi'r cynigion cychwynnol fel aelod o'r cyhoedd sy'n byw yn Nhorfaen.
[HEPGOR]

**8062 – Aelod o'r Cyhoedd**

Annwyl Syr/Fadam

Fel aelod o'r cyhoedd yng Nghymru, hoffwn fynegi fy nghefnogaeth i Gynigion Cychwynnol y Comisiynydd.

Mae nifer o ddadleuon o blaid y cynigion. Rhoddir 2 enghraifft isod:

• Mae'n bwysig bod parau etholaethau cymoedd De Cymru yn mynd i fyny ac i lawr y cymoedd o'r gogledd i'r de, felly mae paru Merthyr Tudful ac Aberdâr â Phontypridd yn adlewyrchu cysylltiadau lleol yng nghymunedau'r cymoedd.
• Yng Nghaerdydd, rydym yn cefnogi cynnig y Comisiwn i baru Gorllewin Caerdydd â

De Caerdydd a Phenarth, gan eu bod wedi'u cysylltu'n agos gan yr A4232, ond wedi'u gwahanu oddi wrth weddill Caerdydd gan afon Taf.
Cofion
[HEPGOR]

**8063 – Aelod o'r Cyhoedd**

Annwyl Syr/Fadam

Fel aelod o'r cyhoedd yng Nghymru, hoffwn fynegi fy nghefnogaeth i Gynigion Cychwynnol y Comisiynydd.

Mae nifer o ddadleuon o blaid y cynigion. Rhoddir 2 enghraifft isod:

• Mae'n bwysig bod parau etholaethau cymoedd De Cymru yn mynd i fyny ac i lawr y cymoedd o'r gogledd i'r de, felly mae paru Merthyr Tudful ac Aberdâr â Phontypridd yn adlewyrchu cysylltiadau lleol yng nghymunedau'r cymoedd.
• Yng Nghaerdydd, rydym yn cefnogi cynnig y Comisiwn i baru Gorllewin Caerdydd â De Caerdydd a Phenarth, gan eu bod wedi'u cysylltu'n agos gan yr A4232, ond wedi'u gwahanu oddi wrth weddill Caerdydd gan afon Taf.
[HEPGOR]

**8064 – Aelod o'r Cyhoedd**

Annwyl Syr/Fadam,

Rwyf wedi cael gwybod am yr Arolwg uchod a hoffwn fynegi fy nghefnogaeth lawn i'r cynllun ffiniau arfaethedig newydd. Gobeithiaf y bydd hyn yn caniatáu ar gyfer adlewyrchu safbwyntiau lleol yn decach.

Cofion,
[HEPGOR]
Sir Fynwy
[HEPGOR]

**8065 – Aelod o'r Cyhoedd**

Annwyl Syr/Fadam

Fel aelod o'r cyhoedd yng Nghymru, hoffwn fynegi fy nghefnogaeth i Gynigion Cychwynnol y Comisiynydd.

Mae nifer o ddadleuon o blaid y cynigion. Rhoddir 2 enghraifft isod:

• Mae’n bwysig bod parau etholaethau cymoedd De Cymru yn mynd i fyny ac i lawr y cymoedd o’r gogledd i’r de, felly mae paru Merthyr Tudful ac Aberdâr â Phontypridd yn adlewyrchu cysylltiadau lleol yng nghymunedau’r cymoedd.
• Yng Nghaerdydd, rydym yn cefnogi cynnig y Comisiwn i baru Gorllewin Caerdydd â De Caerdydd a Phenarth, gan eu bod wedi’u cysylltu’n agos gan yr A4232, ond wedi’u gwahanu oddi wrth weddill Caerdydd gan afon Taf.

[HEPGOR]

Anfonwyd o Outlook for Android

**8068 - Ar ran sefydliad (preifat neu gyhoeddus)**

Prynhawn da,

Gweler isod ymateb ar ran Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) i’r ymgynghoriad ar baru etholaethau:

Mae CLILC yn cydnabod bod Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru, wrth gynnal yr arolwg o’r etholaethau arfaethedig ar gyfer etholiadau’r Senedd, yn rhwym wrth feini prawf a osodir mewn deddfwriaeth, sef bod rhaid iddo baru’r 32 o etholaethau Seneddol y Deyrnas Unedig i gyrraedd y nifer penodedig o 16 o etholaethau ar gyfer Cymru gyfan. Roedd hefyd yn ofynnol i’r Comisiwn ystyried ffactorau eraill fel ffiniau llywodraeth leol, ystyriaethau daearyddol arbennig a chysylltiadau lleol a fyddai’n cael eu torri gan y parau.

Ar lefel strategol, mae CLILC yn nodi cynigion y Comisiwn a’r sail resymegol a amlinellwyd yn yr ymgynghoriad. Mae CLILC yn cydnabod efallai y bydd gan rai o’i haelod-awdurdodau faterion penodol y gallent eu codi o safbwynt gweithredol, gweinyddol neu hanesyddol. Gellir mynegi’r safbwyntiau hyn yn uniongyrchol gyda’r Comisiwn a byddant yn seiliedig ar wybodaeth fanwl a chydnabyddiaeth o safbwyntiau eu cymunedau lleol.

Diolch,
[HEPGOR]

**8069 – Aelod o’r Cyhoedd**

Foneddigion.

[HEPGOR]

At hynny, cefnogaf eich cynigion cychwynnol ynglŷn â ffiniau yn unig, a gellid ystyried y byddai unrhyw gynigion eraill neu ychwanegol a gyflwynir cyn 2026 yn cael eu hysgogi gan resymau gwleidyddol.

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
Democracy and Boundary Commission Cymru

Byddwn yn gwerthfawrogi gair i gydnabod eich bod wedi derbyn y neges e-bost hon.

Diolch

[HEPGOR]

**8070 – Ar ran sefydliad (preifat neu gyhoeddus)**

I Bwy Bynnag a Fynno Wybod,

Gweler fy llythyr ynghlwm.

Yn gywir,

[HEPGOR]

---

Swyddfa Gofrestredig: 83 Victoria Street, Llundain SW1H 0HW, y Deyrnas Unedig
Reform UK Party Ltd, rhif cofrestru yng Nghymru a Lloegr 11694875

Mae'r neges e-bost hon ac unrhyw atodiadau iddi yn gyfrinachol ac wedi'u bwriadu at ddefnydd yr unigolyn y'u cyfeirir ato yn unig. Barn neu safbwyntiau'r awdur yn unig yw unrhyw rai a fynegir ac nid ydynt o reidrwydd yn cynrychioli barn a safbwyntiau Reform UK. Os nad chi yw derbynnydd bwriadedig y neges e-bost hon, mae'n rhaid i chi beidio â gweithredu ar ei chynnwys na'i chopïo na'i dangos i unrhyw un.

Cysylltwch â'r anfonwr os ydych yn credu eich bod wedi derbyn y neges e-bost hon trwy gamgymeriad.

Reform UK Party Limited
[HEPGOR]
Rhif cwmni 11694875 | Wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr
Hyrwyddir gan Reform UK Party Limited

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
Democracy and Boundary Commission Cymru

IT'S TIME FOR REFORM.

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

30 Medi 2024

**Ymateb Reform UK i'r ymgynghoriad**

Cyhoeddodd Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru (y "Comisiwn") ei gynigion cychwynnol ar gyfer Arolwg 2026 o Etholaethau'r Senedd ar 3 Medi 2024. Nodwn fod y Comisiwn yn ymgynghori ar y rhain tan 30 Medi 2024.

Mae Reform UK yn gwrthwynebu cynyddu'r Senedd o'i 60 aelodau presennol.

Fodd bynnag, cydnabyddwn fod y Comisiwn yn cynnal ei ddyletswyddau statudol, ac yn y cyd-destun hwn y mae Reform UK yn cyflwyno'r ymateb ymgynghori hwn.

*Goblygiadau'r gofyniad am 'etholaethau cyffiniol'*

Mae paragraff 2(1) Atodlen 2 Deddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024 yn datgan "Mae'n rhaid i ardal pob un o etholaethau'r Senedd gynnwys ardaloedd cyfunol dwy etholaeth seneddol gyffiniol y Deyrnas Unedig yng Nghymru".

Mae'r Comisiwn yn cyfeirio at hyn yn nhudalen 8 ei adroddiad, ar ôl nodi "Mae gan Ynys Môn gysylltiadau ffyrdd â'r tir mawr trwy etholaeth Seneddol y Deyrnas Unedig Bangor Aberconwy yn unig", a chyn mynegi ei farn "bod cysylltiadau cyfathrebu a theithio clir yn rhan hanfodol o allu darparu ar gyfer cynrychiolaeth effeithiol a chyfleus". Yna, mae'n cynnig bod Ynys Môn a Bangor Aberconwy yn cael eu paru.

Ystyriwn fod y Comisiwn yn iawn i ffurfio'r pâr hwn. Byddem yn mynd ymhellach ac yn datgan bod rhaid i'r Comisiwn baru Ynys Môn a Bangor Aberconwy, gan fod yr unig gysylltiadau ffyrdd (a rheilffyrdd) o Ynys Môn i'r tir mawr trwy Fangor Aberconwy, a bod y ddeddfwriaeth sylfaenol gymwys yn mynnu bod etholaethau sy'n cael eu paru yn gyffiniol. Pe byddai'r Comisiwn yn paru Ynys Môn ag etholaeth arall yn lle hynny, fel bod angen i bobl deithio trwy Fangor Aberconwy i fynd o un rhan o'u hetholaeth i'r llall, yna ni fyddai'r etholaeth honno'n gyffiniol.

Felly, credwn mai'r unig ddewis i'r Comisiwn yw paru etholaethau Seneddol y Deyrnas Unedig ar hyd arfordir gogledd Cymru yn y modd y mae wedi'i wneud.

[redacted]

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru

Democracy and Boundary Commission Cymru

IT'S TIME FOR REFORM.

Ar ôl paru Ynys Môn â Bangor Aberconwy, mae'n rhaid i'r Comisiwn baru Gogledd Clwyd â Dwyrain Clwyd, gan nad yw Gogledd Clwyd yn gyffiniol ag unrhyw un o etholaethau eraill San Steffan heblaw am Fangor Aberconwy, y mae'n rhaid iddi gael ei pharu ag Ynys Môn.

Gan fod Gogledd Clwyd yn cael ei pharu â Dwyrain Clwyd, mae'n rhaid i'r Comisiwn baru Alun a Glannau Dyfrdwy â Wrecsam. Nid yw Alun a Glannau Dyfrdwy yn gyffiniol ag unrhyw un o etholaethau seneddol eraill y Deyrnas Unedig yng Nghymru heblaw am Ddwyrain Clwyd, sydd eisoes wedi'i pharu â Gogledd Clwyd.

*Goblygiadau ardaloedd tenau eu poblogaeth yng Nghymru wledig*

Roedd rhai adroddiadau a sylwadau ar gynigion cychwynnol y Comisiwn yn canolbwyntio ar ehangder etholaeth arfaethedig Dwyfor Meirionnydd, Sir Drefaldwyn a Glyndŵr y Comisiwn. Fodd bynnag, nid yw hyn yn beirniadu gwaith y Comisiwn, oherwydd

- Bod ehangder yr etholaeth yn adlewyrchu'r ffaith bod llawer o Gymru wledig yn denau ei phoblogaeth, o ganlyniad i'r rheolau a gymhwysir i ffurfio etholaethau seneddol y Deyrnas Unedig; ac
- O ystyried y drafodaeth uchod, gellir paru Dwyfor Meirionnydd â Sir Drefaldwyn a Glyndŵr neu Geredigion Preseli yn unig.

Cefnogwn gynnig y Comisiwn, oherwydd yr unig ddewis arall yw paru Dwyfor Meirionnydd â Cheredigion Preseli. Byddai hyn yn creu etholaeth sy'n mynd o Gaernarfon i Abergwaun, ac er y byddai'r ardal gyfan o faint tebyg, byddai'r pellteroedd a'r amseroedd teithio yn hirach fyth, ac ni fyddai llawer yn gyffredin rhwng ei rhannau pellaf, i'r fath raddau a allai ddwyn anfri ar yr arolwg cyfan.

Mae Reform UK hefyd yn cefnogi cynigion eraill y Comisiwn ar gyfer paru etholaethau tenau eu poblogaeth yng nghanolbarth a gorllewin Cymru.

Mae'r Comisiwn wedi ystyried ffiniau llywodraeth leol a chynnal cysylltiadau lleol yn llwyddiannus trwy gynnig 'Ceredigion a Sir Benfro' a 'Sir Gaerfyrddin' fel etholaethau. Cefnogwn y rhain yn gryf.

Disgwyliwn y bydd etholaeth arfaethedig Aberhonddu, Maesyfed, Castell-nedd a Dwyrain Abertawe y Comisiwn yn fwy dadleuol, er ein bod yn ei chefnogi.

O ystyried y drafodaeth uchod, nid oes modd cyfuno etholaeth Aberhonddu, Maesyfed a Chwm Tawe ag unrhyw etholaeth i'r gogledd neu'r gorllewin ohoni, er na ystyriwn fod dadleuon da dros ei chyfuno ag unrhyw un arall o'r etholaethau i'r de ohoni.

Mae'r dadleuon sy'n honni nad oes gan Aberhonddu a Maesyfed gysylltiadau â Chwm Tawe yn berthnasol hefyd i Ystradgynlais, sydd wedi cael ei chysylltu ers tro ag Aberhonddu a Maesyfed at ddibenion seneddol. At hynny, er y cydnabyddwn fod ymestyn yr etholaeth i Bontardawe yn ddadleuol, gwnaed y penderfyniad hwn ar gyfer Senedd y Deyrnas Unedig yn flaenorol, ac mae'n rhaid i'r Comisiwn ddefnyddio'r etholaethau hynny fel sylfaen.

[redacted]

IT'S TIME FOR REFORM.

Efallai'n wir fod gan Bontardawe gysylltiadau gwael ag Aberhonddu a Maesyfed, ond mae'n amlwg bod ganddi gysylltiadau lleol cryf â Chastell-nedd a Dwyrain Abertawe. Cefnogwn etholaeth arfaethedig Aberhonddu, Maesyfed, Castell-nedd a Dwyrain Abertawe gan ei bod yn well nag opsiynau eraill nad ydynt cystal.

*Gweithio gyda thopograffeg cymoedd Cymru*

Mae'n anodd integreiddio cymoedd de Cymru yn briodol yn 16 o etholaethau yn unig ledled Cymru, ac mae anghysondebau'n anochel.

Mae egwyddor y Comisiwn yn iawn yn ei gynigion cychwynnol. Lle bo'n bosibl, mae'n well parchu topograffeg y cymoedd, gan ddefnyddio'r cymoedd hynny i gysylltu etholaethau o'r gogledd i'r de, yn hytrach na gorfodi etholaethau i baru o'r dwyrain i'r gorllewin ar draws cymoedd nad ydynt yn rhannu'r un cysylltiadau lleol a chymunedol.

Mae hyn yn amlwg o ran parau 'Merthyr Tudful, Aberdâr a Phontypridd' a 'Blaenau Gwent, Rhymni a Chaerffili', lle mae'r etholaethau sydd wedi'u paru yn mynd o'r gogledd i'r de yn bennaf gan ddilyn cyfuchlinellau'r cymoedd, gan felly barchu cysylltiadau lleol a chymunedau, yn hytrach na'u rhannu fel y byddai parau eraill o'r dwyrain i'r gorllewin yn tueddu i'w wneud.

Yn yr un modd, cefnogwn gynnig arfaethedig y Comisiwn i baru Casnewydd ac Islwyn, a pharu Sir Fynwy a Thorfaen sydd â chysylltiad naturiol a hanesyddol.

Credwn fod y Comisiwn hefyd yn iawn i baru cymunedau Bro Morgannwg a Phen-y-bont ar Ogwr, y mae cysylltiad agos rhyngddynt, yn hytrach na gorfodi cysylltiad annaturiol rhwng Bro Morgannwg wledig ac etholaeth o brifddinas Caerdydd.

Credwn fod cyfuno ardaloedd Aberafan, Maesteg, Rhondda ac Ogwr yn sgil hynny fel etholaeth â threftadaeth ddiwydiannol gysylltiedig yn cefnogi cysylltiadau lleol, hefyd.

*Parau Caerdydd*

Credwn y dylai pedair etholaeth Caerdydd gael eu paru â'i gilydd, a bod y Comisiwn wedi cynnig y parau iawn o fewn y brifddinas.

Mae Dwyrain Caerdydd a Gogledd Caerdydd wedi'u cysylltu'n agosach gan ddaearyddiaeth â Chasnewydd, Bryste a choridor yr M4 ymhellach i'r dwyrain i Loegr. Mae Gorllewin Caerdydd a De Caerdydd a Phenarth yn tueddu i edrych yn fwy tuag at y gorllewin ar hyd yr M4 a thuag at Abertawe.

Mae cysylltiadau lleol, cysylltiadau a'r rhwydwaith ffyrdd o fewn Caerdydd, yn enwedig yr A4232, yn cysylltu De Caerdydd a Phenarth yn agosaf â Gorllewin Caerdydd, sydd hefyd yn wir am Ddwyrain a Gogledd Caerdydd â'r A48 a'u daearyddiaeth gysylltiedig â dwyrain afon Taf.

Mae'r bwlch ar ôl yn yr hyn a fyddai wedi bod yn ffordd amgylchynol Caerdydd yr M4/A4232/A48(M) fel arall yn golygu bod Dwyrain Caerdydd a De Caerdydd a Phenarth wedi'u cysylltu'n wael gan Rover Way, nad yw'n ffordd ddeuol. Mae safle gwastraff Lamby Way ac afon Rhymni hefyd yn cyfrannu at y cysylltedd cymharol wael rhwng y ddwy etholaeth seneddol y Deyrnas Unedig hyn.

[redacted]

REFORM UK
IT'S TIME FOR REFORM.

Yn gywir,

[redacted]

[redacted]
Cadeirydd, Reform UK

[redacted]

**8071 - Ar ran awdurdod lleol**

Prynhawn da

Gweler ynghlwm llythyr gan [HEPGOR] Prif Weithredwr er eich sylw.

Gyda diolch / With thanks

[HEPGOR]

Arolwg 2026 – Cynigion Cychwynnol

Diolch am y cyfle i gyfrannu sylwadau ar eich cynigion cychwynnol ar gyfer ffiniau etholaethau Senedd Cymru.

Mae'r cynigion wedi cael eu hystyried gan swyddogion ac arweinyddion gwleidyddol Cyngor Sir Ynys Môn, er bod cyfnod byr yr ymgynghoriad wedi gwneud hynny'n heriol iawn.

Rydym yn deall bod yr adolygiad yn cael ei gynnal ar sail gofynion a osodwyd gan Ddeddf Senedd Cymru 2024 a bod hynny'n cyfyngu yn sylweddol ar sgôp yr adolygiad. Er enghraifft, yr angen i'r Comisiwn bennu 16 ardal etholaeth ac i'r etholaethau gael eu ffurfio drwy gyfuno 2 etholaeth senedd Prydain sydd yn rhannu ffin.

Er hynny, mae'n rhaid i ni ddatgan ein pryder am effaith creu etholaethau mor fawr ar ddemocratiaeth lleol. Mae risg bydd yr etholaethau yn erydu'r cyswllt sy'n bodoli rhwng etholwyr a'r rhai sy'n eu cynrychioli. Gall y cynigion hefyd erydu'r ddealltwriaeth a'r arbenigedd lleol sydd gan Aelodau Etholedig ac mewn etholaethau mor fawr, mae'n annhebygol bydd cysylltiadau cymdeithasol ac economaidd agos rhwng rhai o'r cymunedau.

Pryder arall sydd gennym ni ydi cost cynnal arolwg arall ar ôl etholiadau'r Senedd yn 2026 yn arbennig yn yr hinsawdd ariannol presennol. A fyddai'n well oedi'r etholiadau am flwyddyn er
mwyn rhoi amser i gynnal un arolwg cynhwysfawr?

O safbwynt y cynnig penodol i Ynys Môn ac er mwyn cadw at ofynion y Ddeddf,

deallwn bod rhaid i'r etholaeth gael ei chyfuno gyda etholaeth seneddol arall sy'n ffinio. Dim ond dwy etholaeth arall sy'n rhannu ffin ar draws y Fenai gyda Ynys Môn, sef Dwyfor Meirionnydd a Bangor Aberconwy. Mae'r cysylltiadau ffyrdd fodd bynnag gyda Bangor Aberconwy oherwydd lleoliad y ddwy bont. Felly rydym yn cytuno mai dyna'r unig gyfuniad sy'n sicrhau cysylltiadau trafnidiaeth ac etholaeth gydlynus.

I grynhoi, credwn mai cyfuno Ynys Môn gyda Bangor Aberconwy ydi'r unig gynnig sy'n cydymffurfio yn llawn gyda gofynion yr arolwg. Felly cytunwn gyda chynnig y Comisiwn. Er hynny ac fel rydym wedi nodi, mae gennym bryderon sylfaenol gyda'r symudiad tuag at etholaethau mawr ac erydiad cysylltiadau lleol. Gofynnwn i'r Comisiwn ail-ystyried hynny wrth barhau i ddatblygu ei gynigion.

**8072 - Andrew RT Davies - Aelod o Senedd Cymru**

Annwyl Gadeirydd,

30 Medi 2024

A minnau'n Arweinydd Grŵp Ceidwadwyr Cymru yn y Senedd, ysgrifennaf ar ran y Grŵp i gefnogi'r ymateb i'r ymgynghoriad a gyflwynwyd gan Blaid Geidwadol Cymru ynglŷn â'r cynigion cychwynnol ar gyfer parau etholaethau'r Senedd.

Yng nghyflwyniad y Blaid, rydym yn cefnogi deuddeg o'r parau arfaethedig sy'n synhwyrol ac yn ystyried cysylltiadau lleol, cysylltiadau diwylliannol a sut mae cymunedau'n rhyngweithio.

Rwyf wedi bod yn Aelod o Senedd Cymru dros Ganol De Cymru am y ddwy flynedd ar bymtheg diwethaf. Wrth edrych ar y dewis amgen arfaethedig fel y'i hawgrymwyd gan Blaid Geidwadol Cymru, credaf y byddai parau wedi'u haddasu yn gweddu'n well i gymunedau lleol, yn ogystal â hwyluso cydweithio i ddatrys materion lleol.

Yn hollbwysig, a minnau'n gyn gynghorydd Cyngor Bro Morgannwg, cydnabyddaf ei bod yn hanfodol bod ardal Cyngor Bro Morgannwg yn cael ei chadw gyda'i gilydd mewn etholaeth Senedd newydd. Dyna'n union y mae cynnig Ceidwadwyr Cymru yn ei wneud.

Er mwyn cyflawnder, rwyf wedi cynnwys y cynnig amgen isod.

Byddai parau etholaethau amgen Plaid Geidwadol Cymru yn effeithio ar y seddau canlynol:

• Aberafan, Maesteg, Rhondda ac Ogwr
• Bro Morgannwg a Phen-y-bont ar Ogwr
• Gorllewin Caerdydd, De Caerdydd a Phenarth

• Merthyr Tudful, Aberdâr a Phontypridd.

A byddai'n creu'r parau newydd canlynol:

• Aberafan, Maesteg a Phen-y-bont ar Ogwr
• Bro Morgannwg, De Caerdydd a Phenarth
• Pontypridd a Gorllewin Caerdydd
• Merthyr Tudful, Aberdâr, Rhondda ac Ogwr

Yr achos o blaid Aberafan, Maesteg a Phen-y-bont ar Ogwr:

• Mae cysylltiadau trafnidiaeth pwysig, fel yr M4 a phrif linell Great Western, yn mynd o'r dwyrain i'r gorllewin, nid o'r gogledd i'r de. Mae llinellau trenau lleol yn rhedeg o fewn y ddwy etholaeth San Steffan hefyd gan uno cymunedau – er enghraifft, mae llinell yn rhedeg o Bencoed trwy Ben-y-bont ar Ogwr i Faesteg. Nid yw trenau'n rhedeg o Aberafan/Maesteg i'r Rhondda yn yr un ffordd.

• Mae'r pâr newydd yn dilyn daearyddiaeth arfordir Cymru.
• Mae ffiniau San Steffan yn rhannu Cyngor Sir Pen-y-bont ar Ogwr yn dair etholaeth wahanol. Byddai'r pâr newydd yn uno dwy o'r tair etholaeth hynny.
• Yn gymdeithasol ac yn economaidd, mae gan y pâr fwy yn gyffredin o ran diwydiant hanesyddol, pryderon o ran dyfodol diwydiannau lleol tebyg, a hynny'n fwy na'r parau eraill.

Yr achos o blaid Bro Morgannwg, De Caerdydd a Phenarth:

• Mae ardaloedd cyngor Bro Morgannwg a Phen-y-bont ar Ogwr yn ffurfio ffin wleidyddol rhwng etholaethau newydd y Senedd, gyda phoblogaeth sylweddol o fewn ardal cyngor y Fro yn etholaeth De Caerdydd a Phenarth.
• Yn hanesyddol, bu gan y Fro gysylltiadau gwleidyddol â Chaerdydd. Byddai'r pâr hwn yn cadw ardal Cyngor Bro Morgannwg o fewn un etholaeth yn lle dwy, hefyd.
• Mae llawer o'r trefi a'r pentrefi ar ochr ddwyreiniol y Fro wedi'u cydblethu â'i gilydd a Chaerdydd. Mae pobl yn y Barri, Dinas Powys, Penarth a Llandochau yn symud rhwng y cymunedau hyn ar gyfer gwaith, cymdeithasu, ac addysg ac mae'r trefi a'r pentrefi amgylchynol yn ardal gymudo ar gyfer Caerdydd.
• Mae Maes Awyr Caerdydd wedi'i leoli ym Mro Morgannwg ac mae llawer o gysylltiadau trafnidiaeth rhwng Caerdydd a'r Barri.
• Fodd bynnag, cydnabyddwn fod y Fro orllewinol yn edrych tuag at Ben-y-bont ar Ogwr am ei gwasanaethau.

Yr achos o blaid Pontypridd a Gorllewin Caerdydd:

• Mae cymunedau deheuol yn etholaeth Pontypridd yn edrych tuag at Gaerdydd ar gyfer gwaith, addysg a chymdeithasu.
• Mae cysylltiadau trafnidiaeth yn gryfach o Bontypridd i lawr i Gaerdydd. Mae llawer o gymudwyr yn gyrru i orsafoedd trenau o fewn Gorllewin Caerdydd neu Ogledd Caerdydd i deithio i mewn i Gaerdydd ar y trên.
• Mae mwy o gymunedau wedi'u cydgysylltu rhwng Pontypridd a Gorllewin

Caerdydd, fel Glan-bad a Rhydyfelin.
• Roedd wardiau yng Ngorllewin Caerdydd yn etholaeth Pontypridd yn hanesyddol.
• Mae tref Pont-y-clun yn cael ei rhannu rhwng dwy etholaeth Senedd newydd – bydd rhoi Gorllewin Caerdydd a Phontypridd gyda'i gilydd yn atal y rhaniad hwnnw.
Yr achos o blaid Merthyr Tudful, Aberdâr, Rhondda ac Ogwr:
• Mae cysylltiadau trafnidiaeth gwael rhwng Pen-y-bont ar Ogwr/Rhondda o gymharu â Rhondda a Merthyr Tudful/Aberdâr.
• Mae'r ardaloedd cymoedd hyn yn rhannu mwy o faterion tymor hir, fel tai, swyddi ac effaith ehangach mwyngloddio/ adfywio, o gymharu â Phen-y-bont ar Ogwr.
• Mae preswylwyr yn y Rhondda yn edrych yn fwy tuag at Ferthyr Tudful ar gyfer siopa na Phen-y-bont ar Ogwr.
• Rhoddwyd ystyriaeth ddifrifol i gynnwys Rhondda a Chwm Cynon yn yr un etholaeth San Steffan yn yr arolwg diwethaf o ffiniau.

Diolch am ystyried y diwygiadau hyn ac edrychaf ymlaen at weld ymateb y Comisiwn y flwyddyn nesaf.

Dymuniadau gorau,

Andrew RT Davies AS
Arweinydd Ceidwadwyr Cymru yn Senedd Cym

**8073 - Ar ran sefydliad (preifat neu gyhoeddus)**

Annwyl [HEPGOR]
Atodir cyflwyniad Plaid Geidwadol Cymru ynglŷn â'r ymgynghoriad ar barau etholaethau cychwynnol y Senedd.
Os bydd gennych unrhyw gwestiynau, rhowch wybod i mi neu [HEPGOR]
[HEPGOR]

Cadeirydd Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
Llawr Gwaelod, Tŷ Hastings
Llys Fitzalan
Caerdydd
CF24 0BL
30 Medi 2024

Annwyl Gadeirydd
Ar ran Plaid Geidwadol Cymru, ymatebaf i'r ymgynghoriad ar gynigion cychwynnol yr arolwg o ffiniau etholaethau'r Senedd.
At ei gilydd, rydym yn cefnogi deuddeg o'r parau arfaethedig, gan gydnabod y cysylltiadau diwylliannol a daearyddol cryf rhwng cymunedau. Yng Ngogledd Cymru yn arbennig, mae'n braf gweld Wrecsam a Sir y Fflint yn cael eu huno, ardaloedd

Clwyd gyda'i gilydd a'r cysylltiadau amlwg rhwng Ynys Môn a Bangor.
Yn yr un modd, mae'n dda gweld Canolbarth a De Sir Benfro yn cael eu huno â Cheredigion, sy'n rhannu ardaloedd cyngor, a dwy sedd Sir Gaerfyrddin yn cael eu cadw gyda'i gilydd. Rydym hefyd yn croesawu'r parau yn Ne-ddwyrain Cymru, sy'n sicrhau bod Casnewydd yn un sedd a bod etholaethau Sir Fynwy a Thorfaen yn cael eu huno'n naturiol.
Fodd bynnag, hoffem awgrymu pedwar pâr amgen ar gyfer seddau sy'n rhychwantu Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd, Rhondda, Merthyr Tudful a Bro Morgannwg. Credwn y byddai'r newid bach hwn yn helpu i warchod cysylltiadau lleol – y mae llawer ohonynt yn hanesyddol – yn ogystal mynd i'r afael â materion cyffredin sy'n effeithio ar y cymunedau hyn.
Byddai ein cynnig amgen yn effeithio ar y parau arfaethedig canlynol:
• Aberafan, Maesteg, Rhondda ac Ogwr
• Bro Morgannwg a Phen-y-bont ar Ogwr
• Gorllewin Caerdydd, De Caerdydd a Phenarth
• Merthyr Tudful, Aberdâr a Phontypridd. A byddai'n creu'r parau newydd canlynol:
• Aberafan, Maesteg a Phen-y-bont ar Ogwr
• Bro Morgannwg, De Caerdydd a Phenarth
• Pontypridd a Gorllewin Caerdydd
• Merthyr Tudful, Aberdâr, Rhondda ac Ogwr
Yr achos o blaid Aberafan, Maesteg a Phen-y-bont ar Ogwr:
• Mae cysylltiadau trafnidiaeth pwysig, fel yr M4 a phrif linell Great Western, yn mynd o'r dwyrain i'r gorllewin, nid o'r gogledd i'r de. Mae llinellau trenau lleol yn rhedeg o fewn y ddwy etholaeth San Steffan hefyd gan uno cymunedau – er enghraifft, mae llinell yn rhedeg o Bencoed trwy Ben-y-bont ar Ogwr i Faesteg. Nid yw trenau'n rhedeg o Aberafan/Maesteg i'r Rhondda yn yr un ffordd.
• Mae'r pâr newydd yn dilyn daearyddiaeth arfordir Cymru.
• Mae ffiniau San Steffan yn rhannu Cyngor Sir Pen-y-bont ar Ogwr yn dair etholaeth wahanol. Byddai'r pâr newydd yn uno dwy o'r tair etholaeth hynny.
• Yn gymdeithasol ac yn economaidd, mae gan y pâr fwy yn gyffredin o ran diwydiant hanesyddol, pryderon o ran dyfodol diwydiannau lleol tebyg, a hynny'n fwy na'r parau eraill.
Yr achos o blaid Bro Morgannwg, De Caerdydd a Phenarth:
• Mae ardaloedd cyngor Bro Morgannwg a Phen-y-bont ar Ogwr yn ffurfio ffin wleidyddol rhwng etholaethau newydd y Senedd, gyda phoblogaeth sylweddol o fewn ardal cyngor y Fro yn etholaeth De Caerdydd a Phenarth.
• Yn hanesyddol, bu gan y Fro gysylltiadau gwleidyddol â Chaerdydd. Byddai'r pâr hwn yn cadw ardal Cyngor Bro Morgannwg o fewn un etholaeth yn lle dwy, hefyd.
• Mae llawer o'r trefi a'r pentrefi ar ochr ddwyreiniol y Fro wedi'u cydblethu â'i gilydd a Chaerdydd. Mae pobl yn y Barri, Dinas Powys, Penarth a Llandochau yn symud rhwng y cymunedau hyn ar gyfer gwaith, cymdeithasu, ac addysg ac mae'r trefi a'r pentrefi amgylchynol yn ardal gymudo ar gyfer Caerdydd.
• Mae Maes Awyr Caerdydd wedi'i leoli ym Mro Morgannwg ac mae llawer o

gysylltiadau trafnidiaeth rhwng Caerdydd a'r Barri.
• Fodd bynnag, cydnabyddwn fod y Fro orllewinol yn edrych tuag at Ben-y-bont ar Ogwr am ei gwasanaethau.
Yr achos o blaid Pontypridd a Gorllewin Caerdydd:
• Mae cymunedau deheuol yn etholaeth Pontypridd yn edrych tuag at Gaerdydd ar gyfer gwaith, addysg a chymdeithasu.
• Mae cysylltiadau trafnidiaeth yn gryfach o Bontypridd i lawr i Gaerdydd. Mae llawer o gymudwyr yn gyrru i orsafoedd trenau o fewn Gorllewin Caerdydd neu Ogledd Caerdydd i deithio i mewn i Gaerdydd ar y trên.
• Mae mwy o gymunedau wedi'u cydgysylltu rhwng Pontypridd a Gorllewin Caerdydd, fel Glan-bad a Rhydyfelin.
• Roedd wardiau yng Ngorllewin Caerdydd yn etholaeth Pontypridd yn hanesyddol.
• Mae tref Pont-y-clun yn cael ei rhannu rhwng dwy etholaeth Senedd newydd – bydd rhoi Gorllewin Caerdydd a Phontypridd gyda'i gilydd yn atal y rhaniad hwnnw.
Yr achos o blaid Merthyr Tudful, Aberdâr, Rhondda ac Ogwr:
• Mae cysylltiadau trafnidiaeth gwael rhwng Pen-y-bont ar Ogwr/Rhondda o gymharu â Rhondda a Merthyr Tudful/Aberdâr.
• Mae'r ardaloedd cymoedd hyn yn rhannu mwy o faterion tymor hir, fel tai, swyddi ac effaith ehangach mwyngloddio/ adfywio, o gymharu â Phen-y-bont ar Ogwr.
• Mae preswylwyr yn y Rhondda yn edrych yn fwy tuag at Ferthyr Tudful ar gyfer siopa na Phen-y-bont ar Ogwr.
• Rhoddwyd ystyriaeth ddifrifol i gynnwys Rhondda a Chwm Cynon yn yr un etholaeth San Steffan yn yr arolwg diwethaf o ffiniau.
Credwn y bydd y mân addasiadau hyn i'r parau arfaethedig yn gwella'r berthynas rhwng Aelodau'r Senedd a'r cymunedau maen nhw'n eu cynrychioli, ar yr un pryd â galluogi mwy o gydweithio i ddatrys materion cyffredin sy'n wynebu'r cymunedau hyn.
Edrychaf ymlaen at ddarllen canfyddiadau'r Comisiwn.
Yn gywir,
Y Cynghorydd Tomos Dafydd Davies
Cadeirydd Plaid Geidwadol Cymru

**8074 - Ar ran awdurdod lleol**

Dyma ymateb Cyngor Gwynedd i'r ymgynghoriad ar y Cynigion Cychwynnol.

Mae Cyngor Gwynedd croesawu y cyfle i ymateb i'r cynigion drafft ar gyfer etholaethau Senedd Cymru . Rydym yn cydnabod hefyd fod cyfyngiadau yn y Ddeddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024 sydd yn golygu fod y dewisiadau yn gyfyngedig o ran creu yr etholaethau ar gyfer 2026. Rydym hefyd yn o ganlyniad yn cydnabod y bydd adolygiad cyflawn ar gyfer yr etholiadau canlynol yn 2030. Oherwydd hynny ac er fod gennym amheuon ynglŷn a ffurf yr etholaethau arfaethedig nid ydym yn rhoi safbwynt ymlaen ar eu priodoldeb.

Gan edrych ymlaen at yr adolygiad canlynol mae gennym bryderon o ran meini prawf ac egwyddorion yr adolygiad o safbwynt ffurf y ddarpar etholaethau. Mae hyn yn benodol o amgylch y ffactorau a gafodd flaenoriaeth wrth benderfynu cyplysu De Gwynedd gyda Gogledd Powys a Glyndwr ar yr un llaw a pheidio a chyplysu Gwynedd a Môn. Mae Gwynedd a Môn yn rhan o ranbarth cydnabyddedig y Gogledd gyda chysylltiadau llywodraeth leol , diwylliannol a chymdeithasol agos. Yn ddaearyddol gwahanir Môn a Gwynedd gan y Fenai ond mae hyn yn ffactor gyffredin ar hyd y rhan yma o'r arfordir. Rhoddwyd pwyslais sylweddol yn eich dadansoddiad ar leoliad Pontydd Britannia a Menai fel cysylltiadau ffyrdd allweddol i gyfiawnhau gwahanu Gwynedd yn ddwy ran. Nid oes ystyriaeth amlwg o gyd destun ehangach Gwynedd a Mon fel rhan o ranbarth y Gogledd. Ymddengys fod y pwyslais ar y pontydd â'r A55 yn gorbwyso fel ystyriaeth o safbwynt cynrychiolaeth wleidyddol. Yn yr un modd rhoddir pwyslais yn achos Dwyfor Meirionnydd Maldwyn a Glyndwr ar gysylltiadau ffyrdd heb roi sylw i'r cyd destun llywodraeth leol na rhanbarthol.

Rydym yn derbyn mae mater ar gyfer yr adolygiad canlynol yw hyn bellach. Fodd bynnag rydym yn awyddus fod y Comisiwn wrth gynnal yr adolygiad llawn ar gyfer 2030 yn sicrhau fod y broses yn rhoi sylw dyledus a phriodol i'r cyfan o'r meini prawf . Bydd y broses yma yn rhoi cyfle i greu etholaethau y Senedd o'r newydd ar gyfer y dyfodol. Mae'n hanfodol fod y broses yma yn achub ar y cyfle i greu ffurf o etholaethau sydd yn amlwg yn seiliedig ar yr ystod o ffactorau a thystiolaeth sydd yn bodoli.

Diolch

[HEPGOR]

**8075 - Councillor Catriona Brown-Reckless - Local councillor or other elected official**

Rwyf yn cyflwyno'r gynrychiolaeth hon i chi fel Cynghorydd ar ran ward Pentyrch a Sain Ffagan ar Gyngor Caerdydd.
Mae fy ward yn ardal ddaearyddol gymharol fawr wedi'i ffurfio'n bennaf o bentrefi i'r gogledd-orllewin o Gaerdydd ac mae o fewn etholaeth Gorllewin Caerdydd.
Hoffwn bwysleisio'r buddiannau cyffredin a phwysigrwydd cysylltiadau lleol sydd gennym i'r gorllewin o afon Taf ac i fyny tuag at Bontypridd.
Cefnogaf gynnig y Comisiwn i beidio â pharu Gorllewin Caerdydd â Gogledd Caerdydd, gan fod afon Taf yn rhwystr sylweddol rhyngddynt. Yr unig bont ffordd rhwng yr M4 a'r A48, sy'n cynnig cyffyrdd/cysylltedd cyfyngedig, yw'r Bridge Road gul ger Llandaf, lle'r wyf yn aml yn aros mewn rhes hir yn ceisio ymuno â Llantrisant Road wrth gylchfan fach.
I'r gwrthwyneb, mae'r Cyngor wedi penderfynu defnyddio Llantrisant Road / yr A4119 i gefnogi datblygiad sylweddol i'r gogledd-orllewin o Gaerdydd, gan gynnwys yn fy

ward i. Wrth iddynt ddatblygu, bydd y cymunedau hyn yn cysylltu Gorllewin Caerdydd yn agosach ag etholaeth Pontypridd. Mae hefyd yn bosibl y gallem ailagor rheilffordd segur sy'n cysylltu'r rhain, os gellir sicrhau buddsoddiad ar gyfer hynny. Mae'r ward yr wyf yn ei chynrychioli yn un wledig, yn bennaf. Mae gan bentrefi Pentyrch a Chreigiau, sef ei chanolfannau poblogaeth mwyaf, fwy yn gyffredin ac maen nhw'n mwynhau cysylltiadau lleol agosach â phentrefi yn etholaeth Pontypridd, e.e. Groes-faen, Pont-y-clun, Llanilltud Faerdref a Phentre'r Eglwys, na Phenarth. Mae preswylwyr yn fy ward hefyd yn defnyddio'r parc manwerthu yn Nhonysguboriau a'r cyfleusterau hamdden o amgylch Meisgyn. O ganlyniad, gofynnaf i'r Comisiwn ystyried paru etholaeth Gorllewin Caerdydd ag etholaeth Pontypridd.
Y Cynghorydd Catriona Brown-Reckless

**8076 – Aelod o'r Cyhoedd**

Annwyl Ysgrifennydd y Comisiwn,

Atodir ein harsylwadau ar ddogfen ymgynghori'r Comisiwn ar ffurf cyflwyniad.
Byddem yn croesawu cydnabyddiaeth.

Cofion cynnes

[HEPGOR]

CYFLWYNIAD I GOMISIWN DEMOCRATIAETH A FFINIAU CYMRU

Cefndir:
1. Trwy Adran 17 Deddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024 (Deddf 2024), mae Atodlen 2 ynddi yn darparu ar gyfer swyddogaethau Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru (y Comisiwn) wrth benderfynu pa etholaethau sydd i'w paru ar gyfer etholiad cyffredinol yng Nghymru a gynhelir ar ôl 6 Ebrill 2026 a chyn i reoliadau o dan adran 49J Deddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc 2013 ddod i rym.

2. Rydym wedi byw yn Nhongwynlais yn etholaeth Seneddol y Deyrnas Unedig Gogledd Caerdydd ers dros 40 mlynedd. Mae gennym y sylwadau canlynol i'w gwneud wrth ymateb i ddogfen ymgynghori'r Comisiwn ar etholaethau newydd y Senedd.

3. Mae paragraff 1 Atodlen 2 Deddf 2024 yn darparu bod rhaid i bob etholaeth newydd y Senedd gynnwys ardaloedd cyfunol dwy etholaeth seneddol gyffiniol y

Deyrnas Unedig yng Nghymru.

4. Mae paragraff 4 Atodlen 2 Deddf 2024 yn darparu:
Wrth ystyried cyfuniadau posibl etholaethau seneddol y Deyrnas Unedig yng Nghymru, caiff y Comisiwn ystyried—
(a) ffiniau llywodraeth leol sy’n bodoli ar ddyddiad yr arolwg;
(b) ystyriaethau daearyddol arbennig gan gynnwys, yn enwedig, maint, siâp a hygyrchedd etholaeth Senedd arfaethedig;
(c) unrhyw gysylltiadau lleol (gan gynnwys cysylltiadau lleol sy’n ymwneud â defnyddio’r Gymraeg) a fyddai’n cael eu torri gan y parau arfaethedig.

5. Edrychwn ar y ffactorau hyn isod, ond, cyn gwneud hynny, mae’n werth ystyried goblygiad paragraff 1 Atodlen 2: bod y Comisiwn yn adeiladu ar waith a phenderfyniadau’r Comisiwn Ffiniau i Gymru, sydd hefyd yn cyfyngu ar gwmpas ei allu i bennu ffiniau.

6. O ran Gogledd Caerdydd, yr etholaethau cyffiniol sy’n bodloni’r gofyniad ym mharagraff 1 Atodlen 2 uchod yw Caerffili, Dwyrain Caerdydd, De Caerdydd a Phenarth, Gorllewin Caerdydd, Gorllewin Casnewydd ac Islwyn a Phontypridd.

Ffiniau awdurdodau lleol sy’n bodoli ar ddyddiad yr arolwg
7. Pan fydd etholaethau’r Senedd yn croesi ffiniau awdurdodau lleol, mae’n anochel y bydd rhaid i Aelodau’r Senedd ddatblygu arbenigedd ar drefniadau gweinyddol a pholisïau mwy nag un awdurdod lleol, sy’n golygu mwy o waith a mwy o alw ar amser Aelodau’r Senedd.

8. Ar y sail hon yn unig, felly, mae’n ddymunol iawn bod croesi ffiniau’n cael ei leihau gymaint â phosibl a byddem yn diystyru paru â Chaerffili, Gorllewin Casnewydd ac Islwyn. Derbyniwn mai’r canlyniad gorau i Ogledd Caerdydd yw paru ag etholaeth arall ym mwrdeistref Caerdydd.

9. Ond, fel y nodwyd yn flaenorol uchod, oherwydd bod rhaid i’r Comisiwn dderbyn ffiniau Seneddol y Deyrnas Unedig fel y maent, ni ellir diystyru croesi ffiniau’n gyfan gwbl gan fod etholaethau bwrdeistref Caerdydd a bennwyd gan y Comisiwn Ffiniau i Gymru eisoes yn gwneud hynny.

10. O ran De Caerdydd a Phenarth, sydd ar bob ochr i’r ffin rhwng Dinas a Sir Caerdydd a Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg, mae’r pâr hwn yn un hirsefydlog. Byddai paru Gogledd Caerdydd â De Caerdydd a Phenarth yn golygu y byddai’n rhaid i Aelodau’r Senedd ymaflyd â pholisïau tri awdurdod lleol, sef Dinas a Sir Caerdydd, Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg a Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf . Honnwn fod hyn yn dra annymunol ac yn rheswm dros ddiystyru pâr o’r fath.

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
Democracy and Boundary Commission Cymru

11. Yn fwy diweddar, oherwydd diwygiad diweddar i Ddeddf Etholaethau Seneddol 1986, a gyflwynodd Gwota Etholiadol y Deyrnas Unedig a'r rheol gwyriad 5%, mae etholaethau bwrdeistrefol Senedd y Deyrnas Unedig Gogledd Caerdydd a Gorllewin Caerdydd yn croesi'r ffin rhwng Dinas a Sir Caerdydd a Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.

12. Croesir y ffin yng Ngogledd Caerdydd lle mae ward yr Eglwys Newydd a Thongwynlais yn Ninas a Sir Caerdydd a ward Ffynnon Taf ym Mwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn cyfarfod, ac yng Ngorllewin Caerdydd lle mae ward Creigiau/Sain Ffagan yn Ninas a Sir Caerdydd a ward Pont-y-clun ym Mwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn cyfarfod.

13. Felly, bydd trefniadau gweinyddol a pholisïau Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn effeithio ar Ogledd Caerdydd a Gorllewin Caerdydd ac, fel yr esboniwyd ym mharagraff rhif 7 uchod, bydd hynny'n gofyn am arbenigedd ehangach gan Aelod o'r Senedd ac yn golygu mwy o waith iddo. Honnwn mai'r ffordd fwyaf effeithlon o gyflawni hyn yw trwy dîm o Aelodau'r Senedd o un etholaeth Senedd. Y goblygiad naturiol, felly, yw y dylid paru Gogledd Caerdydd a Gorllewin Caerdydd. Pe byddai Gorllewin Caerdydd yn cael ei pharu â De Caerdydd a Phenarth, byddai'n wynebu'r un broblem ag y byddai Gogledd Caerdydd mewn pâr o'r fath, sef ymaflyd â pholisïau tri (3) awdurdod lleol. Mae hyn yn ffordd aneffeithlon iawn o symud ymlaen ac yn sicr o greu dryswch.

Ystyriaethau daearyddol arbennig gan gynnwys, yn enwedig, maint, siâp a hygyrchedd etholaeth Senedd arfaethedig:

14. I'r gogledd, mae Caerdydd wedi'i ffinio'n ddaearyddol â'r gadwyn o fryniau sy'n ymestyn ar draws Gogledd Caerdydd – Craig Llys-faen, y Wenallt a Chraig yr Allt yn Nantgarw – i Orllewin Caerdydd – y Garth a Soar – gan felly uno Gorllewin Caerdydd a Gogledd Caerdydd. I'r de, mae'r ffin a ffurfir gan yr arfordir yn uno De Caerdydd a Phenarth a Dwyrain Caerdydd. Honnir bod hyn yn ystyriaeth ddaearyddol arbennig sy'n cefnogi paru Gogledd Caerdydd â Gorllewin Caerdydd, a Dwyrain Caerdydd â De Caerdydd a Phenarth.

1Gweler paragraff rhif 11
2A ddiffinnir ym mharagraff 2 Atodlen 2 Deddf Etholaethau Seneddol 1986, fel y'i diwygiwyd.

15. Mae Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd yn cynnwys ardal a warchodir o'r enw Lletem Las. Mae'r ardal yn cael ei gwarchod er mwyn atal blerdwf trefol a chynnal y gwahaniad rhwng Caerdydd a chymunedau amgylchynol. Mae wedi'i lleoli'n bennaf i'r gogledd o Gaerdydd gan ymestyn o Greigiau yng Ngorllewin Caerdydd i Bentref Llaneirwg yng Ngogledd Caerdydd. Mae'r nodwedd gyffredin hon rhwng y ddwy

etholaeth fwrdeistrefol Seneddol yn ystyriaeth ddaearyddol arbennig arall sy'n cefnogi paru Gogledd Caerdydd a Gorllewin Caerdydd.

16. Er y nodwn fod Afon Taf yn nodwedd naturiol sy'n gwahanu Gogledd Caerdydd oddi wrth Orllewin Caerdydd at ddibenion pennu ffin etholaethau Seneddol y Deyrnas Unedig, wrth asesu'r darlun mwy sy'n ofynnol gan baru statudol, honnwn fod yr ymdeimlad cyffredin o berthyn ymhlith y cymunedau ar hyd dyffryn yr afon o Ffynnon Taf, Tongwynlais, yr Eglwys Newydd, Gogledd Llandaf a Gabalfa yng Ngogledd Caerdydd, a Llandaf a Radur yng Ngorllewin Caerdydd, yn dod yn hollbwysig. Mae'r ddwy etholaeth wedi'u cysylltu gan bont ffordd yn wardiau Llandaf/Gogledd Llandaf a ffordd Pont yr Ynys sy'n cysylltu cymunedau Tongwynlais/Ffynnon Taf/Pentyrch, y mae'r olaf yn cynnwys Gwaelod-y-garth. Rhwng y ddwy bont ffordd, ceir hefyd groesfannau cerddwyr/beicwyr oddi ar Lwybr Taf wrth y Bont Haearn, Tongwynlais (sy'n arwain at Fferm Gelynis a Threforgan), a'r Bont Las yn Radur (sy'n rhoi mynediad i orsaf drenau Radur). Mae llwybr maes glas cyfan yr afon o fewn Caerdydd wedi'i gynnwys yn y ddwy etholaeth hyn, ac mae materion cynaliadwyedd, ecoleg, amddiffyn rhag llifogydd, llygredd ac ansawdd dŵr, a defnyddio'r ddyfrffordd yn creu buddiant cyffredin ar draws y ddwy etholaeth ac yn ystyriaeth arbennig bwysig iawn yn ddaearyddol ac o ran hygyrchedd sy'n ffafrio'r gynrychiolaeth a roddir gan etholaeth unigol.

17. Mae'r gwasanaeth Stagecoach 136 o Greigiau yng Ngorllewin Caerdydd i Ganol Dinas Caerdydd yn mynd trwy Bentyrch (Gorllewin Caerdydd) a'r Eglwys Newydd a Gabalfa (Gogledd Caerdydd). Mae hwn yn gysylltiad trafnidiaeth gyhoeddus pwysig ac yn ystyriaeth hygyrchedd sy'n cefnogi paru Gorllewin Caerdydd â Gogledd Caerdydd o ran darparu'r gynrychiolaeth orau gan Aelodau'r Senedd.

18. Er bod Gogledd Caerdydd a De Caerdydd a Phenarth yn cyffwrdd wrth ran fach o'r ffin rhwng ward Cathays yn Ne Caerdydd a Phenarth a wardiau Gabalfa a'r Mynydd Bychan yng Ngogledd Caerdydd, honnwn fod y maint a'r siâp hir tebyg i eicon amserydd beri ŵy sy'n deillio o hynny yn rhywbeth i'w osgoi ac yn rheswm arall i ddiystyru paru'r ddwy etholaeth Seneddol y Deyrnas Unedig hyn.

19. Er mwyn cyflawnder, dylem hefyd ddweud bod siapiau a meintiau canlyniadol hir ac anhylaw yn rheswm arall dros ddiystyru paru Gogledd Caerdydd â Chaerffili, Gorllewin Casnewydd ac Islwyn neu Bontypridd.

20. Ochr yn ochr ag Afon Taf, mae hygyrchedd i Ogledd Caerdydd a Gorllewin Caerdydd, oddi wrthynt ac ynddynt, yn cael ei wella'n sylweddol yn sgil datblygiad parhaus Metro De Cymru, gan gynnwys trydaneiddio llinellau'r Cymoedd. Mae gorsaf Metro newydd yn cael ei chynnig yn yr Hen Iard Lo ym Mynachdy (Ward Gabalfa yng Ngogledd Caerdydd). Mae'r llinell reilffordd yn cysylltu dwy ochr yr afon yn Llandaf a Ffynnon Taf (Gogledd Caerdydd) a Radur (Gorllewin Caerdydd). Bydd

depo newydd Trafnidiaeth Cymru yn Ffynnon Taf (Gogledd Caerdydd) yn dod yn "guriad calon" y Metro. Mae'r datblygiad yn canolbwyntio ar y cysylltiad rhwng Gogledd Caerdydd/Gorllewin Caerdydd wrth Afon Taf. Unwaith eto, mae gan etholaethau Seneddol y Deyrnas Unedig Gogledd Caerdydd a Gorllewin Caerdydd fuddiant cyffredin cryf. Mae hyn yn ystyriaeth bwysig iawn arall o ran hygyrchedd sy'n ffafrio paru Gogledd Caerdydd â Gorllewin Caerdydd.

3 Mae Pont yr Ynys yn cynnwys dwy bont ffordd mewn gwirionedd, y mae un ohonynt yn adeilad rhestredig gradd II sydd yng ngofal CADW.

21. O ran cysylltiadau ffyrdd, y prif hybiau traffig sy'n rhoi mynediad i Gaerdydd yw Cyffyrdd 30 (Porth Caerdydd) a 32 (Coryton) yr M4 - sydd ill dwy yng Ngogledd Caerdydd - Cyffordd 33 yr M4 (Capel Llanilltern) - yng Ngorllewin Caerdydd - sydd wedi'i chysylltu â Chroes Cwrlwys gan yr A4232(Gogledd) - yng Ngorllewin Caerdydd - sy'n croestorri â'r A48 sy'n mynd trwy Gaerdydd.

22. Yn ogystal, trwy ffordd gangen yr A48M oddi ar yr M4 sy'n dod yn Rhodfa'r Dwyrain (A48), mae cyfnewidfa/trosffordd Gabalfa yng Ngogledd Caerdydd yn rhoi mynediad i Ganol Dinas Caerdydd; Gogledd Caerdydd trwy Rodfa'r Gogledd/yr A470 sy'n arwain at gyfnewidfa Coryton a'r Cymoedd; a Gorllewin Caerdydd trwy Rodfa'r Gorllewin (A48) sy'n arwain at Bont Treláí ac yna Croes Cwrlwys.

23. Mae cymudwyr sy'n teithio i mewn ac allan o'r Ddinas bob dydd ar gyfer gwaith yn symud o'r gogledd i'r de yn fras ac yn cydgyfeirio i'r hybiau hyn, gan achosi tagfeydd (gan gynnwys cymudwyr o'r Cymoedd ac yn y gogledd-orllewin o amgylch ward Pont-y-clun o Rondda Cynon Taf a gysylltwyd yn ddiweddar). Mae coridor yr M4 i'r gogledd, a'r A48 i'r de, gyda'r A4232(Gogledd) a'r A470 yn cysylltu'r ddau, yn ffurfio'r fframwaith traffig sylfaenol ar gyfer symud ar draws lled etholaeth arfaethedig Gorllewin Caerdydd-Gogledd Caerdydd. Honnir fod gan y ddwy etholaeth, sef Gogledd Caerdydd a Gorllewin Caerdydd, fuddiant cyffredin sylweddol yn ymwneud â rheoli a rheoleiddio'r hybiau a'r llwybrau hyn, a'r teithiau trwyddynt ac ar hyd-ddynt, a bod hyn yn rheswm hygyrchedd arall dros baru'r ddwy etholaeth.

24. Mae Llwybr Taf, sy'n dechrau ym Mae Caerdydd, yn mynd trwy Orllewin Caerdydd yng Ngerddi Sophia, Meysydd Pontcanna, a thrwy Ogledd Caerdydd ym Mharc Hailey, Fferm Fforest, yr Eglwys Newydd a Thongwynlais, cyn parhau tua'r gogledd i Aberhonddu. Mae hwn yn llwybr Teithio Llesol pwysig i'r gwaith ac ar gyfer byw'n iach a hamdden sy'n cysylltu Gogledd Caerdydd a Gorllewin Caerdydd. Unwaith eto, byddai anghenion y rhan hon o goridor teithio pwysig ar gyfer beicio/cerdded a'i ddefnyddwyr yng nghyd-destun Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 yn cael eu cynrychioli orau gan dîm unigol o Aelodau'r Senedd o un etholaeth Senedd. Mae hyn yn ystyriaeth arall o ran hygyrchedd sy'n ffafrio paru Gogledd Caerdydd â Gorllewin Caerdydd.

Unrhyw gysylltiadau lleol (gan gynnwys cysylltiadau lleol yn ymwneud â defnyddio'r Gymraeg) a fyddai'n cael eu torri gan y parau arfaethedig.

25. Cysylltiadau yn ymwneud â'r Gymraeg: Caerdydd yw'r ardal fwyaf niferus ac sy'n tyfu gyflymaf o ran y Gymraeg yng Nghymru. Yn wir, mae'r duedd hon yn gryf iawn yng Ngorllewin Caerdydd a Gogledd Caerdydd. Mae gan bedair ar ddeg (14) o wardiau yng Nghaerdydd fwy o siaradwyr Cymraeg na chyfartaledd Caerdydd, sef 10.1%; o'r rhain, mae un ar ddeg (11) yng Ngorllewin Caerdydd a Gogledd Caerdydd, gan gynnwys yr wyth ward â'r ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg . Maen nhw'n ffurfio bloc cyffiniol sy'n ymestyn o'r gorllewin i'r dwyrain, o Greigiau a Phentyrch yn y gogledd-orllewin, i Lys-faen yn y dwyrain, gan gynnwys y ddwy ysgol uwchradd sydd wedi'u cysylltu'n hanesyddol yng Nglantaf a Phlasmawr. Honnir y bydd paru Gogledd Caerdydd a Gorllewin Caerdydd yn rhoi llais cryfach a mwy effeithiol yn y Senedd ac yn y genedl i darged y Senedd o gyflawni miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Honnir ymhellach fod rhaid i "dorri cysylltiadau" yn y cyd-destun hwn hefyd olygu tanseilio a gweithredu mewn ffordd nad yw'n hyrwyddo polisi a dyheadau'r Senedd o ran y Gymraeg.

4 A ddiffinnir fel y rhai hynny sy'n gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg, yn ôl Cyfrifiad 2021.

26. Cysylltiadau eraill: Nodweddir yr un bloc cyffiniol hwn gan gymunedau mwy gwledig wedi'u seilio ar bentrefi, o'u cyferbynnu â natur fwy cynhenid drefol canol y ddinas a llawer o rannau dwyreiniol a deheuol o'r ddinas sy'n ymestyn i'r arfordir. Amlygir hyn gan y ffaith bod pob un o chwe Chyngor Cymuned Caerdydd o fewn Gogledd Caerdydd (Llys-faen; Pentref Llaneirwg; Tongwynlais) a Gorllewin Caerdydd (Radur a Threforgan, Pentyrch – sy'n rhychwantu Creigiau, Gwaelod-y-garth a Phentyrch – a Sain Ffagan). At hynny, yng Ngogledd Caerdydd, mae ward Ffynnon Taf o Fwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn cynnwys pentref Nantgarw sy'n cydffinio â Chymuned Ffynnon Taf a Nantgarw y mae ganddi ei Chyngor Cymuned ei hun hefyd. Byddai uno'r cymunedau hyn o dan set gyffredin o gynrychiolwyr y Senedd yn cynyddu'r tebygolrwydd y bydd eu buddiannau a'u nodweddion cyffredin, gan gynnwys strwythurau llywodraethu, yn cael eu cynrychioli'n effeithiol. Mae llawer o'r buddiannau cyffredin hyn yn adlewyrchu natur dyffryn Afon Taf fel cyswllt trafnidiaeth allweddol ar gyfer y rhanbarth.

27. Yn ogystal, wrth fynd heibio, mae'n werth crybwyll y byddai lleoli ward Ffynnon Taf o Rondda Cynon Taf a ward Pentyrch o Ddinas a Sir Caerdydd (sy'n cynnwys Gwaelod-y-garth) yn yr un sedd yn y Senedd yn hyrwyddo cysylltiadau naturiol rhwng y ddwy gymuned fach hyn ac yn osgoi eu torri.

28. Yn olaf, mae Ysgol Gynradd Tongwynlais yng Ngogledd Caerdydd yn ysgol

fwydo ar gyfer Ysgol Gyfun Radur yng Ngorllewin Caerdydd. Er mwyn i Aelod o'r Senedd ddarparu'r gynrychiolaeth orau, dylai'r ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd fod o fewn ei etholaeth.

Casgliadau

29. Mae'r Comisiwn wedi cynnig paru Gogledd Caerdydd â Dwyrain Caerdydd. Gan gymhwyso'r ystyriaethau a grybwyllwyd uchod a restrir ym mharagraff 4 Atodlen 2 a'n rhesymeg ein hunain, honnwn nad yw cynnig y Comisiwn yn adlewyrchu'r trefniadau gorau ar gyfer Gogledd Caerdydd na hyd yn oed etholaethau bwrdeistrefol eraill Caerdydd.

30. Yng ngoleuni'r ystyriaethau a'r rhesymau hyn, gofynnwn i Ogledd Caerdydd gael ei pharu â Gorllewin Caerdydd, ac nid â Dwyrain Caerdydd. Honnwn nad yw'r newid hwn yn arwain at unrhyw effaith gynyddol arall heblaw am baru De Caerdydd a Phenarth.

Rydym yn fodlon i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru gysylltu â ni gyda diweddariadau e-bost ynglŷn â'r arolwg hwn o ffiniau etholiadol.
[HEPGOR]

30 Medi 2024

**8077 – Aelod o'r Cyhoedd**

Annwyl gyfeillion
Dyma sylwadau fy ffrind [HEPGOR]

SYLWADAU AR Y NEWIDIADAU ARFAETHEDIG

ETHOLAETHAU SENEDDOL CYMRU 2026
Ni ellir gwahanu'r systemau etholiadau sydd mewn grym/a ddylai fod mewn grym, gan fod cryn dipyn o ddeddfwriaeth Cymru yn parhau yn San Steffan.

AWGRYMIADAU GENNYF I
Newid etholaethau Cymru yn San Steffan i'r deugain o etholaethau a fodolai cyn Etholiad Cyffredinol y Deyrnas Unedig ym mis Gorffennaf eleni. Gwneud y deugain hyn yn sail i etholiad Senedd Cymru yn 2026. (Y ddwy senedd i ddewis systemau pleidleisio). Ac ethol dau aelod i Senedd Cymru yn etholaethau dywededig San Steffan.

Byddai hynny'n symleiddio pethau ac yn batrwm radicalaidd yn hytrach na'r un ceidwadol a gynigir ar hyn o bryd.
[HEPGOR]

**8078 - Cllr Kevin Etheridge - Cynghorydd lleol neu swyddog etholedig arall**

Annwyl Syr,

Hoffwn gyflwyno gwrthwynebiad ffurfiol yn erbyn uno etholaeth Islwyn â Dwyrain Casnewydd a Gorllewin Casnewydd ar gyfer etholiadau'r Senedd. Y rheswm yw bod Islwyn yn dod o fewn Bwrdeistref Sirol Caerffili, a bod ganddi fwy yn gyffredin â chyfuno etholaeth Caerffili. Yn ddiweddar, trosglwyddodd y Comisiwn Ffiniau wardiau Pontllan-fraith i etholaeth Caerffili. Mae hyn hefyd yn cynnwys ward Ynys-ddu, a'r Etholiad Cyffredinol diweddar.

Yn gywir
Y Cynghorydd Kevin Etheridge